

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

25/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Cwestiwn Brys: Prifysgol Glyndŵr](#)
[Urgent Question: Glyndŵr University](#)

[Cwestiwn Brys: Gwasanaeth Ambiwllans Cymru](#)
[Urgent Question: The Welsh Ambulance Service](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr](#)
[Welsh Conservatives Debate: Armed Forces Personnel and Veterans](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Post na Ofynnir amdano](#)
[Welsh Conservatives Debate: Unsolicited Mail](#)

[Dadl Plaid Cymru: Gweithgaredd Corfforol](#)
[Plaid Cymru Debate: Physical Activity](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: UEFA 2020—Caerdydd, y Ddinas Berffaith i Gynnal y Bencampwriaeth](#)
[Short Debate: UEFA 2020—Cardiff, the Perfect Host](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Questions to the Minister for Education and Skills

Safonau Addysgol

Education Standards

13:30 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau i wella safonau addysgol yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0434(ESK)

1. Will the Minister outline plans to improve educational standards in South Wales Central? OAQ(4)0434(ESK)

13:30 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

I am committed to raising standards in education throughout the whole of Wales, including South Wales Central. I am determined to ensure that learners at all stages of education, whatever their background or circumstances, have the opportunity to reach their full potential.

Rwyf wedi ymrwymo i godi safonau addysg ledled Cymru, gan gynnwys Canol De Cymru. Rwy'n benderfynol o sicrhau bod dysgwyr ym mhob cyfnod addysgol, beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau, yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial llawn.

13:31

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

One of the main criticisms from the recent Organisation for Economic Co-operation and Development report into the Welsh education system was the lack of long-term vision. This verdict chimes with one of the report's recommendations, that reviews should be used strategically and sparingly. Minister, do you acknowledge that the scatter-gun approach of unloading review after review, strategy after strategy, upon largely bewildered teachers has failed, and will your department now inject some much-needed clarity and leadership into our education sector, so that teachers know what is expected of them, and so that they can get on with the job of teaching and improving standards in our schools?

Un o'r prif feirniadaethau o system addysg Cymru yn yr adroddiad diweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd oedd y diffyg gweledigaeth hirdymor. Mae'r feirniadaeth yn cyd-fynd ag un o argymhellion yr adroddiad, y dylid defnyddio adolygiadau yn strategol ac yn gynnil. Weinidog, a ydych yn cydnabod bod y dull gwasgaredig o saethu adolygiad ar ôl yr adolygiad, strategaeth ar ôl y strategaeth, at athrawon pur ddryslud wedi methu, ac a fydd eich adran yn awr yn chwistrellu rhywfaint o eglurder ac arweinyddiaeth mawr eu hangen i mewn i'n sector addysg, fel bod athrawon yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt ac er mwyn iddynt allu bwrw ymlaen â'r gwaith o addysgu a gwella safonau yn ein hysgolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The leader of Plaid Cymru may regard the Welsh teaching professionals as bewildered—I certainly do not. I see them as valued, professional partners, in terms of a co-ordinated drive, which is unprecedented in Welsh educational history, incidentally, to raise the standards—through beginning at the beginning—of teaching and learning within the classroom. Just recently, I launched our deprivation programme, 'Rewriting the future', which, of course, draws together many of the strands of working that we are currently engaged with around families and communities and their engagement, the early years, high-quality learning and teaching, as I say, and, of course, high expectations and aspirations. I have to say that the bleak view that the leader of Plaid Cymru takes of the ability of the professionals who work alongside us to grasp this agenda and work alongside us is not shared by me, and I am sure that it is not shared by the bulk of Welsh teachers either.

Efallai bod arweinydd Plaid Cymru yn ystyried bod gweithwyr addysg proffesiynol Cymru wedi drysu—nid wyf fi yn eu gweld felly, yn bendant. Rwy'n eu gweld fel partneriaid proffesiynol gwerthfawr yn yr ymdrech gydgyssylltiedig, sy'n ddigynsail yn hanes addysg Cymru gyda llaw, i godi safonau addysgu a dysgu o fewn yr ystafell ddosbarth drwy ddechrau yn y dechrau. Yn ddiweddar, lansiais ein rhaglen amddifadedd, 'Ailysgrifennu'r Dyfodol', sy'n tynnu ynghyd nifer o feysydd gwaith ar hyn o bryd sy'n ymwneud â theuluoedd a chymunedau a'n hymgyssylltiad â hwy, y blynyddoedd cynnar, dysgu ac addysgu o ansawdd uchel, fel y dywedais, ac wrth gwrs, disgwyliadau a dyheadau uchel. Mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn rhannu'r olwg ddigalon sydd gan arweinydd Plaid Cymru ar allu'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda ni er mwyn cyflawni'r agenda hon, ac rwy'n siŵr nad yw'r rhan fwyaf o athrawon Cymru yn ei rhannu chwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the only education strategy that was published on my watch was the Welsh-medium education strategy, which I think everybody in this Chamber supported. Can I encourage the Minister to take forward the proposals in his Schools Challenge Cymru work? Can I welcome the additional support that is going to Tonypandy Community College and Porth County Community School in my constituency, and can I ask him to ensure that that support will not be short term, but will be sustained?

Rwy'n meddwl mai'r unig strategaeth addysg a gyhoeddwyd o dan fy ngoruchwyliaeth oedd y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a chredaf fod pawb yn y Siambr hon wedi ei chefnogi. A gaf fi annog y Gweinidog i fwrw ymlaen â'r cynigion yn ei waith ar Her Ysgolion Cymru? A gaf fi groesawu'r cymorth ychwanegol sy'n mynd i Goleg Cymunedol Tonypandy ac Ysgol Gymunedol Sirof Porth yn fy etholaeth ac a gaf fi ofyn iddo sicrhau na fydd y gefnogaeth honno'n fyrhoedlog, ond y bydd yn cael ei chynnal?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course. The Member for the Rhondda is quite right to point to the importance of the Schools Challenge Cymru programme, which I think has electrified expectations within the community of our most challenged schools, and that was the intention behind it. The first Schools Challenge Cymru national event took place on 16 June, and, alongside Professor Mel Ainscow, our Schools Challenge Cymru champion, we brought together all the key players to make that programme a success. Of course, we are looking for rapid improvement in terms of the challenge programme; that was seen in London, and then subsequently in Manchester, and I see no reason to expect anything less here in Wales. But, of course, the end result of the challenge programme is to see self-improving schools and communities of schools. That is what we did see grow in London and Manchester, and that is what we need to see in terms of sustaining this improvement across Wales.

Wrth gwrs. Mae'r Aelod dros y Rhondda yn llygad ei le yn tynnu sylw at bwysigrwydd y rhaglen Her Ysgolion Cymru, y credaf ei bod wedi tanio disgwyliadau ymhlith ein hysgolion sy'n wynebu fwyaf o her, a dyna oedd y bwriad sy'n sail iddo. Cynhaliwyd digwyddiad cenedlaethol cyntaf Her Ysgolion Cymru ar 16 Mehefin ac ochr yn ochr â'r Athro Mel Ainscow, ein hyrwyddwr Her Ysgolion Cymru, aethom ati i ddwyn ynghyd yr holl chwaraewyr allweddol i wneud y rhaglen yn llwyddiant. Wrth gwrs, rydym yn chwilio am welliant cyflym o ran y rhaglen her; gwelwyd hynny yn Llundain, ac wedyn ym Manceinion, ac ni wela unrhyw reswm dros ddisgwyl llai na hynny yma yng Nghymru. Ond wrth gwrs, canlyniad terfynol y rhaglen her yw gweld ysgolion a chymunedau o ysgolion yn gwella eu hunain. Dyna'r hyn a welsom yn tyfu yn Llundain a Manceinion a dyna y mae angen i ni ei weld o ran cynnal y gwelliant hwn ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Earlier this week, concerns were raised over the level of support for, and the confidence that people might have in, the future GCSEs that are going to come forward with the new coursework that is going to be set in September. What consultation has the department had with businesses in the field of employment to understand the needs of businesses in Wales, so that they can have confidence that the qualifications that students will be coming out from schools in Wales will meet the requirements of businesses in the twenty-first century?

Yn gynharach yr wythnos hon, mynegwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth i'r cyrsiau TGAU yn y dyfodol sy'n mynd i gyflwyno'r gwaith cwrs newydd a osodir ym mis Medi, a hyder pobl ynddynt. Sut y mae'r adran wedi mynd ati i ymgynghori â busnesau ym maes cyflogaeth er mwyn deall anghenion busnesau yng Nghymru, fel y gallant fod yn hyderus y bydd cymwysterau myfyrwyr o ysgolion yng Nghymru yn bodloni gofynion busnesau yn yr unfed ganrif ar hugain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If the leader of the opposition takes the trouble to contact the Federation of Small Businesses, the Confederation of British Industry and employers' organisations, he will know that they have been, from the ground floor level, involved every day with the development of the qualifications agenda here in Wales. He would also know that every higher education institution in Wales, and most of those in England, have now been visited by Welsh Government officials and there is a unanimous thumbs up in terms of both the quality and portability of the plans for our Welsh GCSEs and A-levels. He need only read the quote from the vice-chancellor of Cambridge University to see the esteem with which this process is held across the academic community—that is for sure.

Pe bai arweinydd yr wrthblaid yn trafferthu i gysylltu â Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a sefydliadau cyflogwyr, byddai'n gwybod eu bod wedi ymwneud yn ddyddiol ar lawr gwlad â datblygu'r agenda cymwysterau yma yng Nghymru. Byddai hefyd yn gwybod bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru, a'r rhan fwyaf o'r rhai yn Lloegr, bellach wedi cael ymweliad gan swyddogion Llywodraeth Cymru a bod cymeradwyaeth unfrydol o ran ansawdd a hygludedd y cynlluniau i'n cymwysterau TGAU a lefel A yng Nghymru. Dim ond darllen y dyfyniad gan is-ganghellor Prifysgol Caergrawnt sydd angen iddo ei wneud i weld y parch sydd i'r broses hon ar draws y gymuned academiaidd—mae hynny'n bendant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dysgu Rhan-Amser

Part-Time Learning

13:35

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Beth yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dysgu rhan-amser? OAQ(4)0445(ESK)

2. What is the Welsh Government's approach to part-time learning? OAQ(4)0445(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Mid and West Wales for that. We remain committed to part-time learning. We recognise its vital role in upskilling our workforce and in reaching adults unable to engage in formal education. For 2014-15 we have ring-fenced funding to support re-skilling the adult workforce and we are working closely with the post-16 sector to determine future priorities.

Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddysgu rhan-amser. Rydym yn cydnabod ei rôl hanfodol yn gwella sgiliau ein gweithlu ac yn cyrraedd oedolion nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn addysg ffurfiol. Ar gyfer 2014-15, rydym wedi clustnodi arian ar gyfer cefnogi'r broses o wella sgiliau'r gweithlu oedolion ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r sector ôl-16 i bennu blaenoriaethau yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I recently attended the launch of a new research report from the National Union of Students called, 'It's About Time', which is a study of part-time learners and their experiences in Wales. The research found that one of the challenges with part-time provision is the breadth of provision, funding and support available and it found that a third of part-time students did not actually seek advice before starting their course. So, will the Welsh Government explore ways in which to improve the advice and guidance available to potential part-time students in Wales, and include in that the structure of qualifications, the delivery of provision and the types of financial support available?

Yn ddiweddar, mynychais lansiad adroddiad ymchwil newydd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr o'r enw 'Mae'n Hen Bryd', sef astudiaeth o ddysgwyr rhan-amser a'u profiadau yng Nghymru. Canfu'r ymchwil mai un o'r heriau sydd ynghlwm wrth ddarpariaeth ran-amser yw ehangder y ddarpariaeth, cyllid a'r cymorth sydd ar gael, ac mewn gwirionedd, gwelodd nad oedd traean y myfyrwyr rhan-amser wedi gofyn am gyngor cyn dechrau eu cwrs. Felly, a fydd Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o wella'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru, a chynnwys hynny yn strwythur cymwysterau, y ffordd y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno a'r mathau o gymorth ariannol sydd ar gael?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Of course, encouraging people to study part-time does remain and will remain a priority for the Welsh Government. I have asked officials to work with the Student Loans Company to evaluate the information, advice and guidance that are available to students, including of course part-time students, in Wales through the new Student Finance Wales service, which was launched back in April this year. The independent review of higher education funding and student finance, led by Professor Sir Ian Diamond, is looking at how we support both full-time—and I have emphasised to him face to face, several times—and part-time HE in Wales. I have no doubt that he will carefully examine the advice and guidance regime that is available to students as part of that.

Bydd. Wrth gwrs, mae annog pobl i astudio'n rhan-amser yn parhau, ac yn mynd i barhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Gofynnais i swyddogion weithio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr er mwyn gwerthuso'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i fyfyrwyr Cymru, gan gynnwys myfyrwyr rhan-amser wrth gwrs, drwy wasanaeth newydd Cyllid Myfyrwyr Cymru, a lansiwyd yn ôl ym mis Ebrill y flwyddyn hon. Mae'r adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr dan arweiniad yr Athro Syr Ian Diamond yn edrych ar sut rydym yn cefnogi Addysg Uwch amser llawn—ac fel rwyf wedi pwysleisio wrtho wyneb yn wyneb sawl gwaith—AU ran-amser yng Nghymru. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yn edrych yn ofalus ar y trefniadau o ran y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i fyfyrwyr fel rhan o hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Construction Industry Training Board, in evidence to the Enterprise and Business Committee last month, indicated that younger employees and apprentices have low, basic skills in literacy and numeracy. As these are often part-time courses, how can this apparent conflict be addressed?

Weinidog, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes mis diwethaf, dynododd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu nad oes gan weithwyr iau a phrentisiaid lawer o sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd. Gan fod y rhain yn aml yn gyrsiau rhan-amser, sut y gellir mynd i'r afael â'r gwrthdaro ymddangosiadol hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

William Graham, as someone who follows these debates very closely, will be aware of the significant shifts now in terms of the emphasis that is placed on literacy and numeracy throughout our educational system. This includes schools and colleges. Our literacy and numeracy framework, I have no doubt, will be delivering change for the better in that regard and that will be seen right through the Welsh educational system.

Bydd William Graham, fel rhywun sy'n dilyn y trafodaethau hyn yn agos iawn, yn ymwybodol o'r newidiadau arwyddocaol yn awr o ran y pwyslais a roddir ar llythrennedd a rhifedd yn ein system addysg drwyddi draw. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a cholegau. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd ein fframwaith llythrennedd a rhifedd yn creu newid er gwell yn y cyswllt hwnnw a gwelir hynny drwy holl system addysg Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:38 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 A oes gostyngiad wedi bod yn nifer y myfyrwyr rhan-amser mewn addysg uwch ac mewn addysg bellach ac, os felly, paham?
 Has there been a reduction in the number of part-time students in both higher and further education and, if there has been, why?
- 13:38 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I hesitate to say definitively 'yes' or 'no' to that, Alun Ffred Jones. I will get back to the Member with exact figures. However, I can reassure the Member that there is a complete contrast as compared with England, certainly in terms of part-time HE places; following the introduction of higher fees and a change in the provision of loans in England for part-time HE, the English HE sector saw a dramatic decrease in part-time enrolments. In Wales, I am absolutely adamant that we will not follow that pattern. We should not see the same decline in student numbers since we introduced a very different system and we will stick by that principle. However, as to the exact numbers across the border, I will get back to the Member in writing.
 Rwy'n petruso rhag dweud 'oes' neu 'nac oes' yn bendant i hynny, Alun Ffred Jones. Dof yn ôl ag union ffigurau i'r Aelod. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelod fod cyferbyniad llwyr o'i gymharu â Lloegr, yn sicr o ran lleoedd AU rhan-amser; yn dilyn cyflwyno ffioedd uwch a newid yn y modd y darperir benthyciadau yn Lloegr ar gyfer AU ran-amser, gwelodd y sector AU yn Lloegr ostyngiad dramatig yn nifer y cofrestriadau rhan-amser. Yng Nghymru, rwy'n hollol bendant na fyddwn yn dilyn y patrwm hwnnw. Ni ddylem weld yr un gostyngiad yn nifer y myfyrwyr gan inni gyflwyno system wahanol iawn a byddwn yn cadw at yr egwyddor honno. Fodd bynnag, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r union niferoedd dros y ffin.
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I call Dafydd Elis-Thomas to ask question 3. Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas i ofyn cwestiwn 3.
- 13:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch yn fawr. Mae'n ddrwg gen i, ond nid wyf yn gallu dod o hyd i'r hafan ar fy system. Byddaf yno mewn dau funud. Dyna ni. Diolch yn fawr.
 Thank you very much. My apologies, but I cannot find the homepage on my system. I will be with you in just a couple of minutes. There we are. Thank you very much.
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I am glad of that. [Laughter.] Rwy'n falch o hynny. [Chwerthin.]
- Hyrwyddo Dysgu fel Gyrfa** **The Promotion of Teaching as a Career**
- 13:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. Sut y mae'r Gweinidog yn gweithredu cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dysgu fel gyrfa? OAQ(4)0441(ESK)
3. How is the Minister implementing the Welsh Government's responsibility to promote teaching as a career? OAQ(4)0441(ESK)
- 13:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I thank the Member for Dwyfor Meirionnydd for that. Following the Tabberer review, we are promoting teaching as a career through effective marketing, to raise the quality of applicants entering initial teacher training. We will also ensure that these groups currently underrepresented in teaching are encouraged into the profession to ensure that the teaching workforce is reflective of local communities.
 Diolch i'r Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd. Yn dilyn adolygiad Tabberer, rydym yn hyrwyddo addysgu fel gyrfa drwy farchnata effeithiol er mwyn gwella ansawdd yr ymgeiswyr sy'n derbyn hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Byddwn hefyd yn sicrhau bod grwpiau nad dynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y byd addysg ar hyn o bryd yn cael eu hannog i mewn i'r proffesiwn er mwyn sicrhau bod y gweithlu addysg yn adlewyrchu cymunedau lleol.
- 13:40 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch yn fawr am yr ateb yna. Yn 2012, cyflwynwyd arweiniad newydd gan eich rhagflaenydd ynglŷn â darpariaeth hyfforddi a chymwysterau, gyda phwyslais arbennig ar rifedd a llythrennedd. A yw'r Gweinidog yn fodlon bod canlyniadau'r newidiadau yma yn rhoi'r flaenoriaeth angenrheidiol bellach i sgiliau sylfaenol megis gwyddoniaeth, mathemateg a gallu llythrennedd yn ein hysgolion cynradd ni, yn enwedig ar ôl y cyfnod sylfaen?
 Thank you for the answer there. In 2012, we introduced new guidance from your predecessor regarding the provision of training and qualifications, with particular emphasis on numeracy and literacy. Is the Minister satisfied that the results of these changes are now necessary to give priority to basic skills such as science, math and literacy ability in our primary us, especially after the foundation stage?

13:41

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am certainly content that these changes have raised the bar. I think that it was a necessary thing to do and it sends out a very strong signal to those who would embark upon a teaching career that these core skills of literacy and numeracy are very much part of the job that they do, regardless of the subject. Higher education institutions also have the discretion, if those qualifications are not there for some individuals, to offer an equivalency test in that regard, but we must have that basic underpinning of ability in literacy and numeracy.

In terms of the long-term effect, of course, perhaps we will have to wait a little while to see how that transpires. I am certainly not in a position, and I do not think that I ever would be, where I would be satisfied currently with the situation as it is. I am working alongside John Furlong, as Members will know, with regard to improving further the quality of the intake to ITT courses and the quality of the courses themselves.

Rwy'n sicr yn fodlon fod y newidiadau hyn wedi codi disgwyladau. Rwy'n meddwl ei fod yn beth angenrheidiol i'w wneud ac mae'n anfon neges gref iawn i'r rhai a fyddai'n dechrau ar yrfa addysgu fod sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'r gwaith y maent yn ei wneud, beth bynnag fo'r pwnc. Hefyd, os nad yw'r cymwysterau hynny ar gael i rai unigolion, mae gan sefydliadau addysg uwch ddisgresiwn i gynnig prawf cywerthedd yn hynny o beth ond rhaid inni gael y sylfaen waelodol honno o allu mewn llythrennedd a rhifedd.

O ran yr effaith hirdymor, wrth gwrs, efallai y bydd yn rhaid inni aros am beth amser i weld sut y mae hynny'n datblygu. Yn bendant, nid wyf yn mynd i fodloni ar y sefyllfa fel y mae, ac nid wyf yn meddwl y gwnaf i byth. Fel y gwyr yr Aelodau, rwy'n gweithio ochr yn ochr â John Furlong ar wella ansawdd y rhai sy'n cael eu derbyn ar gysiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) ac ansawdd y cyrsiau eu hunain.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:42

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was pleased to hear you say about the initial teacher training programme and the incentives that are being put in to have a more balanced teaching profession. I wonder how we are safeguarding those people whose backgrounds may have been a little bit more challenging and would not perhaps have looked for a career in teaching. How do we upskill them, but also give them the aspirational hope that they too can be teachers despite their backgrounds? Would you agree that the incentives through this initial teacher training course that you are now putting on will, in fact, give people hope that they too can become teachers whatever their backgrounds? How long would you expect this scheme to progress before you did an evaluation on it?

Weinidog, roeddwn yn falch o glywed eich barn chi am y rhaglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon a'r cymhellion sy'n cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau proffesiwn addysgu mwy cytbwys. Tybed sut rydym yn diogelu'r bobl hynny y mae eu cefndir ychydig yn fwy heriol ac na fyddai wedi edrych am yrfa mewn addysg o bosibl. Sut rydym yn eu uwchsgilio, ond hefyd sut y gallwn roi gobaith uchelgeisiol iddynt y gallant hwythau hefyd fod yn athrawon er gwaethaf eu cefndiroedd? A fydddech yn cytuno y bydd cymhellion y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon rydych yn ei gyflwyno yn rhoi gobaith i bobl mewn gwirionedd y gallant ddod yn athrawon, beth bynnag fo'u cefndir? Pa mor hir y bydddech yn disgwyl i'r cynllun hwn ddatblygu cyn ichi ei werthuso?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:43

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just to answer the last part of Ann Jones's question first, I have no plans to bring these incentives to an end. Members may be aware that up to £20,000 is available for highly qualified people within the right subject areas, or those key subject areas, to encourage people into the profession. Those incentives are important, I think. It is also important that we widen our view of how we can incentivise more and more people from underrepresented backgrounds into the teaching profession. That is also important, but we must never lose sight of that core agenda of better standards of teaching and learning in the classroom. That is a non-negotiable aspect of what we expect from our intake and from our newly qualified teachers.

I ateb rhan olaf cwestiwn Ann Jones yn gyntaf, nid oes gennyf gynlluniau i ddod â'r cymhellion hyn i ben. Efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol fod hyd at £20,000 ar gael i bobl â chymwysterau da yn y meysydd pwnc cywir, neu feysydd pwnc allweddol, er mwyn annog pobl i mewn i'r proffesiwn. Mae'r cymhellion hynny'n bwysig yn fy marn i. Mae hefyd yn bwysig inni ehangu ein barn ynghylch sut y gallwn gymell mwy a mwy o bobl o gefndiroedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol i mewn i'r proffesiwn addysg. Mae hynny hefyd yn bwysig, ond rhaid inni beidio byth â cholli golwg ar yr agenda graidd o wella safonau addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae hynny'n agwedd nad yw'n agored i drafodaeth o'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ein hyfforddeion a'n hathrawon newydd gymhwysu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:44

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, work is no longer about a job for life, but about acquiring knowledge and expert skills that can be transferred. What specifically is the Government doing to attract people who, for personal development perhaps, may be ready to move on from their current spheres of work and ready to bring their life experience, particularly entrepreneurial experience, with them into teaching?

Weinidog, nid yw gwaith bellach yn ymwneud â swydd am oes, ond â chaffael gwybodaeth a sgiliau arbenigol y gellir eu trosglwyddo. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn benodol i ddenu pobl a allai fod yn barod i symud ymlaen o'u cylchoedd gwaith cyfredol, er mwyn eu datblygiad personol efallai, ac sy'n barod i ddod â'u profiad o fywyd, yn enwedig profiad entrepreneuriaidd, i mewn i addysgu?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:44 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- We have our Teach First Wales programme, which is operating out there across Wales, and I will be closely monitoring how well Teach First does and how successful it is in terms of delivering people who stick with it in terms of a teaching career. As has been already mentioned, there are considerable incentives for those people with high-level qualifications to become part of a great profession.
- Mae gennym ein rhaglen Teach First Cymru sy'n gweithredu ar draws Cymru, a byddaf yn monitro'n agos pa mor dda y mae Teach First yn ei wneud a pha mor llwyddiannus ydyw o ran darparu pobl sy'n glynu at yrfa addysgu. Fel y soniwyd eisoes, mae cymhellion sylweddol i bobl â chymwysterau da ddod yn rhan o broffesiwn gwych.
- 13:45 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Diolch am eich ymateb, Weinidog. Ynglŷn â'r ymateb hwnnw, a ydych yn chwilio am siaradwyr Cymraeg yn benodol—nid yn unig y rhai a allai gael eu cymell i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond y rhai a allai gael eu perswadio i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, neu a allai gael eu denu gan yr her o ddysgu Cymraeg i oedolion?
- Thanks for your response, Minister. About the response, are you looking for Welsh speakers in particular—not just those who may be motivated to learn through the medium of Welsh, but those who could be persuaded to use the language in a casual English-medium settings, or who may be attracted by the challenge of teaching Welsh to adults?
- 13:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Yes, that is an important aspect of things, and, yes, of course we are. Student teachers commencing secondary ITT courses and training through the medium of Welsh may be eligible for the Welsh-medium improvement scheme supplement, which is up to £1,800 a year, depending on the subject studied. This is aimed at student teachers who need extra support to raise their confidence in their ability to teach effectively in Welsh. This goes alongside the continuing professional development initiatives that are out there and are aimed at existing teachers.
- Ydy, mae honno'n agwedd bwysig ar bethau, ac ydym, wrth gwrs ein bod. Mae'n bosibl y bydd athrawon dan hyfforddiant sy'n cychwyn ar gyrsiau HCA uwchradd ac sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymwys ar gyfer y cynllun atodiad cymhelliant cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnig hyd at £1,800 y flwyddyn, yn dibynnu ar y pwnc a astudir. Mae hwn wedi'i anelu at athrawon dan hyfforddiant sydd angen cymorth ychwanegol i wella'u hyder yn eu gallu i addysgu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n cydreddeg â'r mentrau datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar gael ac sydd wedi'u hanelu at athrawon presennol.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, one area of teaching that I think still requires some greater promotion is the matter of recruiting and retaining quality headteachers. For example, I understand that one well-performing community primary school in the Gwernyfed High School catchment area recently had to repeat its recruitment exercise for a headteacher on three occasions before attracting a suitable candidate. In that context, Minister, what specific measures are you prepared to take to ensure that the Welsh Government not only promotes teaching as a career, but also continues, via ongoing professional development, to nurture the school leaders of the future?
- Weinidog, rwy'n credu mai un maes addysgu sy'n dal i alw am fwy o hyrwyddo yw mater recriwtio a chadw penaeithiad o ansawdd. Er enghraifft, rwy'n deall bod un ysgol gynradd gymunedol sy'n perfformio'n dda yn ardal dalgyloch Ysgol Uwchradd Gwernyfed wedi gorfod ailadrodd ei hymarfer recriwtio ar dri achlysur yn ddiweddar er mwyn dod o hyd i bennaeth cyn denu ymgeisydd addas. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, pa fesurau penodol rydych yn barod i'w rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru, nid yn unig yn hyrwyddo addysgu fel gyrfa, ond hefyd yn parhau, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, i feithrin arweinwyr ysgolion y dyfodol?

13:46

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, well, the Member is quite right to point to this as an area of concern. We do, of course, have our leadership pathway now, which is up and running and operating. However, this goes alongside my announcements around a new deal for teachers, which will be based in a statutory entitlement for the profession to expect a good standard of continuing professional development throughout their careers, from the day that they qualify right through to the day that they retire. Inherent within that, of course, will have to be a pathway for future leaders, whether they be middle leaders or headteachers. The details of the shape of that programme I intend to hammer out alongside the profession, in a social partnership context. We have the structures there at the moment, but the Member is quite right to point to there being issues, particularly in some rural areas, about the sheer number of people whom we can call upon for these key positions. We have to address that, and I will be working alongside the profession to ensure that we do.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

le, wel, mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at hyn fel maes sy'n peri pryder. Wrth gwrs, bellach mae gennym ein llwybr arweinyddiaeth sydd wedi'i sefydlu ac yn weithredol. Fodd bynnag, mae hyn yn cyd-fynd â fy nghyhoeddiadau ynghylch bargaen newydd i athrawon a fydd yn seiliedig ar hawl statudol i'r proffesiwn ddisgwyl safon dda o ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfaedd, o'r diwrnod y dânt yn gymwys hyd at y diwrnod y byddant yn ymddeol. Bydd yn rhaid i lwybr ar gyfer arweinwyr y dyfodol fod yn rhan gynhenid o hynny, wrth gwrs, boed yn arweinwyr haen ganol neu'n benaethiaid. Rwy'n bwriadu rhoi ffurf ar y rhaglen honno ochr yn ochr â'r proffesiwn mewn cyd-destun partneriaeth gymdeithasol. Mae'r strwythurau eisoes yn eu lle ond mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith bod problemau, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig, ynglŷn â nifer y bobl y gallwn eu denu i'r swyddi allweddol hyn. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hyn, a byddaf yn gweithio ochr yn ochr â'r proffesiwn i sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

Canllawiau Gwrth-Fwlio

Anti-Bullying Guidance

13:48

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu mewn ysgolion? OAQ(4)0437(ESK)

4. What steps is the Minister taking to ensure that the Welsh Government's anti-bullying guidance is being implemented in schools? OAQ(4)0437(ESK)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:48

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for north Wales for that question. We take bullying extremely seriously and expect schools to do the same. Our 'Respecting Others' guidance provides schools with practical solutions and guidance on preventing and responding to incidents of bullying. We are currently considering how we can increase awareness of anti-bullying, and publicise our guidance more widely.

Diolch i'r Aelod dros ogledd Cymru am y cwestiwn. Rydym yn ystyried bod bwlio'n fater difrifol iawn ac rydym yn disgwyl i ysgolion wneud yr un peth. Mae ein canllaw 'Parchu Eraill' yn rhoi atebion ymarferol a chanllawiau i ysgolion ar atal ac ymateb i ddigwyddiadau o fwlio. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut y gallwn gynyddu ymwybyddiaeth wrth-fwlio a rhoi cyhoeddusrwydd mwy eang i'n canllawiau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:48

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. You also refer to work that you are doing with schools to develop short films with an anti-bullying message. However, you will be aware that the Barnardo's Cymru research into anti-bullying in 2013, in the context of the Equality Act 2010, found that 58% of responding children had witnessed bullying due to disability, 58% due to homophobia, and 51% due to race or cultural heritage. How, therefore, do you respond to the statement in the report that 84% of all respondents felt that the Welsh Government should be doing more to stop bullying?

Diolch. Rydych hefyd yn cyfeirio at waith a wneuch gydag ysgolion i ddatblygu ffilmiau byrion gyda neges wrth-fwlio. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol fod ymchwil Barnardo's Cymru ar wrth-fwlio yn 2013, yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010, wedi canfod bod 58% o'r plant a ymatebodd wedi gweld bwlio ar sail anabledd, 58% ar sail homoffobia, a 51% ar sail hil neu etifeddiaeth ddiwylliannol. Sut rydych yn ymateb felly i'r datganiad yn yr adroddiad fod 84% o'r holl ymatebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i atal bwlio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:49 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, these figures do tell us a story. We need to respond by saying that we have done some good things but we need to do more. As part of that, Estyn—as part of its remit—is carrying out a thematic survey, looking at the effectiveness of action taken by schools to address bullying on the grounds of those protected characteristics, which I think Mark was referring to. That report should be available two days from now, on 27 June. I will be very interested in his findings, and I would direct Mark Isherwood towards that. We will use that Estyn remit report to inform future policy development.

le, mae'r ffigurau hyn yn adrodd stori. Mae angen i ni ymateb drwy ddweud ein bod wedi gwneud rhai pethau da ond mae angen i ni wneud rhagor. Yn rhan o hynny, mae Estyn—yn rhan o'i gylch gwaith—yn cynnal arolwg thematig sy'n edrych ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail y nodweddion gwarchoddedig y cyfeiriodd Mark atynt. Dylai'r adroddiad fod ar gael ymhen deuddydd, ar 27 Mehefin. Bydd gennyf ddiddordeb mawr yn ei ganfyddiadau a byddwn yn cyfeirio Mark Isherwood tuag ato. Byddwn yn defnyddio adroddiad cylch gwaith Estyn i lywio'r broses o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I want to talk very briefly just about the mainstream schools that have a special needs base. There, you will often find that parents will say that the disability and the special educational needs related bullying that goes on is sadly commonplace for many of the children who are placed in the special needs centre. What was more concerning, though, was that only 22% of parents felt that the school's response had been effective and robust in dealing with issues around SEN bullying and bullying related to disability. What can the Welsh Government do, Minister, to support mainstream schools that have SEN centres to tackle this SEN-related bullying, and how can we work effectively with parents to give them trust in the schools' procedures and policies?

Weinidog, rwyf am siarad yn fyr iawn am yr ysgolion prif ffrwd sydd â sylfaen anghenion arbennig. Yno, gwaetha'r modd, gwelwch rieni'n dweud yn aml fod y bwlio ar sail anabledd ac ar sail anghenion addysgol arbennig sy'n digwydd yn gyffredin i lawer o'r plant sy'n cael eu gosod yn y ganolfan anghenion arbennig. Mater sy'n peri mwy o bryder, fodd bynnag, oedd mai 22% o'r rhieni'n unig a deimlai fod ymateb yr ysgol wedi bod yn effeithiol ac yn gadarn wrth ymdrin â materion yn ymwneud â bwlio AAA a bwlio sy'n gysylltiedig ag anabledd. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, Weinidog, i gefnogi ysgolion prif ffrwd sydd â chanolfannau AAA i fynd i'r afael â'r math hwn o fwlio sy'n gysylltiedig ag AAA, a sut y gallwn weithio'n effeithiol gyda rhieni i ennyn eu hyder yng ngweithdrefnau a pholisiau'r ysgolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ann Jones is quite right to point to that figure of 22% as being worrying. I referred to our 'Respecting Others' anti-bullying guidance, which I think is good quality guidance. It is a great resource for schools, governors and others, although it is clear that more hard graft is needed, particularly in terms of raising the profile of anti-bullying work through targeted communications—for instance, with schools. There are a great number of initiatives that we are evaluating out there at the moment, some of which are undertaken by schools themselves, and that is always probably the best way of getting to the heart of the matter. Many of them, such as Ysgol Maes Owen in the Member's hometown of Rhyl, have been involved in using film to raise the profile of the anti-bullying agenda. As I said, I shall be studying the results of the Estyn review very carefully. This work needs to be ongoing.

Mae Ann Jones yn llygad ei lle yn tynnu sylw at y ffigur o 22% fel un sy'n peri pryder. Cyfeiriais at ein canllaw gwrth-fwlio, 'Parchu Eraill', y credaf ei fod o ansawdd da. Mae'n adnodd gwyb i ysgolion, llywodraethwyr ac eraill, er ei bod yn amlwg fod angen mwy o waith caled, yn enwedig o ran codi proffil y gwaith gwrth-fwlio drwy gyfathrebu wedi'u targedu—er enghraifft, gydag ysgolion. Mae nifer fawr o fentrau a werthusir gennym ar gael ar hyn o bryd, a'r ysgolion eu hunain sydd wedi cyflawni rhai ohonynt. Dyna'r ffordd orau bob amser o gyrraedd gwraidd y mater yn ôl pob tebyg. Mae llawer ohonynt, fel Ysgol Maes Owen yn Rhyl, tref enedigol yr Aelod, wedi bod yn defnyddio ffilm i godi proffil yr agenda wrth-fwlio. Fel y dywedais, byddaf yn astudio canlyniadau adolygiad Estyn yn ofalus iawn. Mae angen i'r gwaith hwn fod yn barhaus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we have enough surveys and statistics on the percentage of schoolchildren who are the victims of bullying, but may I ask what research has been undertaken to identify what motivates children to bully others? We speak to the victims, and quite rightly so, but do we actually speak to, and do some research with, the children who are doing the bullying? I think that, once we have identified the reasons for it, it might help to prevent bullying. I look forward to this report, just as you do.

Weinidog, mae gennym ddigon o arolygon ac ystadegau ar ganran y plant ysgol sy'n dioddef bwlio, ond a gaf fi ofyn pa ymchwil a wnaed i ganfod beth sy'n cymhell plant i fwlio eraill? Rydym yn siarad â dioddefwyr ac mae hynny'n gwbl briodol, ond a ydym mewn gwirionedd yn siarad â'r plant sy'n bwlio ac yn gwneud gwaith ymchwil gyda phlant o'r fath? Credaf y gallai dod o hyd i'r rhesymau dros fwlio fod o gymorth i atal bwlio. Fel chithau, rwy'n edrych ymlaen at yr adroddiad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the Member's comments, and they are insightful comments. Of course, the anti-bullying guidance does provide advice to schools and teachers in this regard, but I do not pretend that we have solved this problem. Even if our guidance was followed to the letter by each and every school in the land, I do not doubt that there would still be issues around bullying that we would need to address. The next big step forward will be for us to study carefully what Estyn is saying about the reality of the picture out there on the ground at the moment, and take sensible steps to meet the issues that it highlights.

Presenoldeb mewn Ysgolion

13:53

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion? OAQ(4)0440(ESK)

13:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cardiff Central. Our actions to improve attendance in all schools in Wales are having a positive impact, but there is still work to be done. We are working together to ensure that local authorities and schools have the skills, confidence and capacity to sustain and build on these improvements using the attendance grant.

13:53

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the challenges that headteachers and governing bodies face is to really get parents—all parents—to understand that their children need to be in school on time and to be there throughout the term, unless they are ill. Anecdotally, I have been told that some travel agents are even promising to pay the fines to encourage parents to take holidays outside of the school holidays. I have even heard of Assembly Members taking children out of school during term time—[Assembly Members: 'Oh.']—all anecdotally, of course. What can we do to ensure that no such incentives from the travel agents are being allowed and tolerated?

13:54

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, I could not possibly comment on the practices of other Members of this Chamber. I can assure the Member that my eldest son, whose twelfth birthday it is today, is busy at his lessons, and he should be grateful for it in my view. [Laughter.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu sylwadau'r Aelod, ac maent yn sylwadau craff. Wrth gwrs, mae'r canllawiau gwrth-fwlio yn darparu cyngor i ysgolion ac athrawon yn hyn o beth, ond nid wyf yn honni ein bod wedi datrys y broblem hon. Hyd yn oed pe bai ein canllawiau'n cael eu dilyn yn drwyadl gan bob ysgol yn y wlad, nid wyf yn amau y byddai'n dal i fod angen inni roi sylw i faterion yn ymwneud â bwlio. Y cam mawr nesaf i ni fydd astudio'n ofalus yr hyn y mae Estyn yn ei ddweud am wirionedd y darlun ar lawr gwlad ar hyn o bryd, a rhoi camau synhwyrol ar waith i ddatrys y problemau y mae'n tynnu sylw atynt.

School Attendance

5. What progress is being made on improving school attendance? OAQ(4)0440(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd. Mae ein camau gweithredu i wella presenoldeb ym mhob ysgol yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol, ond mae gwaith i'w wneud o hyd. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion y sgiliau, yr hyder a'r gallu i gynnal ac adeiladu ar y gwelliannau hyn gan ddefnyddio'r grant presenoldeb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Un o'r heriau y mae penaethiaid a chyrrff llywodraethu yn eu hwynebu yw cael rhieni—pob rhiant—i ddeall bod angen i'w plant fod yn yr ysgol ar amser ac i fod yno drwy gydol y tymor, oni bai eu bod yn sâl. Rwyf wedi cael gwybod yn anecdotiaidd fod rhai cwmnïau teithio hyd yn oed yn addo talu'r dirwyon er mwyn annog rhieni i fynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Rwyf hyd yn oed wedi clywed am Aelodau o'r Cynulliad sy'n tynnu eu plant o'r ysgol yn ystod y tymor [Aelodau'r Cynulliad: 'O.']—yn anecdotiaidd, wrth gwrs. Beth y gallwn ei wneud i sicrhau na chaniateir, ac na oddefir cymhellion o'r fath gan gwmnïau teithio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Wel, Lywydd, ni allwn yn fy myw â rhoi sylwadau ar arferion Aelodau eraill o'r Siambr hon. Gallaf sicrhau'r Aelod fod fy mab hynaf, sy'n cael ei ben-blwydd yn ddeuddeg oed heddiw, yn brysur yn ei wersi, a dylai fod yn ddiolchgar am hynny yn fy marn i. [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

In terms of the travel agents issue, well, I think that that is more than anecdote, actually. This is an immoral practice, in my view, and it has been happening. I can reassure the Member, however, that this is happening in England. I cannot see, given our different regime around absence, that this sort of offer, if you can dignify it with such a term, would relate to Welsh parents in any way, because, although we do have the capacity for fixed penalties in the Welsh system, the penalties are there to be run according to a code of conduct written by the local authority, and they are there for persistent nonattendance. So, that kind of marketised and immoral jumping on the bandwagon, as far as I am aware, is an entirely English phenomenon.

O ran y cwmnïau teithio, wel, rwy'n meddwl ei fod yn fwy na hanesyn, a dweud y gwir. Mae'n arfer anfoesol, yn fy marn i, ac mae wedi bod yn digwydd. Gallaf sicrhau'r Aelod, fodd bynnag, ei fod yn digwydd yn Lloegr. Ni allaf weld, o ystyried ein trefn wahanol o ymdrin ag absenoldeb, y byddai'r math hwn o gynnig, os yw'n haeddu ei alw'n hynny, yn berthnasol i rieni yng Nghymru mewn unrhyw ffordd. Er bod gennym gosbau penodedig o fewn y system yng Nghymru, maent yno i'w gweithredu yn unol â chod ymddygiad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol, ac maent yno ar gyfer absenoldebau parhaus. Felly, hyd y gwn i, ffenomen yn Lloegr yn unig yw'r math hwnnw o farchnadeiddio anfoesol.

13:55 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, the problem of school attendance is not just one that is confined to pupils; it is also a problem for some teachers. In fact, in Wales, according to the auditor general's recent report, we have an increase of 10% in absenteeism among the teaching profession in Wales. That is resulting in lots of lessons having to be covered by external supply teachers. What specific action is your Government taking to address the problem of teacher absence in Wales in order that we can get this down so that school pupils can have access to the teachers that they ought to have and not the supply teachers that they currently have?

Weinidog, nid problem wedi'i chyfyngu i ddisgyblion yn unig yw presenoldeb mewn ysgolion; mae'n broblem ymhlith rhai athrawon hefyd. Yn wir, yn ôl adroddiad diweddar yr archwilydd cyffredinol, gwelsom gynydd o 10% yn y lefelau absenoldeb ymhlith y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Mae hynny'n arwain at lawer o wersi'n cael eu rhoi gan athrawon cyflenwi allanol. Pa gamau penodol y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem absenoldeb athrawon yng Nghymru er mwyn inni allu mynd i'r afael â hyn fel bod disgyblion ysgol yn cael eu dysgu gan yr athrawon sydd i fod i'w dysgu yn hytrach na'r athrawon cyflenwi sydd ganddynt ar hyn o bryd?

13:56 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Well, I am not familiar with the figure that the Member cited around this 10% figure. I would, again, point the Member to a very different relationship between Government and the workforce here in Wales, which I intend to build upon, and that is based on the principle of social partnership. We will expand that conversation around continuing professional development into other areas when it comes to the morale of the workforce. However, I would point the Member to his colleagues at Westminster, who still remain in control of pay and conditions for the teaching workforce here in Wales, and perhaps at least a good chunk of his question is better directed towards them.

Wel, nid wyf yn gyfarwydd â'r ffigur o 10% a nododd yr Aelod. Unwaith eto, hoffwn gyfeirio'r Aelod at berthynas wahanol iawn rhwng y Llywodraeth a'r gweithlu yma yng Nghymru, ac rwy'n bwriadu adeiladu ar y berthynas hon sy'n seiliedig ar egwyddor partneriaeth gymdeithasol. Byddwn yn ehangu'r sgwrs honno ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus i mewn i feysydd eraill wrth ystyried ysbryd y gweithlu. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'r Aelod at ei gydweithwyr yn San Steffan sy'n dal i barhau i reoli cyflogau ac amodau ar gyfer y gweithlu addysg yma yng Nghymru, ac efallai y byddai'n well iddo gyfeirio o leiaf ran o'i gwestiwn tuag atynt hwy.

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Pan wnaethoch chi gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig, dywedoch chi mai un ffordd o ddiogelu'r sefyllfa yma yng Nghymru oedd drwy ofyn i bob un o'r awdurdodau lleol gael cod, ac y buasai gofyn i chi gytuno â'r cod hwnnw cyn iddynt gael eu gweithredu. A ydych chi wedi cael cod gan bob un o'r 22 o gynghorau erbyn hyn?

When you issue fixed penalty notices, you said it was one way of protecting the situation here in Wales was by asking each of the local authorities have a code, and it would ask you to agree with that code before they implemented. Have you been code from each of the 22 councils now?

13:57 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Not as yet. This was always intended to be in place prior to the start of the 2014-15 academic year. So, there are no codes of conduct in place as of yet, although, of course, we will be working on that through towards the new term in September.

Ddim eto. Y bwriad o'r cychwyn oedd i hyn fod ar waith cyn dechrau blwyddyn academaidd 2014-15. Felly nid oes codau ymddygiad ar waith eto, er y byddwn yn gweithio ar hynny ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi wrth gwrs.

- 13:58 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf ofyn i chi, felly, sut mae cynghorau, yn cynnwys cyngor Wrecsam, yn anfon canllawiau i fyrrddau rheoli ysgolion yn dweud ym mha sefyllfaoedd y bydd y gosb benodedig hon yn cael ei gweithredu os nad yw'r cod drafft wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru erbyn hyn? A ydy'r cynghorau hynny ond yn gyrru'r canllawiau allan os ydynt wedi derbyn cytundeb Llywodraeth Cymru?
- May I ask you, therefore, how councils, including Wrexham council, will send guidance to boards of management of schools say that the situations in which this fixed penalty will be implemented if the draft code has been accepted by WG by this? Whether those councils but was driven out if they have received guidance Welsh Government contract?
- 13:58 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is the responsibility of local government to come up with that code of conduct, and it has to be compatible with the Education (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2013, which came into force in law in September of that year. However, I cannot see any issue or problem around getting this new regime up and running before the new term in September. Each local authority will have discretion, to an extent, around its code of conduct. As long as that is reasonable and compatible with the penalty notices regulations, I see no problem with proceeding with it.
- Cyfrifoldeb llywodraeth leol yw llunio cod ymddygiad ac mae'n rhaid iddo fod yn gydnaws â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ym mis Medi y flwyddyn honno. Fodd bynnag, ni allaf weld unrhyw fater neu broblem ynglŷn â chael y drefn newydd ar waith cyn y tymor newydd ym mis Medi. Bydd gan bob awdurdod lleol ddisgresiwn, i raddau, o ran ei god ymddygiad. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn gydnaws â'r rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb, ni welaf unrhyw broblem gyda symud ymlaen â'r cod.
- 'Ailysgrifennu'r Dyfodol: Codi Uchelgais a Chyrhaeddiad yn Ysgolion Cymru'** **'Rewriting the Future: Raising Ambition and Attainment in Welsh Schools'**
- 13:59 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0450(ESK)*
- 6. Will the Minister make a statement on Rewriting the Future: raising ambition and attainment in Welsh schools? OAQ(4)0450(ESK)*
- 13:59 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will. 'Rewriting the Future' sets out how we will work together across policy areas to support consortia, local authorities, schools and parents and carers, to bring about rapid improvement in the educational attainment of learners from low-income families.
- Gwnaf. Mae 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar draws y meysydd polisi i gefnogi consortia, awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni a gofawyr er mwyn sicrhau gwelliant cyflym yng nghyrhaeddiad addysgol dysgwyr o deuluoedd incwm isel.
- 13:59 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I have a community that is among the poorest in Wales in my constituency, so I welcome the fact that the Welsh Government continues to prioritise breaking the link between poverty and low educational attainment here in Wales. I do not know whether you are aware of it, but a recent report by the Education Committee in England warned that white working-class children in particular are falling behind their classmates, leaving their potential permanently locked away from the rest of society. That report also mentions the positive impact of free school breakfasts, where they are available in England, on the achievement of those pupils. So, Minister, will you agree with me that, here in Wales, with the launch of 'Rewriting the future', our incredible Flying Start programme, our free school breakfast scheme, our pupil deprivation grant and our Wales Centre for Equity in Education, we are doing everything we can to take positive action to ensure that all our children get the best start in life, in stark contrast to the Tory Government in England, which is leaving children behind?
- Diolch i chi, Weinidog. Mae gen i gymuned sydd ymhlith y bobl dlotaf yng Nghymru yn fy etholaeth, felly rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel yma yng Nghymru. Nid wyf yn gwybod a ydych yn ymwybodol o hynny, ond roedd adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Addysg yn Lloegr yn rhybuddio bod plant dosbarth gweithiol gwyn yn arbennig ar ei hôl hi o gymharu â'u cyd-ddisgyblion, gan roi caead ar eu potensial yn y gymdeithas ehangach. Roedd yr adroddiad hefyd yn sôn am effaith gadarnhaol brechwast ysgol am ddim ar gyflawniad disgyblion o'r fath lle caiff ei gynnig yn Lloegr. Felly, Weinidog, gyda lansio 'Ailysgrifennu dyfodol', ein rhaglen Dechrau'n Deg anhygoel, ein cynllun brechwast ysgol am ddim, ein grant amddifadedd disgyblion a Chanolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, a fydddech yn cytuno ein bod ni yma yng Nghymru yn gwneud popeth a allwn i roi camau cadarnhaol ar waith er mwyn sicrhau bod pob un o'n plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r Llywodraeth Doriaidd yn Lloegr sy'n gadael plant ar ôl?

- 14:00 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Julie James is quite right: the way in which we address these critical issues of social justice within our education system in Wales is increasingly distinctive from the way in which they are addressed—well, not addressed—across the border in England. These are not just issues of right and wrong, although those would be enough, in my view; they are critical in terms of educational attainment, and that in turn, of course, is critical to the long-term success of Wales as a nation as a whole.
- Mae Julie James yn hollol iawn: ceir gwahaniaeth cynyddol o ran y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn ynghylch cyfiawnder cymdeithasol yn ein system addysg yng Nghymru a'r ffordd yr eir i'r afael â'r materion hyn yn Lloegr—neu'r ffordd nad eir i'r afael â hwy. Nid mater o wneud pethau yn gywir neu'n anghywir yw'r rhain yn unig, er y byddai hynny'n ddigon yn fy marn i; maent yn allweddol o ran cyrhaeddiad addysgol, ac mae hynny yn ei dro yn hanfodol i lwyddiant hirdymor Cymru fel cenedl yn ei chyfanrwydd.
- 14:01 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It was good, of course, to see Powys County Council leave special measures because appropriate improvements have been made. However, I am concerned about the disconnect between banding and results. Your reliance on level 2 inclusive score at GCSE means that schools are forced to focus their teaching on a narrow group of learners on the C/D grade threshold at the expense of those who need more support to come nearer to a C grade, and those who might be pushed up from A/B to an A*. I have certainly seen this in some Powys schools, in the most academic schools in bands 3 and 4. So, how is the Welsh Government communicating the fairness of this approach to teachers in Powys, and how are you ensuring that parents are confident that their children are being suitably supported to achieve the highest grades they possibly can?
- Wrth gwrs, roedd hi'n dda gweld Cyngor Sir Powys yn gadael mesurau arbennig am fod gwelliannau priodol wedi'u gwneud. Fodd bynnag, rwy'n bryderus ynghylch y diffyg cysylltiad rhwng bandio a chanlyniadau. Mae eich dibyniaeth ar sgôr gynwysedig lefel 2 yn TGAU yn golygu bod ysgolion yn cael eu gorfodi i ganolbwyntio eu haddysgu ar grŵp cul o ddysgwyr ar drothwy gradd C/D ar draul y rhai sydd angen mwy o gefnogaeth i ddod yn nes at radd C, a'r rhai y gellid eu gwthio o A/B i A*. Rwy'n sicr wedi gweld hyn yn rhai o ysgolion Powys, yn yr ysgolion mwyaf academaidd ym mandiau 3 a 4. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu tegwch y dull hwn i athrawon ym Mhowys, a sut rydych yn mynd ati i sicrhau hyder rhieni fod eu plant yn cael eu cynorthwyo'n briodol i gyflawni'r graddau uchaf y gallant?
- 14:02 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I hope that that is not really the understanding of the Member as regards the way in which banding works, because if he did suppose that, he would be quite wrong, and I would be devastated if any professional out there working in our schools at the moment was labouring under that misapprehension. Anyone attempting to game the banding system in that way would find themselves labouring to no effect, because there is a great deal more to banding, of course, than the level 2 inclusive score. Banding also takes rolling measures of schools over the last three years or so and is much more involved and complex than that. Banding is also, as Members will know, under review and we will be seeking to further refine banding to ensure that it tells us as true a story as is possible about the educational progress of a school, which is about a great deal more than level 2 inclusive scores.
- Rwy'n gobeithio nad dyna ddealltwriaeth yr Aelod o'r ffordd y mae bandio'n gweithio, oherwydd os yw'n meddwl hynny, byddai'n gwbl anghywir, a byddwn yn siomedig pe bai'r gweithwyr proffesiynol yn ein hysgolion ar hyn o bryd yn gweithio o dan y fath gamddealltwriaeth. Ni fyddai neb sy'n ceisio chwarae'r system fandio yn y ffordd honno'n elwa dim o'u hymdrechion gan fod llawer iawn mwy i fandio, wrth gwrs, na'r sgôr gynwysedig lefel 2. Mae bandio hefyd yn edrych ar fesurau treigl ysgolion dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n llawer mwy ymglymedig a chymhleth na hynny. Fel y gwyr yr Aelodau hefyd, mae'r drefn fandio yn cael ei hadolygu a byddwn yn ceisio gwella'r drefn ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi darlun mor gywir â phosibl o gynnydd addysgol ysgol, sy'n ymwneud â llawer mwy na sgôr gynwysedig lefel 2.
- 14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on Simon Thomas, the Plaid Cymru spokesperson. Galwaf ar Simon Thomas, llyfarydd Plaid Cymru.
- 14:03 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r ddogfen 'Ailysgrifennu'r dyfodol' yn ei wneud yn glir bod yn rhaid targedu'r grant amddifadedd at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Rydym yn gwybod erbyn hyn bod y grant yn cael ei ddefnyddio nid yn unig i dalu am y disgyblion hynny ond hefyd i gyflawni'r addewid o gynnydd o 1% bob blwyddyn yng nghyllid ysgolion. Mae'n amlwg bod y Gweinidog yn dwg yd o'r plant mwyaf amddifad er mwyn achub ei groen gwleidyddol ei hun. Pa obaith sydd o dorri'r ddolen rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgiadol plant pan nad yw'r holl arian sydd ar gael yn mynd tuag at ddisgyblion difreintiedig?
- The 'Rewriting the future' document makes it clear that the pupil deprivation grant has to be targeted at pupils from deprived backgrounds. We now know that the grant is being used not only to pay for those pupils but also to achieve the pledge of a 1% uplift in school funds per annum. It is clear that the Minister is taking money from the most deprived children in order to save his own political skin. What hope is there of breaking the link between poverty and the educational attainment of children when not all of the funds available are being targeted at those deprived pupils?

14:04

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am hoping, Presiding Officer, that the translation that I heard was perhaps a little loose in terms of what the opposition spokesperson has just said. It would be outrageous to suggest that anything other than 100% delivery is my aim in terms of the pupil deprivation grant. That money goes directly to schools. It has gone to schools in whole, 100%. I challenge anyone to dispute that figure. It is simply not true that anything else is the case. It is true, of course, that this Government has honoured its 1% uplift to the overall schools budget. This has happened again in the financial year 2014-15. I can today confirm that, overall, local authorities in Wales in 2014-15 are budgeting to spend above the 1% uplift as a Wales figure. I am very proud of those achievements. Members in this Assembly should also be proud of that, or if they cannot quite manage that degree of charity, they should at least give credit where it is due in very tough times of austerity imposed upon us by savage cuts coming through the UK Government.

Rwy'n gobeithio, Lywydd, fod y cyfieithiad a glywais ychydig yn llac o ran yr hyn y mae llefarydd yr wrthblaid newydd ei ddweud. Byddai'n warthus awgrymu bod dim ar wahân i gyflawniad 100% yn nod imi o ran y grant amddifadedd disgyblion. Mae'r arian yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion. Mae wedi mynd i ysgolion yn gyfan gwbl, 100%. Heriaf unrhyw un i gwestiynu'r ffigwr hwnnw. Dyna sy'n wir a dim arall. Mae'n wir, wrth gwrs, bod y Llywodraeth hon wedi cyflawni ei haddewid i ychwanegu 1% at y gyllideb gyffredinol i ysgolion. Mae hyn wedi digwydd eto yn y flwyddyn ariannol 2014-15. Gallaf gadarnhau heddiw fod awdurdodau lleol Cymru yn gyffredinol yn 2014-15 yn cyllidebu i wario mwy na'r cynnydd o 1% fel ffigwr ar gyfer Cymru. Rwy'n falch iawn o'r cyflawniadau hynny. Dylai Aelodau'r Cynulliad hwn fod yn falch o hynny hefyd, neu os na allant ddod i ben â chanmol i'r fath raddau, dylent o leiaf roi clod lle y bo'n ddyledus mewn cyfnod anodd iawn o galedi a osodwyd arnom gan doriadau llym o gyfeiriad Llywodraeth y DU.

14:05

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I reassure the Minister that I am sure that our translators are performing to their usual high quality of translation.

Rwy'n sicrhau'r Gweinidog fod ein cyfieithwyr yn cyrraedd eu safon uchel arferol o gyfieithu.

14:05

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer; I do not think that there was anything wrong with the translation either.

Diolch i chi, Lywydd; nid wyf yn credu bod dim o'i le ar y cyfieithu chwaith.

I have no doubts about the 100% delivery, Minister; I have great doubts that 100% of that money is going directly to the pupils who deserve that money, because you are using that money to cover your backside—[Interruption.]—to cover your back, I should say, on the 1% uplift that you promised for schools in general in Wales. That is what you have done. That is clear in the e-mails that have gone from your department, and it is clear in the statements made by other Ministers, particularly Jane Hutt as the Minister for Finance. It is also clear from this document—. I am coming to the question. He questioned my translation in Welsh—

Nid oes gennyf amheumon ynglŷn â chyflawniad 100%, Weinidog; mae gennyf amheumon mawr fod 100% o'r arian hwnnw'n mynd yn uniongyrchol i'r disgyblion sy'n ei haeddu am eich bod yn defnyddio'r arian hwnnw i warchod eich tin—[Torri ar draws.]—i warchod eich hun, dylwn ddweud, o ran y cynnydd o 1% a addawyd gennych i ysgolion yn gyffredinol yng Nghymru. Dyna'r hyn rydych wedi ei wneud. Mae hynny'n amlwg yn yr e-byst a aeth o'ch adran ac mae'n amlwg yn y datganiadau a wnaed gan Weinidogion eraill, yn enwedig Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid. Mae hefyd yn amlwg o'r ddogfen hon—. Rwy'n dod at y cwestiwn. Cwestiynodd fy nghyfieithiad yn y Gymraeg—

14:06

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Just move on to the question, please, because we are running out of time.

Symudwch ymlaen at y cwestiwn, os gwelwch yn dda, gan ein bod yn brin o amser.

14:06

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is also clear from your document that the local targets for improvement set by the regional consortia do not add up, in the words of the document, to the overall improvement required to meet our modest national ambition. Have you allowed the regional consortia to start to slip on this?

Mae hefyd yn amlwg yn eich dogfen nad oedd y targedau lleol ar gyfer gwella a osodwyd gan y consortia rhanbarthol yn cyflawni, yng ngeiriau'r ddogfen, y gwelliant cyffredinol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein huchelgais genedlaethol gymedrol. A ydych wedi caniatáu i'r consortia rhanbarthol lithro ar ei hôl hi ar hyn?

14:06

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not sure that I follow the second part of the Member's question. In terms of the first part, we have been crystal clear to everyone in Welsh education at every step during this process that the 1% commitment was to be met from a range of funding sources, including, in part, the PDG. We have communicated that. He says that he has the e-mails as if he has cracked open a safe and found them; they are readily available to anyone who wants to read them, because there was no secret about the issue. We have communicated the message many times to local authorities, to schools and to AMs. It was always made clear that the 1% uplift would be structured in the way that it is. This is the deal that the opposition signed up to at the time.

Nid wyf yn siŵr a wyf yn dilyn yr ail ran i gwestiwn yr Aelod. O ran y rhan gyntaf, rydym wedi bod yn gwbl glir i bawb o fewn y byd addysg yng Nghymru ar bob cam yn ystod y broses hon fod yr ymrwymiad 1% i'w dalu o amrywiaeth o ffynonellau ariannu, gan gynnwys, yn rhannol, y Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym wedi cyfleu hynny. Mae'n dweud ei fod wedi cael yr e-byst fel pe bai wedi torri i mewn i séff a dod o hyd iddynt; maent ar gael yn barod i unrhyw un sydd am eu darllen, gan nad oedd unrhyw gyfrinach ynglŷn â'r mater. Rydym wedi cyfleu'r neges sawl gwaith i awdurdodau lleol, i ysgolion ac i ACau. Gwnaethpwyd yn eglur bob amser y byddai'r cynnydd o 1% yn cael ei strwythuro yn y ffordd hon. Dyma'r fargen y cytunodd yr wrthblaid arni ar y pryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lefelau Cyrhaeddiad

Attainment Levels

14:07

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella lefelau cyrhaeddiad ymhlith disgyblion o ardaloedd o amddifadedd? OAQ(4)0446(ESK)

7. How is the Welsh Government improving levels of attainment amongst pupils from deprived areas? OAQ(4)0446(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have set out what we are already doing, and what we will do to tackle the impact of poverty on educational attainment in our new deprivation programme, 'Rewriting the future: Raising ambition and attainment in Welsh schools', which I launched last week at the Schools Challenge Cymru inaugural event.

Rydym wedi nodi'r hyn rydym eisoes yn ei wneud a'r hyn y byddwn yn ei wneud i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn ein rhaglen amddifadedd newydd, 'Ailysgrifennu'r Dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru, a lansiais yr wythnos diwethaf yn nigwyddiad agoriadol Her Ysgolion Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was delighted that the Schools Challenge Cymru programme included Holywell High School in my Delyn constituency. A core aim of the programme is to help ensure that all children, no matter what their background, achieve their potential. To do this, governors, teachers and parents have to work together. What steps are you taking to encourage parents to be involved more in their children's education, particularly those who may have missed out on education?

Roeddwn wrth fy modd fod y rhaglen Her Ysgolion Cymru yn cynnwys Ysgol Uwchradd Treffynnon yn fy etholaeth yn Delyn. Un o amcanion craidd y rhaglen yw helpu i sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir, yn cyflawni eu potensial. I wneud hyn, rhaid i lywodraethwyr, athrawon a rhieni weithio gyda'i gilydd. Pa gamau rydych yn eu cymryd i annog rhieni i gymryd mwy o ran yn addysg eu plant, yn enwedig rhieni sydd heb gael llawer o addysg o bosibl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Delyn for that. She is absolutely right to refer to this whole programme—this whole ambition—as being a partnership issue. Partnership is key to raising the educational attainment of all children and the deprivation programme, 'Rewriting the future', makes that very clear. It also outlines the steps we are taking to encourage parental participation in particular. It sets out expectations for schools supported by local authorities and regional consortia with regard to the engagement of parents. In May, I launched a proactive parental engagement campaign with the 'Education begins at home' television and Facebook campaign. Work is well under way on guidance and a toolkit for schools to help them engage more effectively with families and their communities. Working closely with my colleague the Deputy Minister for Tackling Poverty, we now have the Communities First match fund, which can be specifically exploited for initiatives in that regard.

Diolch i'r Aelod dros Delyn. Mae'n hollol iawn i gyfeirio at y rhaglen gyfan—yr uchelgais gyfan—fel mater o bartneriaeth. Mae partneriaeth yn allweddol i godi cyrhaeddiad addysgol pob plentyn ac mae'r rhaglen amddifadedd, 'Ailysgrifennu'r dyfodol', yn gwneud hynny'n glir iawn. Mae hefyd yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i annog rhieni yn arbennig i gymryd rhan. Mae'n nodi disgwyliadau ar gyfer ysgolion a gefnogir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran ymgysylltiad â rhieni. Ym mis Mai, lansiais ymgyrch ragweithiol ar gyfer ymgysylltu â rhieni gyda'r ymgyrch deledu a Facebook, 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref'. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ganllawiau a pheycyn cymorth i ysgolion i'w helpu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â theuluoedd a'u cymunedau. Gan weithio'n agos â fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, bellach mae gennym arian cyfatebol Cymunedau yn Gyntaf y gellir manteisio arno'n benodol ar gyfer mentrau yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, figures published earlier this month reveal that around 30% of the budget of special needs education in the deprived areas of south-east Wales never reaches the classroom. In Caerphilly, 51% of the funds are passed on to the schools, and only 59% in Newport. What action does the Minister intend to take to maximise the amount of funding that reaches the classrooms of those vulnerable schools?

Weinidog, mae ffigurau a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn yn dangos nad yw tua 30% o'r gyllideb addysg anghenion arbennig yn yr ardaloedd difreintiedig yn neddwyrain Cymru byth yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth. Yng Nghaerffili, 51% o'r arian sy'n cael ei drosglwyddo i'r ysgolion, a dim ond 59% yng Nghasnewydd. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cyrraedd yr ystafelloedd dosbarth yn yr ysgolion hyglwyf hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member throws around these figures of 30% here, 51% there and so on, but he ignores completely the very important—indeed, vital—support services that that money is actually spent on. I would encourage him to dig deeper than those headline figures to discover exactly what his point is, because I am not sure that it is a point that can be dealt with with any degree of honesty or accuracy in this way at all. It is true to say that special educational needs in particular need a partnership approach across local authority areas; it is about more than what is delivered in the classroom, as the Member alludes to. If he is advocating a free-school approach for our additional learning needs or SEN schools—our special schools—then he should just come out and say it, and we can have that debate.

Mae'r Aelod yn lluchio'r ffigurau 30% a 51% o gwmpas ond mae'n anwybyddu'n llwyr y gwasanaethau cymorth pwysig iawn-hanfodol yn wir-y gwerir yr arian hwnnw arnynt mewn gwirionedd. Byddwn yn ei annog i gloddio'n ddyfnach na'r ffigurau arwynebol i ddarganfod yn union beth yw ei bwynt, oherwydd nid wyf yn siŵr ei fod yn bwynt y gellir ymdrin ag ef gydag unrhyw radd o onestrwydd neu gywirdeb yn y modd hwn o gwbl. Mae'n wir dweud bod angen dull partneriaeth o weithredu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol; mae'n ymwneud â mwy na'r hyn a gyflawnir yn yr ystafell ddosbarth, fel y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Os yw'n argymhell dull ysgol rydd ar gyfer ein hanghenion dysgu ychwanegol neu ein hysgolion AAA-ein hysgolion arbennig-yna dylai ddweud hynny a gallwn gael y ddadl honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, pan wnaeth fy swyddfa ymchwiliad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gynhwysiant ariannol yng Nghymru, o'r 80 ymateb a gawsom, roedd rhyw fath o honiad yn y data bod y pwnc yn cael ei ddysgu llai mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Rwy'n cydnabod bod angen mwy o ymchwil yn hynny o beth, ond pa waith ydych chi fel Gweinidog wedi'i wneud i edrych i mewn i'r sefyllfa hon, yn enwedig o feddwl bod 'delivery' o ran addysg ariannol yn amrywio o le i le yng Nghymru ar hyn o bryd?

Minister, when my office carried out an inquiry under the Freedom of Information Act 2000 on the provision of financial inclusion education in Wales, of the 80 responses that we received, there was some sort of claim in the data that the subject was being taught less in schools in deprived areas. I acknowledge that more research is needed in that regard, but what work have you done as Minister to look into this situation, particularly bearing in mind that delivery in terms of financial education varies from place to place in Wales at present?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite right: there is variation from place to place in terms of the delivery of financial education. That is a problem that has to be addressed. In the run-up to a forthcoming meeting between ourselves to discuss these issues, which I do not think is too far away now in the diary, I have asked officials to scope out exactly what needs to be done in order to bring consistency in this regard across the Welsh system. This is also a subject that I have raised with Professor Graham Donaldson in terms of the overarching curriculum review as we head towards the curriculum for Wales. I would expect that we will consolidate and make coherent the delivery of financial education across every school in Wales.

Mae'r Aelod yn llygad ei le: mae amrywio o le i le o ran cyflwyno addysg ariannol. Mae hynny'n broblem y mae'n rhaid rhoi sylw iddi. Yn y cyfnod yn arwain at y cyfarfod nesaf rhyngom a'n gilydd i drafod materion hyn, nad wyf yn meddwl ei fod yn rhy bell i ffwrdd yn awr yn y dyddiadur, rwyf wedi gofyn i swyddogion bennu beth yn union sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau cysondeb yn hyn o beth ar draws y system yng Nghymru. Dyma bwnc rwyf hefyd wedi'i godi gyda'r Athro Graham Donaldson o ran yr adolygiad cyffredinol o'r cwricwlwm wrth i ni nesáu tuag at y cwricwlwm ar gyfer Cymru. Disgwyliaf y byddwn yn atgyfnerthu ac yn cydlynu'r broses o gyflwyno addysg ariannol ym mhob ysgol yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, how were the smaller pockets of deprivation that are often found in rural areas taken into account when choosing the schools to participate in Schools Challenge Cymru? Brecon High School is a school in special measures and has, by its own admission, over a number of years, missed attainment targets for pupils who are on free school meals. However, it does not find itself as part of the programme. I declare an interest, Presiding Officer; my daughter is a pupil at said high school.

Weinidog, pa sylw a roddwyd i'r pocedi llai o amddifadedd a geir yn aml mewn ardaloedd gwledig wrth ddewis yr ysgolion i gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru? Mae Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn ysgol sy'n destun mesurau arbennig ac mae hi, yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, wedi methu â chyrraedd targedau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, nid yw'n rhan o'r rhaglen. Rwy'n datgan diddordeb, Lywydd; mae fy merch yn ddisgybl yn yr ysgol uwchradd honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The mathematical formula, if you like, which we used to ensure that the resources for Schools Challenge Cymru were allocated fairly and that everything was clear and above board across the country, like any mathematical formula, would never be a perfect one. It was intended to be particularly sensitive to the prospects of those children on free school meals, as a proxy for deprivation, no matter how large or small the cohort of children in that situation might be in a particular school. I remain willing to discuss the situation of a particular school that found itself inside or outside the schools challenge as to why exactly it is in that position. I wish I was in the position of being able to offer the schools challenge to each and every school across Wales. If Kirsty Williams were to transmit that message to Whitehall, I am sure that I would readily amplify the message that she sends. I would be happy to meet the Member or send details of exactly what the statistical situation for Brecon High School is and was.

Fel gydag unrhyw fformiwla fathemategol, o'i galw'n hynny, nid oedd y fformiwla a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod yr adnoddau ar gyfer Her Ysgolion Cymru yn cael eu dyrannu'n deg a bod popeth yn glir ac fel y dylai fod ar draws y wlad, byth yn mynd i fod yn un berffaith. Y bwriad oedd iddi fod yn arbennig o sensitif i ragolygon y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim, fel procsi ar gyfer amddifadedd, waeth pa mor fawr neu fach y byddai'r garfan o blant yn y sefyllfa honno mewn ysgol benodol. Rwy'n dal yn barod i drafod sefyllfa ysgol benodol sy'n rhan o'r her ysgolion neu fel arall ynglŷn â pham yn union y mae yn y sefyllfa honno. Hoffwn pe bawn mewn sefyllfa i allu cynnig yr her ysgolion i bob ysgol yng Nghymru. Pe bai Kirsty Williams yn trosglwyddo'r neges honno i Whitehall, rwy'n siŵr y byddwn yn barod i ategu'r neges y byddai'n ei hanfon. Byddwn yn hapus i gyfarfod â'r Aelod neu i anfon manylion ynglŷn â beth yn union yw'r sefyllfa ystadegol ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn awr a'r hyn ydoedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Her Ysgolion Cymru

Schools Challenge Cymru

14:14

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa wersi y mae Her Ysgolion Cymru wedi eu dysgu o raglen Her Llundain i wella perfformiad disgyblion yng Nghymru?
OAQ(4)0436(ESK)

8. Will the Minister outline what lessons Schools Challenge Cymru has learnt from the London Challenge programme to improve pupil performance in Wales?
OAQ(4)0436(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:14 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for Swansea East. We have drawn many lessons from a number of similar programmes, including the London Challenge, in developing Schools Challenge Cymru. Ultimately, the challenge has been developed in the context of the national model for regional working and the deprivation programme to equip our most at-challenge schools to unlock the potential of their pupils.
- Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe. Wrth ddatblygu Her Ysgolion Cymru, dysgasom lawer o wersi o nifer o raglenni tebyg, gan gynnwys Her Llundain. Yn y pen draw, datblygwyd yr her yng nghyd-destun y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol a'r rhaglen amddifadedd i arfogi ein hysgolion sy'n wynebu fwyaf o heriau a datgloi potensial eu disgyblion.
- 14:15 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, for that response. May I thank you for visiting Pentrehafod School to meet with the headteachers of Pentrehafod School and Morrision Comprehensive School and me last week? Is there any reason why Schools Challenge Cymru should not be as successful as Schools Challenge was in London and Manchester?
- Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Hoffwn ddiolch i chi am ymweld ag Ysgol Pentrehafod i gwrdd â phenaethiaid Ysgol Pentrehafod ac Ysgol Gyfun Treforys a minnau yr wythnos diwethaf. A oes unrhyw reswm pam na ddylai Her Ysgolion Cymru fod mor llwyddiannus â Her Ysgolion Llundain a Manceinion?
- 14:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is no reason. I can see no reason at all why schools participating in Schools Challenge Cymru would not thrive using the additional expertise and resource provided by the programme. Indeed, it should be enhanced because it builds on the experience of London and Manchester. If I may highlight this, there are three key issues here that we need to take away from London and Manchester. The first is early intervention and critical working with cluster primaries. The second is that this is about fundamental change towards self-improvement in a school and not a one-off fix for a particular cohort; it is a fundamental change in the way the school operates. Finally, particularly from the London Challenge, there is the lesson that this is about a general moral purpose, if you like, among all the educationalists involved that the challenge is not just about the children in a particular school, but the children throughout the challenge across Wales as a whole and that every child in Wales is every professional's concern and that working school-to-school is an indispensable part of the programme.
- Dim rheswm. Ni allaf weld unrhyw reswm o gwbl pam na fyddai ysgolion sy'n cymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru yn ffynnu gan ddefnyddio'r arbenigedd a'r adnoddau ychwanegol y mae'r rhaglen yn eu darparu. Yn wir, dylai gael ei gwella oherwydd ei bod yn adeiladu ar brofiad Llundain a Manceinion. Os caf dynnu sylw at hyn, mae tri mater allweddol yma y mae angen i ni eu dysgu gan Llundain a Manceinion. Y cyntaf yw ymyrraeth gynnar a gwaith beirniadol gydag ysgolion cynradd clwstwr. Yr ail yw bod hyn yn ymwneud â newid sylfaenol tuag at ysgolion yn gwella eu hunain ac nid ateb un-tro ar gyfer carfan benodol; mae'n newid sylfaenol yn y ffordd y mae'r ysgol yn gweithredu. Yn olaf, ceir gwers o Her Llundain yn enwedig fod hyn yn ymwneud â phwrpas moesol cyffredinol, os dymunwch, ymhlith yr holl addysgwyr sy'n rhan ohoni nad yw'r her yn ymwneud yn unig â'r plant mewn ysgol benodol, ond â'r plant sy'n rhan o'r her ledled Cymru gyfan, fod pob plentyn yng Nghymru yn haeddu sylw pob gweithiwr proffesiynol a bod gweithio ysgol i ysgol yn rhan anhepgor o'r rhaglen.
- 14:15 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We, as Welsh Conservatives, Minister, look to this programme as one step towards really supporting more able and talented pupils from deprived areas to fulfil their potential, which, as you know, is a concern raised persistently in Estyn reports. Will you be using the number of Welsh applicants to Oxford and Cambridge as a measure of whether this has been a success? [Laughter.] Why not?
- Weinidog, rydym ni fel Ceidwadwyr Cymru yn edrych ar y rhaglen hon fel un cam tuag gefnogi disgyblion mwy galluog a thalentog o ardaloedd difreintiedig i gyflawni eu potensial, sydd fel y gwyddoch, yn bryder sy'n codi'n gyson yn adroddiadau Estyn. A fyddwch yn defnyddio nifer y rhai o Gymru sy'n ymgeisio am le yn Rhydychen a Chaergrawnt fel mesur i weld a fu hyn yn llwyddiant? [Chwerthin.] Pam ddim?

14:16

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Suzy Davies is being a mite provocative in that regard, perhaps. There are many measures in terms of what we might see as measuring success in terms of the Schools Challenge. What really matters is the individual development plan, which will be drawn up over this summer, in each of those 40 schools. Within that plan will be the measures of success agreed between the consortium, the expert adviser and the headteacher, as well as the chair of governors. Those are the measures of success for that school within the lifetime of the programme. I do not doubt that, in terms of the numbers of Oxbridge entrants, level 2 inclusive scores or whatever other measure we might undertake to use, if we see that improvement in teaching and learning in the classroom in each of those 40 schools, all of those other measures will be uplifted because of that success.

Efallai fod Suzy Davies damaid bach yn bryfoclyd yn hynny o beth. Mae llawer o fesurau o ran beth y gallwn ei weld fel mesur o lwyddiant yr Her Ysgolion. Yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd yw'r cynllun datblygu unigol a fydd yn cael ei lunio yn ystod yr haf ym mhob un o'r 40 ysgol. Bydd y mesurau llwyddiant y cytunwyd arnynt rhwng y consortiwm, yr ymgynghorydd arbenigol a'r pennaeth, yn ogystal â chadeirydd y llywodraethwyr yn y cynllun hwnnw. Dyna'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr ysgol honno yn ystod oes y rhaglen. O ran y nifer sy'n mynd i Rydychen a Chaergrawnt, sgoriau cynwysedig lefel 2 neu ba bynnag fesur arall y gallem ei ddefnyddio, os gwelwn fod gwelliant mewn addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth ym mhob un o'r 40 ysgol, nid wyf yn amau y caiff y mesurau eraill i gyd eu gwella oherwydd y llwyddiant hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dangosodd astudiaeth a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan yr Institute of Fiscal Studies fod tipyn o'r gwelliant yng nghyswllt Her Llundain wedi digwydd yn yr ysgolion cynradd cyn i Her Llundain gael ei sefydlu. Pa gamau yr ydych chi yn eu cymryd, Weinidog, i sicrhau bod yr ysgolion cynradd sy'n bwydo i mewn i'r ysgolion uwchradd sy'n rhan o Her Ysgolion Cymru hefyd yn elwa o'r cynllun hwn?

A study published last week by the Institute for Fiscal Studies demonstrated that much of the improvement in the context of the London Challenge had emerged in the primary schools before, in fact, the challenge had been established. What steps are you taking, Minister, to ensure that the primary schools that feed into the secondary schools participating in Schools Challenge Cymru also benefit from the scheme?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this is an inherent part of the programme. If the feeder primary schools are not proper partners in terms of that school development plan for a particular Schools Challenge Cymru school, that development plan is not going to get past the starting gate. That is one of many of the lessons that filtered down from London and Manchester, and we have taken due note.

Wel, mae hyn yn rhan annatod o'r rhaglen. Os nad yw'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn bartneriaid priodol o ran cynllun datblygu ysgol un o ysgolion penodol Her Ysgolion Cymru, nid yw'r cynllun datblygu hwnnw'n mynd i ddatblygu o gwbl. Dyna un o'r nifer o wersi a ddsygyd o Lundain a Manceinion, ac rydym wedi cymryd sylw dyledus o hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae adnoddau yn hollbwysig, ac mae'n rhaid imi ddweud bod ein dealltwriaeth ni o'r defnydd a wneir o'r grant amddifadedd yn yr 1% yn wahanol i ddealltwriaeth y Llywodraeth. Rwy'n meddwl bod Plaid Cymru yn yr un sefyllfa â ni. A ydych chi wedi derbyn adroddiadau gan y cynghorau i gyd erbyn hyn ynglŷn â'u defnydd hwy o'r grant amddifadedd, a oedd i fod i ddod i mewn erbyn diwedd mis Mehefin?

Minister, resources are crucial, and I must say that our understanding of the use of the deprivation grant within the 1% is different to the Government's understanding. I think that Plaid Cymru is also in the same position as we are in. Have you received reports from every council by now regarding their use of the deprivation grant, which were supposed to have been submitted by the end of June?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I can confirm that those figures have reached me within the past 24 hours, and I would be happy, of course, to share them with Members across the Chamber. There is a breakdown of the 1% commitment, which has been exceeded, and I would point out, Presiding Officer, that these figures do not include the £3 million for the pupil deprivation grant match fund coming from my colleague the Deputy Minister for Tackling Poverty, and they do not include the £20 million for Schools Challenge Cymru. We have not just reached the finish line in terms of the 1% uplift, but we have smashed our way through it and local authorities—and I congratulate them and thank them for their work—have gone further this financial year in extremely difficult times.

Ydw, gallaf gadarnhau bod y ffigurau hynny wedi fy nghyrraedd o fewn y 24 awr diwethaf a byddwn yn hapus i'w rhannu gyda'r Aelodau ar draws y Siambr wrth gwrs. Mae dadansoddiad o'r ymrwymiad o 1%, y rhagorwyd arno, a byddwn yn nodi, Lywydd, nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y £3 miliwn o arian cyfatebol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion sy'n dod gan fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, ac nid ydynt yn cynnwys yr £20 miliwn ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Nid cyrraedd y llinell derfyn yn unig a wnaethom o ran y cynnydd o 1%, ond rydym wedi chwalu ein ffordd drwyddi. Mae awdurdodau lleol wedi mynd ymhellach y flwyddyn ariannol hon mewn cyfnod anodd dros ben, ac rwy'n eu longyfarch ac yn diolch iddynt am eu gwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Thank you, Minister. [Fideo](#) [Video](#)
Diolch, Weinidog.

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Asiantaethau Cefnffyrdd

Trunk Road Agencies

14:20 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
1. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael am ddyfodol yr asiantaethau cefnffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0432(EST) [Fideo](#) [Video](#)
1. What discussions has the Minister had regarding the future of trunk road agencies in Wales? OAQ(4)0432(EST)

14:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport [Fideo](#) [Video](#)
Work to consider future delivery options for the management and maintenance of the trunk road network in Wales is ongoing. As outlined in my statement of 4 June, I will provide an update in the autumn, following the completion of more detailed analysis.
Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau cyflawni yn y dyfodol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ar 4 Mehefin, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn yr hydref, wedi i ddadansoddiad mwy manwl gael ei gwblhau.

14:20 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Weinidog, un o'r pryderon, os ydych chi'n symud i ganoli gwaith yr asiantaethau hyn, yw bod iscontractwyr y cyngorau sy'n gweithio ar y cefnffyrdd yn becco am ddyfodol eu swyddi yn eu hardaloedd hwy. A fedrwn chi roi rhywfaint o sicrwydd i'r gweithwyr hyn, er eich bod chi efallai'n edrych i ganoli rhywfaint ar y weinyddiaeth, y bydd dyfodol eu gwaith, y gyflogaeth honno a'r gwaith yn eu hardaloedd lleol yn rhan ganolog o'ch penderfyniadau chi wrth ichi symud ymlaen? [Fideo](#) [Video](#)
Minister, one of the concerns, in terms of looking to centralise the work of these agencies, is that council subcontractors working on our trunk roads are concerned about the future of their jobs in their own areas. Can you give those workers some assurance that, although you are looking to centralise the administration somewhat, that the future of their jobs, the employment and the work in the local areas will be a central part of your decisions as you progress?

14:21 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Yes. I can indicate to you that we are currently undertaking further work to develop in detail more efficient operational arrangements associated with the management of the Welsh Government's motorway and trunk road network. [Fideo](#) [Video](#)
Gallaf. Gallaf ddweud wrthyhych ein bod ar hyn o bryd yn gwneud gwaith pellach i ddatblygu trefniadau gweithredol manwl mwy effeithlon sy'n gysylltiedig â rheoli rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd Llywodraeth Cymru.

14:21 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Minister, the responsibility for trunk road agencies, as you will be aware, is delivered in partnership with local authorities. Given the considerable stress in terms of local authority budgets and fears around the long-term future of local authorities, what impact will this have on the maintenance of our trunk road network and what plans do you have to counter this? [Fideo](#) [Video](#)
Weinidog, mae'r cyfrifoldeb dros asiantaethau cefnffyrdd, fel y byddwch yn ymwybodol, yn cael ei ysgwyddo mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. O ystyried y straen sylweddol o ran cyllidebau awdurdodau lleol ac ofnau ynghylch dyfodol hirdymor awdurdodau lleol, pa effaith fydd hyn yn ei chael ar gynnal a chadw ein rhwydwaith cefnffyrdd a pha gynlluniau sydd gennych i wrthsefyll hyn?

14:21 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
I think it is important that we keep the current standards up in terms of the work that we undertake on the trunk road and motorway network. Obviously, there are budget pressures for us all, hence my review to look at more efficient management of the service. [Fideo](#) [Video](#)
Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni gynnal y safonau presennol o ran y gwaith a wnawn ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Yn amlwg, mae pwysau ar y gyllideb inni oll, sef y rheswm dros fy adolygiad i edrych ar ddulliau mwy effeithlon o reoli'r gwasanaeth.

Diogelwch ar yr A44

Safety on the A44

- 14:22 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau y gellir eu cymryd i wella diogelwch ar yr A44? OAQ(4)0434(EST)
- 14:22 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I was very sorry to learn, as I am sure that all Members were, of the tragic accident on the A44 last week and I, on behalf of the Welsh Government and the Chamber, wish to pass on our deepest condolences to all of the families involved. We have undertaken several schemes along the A44 to improve road safety.
- 14:22 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Weinidog, rwy'n rhannu eich cydymdeimlad chi gyda'r teulu ynglŷn â'r marwolaethau anffodus hyn. Mae'n gwbl bosibl, wrth gwrs, fod cyflwr y ffordd benodol honno yn ddim i'w wneud â'r ddamwain ar y diwrnod hwnnw. Serch hynny, mae'n wir i ddweud bod nifer fawr o ddamweiniau ar y ffordd honno. Ar y cyfan, o'i chymharu â rhai ffyrdd eraill Cymru, bach iawn o fuddsoddiad sydd wedi bod yn y ffordd honno dros yr 20 mlynedd diwethaf i adlewyrchu'r cynnydd yn y traffig a'r math o draffig sy'n teithio ar y ffordd honno. A wnewch chi, felly, ystyried comisiynu darn o waith ar briodoldeb y ffordd hon o ran diogelwch ac o ran y traffig i'r dyfodol, fel y gall hynny rhoi cyngor i chi o ran unrhyw welliannau a buddsoddiad y mae eu hangen dros y blynyddoedd i ddod?
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I think I issued a written statement on the European roads assessment programme and the statistics back in October or in the autumn of last year. There were specific references in that to the A44 and what it is like as a road. We will obviously await the inquiry and investigation into what has happened on that road, but I am mindful that I might have to look at issues around improving road safety within that area. May I make a more general point? I have been concerned, like many Members, that, if you go on teletext and look at the regions of Wales, you will see that there always seem to be accidents there. So, my director has already initiated some work on this, which will be issued by the autumn when I will make a further statement about what we can do to enhance safety on our roads.
- 14:24 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Certainly at this time of year, we experience a spike in traffic accidents in mid Wales and, of course, there have been a number of tragic accidents recently. I thank you for your words, and our prayers and thoughts go out to those families who are affected.
2. Will the Minister outline what measures can be taken to improve safety on the A44? OAQ(4)0434(EST)
- Roedd hi'n ddrwg iawn gennyf glywed, fel yr holl Aelodau mae'n siŵr, am y ddamwain drasig ar yr A44 yr wythnos diwethaf ac ar ran Llywodraeth Cymru a'r Siambr, rwyf am estyn ein cydymdeimlad dwysaf â phob un o'r teuluoedd dan sylw. Rydym wedi cyflawni nifer o gynlluniau ar hyd yr A44 i wella diogelwch ar y ffordd.
- Minister, I share the condolence that you have expressed to the family as a result of those tragic deaths. It is quite possible that the condition of this specific road was nothing to do with the accident on that day. However, it is true to say that there is a high number of accidents on that route and, on the whole, as compared with other roads in Wales, very little has been invested in that road over the past 20 years in order to reflect the increase in traffic and the kind of traffic that travels on the road. Will you therefore consider commissioning a piece of work on the road's propriety and safety for traffic in the future, which could then advise you in relation to any investments or improvements needed in ensuing years?
- Rwy'n credu fy mod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y rhaglen asesu ffyrdd Ewropeaidd a'r ystadegau yn ôl ym mis Hydref neu yn ystod yr hydref y llynedd. Roedd cyfeiriadau penodol ynddo at yr A44 a sut ffordd yw hi. Yn amlwg, byddwn yn aros am yr ymchwiliad i'r hyn sydd wedi digwydd ar y ffordd honno, ond rwy'n ymwybodol y gallai fod yn rhaid imi edrych ar faterion yn ymwneud â gwella diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal honno. A gaf fi wneud pwynt mwy cyffredinol? Rwyf wedi bod yn pryderu, fel llawer o Aelodau, os ewch ar deletestun ac edrych ar ranbarthau Cymru, gwelwch ei bod yn ymddangos fel pe bai damweiniau yno o hyd. Felly mae fy nghyfarwyddwr eisoes wedi cychwyn rhywfaint o waith ar hyn, i'w gyhoeddi yn yr hydref pan fyddaf yn gwneud datganiad pellach am yr hyn y gallwn ei wneud i wella diogelwch ar ein ffyrdd.

I know that the Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner has recently expressed his concerns about the rate of motorcycling deaths on mid Wales's roads, so we need to examine the notorious black spots on various stretches. I can confirm—my own constituents tell me—that the stretch of road on the A44 is statistically the most dangerous in the county, and so I welcome the Minister's comments on that. However, what further work can the Minister do, working with Dyfed-Powys Police, to educate drivers of the hazards of driving on rural roads and to review the RTA data?

Gwn fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys wedi mynegi ei bryderon ynghylch cyfradd marwolaethau beicio modur ar ffyrdd canolbarth Cymru yn ddiweddar, felly mae angen inni edrych ar y manau peryglus cyfarwydd ar wahanol rannau o ffyrdd. Gallaf gadarnhau—mae fy etholwyr fy hun yn dweud wrthyf—fod y darn o ffordd ar yr A44 ymhlith y mwyaf peryglus yn y sir yn ystadegol, felly rwy'n croesawu sylwadau'r Gweinidog ar hynny. Fodd bynnag, pa waith pellach y gall y Gweinidog ei wneud, gan weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys, i addysgu gyrrwyr ynghylch peryglon gyrru ar ffyrdd gwledig ac i adolygu'r data RTA?

14:25 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your comments. Obviously, it is very important that we remain committed to working with all our partners, which include the police and local authorities, to tackle casualty reduction targets. We are also committed to targeting high road use, and you mentioned motorcyclists. Of course, that is a common question that I have from Kirsty Williams, the leader of the Welsh Liberal Democrats, in relation to vulnerable road users. Therefore, we have been doing further work on this, and it is set out in the 'Road Safety Framework for Wales', because, as I indicated, the director is about to embark on another piece of work, because I have been much struck by the number of accidents—I do not know whether other Members have been—over the last few months.

Diolch i chi am eich sylwadau. Yn amlwg, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i ymrwymo i weithio gyda'n holl bartneriaid, sy'n cynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol, i fynd i'r afael â thargedau lleihau damweiniau. Rydym hefyd wedi ymrwymo i dargedu defnydd trwm o ffyrdd, a soniasoch am feicwyr modur. Wrth gwrs, mae'n gwestiwn cyffredin rwy'n ei gael gan Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mewn perthynas â defnyddwyr ffyrdd agored i niwed. Felly rydym wedi bod yn gwneud gwaith pellach ar hyn, ac mae'n cael ei nodi yn y 'Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru', oherwydd fel y dywedais, mae'r cyfarwyddwr ar fin dechrau ar waith arall am fy mod wedi fy mhryderu'n fawr gan nifer y damweiniau—nis gwn a yw'r Aelodau eraill hefyd wedi teimlo'r un peth—dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would associate myself with the condolences that you have expressed to the Llanidloes family members that were the victims of last week's accident. Minister, on notoriously dangerous roads such as the A44, a key factor is often injudicious overtaking, sometimes borne out of driver frustration with extended delays. In that context, Minister, will you give consideration to crawler lanes that might, potentially, have a positive impact on reducing danger of that kind and bear down on fatalities such as we have seen recently?

Weinidog, hoffwn ategu'r cydymdeimlad a estynnoch i aelodau'r teulu yn Llanidloes a laddwyd yn y ddamwain yr wythnos diwethaf. Weinidog, ar ffyrdd peryglus amlwg fel yr A44, un ffactor allweddol yn aml yw goddiweddyd annoeth sydd weithiau'n deillio o rwystredigaeth gyrrwyr a gafodd eu dal yn ôl. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, a wnewch chi ystyried lôn ymlusgo a allai gael effaith gadarnhaol o bosibl ar leihau perygl o'r math hwn a gostwng nifer y marwolaethau a welsom yn ddiweddar?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we will certainly, as part of our review of this, look at all issues that might help to alleviate the position. On the other hand, it is important that people remember to drive safely on what are some quite dangerous roads in Wales.

Gallaf, fel rhan o'n hadolygiad o hyn, yn sicr byddwn yn edrych ar yr holl faterion a allai helpu i wella'r sefyllfa. Ar y llaw arall, mae'n bwysig i bobl gofio gyrru'n ddiogel ar ffyrdd sy'n beryglus iawn yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Busnesau yn y Sector Ynni Adnewyddadwy

Businesses in the Renewables Sector

14:26 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau yn y sector ynni adnewyddadwy? OAQ(4)0433(EST)

3. Will the Minister make a statement on the assistance provided by the Welsh Government to businesses in the renewables sector? OAQ(4)0433(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To enable jobs, growth and wealth, we continue to support the renewable energy sector through our standard offerings, as well as providing tailored, flexible packages of support to businesses.

Er mwyn hybu swyddi, twf a chyfoeth, rydym yn parhau i gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy drwy ein cynigion safonol, yn ogystal â darparu pecynnau cymorth hyblyg, wedi'u teilwra i fusnesau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:26 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i chi am eich ateb. Rwy'n siŵr y bydd nifer ohonom wedi gweld yr adroddiadau yn y cyfryngau heddiw ynglŷn â'r disgwyliad y bydd nifer y parciau solar o faint sylweddol yng Nghymru yn dyblu dros y cyfnod nesaf. Beth fyddwch chi fel Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod cynifer o gwmnïau Cymreig a phosibl yn manteisio ar gynlluniau o'r fath, oherwydd rwy'n ymwybodol o un cynllun yn Wrecsam lle mae'n debyg bydd y paneli'n cael eu cynhyrchu yn Llai, y bydd fframiau dur yn dod o Shotton a rhai o'r ceblau sy'n ymwneud â'r cynllun yn dod o'r parc diwydiannol cyfagos? Dyna ddylai fod y norm, ac nid yn eithriad.
- Thank you for that response. I am sure that many of us will have seen the reports in the media today on the expectation that the number of solar parks of significant scale in Wales will double over ensuing years. What will you, as a Government, do to ensure that as many Welsh companies as possible take advantage of such schemes, because I am aware of one proposal in Wrexham where it seems that the panels will be produced in Llay, the steel frames will come from Shotton and some of the cables will come from the nearby industrial park? This should be the norm rather than the exception.
- 14:27 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I must say that I would hope that that would be the norm, and we do a considerable amount of work looking at supply chains issues, whether it is in solar, other renewables or, now, in terms of Hitachi and the developments on Ynys Môn, and we will continue to do so.
- Mae'n rhaid imi ddweud y byddwn yn gobeithio mai dyna yw'r norm, ac rydym yn gwneud cryn dipyn o waith yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi, o ran ynni solar, ynni adnewyddadwy o fathau eraill, neu yn awr, o ran Hitachi a'r datblygiadau ar Ynys Môn, a byddwn yn parhau i wneud hynny.
- 14:27 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, will you join me in welcoming the work currently being undertaken by the Swansea bay tidal lagoon people, who are seeking to produce an entirely predictable 495 GWh of output each year of entirely clean, green electricity? Once the lagoon is operational, it will power around 155,000 homes for 120 years, or about 11% of Wales's domestic use. This could be a huge investment in the Swansea bay region, and, once all the planning and environmental issues are resolved, an independent study by Cardiff Business School last year identified that the project would create nearly 2,000 full-time equivalent jobs during construction, about 60 long-term jobs in operation and about 90 jobs in associated leisure industries. This is some £300 million capital expenditure. I have already asked the Minister, Presiding Officer, whether she would join me in welcoming this project and agreeing that it is a boost for industry, science and leisure in the Swansea bay area.
- Weinidog, a wneuch chi ategu fy nghroeso i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan bobl morlyn ynni'r llanw ym mae Abertawe, sy'n ceisio cynhyrchu 495 GWh cwbl ragfynegadwy o allbwn bob blwyddyn o drydan cwbl lân a gwyrdd? Pan fydd y morlyn yn weithredol, bydd yn pweru tua 155,000 o gartrefi am 120 o flynyddoedd, neu tua 11% o ddefnydd domestig Cymru. Gallai fod yn fuddsoddiad enfawr yn ardal Bae Abertawe ac ar ôl datrys yr holl faterion sy'n ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd, nododd astudiaeth annibynnol gan Ysgol Fusnes Caerdydd y llynedd y byddai'r prosiect yn creu bron i 2,000 o swyddi cyferth ag amser llawn yn ystod y gwaith adeiladu, tua 60 o swyddi hirdymor pan fydd yn weithredol a thua 90 o swyddi mewn diwydiannau hamdden cysylltiedig. Golyga hyn tua £300 miliwn o wariant cyfalaf. Rwyf eisoes wedi gofyn i'r Gweinidog, Lywydd, a fyddai hi'n ategu fy nghroeso i'r prosiect hwn a chytuno ei fod yn hwb i ddiwydiant, gwyddoniaeth a hamdden yn ardal bae Abertawe.
- 14:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I must say that the opportunities presented by tidal lagoons across the whole of the UK are enormous. They could produce up to 10% of electricity requirements. We are working very closely with the tidal lagoon team, because we think that it is important work to undertake. I understand that the planning application has gone to Swansea city. I think that it is good news that we are looking at diversity in terms of renewables.
- Byddwn, mae'n rhaid imi ddweud bod y cyfleoedd y mae morlynnoedd llanw yn eu cynnig ar draws y DU yn enfawr. Gallent gynhyrchu hyd at 10% o'r gofynion trydan. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda thîm y morlyn llanw am ein bod yn credu ei fod yn waith pwysig i'w wneud. Rwy'n deall bod y cais cynllunio wedi mynd i ddinas Abertawe. Rwy'n meddwl ei fod yn newyddion da ein bod yn edrych ar amrywiaeth o ran ynni adnewyddadwy.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, William Graham.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, William Graham.

14:29	William Graham Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much, Presiding Officer. The Minister will know that the Heads of the Valleys Development Company, which is behind the circuit of Wales race track at Ebbw Vale, has entered into an agreement, assuming that the plans proceed, with the Chinese solar manufacturer Hanergy to incorporate solar panels within all the venue's buildings to form a solar park site. Does the Minister agree that this is an innovative design feature? How will she work with developers to promote the use of solar panels as an architectural feature in future developments across Wales?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd, sy'n datblygu trac rasio Cylchffordd Cymru yng Nglyn Ebwy, wedi dod i gytundeb gyda'r gweithgynhyrchwyr solar Tseiniaidd, Hanergy, gan ragdybio bod y cynlluniau yn symud ymlaen, i gynnwys paneli solar yn holl adeiladau'r ganolfan er mwyn ffurfio safle parc solar. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hon yn nodwedd gynllunio arloesol? Sut y bydd yn gweithio gyda datblygwyr i hyrwyddo'r defnydd o baneli solar fel nodwedd bensaernïol mewn datblygiadau ledled Cymru yn y dyfodol?</p>
14:29	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is interesting that you ask that question, because there is a lot of very interesting work going on in Neath Port Talbot specifically about using buildings as an energy source and attracting solar power, so we are always very interested in supporting anything that helps with the renewable energy agenda.</p>	<p>Mae'n ddiddorol eich bod yn gofyn y cwestiwn oherwydd mae llawer o waith diddorol iawn yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn benodol o ran defnyddio adeiladau fel ffynhonnell ynni a denu ynni'r haul, felly mae gennym ddiddordeb mawr bob amser mewn cefnogi pethau sy'n helpu'r agenda ynni adnewyddadwy.</p>
14:30	William Graham Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Earlier this month, you visited the Oakdale wind energy park in Caerphilly, and you will know that, in collaboration with Partnerships for Renewables, it has two turbines, which produce significant power, enabling local businesses to benefit from lower energy costs. Minister, are you minded to promote self-collaborative agreements for energy generation from fracking projects?</p>	<p>Yn gynharach y mis hwn, ymwelsoch â pharc ynni gwynt Oakdale yng Nghaerffili a byddwch yn gwybod bod ganddo ddau dyrbin, mewn cydweithrediad â Partnerships for Renewables, sy'n cynhyrchu pŵer sylweddol, gan alluogi busnesau lleol i elwa o gostau ynni is. Weinidog, a ydych yn bwriadu hyrwyddo cytundebau hunangydweithredol ar gyfer cynhyrchu ynni o brosiectau ffracio?</p>
14:30	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Fracking is not in my portfolio.</p>	<p>Nid yw ffracio yn fy mhorthfolio.</p>
	Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd	Welsh Language and Economic Development Task and Finish Group
14:30	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd? OAQ(4)0439(EST)</p>	<p>4. Will the Minister provide an update on the work of the Welsh Language and Economic Development Task and Finish Group? OAQ(4)0439(EST)</p>
14:30	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The group has concluded its work, and has provided a report containing its recommendations. The report has been made available on the Welsh Government website for comment. The potential impacts and costs of the recommendations are currently being assessed.</p>	<p>Mae'r grŵp wedi cwblhau ei waith ac mae wedi darparu adroddiad yn cynnwys ei argymhellion. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud sylwadau arno. Mae effeithiau a chostau posibl yr argymhellion yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.</p>

- 14:30 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch am hynny, Weinidog. Roeddwn yn croesawu, wrth gwrs, ddatganiad y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r cyswllt rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd, ac mae eisiau cario ymlaen â'r cyswllt hwnnw yn awr, yn fy marn i. Mae'n beth da ei fod wedi sôn yn benodol am ddyffryn Teifi fel ardal dwf, lle mae modd arbrofi â rhai o'r dulliau hyn. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, roedd y grŵp hefyd yn sôn am rywbeth mwy pwrpasol o gwmpas trefi pwysig, megis Aberystwyth a Chaerfyrddin, yn fy rhanbarth i. A ydych yn bwriadu, fel Llywodraeth, adeiladu ar waith y grŵp hwn, drwy adeiladu ffocws o waith o gwmpas y trefi hynny?
- Thank you for that, Minister. I welcomed, of course, the First Minister's statement last week about the link between the Welsh language and economic development, and we need to maintain that link, in my opinion. It is positive that he mentioned the Teifi valley as a growth area, where there can be some experimentation with these methods. However, as you know, the group also mentioned something more purposeful around important towns, such as Aberystwyth and Carmarthen, in my region. Do you, as a Government, intend to build on the work of this group, by developing a focus around those towns?
- 14:31 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I am obviously taking into account some of the comments that I received during the consultation process. I think that it is very important that I look at the recommendations that relate to an area approach, and to specific towns, and I will be reporting back on my response in the autumn.
- Ydym. Rwy'n amlwg yn ystyried rhai o'r sylwadau a gefais yn ystod y broses ymgynghori. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn imi edrych ar yr argymhellion sy'n ymwneud â dull ardal, a threfi penodol, a byddaf yn adrodd yn ôl ar fy ymateb yn yr hydref.
- 14:31 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, fel Simon Thomas, roeddwn i hefyd yn croesawu datganiad y Prif Weinidog, yn sôn am greu cronfa er mwyn hybu arloesi yn yr ardaloedd sydd â niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg, ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd strategol. Rwy'n credu ei fod yn ymateb i ofynion y grŵp gorchwyl. A ydych yn cytuno â hynny?
- Minister, as Simon Thomas, I also welcome the statement of the Prime Minister, talks about creating a fund to encourage innovation in areas with high numbers of Welsh speakers, and other areas of strategic importance. I think it responds to the demands of the task group. Do you agree with that?
- 14:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, he is responding to the demands of the task and finish group. I was incorrect in my comments to Simon Thomas, because I hope very much to get a statement out before the summer, on some of the further recommendations on it. However, can I say that the task and finish group identified very positive areas of work, which I believe we can take forward, particularly within my department?
- Ydw, mae'n ymateb i ofynion y grŵp gorchwyl a gorffen. Roeddwn yn anghywir yn fy sylwadau i Simon Thomas, oherwydd rwy'n gobeithio'n fawr iawn y caf ddatganiad allan cyn yr haf ar rai o'r argymhellion pellach. Fodd bynnag, a gaf fi ddweud bod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi nodi meysydd gwaith cadarnhaol iawn y credaf y gallwn fwrw ymlaen â hwy, yn fy adran i yn enwedig?
- 14:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydym wedi clywed cyfeiriad at ddatganiad polisi diweddar y Prif Weinidog ar y berthynas rhwng yr economi a'r iaith Gymraeg, ac mae'r comisiynydd iaith hefyd yn cydnabod bod gwaith i'w wneud ar berswadio busnes bod gwerth masnachol i Gymru fod yn genedl ddwyieithog. Mae argymhelliad 24 yn awgrymu bod arnoch angen mwy o dystiolaeth ar hynny. A fyddwch yn ariannu'r gwaith hwnnw?
- We have heard mention of the recent policy statement by the First Minister on the relationship between the economy and the Welsh language, and the language commissioner also recognises that there is work to be done to persuade business that there is a commercial value in Wales being a bilingual nation. Recommendation 24 suggests that you need more evidence on that. Will you fund that work?
- 14:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will be responding to what comes back on the consultation, and will be making a statement before the summer recess. I will then indicate what I am doing on all the recommendations.
- Byddaf yn ymateb i'r hyn a ddaw yn ôl o'r ymgynghoriad a byddaf yn gwneud datganiad cyn toriad yr haf. Yna, byddaf yn nodi'r hyn a wnaf ar yr holl argymhellion.

- 14:33 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n meddwl bod eich datganiad gwreiddiol yn dweud eich bod yn bwriadu cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod yr haf. A wnech chi ymrwymo, felly, i wneud datganiad llafar i'r Cynulliad yn syth ar ôl inni ddod yn ôl, o ystyried, fel y mae Keith Davies ac eraill wedi ei ddweud, yr holl ddi-ddordeb sydd yn y pwnc hwn, er mwyn inni gryfhau sefyllfa'r iaith?
- I think that your original statement said that you intend to publish the response to the consultation during the summer. Will you commit, therefore, to making an oral statement to the Assembly immediately after we return, given, as Keith Davies and others have said, that there is great interest in this subject, so that we can strengthen the position of the language?
- 14:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that there is enormous interest in this subject, and I am very keen, as the Minister with responsibility for this portfolio, that the excellent work that was done by the taskforce can be taken forward proactively, across Wales. Therefore, I would be very pleased to schedule a statement in the autumn, under Government business.
- Rwy'n meddwl bod diddordeb enfawr yn y pwnc hwn ac rwy'n awyddus iawn, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y portffolio hwn, i'r gwaith rhagorol a wnaed gan y tasglu gael ei ddatblygu'n rhagweithiol ledled Cymru. Felly byddwn yn falch iawn o drefnu datganiad yn yr hydref yn rhan o fusnes y Llywodraeth.
- Darpariaeth Band Eang** **Broadband Provision**
- 14:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu darpariaeth band eang yng Nghymru? OAQ(4)0431(EST)*
- 5. Will the Minister outline the Welsh Government's policies for the expansion of broadband provision in Wales? OAQ(4)0431(EST)*
- 14:33 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*
- Yes. Superfast Cymru is the most ambitious fast fibre broadband programme in the UK, providing access for a greater proportion of premises more quickly than other projects. Access Broadband Cymru complements Superfast Cymru by supporting businesses and residents to obtain a basic broadband connection.
- Gwnaf. Cyflymu Cymru yw'r rhaglen band eang ffibr cyflym fwyaf uchelgeisiol yn y DU, sy'n darparu mynediad i gyfran uwch o safleoedd yn gyflymach na phrosiectau eraill. Mae Allwedd Band Eang Cymru yn ategu gwaith Cyflymu Cymru drwy gynorthwyo busnesau a phreswylwyr i gael cysylltiad band eang sylfaenol.
- 14:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, Superfast Cymru is funded by UK, Welsh Government and EU money. I think that the FibreSpeed programme, which links north Wales industrial estates, is also funded with Welsh Government and European money. Some months ago, FibreSpeed wrote to Members expressing concern that the FibreSpeed investment has been overbuilt by Superfast Cymru. I think that the Minister wrote to Members, saying that she was seeking a technical and legal review. Equally, FibreSpeed said that it was seeking guidance from the European Union Commission itself. Are you able to advise us what has resulted from that, and whether there has been any further clarification regarding the difference between overbuilding and extension in such circumstances?
- Yn amlwg, caiff Cyflymu Cymru ei gyllido gan arian y DU, Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rwy'n credu bod rhaglen FibreSpeed, sy'n cysylltu ystadau diwydiannol gogledd Cymru, hefyd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac arian Ewropeaidd. Rai misoedd yn ôl, ysgrifennodd FibreSpeed at yr Aelodau yn mynegi pryder bod Cyflymu Cymru yn goradeiladu buddsoddiad FibreSpeed. Credaf fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Aelodau i ddweud ei bod yn gofyn am adolygiad technegol a chyfreithiol. Yn yr un modd, dywedodd FibreSpeed ei fod yn ceisio arweiniad gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd ei hun. A allwch roi gwybod inni beth a ddeilliodd o hynny, ac a gafwyd eglurhad pellach ynghylch y gwahaniaeth rhwng goradeiladu ac estyniad o dan amgylchiadau o'r fath?
- 14:35 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for North Wales for his question. The recent open-market review revisited the FibreSpeed network and the current eligibility in line with changes to EU state aid guidelines. I would be pleased to be able to update the Member accordingly when we can on that matter.
- Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am ei gwestiwn. Aeth yr adolygiad marchnad agored diweddar ati i edrych eto ar rwydwaith FibreSpeed a'r cymhwystra presennol yn unol â newidiadau i ganllawiau cymorth gwladwriaethol yr UE. Byddwn yn falch o allu rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelod ynghylch y mater pan fyddwn yn gallu gwneud hynny.

14:35	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have raised the issue of the Penylan notspot on a number of occasions and, sadly, many residents in that area are still experiencing maximum speeds of 3 Mbps. I have been told by the director of BT Cymru that the issue in many urban notspots is to do with upgrading specific cabinets and that this decision is down to a business case, but that new and planned housing developments are not always taken into account in some of these cases. I wonder if you could give me your assurance that the way in which new and planned housing developments are served by internet service providers will be investigated as part of that review.</p>	<p>Rwyf wedi codi mater man gwan Pen-y-lan ar nifer o achlysuron ac yn anffodus, mae llawer o breswylwyr yn yr ardal honno yn dal i wynebu cyflymder uchaf o 3 Mbps. Rwyf wedi cael gwybod gan gyfarwyddwr BT Cymru fod y broblem mewn nifer o fannau gwan trefol yn ymwneud ag uwchraddio cabinetau penodol ac mai mater sydd ynghlwm wrth achos busnes yw'r penderfyniad hwn, ond nad yw datblygiadau tai newydd ac arfaethedig bob amser yn cael eu hystyried yn rhai o'r achosion hyn. Tybed a allwch roi sicrwydd y bydd y ffordd y mae datblygiadau tai newydd ac arfaethedig yn cael eu gwasanaethu gan ddarparwyr gwasanaethau'r rhyngwyd yn cael ei harchwilio fel rhan o'r adolygiad hwnnw.</p>
14:36	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think that the Member raises a very important question, and the Member has also raised the issue of Penylan exchange on a number of occasions, as has Jenny Rathbone, the local Assembly Member. Could I invite the Member to submit her comments and observations as part of the consultation on the project aimed at addressing the hard-to-reach areas and the notspots?</p>	<p>Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn gofyn cwestiwn pwysig iawn, ac mae'r Aelod hefyd wedi codi mater cyfnewidfa Penylan ar nifer o achlysuron, fel y mae Jenny Rathbone, yr Aelod Cynulliad lleol, wedi'i wneud. A gaf fi wahodd yr Aelod i gyflwyno ei sylwadau a'i harsylwadau yn rhan o'r ymgynghoriad ar y prosiect sy'n anelu at fynd i'r afael ag ardaloedd anodd eu cyrraedd a'r mannau gwan?</p>
	Y Diwydiant Twristiaeth	The Tourism Industry
14:36	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0427(EST)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for the tourism industry in Wales? OAQ(4)0427(EST)</i></p>
14:36	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I refer the member to my oral statement of 17 June—an update on the tourism strategy.</p>	<p>Cyfeiriaf yr aelod at fy natganiad llafar ar 17 Mehefin—yr wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth dwristiaeth.</p>
14:36	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, Minister. You will be aware of concerns that have recently been appearing in the media regarding expenditure on marketing for Visit Wales compared with other parts of the UK, most notably Scotland, which apparently spends £47.5 million per annum compared with Visit Wales's £7 million per annum budget for marketing Wales overseas. I wonder whether you have had time to reflect on those figures. What action might you take to ensure that Wales is adequately marketed overseas in order to drive up the opportunities that are presented to our economy from that important side of business?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a ymddangosodd yn y cyfryngau yn ddiweddar ynghylch gwariant ar farchnata Croeso Cymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, a'r Alban yn fwyaf amlwg, sydd yn ôl pob golwg yn gwario £47.5 miliwn y flwyddyn o'i gymharu â chyllideb flynyddol Croeso Cymru o £7 miliwn ar gyfer marchnata Cymru dramor. Tybed a ydych wedi cael amser i ystyried y ffigurau hynny. Pa gamau y gallech eu cymryd i sicrhau bod Cymru yn cael ei marchnata'n ddigonol dramor er mwyn gwella'r cyfleoedd i'n heconomi o'r ochr bwysig hon o fusnes?</p>
14:37	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, I believe that it is important that we market correctly and there are many ways of marketing—digital advertising, social media et cetera. I certainly look forward with interest to receiving the report from the committee, and I will then review what further work needs to be undertaken in that area.</p>	<p>Ie, rwy'n credu ei bod yn bwysig inni farchnata'n gywir ac mae sawl ffordd o farchnata—hysbysebu digidol, cyfryngau cymdeithasu ac ati. Rwy'n sicr yn edrych ymlaen yn eiddgar at dderbyn yr adroddiad gan y pwyllgor a byddaf wedyn yn adolygu pa waith pellach sydd angen ei wneud yn y maes.</p>

14:37	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>While it is important to advertise Wales's traditional tourist assets, such as castles, beaches and landscapes, what percentage of Welsh tourist promotional spending goes on our industrial heritage? I have noticed, for example, that there is no signposting to the National Mining Memorial in Senghenydd, and there is a lack of awareness of our industrial heritage even among many Welsh people. Is this something that you are working to rectify, please, and if so, how?</p>	<p>Er ei bod yn bwysig hysbysebu asedau twristiaeth traddodiadol Cymru, megis cestyll, traethau a thirweddau, pa ganran o wariant hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru sy'n mynd ar ein treftadaeth ddiwydiannol? Er enghraifft, sylwais nad oes arwyddion i gyfeirio pobl tuag at Gofeb Genedlaethol y Glowyr yn Senghennydd, ac mae diffyg ymwybyddiaeth o'n treftadaeth ddiwydiannol ymhlith llawer o bobl yng Nghymru hyd yn oed. A yw hyn yn rhywbeth rydych yn gweithio i'w gywiro, ac os felly, sut?</p>
14:38	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much for pointing out an omission in signage for me; I will certainly take that matter up. I think that our industrial heritage is very important—the Blaenavon world heritage site and all of the others. This is an area that we have been looking at and I will certainly ask my tourism panel to look specifically at these issues. We work very effectively with my colleague John Griffiths on Cadw sites, and all of these sites, and I will be happy to update Members on this in due course.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am dynnu fy sylw at y diffyg arwyddion; byddaf yn sicr yn codi'r mater. Credaf fod ein treftadaeth ddiwydiannol yn bwysig—safle treftadaeth y byd ym Mlaenafon a phob un o'r lleill. Dyma faes rydym wedi bod yn edrych arno a byddaf yn sicr yn gofyn i fy mhanel twristiaeth edrych yn benodol ar y materion hyn. Rydym yn gweithio'n effeithiol iawn gyda fy nghyd-Aelod John Griffiths ar safleoedd Cadw a phob un o'r safleoedd hyn, a byddaf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hyn maes o law.</p>
14:38	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i></p> <p>Minister, tourism is absolutely crucial to the economic health of my constituency in Brecon and Radnorshire, as is the success of the Powys local growth zones initiatives. Could you provide us with an update on those growth zones initiatives and the outputs from them?</p>	<p>Weinidog, mae twristiaeth yn gwbl hanfodol i iechyd economaidd fy etholaeth ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, fel y mae llwyddiant mentrau ardaloedd twf lleol Powys. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am fentrau'r ardaloedd twf hyn a'u hallbwn?</p>
14:38	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes. I would be delighted to provide a written statement to Members before recess, indicating what progress has been made and where progress has not been made.</p>	<p>Gallaf. Byddwn wrth fy modd yn darparu datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau cyn y toriad, yn nodi pa gynnydd a wnaed a lle na welwyd cynnydd.</p>
	Uwchgynhadledd NATO	The NATO Summit
14:38	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>7. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau manteision economaidd mwyaf posibl i Ddwyrain De Cymru yn sgîl yr uwchgynhadledd NATO? OAQ(4)0430(EST)</i></p>	<p><i>7. What is the Minister doing to maximise the economic benefits to South Wales East of the forthcoming NATO summit? OAQ(4)0430(EST)</i></p>
14:39	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The First Minister gave an update on issues around the NATO summit in his written statement on 11 June.</p>	<p>Rhoddodd y Prif Weinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud ag uwchgynhadledd NATO yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 11 Mehefin.</p>

14:39 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. The NATO summit is a once-in-a-lifetime opportunity to promote Newport and south-east Wales and bring long-term economic benefits to the region. However, the chief executive of Newport City Council has said that no funds would be available from the Welsh Government to support activities to maximise the marketing and promotional opportunities related to this event. How can the Welsh Government be certain of maximising the economic opportunities presented by the NATO summit without providing the required investment?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae uwchgynhadledd NATO yn gyfle unwaith mewn oes i hyrwyddo Casnewydd a de-ddwyrain Cymru ac i ddod â manteision economaidd hirdymor i'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae prif weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd wedi dweud na fyddai arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd marchnata a hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad hwn. Sut y gall Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr ei bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd a gyflwynir gan uwchgynhadledd NATO heb ddarparu'r buddsoddiad angenrheidiol?

14:39 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I have to say that, in terms of brand marketing and profile, pictures from the summit will be beamed across the world. We are working closely with the UK Government to raise Wales's profile during the summit. There is much other work going on in terms of our discussions with companies et cetera, so I think that we are doing the best that we can. I thought that it was very good that the First Minister was there with the NATO ambassadors, explaining what good there is in Wales and what we are able to do. I am satisfied that we are maximising what we are able to.

Mae'n rhaid imi ddweud, o ran marchnata brand a phroffil, bydd lluniau o'r uwchgynhadledd yn cael eu darlledu ar draws y byd. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i godi proffil Cymru yn ystod yr uwchgynhadledd. Mae llawer o waith arall ar y gweill o ran ein trafodaethau gyda chwmnïau ac ati, felly rwy'n meddwl ein bod yn gwneud y gorau y gallwn. Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n dda iawn fod y Prif Weinidog yno gyda llysgenhadon NATO, yn esbonio pa bethau da sydd i'w cael yng Nghymru a beth y gallwn ei wneud. Rwy'n fodlon ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn ei wneud.

Ehangu Economaidd

Economic Expansion

14:40 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i feithrin ehangu economaidd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0435(EST)

8. What is the Welsh Government doing to foster economic expansion in mid Wales? OAQ(4)0435(EST)

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Strengthening the conditions that will enable businesses to create jobs and sustainable economic growth across Wales remains at the heart of the programme for government.

Mae cryfhau'r amodau i alluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy ledled Cymru yn parhau i fod yn rhan ganolog o'r rhaglen lywodraethu.

14:40 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your answer, Minister. A number of businesses in Newtown and Welshpool want to expand, and are considering moving to Shropshire, away from Montgomeryshire, as they cannot find suitable premises locally. The mid Wales manufacturing group is currently undertaking a survey of its members regarding the availability of property suitable for business start-ups and expansions. Will you commit to analysing those data when they are available, and also consider the Welsh Government taking responsibility for building modern units in mid Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae nifer o fusnesau yn y Drenewydd a'r Trallwng yn awyddus i ehangu, ac maent yn ystyried symud i Swydd Amwythig, i ffwrdd o Sir Drefaldwyn, gan nad ydynt yn gallu dod o hyd i eiddo addas yn lleol. Ar hyn o bryd mae grŵp gweithgynhyrchu'r canolbarth yn cynnal arolwg o'i aelodau o ran argaeledd eiddo addas ar gyfer busnesau sy'n cychwyn ac yn ehangu. A wnewch chi ymrwymo i ddadansoddi'r data pan fydd ar gael, ac ystyried hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb am adeiladu unedau modern yng nghanolbarth Cymru?

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am aware that the mid Wales manufacturing group is undertaking a survey on this matter, and I look forward to receiving the findings in due course. In the meantime, I have actually asked my officials to explore this matter further and come back to me with recommendations soon.

Rwy'n ymwybodol fod grŵp gweithgynhyrchu'r canolbarth yn cynnal arolwg ar y mater ac edrychaf ymlaen at gael y canfyddiadau maes o law. Yn y cyfamser, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion archwilio'r mater ymhellach a dod yn ôl ataf gydag argymhellion cyn bo hir.

14:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, I am grateful for your efforts to date with regards to Benson Heating in Knighton. Are you able to give the Chamber an update on whether your officials have been able to make any progress with the American and English owners of that company to secure those 42 manufacturing jobs in my constituency, which are valued and needed?

Weinidog, rwy'n ddiolchgar am eich ymdrechion hyd yma mewn perthynas â Benson Heating yn Nhrefyco. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr pa un a yw eich swyddogion wedi gallu gwneud unrhyw gynnydd gyda pherchnogion Americanaidd a Seisnig y cwmni i sicrhau'r 42 o swyddi gweithgynhyrchu gwerthfawr hynny sydd eu hangen yn fy etholaeth?

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have no further update other than what I indicated to Members. However, obviously, officials keep me updated regularly and, of course, I will inform members if there is any change.

Nid oes gennyf wybodaeth bellach ar wahân i'r hyn a fynegais wrth yr Aelodau. Ond yn amlwg, mae swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi'n rheolaidd ac wrth gwrs y byddaf yn rhoi gwybod i'r aelodau os oes unrhyw newid.

14:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Pa gamau y gallwch eu cymryd, Weinidog, i gryfhau'r economi yn y canolbarth wrth gael yr hawl dros ardrethi busnes yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf? Rydych eisoes wedi cyfeirio at yr ardaloedd twf ym Mhowys, a gwyddoch bod argymhellion y grŵp hwnnw hefyd yn edrych ar ardrethi busnes fel rhywbeth i yrru twf economaidd. Mae cyfleoedd bellach i wneud pethau fel gwyliau byr ac ati i helpu busnesau newydd. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych yn ei ystyried o ddifrif?

What steps can you take, Minister, to strengthen the economy in mid Wales when you assume powers over business rates, in the next year or so? You have already made reference to the growth areas in Powys, and you will know that the recommendations of that group are also looking at business rates as something that can drive economic growth. There are now opportunities to provide short breaks and so on to help new businesses. Is that something that you are considering in earnest?

14:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am considering all aspects for when we have full devolution of business rates. I think that it was the Teifi valley task and finish group that recommended specific business rate relief schemes in specific geographical areas. It is certainly something that Professor Morgan is giving consideration to in preparing advice for me.

Rwy'n ystyried yr holl agweddau ar gyfer yr adeg pan fydd ardrethi busnes wedi'u datganoli'n llawn. Rwy'n meddwl mai grŵp gorchwyl a gorffen dyffryn Teifi a argymhellodd gynlluniau rhyddhad ardrethi busnes penodol mewn ardaloedd daearyddol penodol. Mae'n sicr yn rhywbeth y mae'r Athro Morgan yn ei ystyried wrth baratoi cyngor i mi.

Trafnidiaeth Integredig

Integrated Transport

14:42 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dtrafnidiaeth integredig yng Nghaerdydd? OAQ(4)0440(EST)

9. Will the Minister make a statement on integrated transport in Cardiff? OAQ(4)0440(EST)

14:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is a matter for Cardiff Council to consider how the transport that it provides best serves the needs of the public. However, we recognise that a modern and efficient integrated transport system is vital for our social and economic prosperity. This forms a key part of our plans for the Cardiff capital region metro.

Mater i Gyngor Caerdydd yw ystyried sut y gall y dtrafnidiaeth y mae'n ei darparu ddiwallu anghenion y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod system dtrafnidiaeth integredig fodern ac effeithlon yn hanfodol i'n ffyniant cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn rhan allweddol o'n cynlluniau ar gyfer metro ardal prifddinas Caerdydd.

- 14:43 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn sicr, mae trafniadaeth integredig wedi bod yn flaenoriaeth i bob Llywodraeth yn y lle hwn. Mae cael cynllun trafniadaeth integredig ar gyfer prifddinas Cymru yn eithriadol o bwysig. Ond mae cynlluniau diweddaraf BBC Cymru i sefydlu pencadlys y tu allan i orsaf ganolog Caerdydd yn golygu y bydd yr orsaf fysiau yn diflannu. A wneuch chi sicrhau bod safle priodol, digonol a hwylus ar gyfer yr orsaf fysiau, i gysylltu â'r orsaf reilffordd, yn cael ei gadarnhau cyn unrhyw ddatblygiad o'r fath?
- Certainly, integrated transport has been a priority for every Government in this place. Having an integrated transport scheme for the capital of Wales is exceptionally important. However, BBC Wales's most recent plans to establish headquarters outside Cardiff central station mean that the bus station will disappear. Will you ensure that an appropriate, adequate and convenient location for the bus station, linking with the railway station, is confirmed before any such development takes place?
- 14:43 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the primary authority dealing with that is Cardiff Council, with regard to the bus station. However, I do hear what you say, because it is important that we have an integrated hub so that people can easily access the city et cetera. In terms of the BBC, we would have liked it, obviously, if the BBC had come to the bay, but it has decided to go where it has gone. There was no commitment with us, contractual or otherwise, on these particular issues. However, I understand the point that you have made fully with regard to the bus station. I am more than happy to raise that point with the leader of the local authority.
- Wrth gwrs, y prif awdurdod sy'n ymdrin â hynny yw Cyngor Caerdydd o ran yr orsaf fysiau. Fodd bynnag, rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, oherwydd mae'n bwysig fod gennym ganolbwynt integredig er mwyn i bobl allu cyrraedd y ddinas yn hawdd ac ati. O ran y BBC, mae'n amlwg y byddem wedi hoffi pe bai'r BBC wedi dod i'r bae ond mae wedi penderfynu mynd i ble'r aeth. Nid oedd unrhyw ymrwymiad gyda ni, yn gytundebol neu fel arall, ar y materion penodol hyn. Fodd bynnag, rwy'n deall y pwynt a wneuch yn iawn o ran yr orsaf fysiau. Rwy'n fwy na pharod i godi'r pwynt gydag arweinydd yr awdurdod lleol.
- 14:44 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the state of the bus station has been a perennial issue, raised several times in this Chamber by Members from across Cardiff. In particular now, with the redevelopment plans announced by the BBC, for better or for worse, there is some significant progress being made in that particular area. What role does the Government have in liaising with Cardiff Council to develop the plans for this important transport gateway into Cardiff? Is it very much just an ad hoc type of relationship, or is there a more formalised approach in developing the plans for integrated transport in Cardiff, but, importantly, the redevelopment of the Cardiff Central station area?
- Weinidog, mae cyflwr yr orsaf fysiau wedi bod yn broblem barhaol a godwyd sawl gwaith yn y Siambr hon gan Aelodau o bob rhan o Gaerdydd. Yn awr yn arbennig, gyda'r cynlluniau ailddatblygu a gyhoeddwyd gan y BBC er gwell neu er gwaeth, mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn yr ardal benodol honno. Pa rôl sydd gan y Llywodraeth o ran cysylltu gyda Chyngor Caerdydd i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer y porth trafniadaeth pwysig hwn i mewn i Gaerdydd? Ai math o berthynas ad hoc yn unig ydyw neu a oes yna ymagwedd fwy ffurfiol tuag at ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer trafniadaeth integredig yng Nghaerdydd a'r gwaith pwysig o ailddatblygu ardal Gorsaf Ganolog Caerdydd?
- 14:45 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that you recognise that all local authorities in the area have signed up to the city region. They discuss transport and integrated transport issues within the context of the city region. In terms of discussions, I have had discussions with the leader about how we can jointly follow through projects because I think that any benefit to Cardiff is also a benefit to the larger region. You can be reassured that they are not ad hoc; they are discussions that take place at both ministerial and official level.
- Rwy'n meddwl eich bod yn sylweddoli bod pob awdurdod lleol yn yr ardal wedi ymuno â'r ddinas-ranbarth. Maent yn trafod trafniadaeth a materion trafniadaeth integredig yng nghyd-destun y ddinas-ranbarth. O ran trafodaethau, rwyf wedi trafod gyda'r arweinydd ynglŷn â sut y gallwn ddatblygu prosiectau gyda'n gilydd oherwydd credaf fod budd i Gaerdydd hefyd yn fudd i'r ardal ehangach. Gallwch fod yn dawel eich meddwl nad ydynt yn drafodaethau ad hoc; maent yn digwydd ar lefel weinidogol ac ar lefel swyddogol.
- 14:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Liberal Democrat spokesperson—Eluned Parrott.
- Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol—Eluned Parrott.

14:45	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, with the BBC and other new offices such as the Admiral building opening in the centre of Cardiff very shortly, increasing the capacity of our public transport in Cardiff to carry people is going to be crucial. Several transport groups have suggested changing some services in and out of Cardiff into a tram or light rail system, with the impending electrification of rail in south Wales. At what point do you expect to be able to tell us whether the Welsh Government would support such a move?</p>	<p>Weinidog, gyda'r BBC a swyddfeydd newydd eraill megis adeilad Admiral yn agor yng nghanol Caerdydd yn fuan iawn, mae cynyddu capasiti ein trafndiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd ar gyfer cludo pobl yn mynd i fod yn allweddol. Mae nifer o grwpiau trafndiaeth wedi awgrymu newid rhai gwasanaethau i mewn ac allan o Gaerdydd i wasanaethau tram neu system reilffordd ysgafn, gyda'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd yn ne Cymru ar fin digwydd. Ar ba bwynt y disgwylwch allu dweud wrthym a fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi symudiad o'r fath?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am currently doing the stage of the metro project, which Mark Barry is finishing. I will be able to hopefully issue a report before summer recess about the progress on that particular issue. Then, we will link in all the other issues.</p>	<p>Rwyf ar hyn o bryd yn gwneud cam y prosiect metro y mae Mark Barry yn ei orffen. Gobeithiaf allu cyhoeddi adroddiad cyn toriad yr haf ynghylch y cynnydd ar y mater penodol hwnnw. Yna, byddwn yn cysylltu hynny â'r holl faterion eraill.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>It is, in fact, Mark Barry and the metro group who are among the proponents of changing to a light rail system. In that circumstance, what assessment have you made of the safety implications of running heavy passenger and freight trains alongside light rail on the infrastructure through south Wales?</p>	<p>Mewn gwirionedd, Mark Barry a grŵp y metro sydd ymhlith y bobl sy'n dadlau dros newid i system reilffyrdd ysgafn. O ystyried hynny, pa asesiad a wnaethoch o oblygiadau diogelwch rhedeg trenau trwm i deithwyr a nwyddau ochr yn ochr â rheilffordd ysgafn ar y seilwaith drwy dde Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Once we decide to put forward any proposals, I will look at all the issues surrounding them before I make any decisions.</p>	<p>Ar ôl inni benderfynu cyflwyno cynigion, byddaf yn edrych ar yr holl faterion sy'n gysylltiedig â hwy cyn imi wneud unrhyw benderfyniadau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Seilwaith Trafnidiaeth Cymru</p>		<p>Transport Infrastructure in Wales</p>	
14:46	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi yn seilwaith trafndiaeth Cymru? OAQ(4)0438(EST)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on investment in Welsh transport infrastructure? OAQ(4)0438(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I set out my priorities for capital investment for road and rail in statements last summer. I am continuing to look to secure maximum value for money and impact from this investment.</p>	<p>Nodais fy mlaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ffyrdd a rheilffyrdd mewn datganiadau yr haf diwethaf. Rwy'n parhau i geisio sicrhau gwerth gorau am arian ac effaith o'r buddsoddiad hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>We have heard many times about your plans to dovetail the national transport network plan with your enterprise zones strategy and other Government initiatives. I have to say, to date, that there is no clear evidence of that; it is somewhat sketchy. Will you update the Chamber with examples of how specific investment in transport infrastructure has and will support the enterprise zones here in Wales?</p>	<p>Rydym wedi clywed droeon am eich cynlluniau i gysylltu'r cynllun rhwydwaith trafndiaeth cenedlaethol â'ch strategaeth ardaloedd menter a mentrau eraill y Llywodraeth. Mae'n rhaid i mi ddweud, ni chafwyd tystiolaeth glir o hynny hyd yn hyn; mae'n annelwig braidd. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr gydag enghreifftiau o sut y mae buddsoddiadau penodol yn y seilwaith trafndiaeth wedi cefnogi ardaloedd menter yma yng Nghymru, a sut y bydd yn gwneud hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:47	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am more than happy to send a note to Member on that issue.</p>	<p>Rwy'n fwy na pharod i anfon nodyn at yr Aelod ynghylch y mater hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:47	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, we know that plans are afoot to close junction 41 at Port Talbot on 4 August and that members of the chamber of trade and local residents have met with you, although some residents have still not found out exactly what that meeting entailed. I have written to you and I am none the wiser. Can you give us an update today so that I can take that message back to the people of Port Talbot as to what exactly was part of those discussions?</p>	<p>Weinidog, gwyddom fod cynlluniau ar y gweill i gau cyffordd 41 ym Mhort Talbot ar 4 Awst a bod aelodau o'r siambr fasnach a thrigolion lleol wedi cyfarfod â chi, er nad yw rhai o'r preswylwyr eto wedi deall yn union beth oedd y cyfarfod hwnnw yn ei drafod. Rwyf wedi ysgrifennu atoch ac nid wyf rony'n yn gallach. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni heddiw fel y gallaf fynd â'r neges yn ôl i bobl Port Talbot ynglŷn â beth yn union oedd yn rhan o'r trafodaethau hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>At the end of the day, I have met representatives of the community in Port Talbot, from both the community and business. I have set up arrangements for an appropriate reporting mechanism and liaison with my officials via the local authority. Very kindly, Neath Port Talbot is helping to ensure that there is good communication between all parties.</p>	<p>Ar ddiwedd y dydd, rwyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y gymuned ym Mhort Talbot, o'r gymuned ac o fyd busnes. Rwyf wedi pennu trefniadau gogyfer â system adrodd briodol a chyswllt gyda fy swyddogion drwy'r awdurdod lleol. Yn garedig iawn, mae Castell-nedd Port Talbot yn helpu i sicrhau bod cyfathrebu da rhwng yr holl bartïon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ardaloedd Menter		Enterprise Zones	
14:48	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd ar Ardaloedd Menter yng Nghymru? OAQ(4)0429(EST)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister provide a progress report on Enterprise Zones in Wales? OAQ(4)0429(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>We continue to focus on jobs, investment and business support. I published the progress against those and other key performance indicators last month.</p>	<p>Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar swyddi, buddsoddi a chymorth busnes. Cyhoeddais y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a dangosyddion perfformiad allweddol eraill y mis diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. Applications for the latest round of grants under the enterprise zone business rates scheme closed on 3 June this year. With regard to the Ebbw Vale enterprise zone, could the Minister advise what proportion of applications received came from businesses already located in the enterprise zone and how many came from new businesses seeking to start up there?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Roedd y dyddiad cau i geisiadau ar gyfer y rownd ddiweddaraf o grantiau cynllun adrethi busnes yr ardaloedd menter ar 3 Mehefin eleni. O ran ardal fenter Glyn Ebwy, a allai'r Gweinidog roi gwybod inni pa gyfran o'r ceisiadau a gyflwynwyd gan fusnesau sydd eisoes wedi'u lleoli yn yr ardal fenter a faint a gyflwynwyd gan fusnesau newydd sy'n ceisio dechrau yno?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>A total of 77, I think, were received and four from Ebbw Vale, but I will have to check the detail around the question.</p>	<p>Daeth cyfanswm o 77 i law, rwy'n meddwl, a phedwar o Lyn Ebwy, ond bydd yn rhaid imi edrych ar y manylion o ran y cwestiwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae yna ddeiseb ar y ffordd i'r Cynulliad yn cwyno am y gwasanaeth bysiau o Borth Tywyn. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod eisiau sicrhau bod cludiant ar gael yn ein cymunedau i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gludo pobl leol, yn enwedig yr henoed, i'n hysbytaï?</p>	<p>There is a petition on the way to the Assembly complained about the bus service from Burry Port. Does the Minister agree that we need to ensure that transport is available in our communities to ensure that services are available to transport local people, especially the elderly, to our hospitals?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:49	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I do not believe that I have an enterprise zone in the Llanelli area.</p>	<p>Nid wyf yn credu bod gennyf ardal fenter yn ardal Llanelli.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question was on enterprise zones.</p>	<p>Roedd y cwestiwn yn ymwneud ag ardaloedd menter.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
System Drafndiaeth Integredig		Integrated Transport System	
14:49	<p>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>12. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithredu cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i ddatblygu system drafndiaeth integredig i Gymru? OAQ(4)0436(EST)</i></p>	<p><i>12. How does the Minister intend to implement the Welsh Government's responsibility to develop an integrated transport system in Wales? OAQ(4)0436(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am committed to improving integrated transport in Wales as set out in the Wales transport strategy. I will set out more detail on my priorities in the new national transport plan, which will be published next year.</p>	<p>Rwyf wedi ymrwymo i wella trafndiaeth integredig yng Nghymru fel y nodir yn strategaeth drafndiaeth Cymru. Byddaf yn rhoi mwy o fanylion am fy mlaenoriaethau yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol newydd a gyhoeddir y flwyddyn nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>A fyddai hi'n croesawu, yng nghyd-destun trafndiaeth integredig, y cynnydd a wnaed ar y prosiect gan Gyngor Gwynedd, Network Rail a chyllid Llywodraeth Cymru i ailadeiladu pont Briwet yn Nwyfor Meirionnydd? A yw hi'n cytuno, pan fydd rheilffordd y Cambrian wedi'i hadfer, ei bod yn bwysig edrych o'r newydd ar sut y gallwn ddatblygu gwasanaethau ar reilffordd yr arfordir, yn ogystal â'r rheilffordd o Aberystwyth i'r Amwythig, yn ogystal â chreu gwell cysylltiad gyda bysiau? A yw hi'n cytuno bod angen cael cynlluniau priodol o adeiladau newydd integredig ar gyfer gorsafoedd bysiau a threnau o Fachynlleth drwodd i Bwllheli ac, yn wir, i rannau eraill o'r gogledd?</p>	<p>Would the Minister, in the context of integrated transport, welcome the progress on the project by Gwynedd Council, Network Rail and Welsh Government funding to rebuild Briwet bridge in Dwyfor Meirionnydd? Does she agree that when the Cambrian railway has been renewed it is important to look anew at how we can develop services on the coastal line, as well as on the Aberystwyth to Shrewsbury line, as well as improving connections with buses? Does she agree that we need appropriate plans for new integrated buildings for bus and train stations from Machynlleth through to Pwllheli, and on to other parts of north Wales?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I would concur that, when budgets allow, we should look at the particular issues that you bring up with regard to integrated systems. I think that it is very important the work that has been undertaken by Gwynedd in relation to the bridge.</p>	<p>Ydw, pan fydd cyllidebau'n caniatáu, byddwn yn cytuno y dylem edrych ar y materion penodol a godwch o ran systemau integredig. Rwy'n meddwl bod y gwaith y mae Gwynedd wedi'i wneud mewn perthynas â'r bont yn bwysig iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I know that you were supportive of proposals to make Machynlleth an integrated hub for mid Wales, and I know that the land that was initially identified was not suitable. Therefore, what action have you taken to find new areas of land in the town, and how is the Machynlleth project being taken forward?</p>	<p>Weinidog, rwy'n gwybod eich bod wedi cefnogi cynigion i wneud Machynlleth yn ganolfan integredig ar gyfer canolbarth Cymru a gwn nad oedd y tir a nodwyd yn wreiddiol yn addas. Felly pa gamau a gymerwyd gennych i ddod o hyd i ddarnau newydd o dir yn y dref a sut y mae prosiect Machynlleth yn datblygu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>My latest recollection of the papers that I have received on this from officials is that there is still ongoing work. However, I will assure myself that that is the case and write to the Member if it is not.</p>	<p>Fy atgof diweddaraf o'r papurau a dderbynais ar hyn gan swyddogion yw bod gwaith yn dal i fod ar y gweill. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau fy hun mai dyna fel y mae ac yn ysgrifennu at yr Aelod os nad yw hynny'n wir.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Cysylltedd Trafnidiaeth

Transport Connectivity

14:51 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltedd trafndiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0426(EST)

13. Will the Minister make statement on what the Welsh Government is doing to improve transport connectivity in west Wales? OAQ(4)0426(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:51 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We are taking forward a range of actions to improve transport connectivity. For example, we continue to provide support for bus services, including support for Bwcabus. Also, in April, we officially reopened the A477 St Clears to Red Roses road, providing improved access to west Wales.

Rydym yn bwrw ymlaen ag ystod o gamau i wella cysylltedd trafndiaeth. Er enghraifft, rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau bysiau, gan gynnwys cymorth i Bwcabus. Hefyd, ym mis Ebrill, ail-agorwyd ffordd yr A477 o Sanclêr i Ros-goch gennym yn swyddogol, gan ddarparu gwell cysylltiad â gorllewin Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am grateful to the Minister for that answer. The additional rail services between Fishguard and Carmarthen have been operating for nearly three years, and they are a vital lifeline for people in Pembrokeshire. I know that, as a Government, you are now reviewing these services, and I would ask you to look favourably at continuing these services. Could you therefore tell us, Minister, when a statement will be made on the future of these services, so that rail users in Pembrokeshire can at least plan their future rail journeys?

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Mae'r gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin wedi bod yn gweithredu am bron i dair blynedd ac maent yn gyswllt hanfodol i bobl yn Sir Benfro. Gwn eich bod fel Llywodraeth wrthi'n adolygu'r gwasanaethau, a byddwn yn gofyn ichi edrych yn ffafriol ar barhau'r gwasanaethau hyn. Felly a allwch ddweud wrthym, Weinidog, pryd y gwneir datganiad ar ddyfodol y gwasanaethau, fel y gall defnyddwyr rheilffyrdd yn Sir Benfro o leiaf gynllunio eu teithiau trên ar gyfer y dyfodol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, when the public commitment was given to evaluate at the end of the experimental period, I think that we were looking at September 2014. So, I hope to be in a position before the end of that period to make some announcements.

Gallaf. Pan roddwyd ymrwymiad cyhoeddus i werthuso ar ddiwedd y cyfnod arbrol, rwy'n meddwl ein bod yn edrych ar fis Medi 2014. Felly cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rwy'n gobeithio bod mewn sefyllfa i allu gwneud rhai cyhoeddiadau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynllun y Bathodyn Glas

The Blue Badge Scheme

14:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
14. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau arfaethedig i gynllun y Bathodyn Glas? OAQ(4)0437(EST)

14. Will the Minister provide an update on proposed changes to the Blue Badge scheme? OAQ(4)0437(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes. My written statement of 3 June confirmed that I intend to bring forward regulations to extend eligibility for the blue badge scheme to people with severe cognitive impairments, and to provide additional tools and guidance to support local authorities in delivering the scheme.

Gwnaf. Cadarnhaodd fy natganiad ysgrifenedig ar 3 Mehefin fy mod yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i ymestyn cymhwyster ar gyfer y cynllun bathodyn glas i bobl â namau gwybyddol difrifol, ac i roi adnoddau ac arweiniad ychwanegol er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflwyno'r cynllun.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:53	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p>When the review group reported back, the mention of a multifaceted ambassador post that would provide consistent advice across Wales was welcomed by many in my constituency, and I do have a lot of correspondence on this. I note that your most recent written statement does not mention the ambassador role. Does the Welsh Government intend to take this forward and, if not, how will the envisaged role otherwise be filled?</p>	<p>Pan gyflwynodd y grŵp adolygu ei adroddiad, croesawodd llawer yn fy etholaeth y sôn am swydd llysgennad amlweddog a fyddai'n darparu cyngor cyson ledled Cymru, ac rwyf yn cael llawer o ohebiaeth ynghylch hyn. Sylwaf nad yw eich datganiad ysgrifenedig diweddaraf yn sôn am y rôl llysgennad. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn ac os nad ydyw, sut y caiff y rôl a ragwelwyd ei llenwi fel arall?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:53	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I agree that it would be a source of good advice, and that it would benefit the scheme, if we could have those ambassadors. However, it has proved to be almost impossible to implement the blue badge ambassador role as originally envisaged. In this case, I will be commissioning an expert advisory service that will fulfil the same role. Local authorities will be able to draw on this service to assist them in determining applications. I have a large amount of correspondence on blue badge issues coming in from Members regarding the way that local authorities seem to operate the scheme differently.</p>	<p>Rwy'n cytuno y byddai'n ffynhonnell i gyngor da ac y byddai o fudd i'r cynllun pe gallem gael llysgenhadon o'r fath. Fodd bynnag, mae wedi profi bron yn amhosibl gweithredu rôl llysgennad y bathodyn glas fel y'i rhagwelwyd yn wreiddiol. Yn yr achos hwn, byddaf yn comisiynu gwasanaeth cyngori arbenigol i gyflawni'r un rôl. Bydd awdurdodau lleol yn gallu pwyso ar y gwasanaeth i'w cynorthwyo i benderfynu ar geisiadau. Rwy'n cael llawer iawn o ohebiaeth ar y bathodyn glas gan yr Aelodau o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol i'w gweld yn gweithredu'r cynllun mewn ffyrdd gwahanol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, in your recent letter to Assembly Members, you made it clear that further work is required regarding the possibility of issuing blue badges for temporary conditions. You have asked your officials to explore the matter further. Could you give us an indication when you will be in a position to give us an update on this additional piece of work?</p>	<p>Weinidog, yn eich llythyr diweddar at Aelodau'r Cynulliad, rydych yn ei gwneud yn glir bod angen gwaith pellach o ran y posibilrwydd o gyhoeddi bathodynnew glas ar gyfer cyflyrau dros dro. Rydych wedi gofyn i'ch swyddogion edrych ar y mater ymhellach. A allwch roi syniad pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith ychwanegol hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I very much hope that, when we come back after the summer recess, I will be able to update you on all matters relating to blue badges. Having opened Pandora's box on blue badges, a lot of issues are now emerging, and these are issues that I would like to resolve satisfactorily for the benefit of the good citizens of Wales.</p>	<p>Wel, rwy'n gobeithio'n fawr iawn, pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl toriad yr haf, y gallaf roi'r newyddion diweddaraf ichi ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r bathodynnew glas. Ar ôl agor blwch Pandora ar y bathodynnew glas, mae llawer o faterion yn dod i'r amlwg yn awr ac mae'r rhain yn faterion yr hoffwn eu datrys yn foddhaol er budd pobl Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Gwasanaethau Bws Lleol</p>	<p>Local Bus Services</p>	
14:54	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p><i>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i wasanaethau bws lleol yng Nghymru? OAQ(4)0428(EST)</i></p>	<p><i>15. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for local bus services in Wales? OAQ(4)0428(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I recognise the importance of an effective and affordable bus service, which is why we provide significant funding to support the network throughout Wales. I have established a bus policy advisory group to advise me on maximising value for public money and securing the best possible provision of services.</p>	<p>Rwy'n cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth bws effeithiol a fforddiadwy, a dyna pam rydym yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi'r rhwydwaith ledled Cymru. Rwyf wedi sefydlu grŵp cyngori ar bolisi bysiau i roi cyngor i mi ynghylch sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus a sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:55 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am being inundated at the moment by many concerns from constituents regarding bus No. 19 in the Conwy valley. This service has now seen a drastic reduction in this service. I wrote to Arriva Bus Wales, and it has written back to say that the local authority has withdrawn the funding. Could you perhaps look into this matter with me and work with me, with Conwy County Borough Council, in order that we can actually reinstate this much-needed bus service in this rural community?
- Rwy'n cael fy moddi ar hyn o bryd gan bryderon niferus oddi wrth etholwyr ynglŷn â bws Rhif 19 yn nyffryn Conwy. Mae'r gwasanaeth bellach wedi'i gyfyngu'n eithafol. Ysgrifennais at Arriva Bws Cymru, ac ysgrifennodd yn ôl ataf i ddweud bod yr awdurdod lleol wedi tynnu'r cyllid yn ôl. A allwch edrych i mewn i'r mater gyda mi a gweithio gyda mi a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i adfer y gwasanaeth bws sy'n fawr ei angen yn y gymuned wledig hon?
- 14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that you are not the only Member in this Chamber who has had representations about buses all across Wales in terms of a reduction in services and problems with particular services. There is an issue here and we strongly encourage local authorities to develop quality partnership schemes with bus operators to improve services, and it is particularly important if they are withdrawing subsidies that they look at the implications for the socioeconomic groups that this affects as well. So, there is work going on, and I am hoping that the bus users' group will come up with some suggestions about how we can improve the delivery of services in Wales.
- Rwy'n credu nad chi yw'r unig Aelod yn y Siambr hon sydd wedi cael sylwadau am fysiau ar draws Cymru o ran cyfyngu ar wasanaethau a phroblemau gyda gwasanaethau penodol. Mae hon yn broblem ac rydym yn annog awdurdodau lleol yn gryf i ddatblygu cynlluniau partneriaeth o ansawdd gyda chwmnïau bysiau er mwyn gwella gwasanaethau. Os ydynt yn tynnu cymorthdaliadau yn ôl, mae'n arbennig o bwysig eu bod yn edrych ar y goblygiadau i grwpiau economaidd-gymdeithasol y mae hyn yn effeithio arnynt hefyd. Felly mae gwaith yn mynd rhagddo ac rwy'n gobeithio y bydd y grŵp defnyddwyr bysiau yn cyflwyno awgrymiadau ynglŷn â sut y gallwn wella'r modd y darperir gwasanaethau yng Nghymru.
- 14:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much, Minister. Diolch yn fawr iawn, Weinidog.
- 14:56 **Cwestiwn Brys: Prifysgol Glyndŵr** **Urgent Question: Glyndŵr University** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I have accepted two urgent questions under Standing Order 12.66. I call on Aled Roberts to ask the first question. Rwyf wedi derbyn dau gwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Aled Roberts i ofyn y cwestiwn cyntaf.
- 14:56 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newyddion bod 'Statws Dibynadwy Iawn fel Noddwr' Prifysgol Glyndŵr wedi cael ei dynnu yn ôl? EAQ(4)0451(ESK)* *Will the Minister make a statement on the news that 'Highly Trusted Sponsor Status' has been removed from Glyndwr University? EAQ(4)0451(ESK)*
- 14:56 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*
- Thank you for that question. I have already met the chief executive of the Higher Education Funding Council for Wales, the local Member, Lesley Griffiths, at her request, and officials, and I have asked HEFCW to look into the issues raised by yesterday's statement. HEFCW will now consider the wider issues that may be raised by this case, and I will be meeting the chair and chief executive of the funding council again on 1 July to take stock of the position. Diolch i chi am y cwestiwn. Rwyf eisoes wedi cyfarfod â phrif weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Lesley Griffiths yr Aelod lleol ar ei chais hi, a swyddogion, ac rwyf wedi gofyn i CCAUC edrych ar y materion a gododd o'r datganiad ddoe. Bydd CCAUC yn awr yn ystyried y materion ehangach a allai godi o'r achos hwn a byddaf yn cyfarfod â chadeirydd a phrif weithredwr y cyngor cyllido eto ar 1 Gorffennaf i ystyried y sefyllfa.

14:57

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the answer. Obviously, it is of concern that the period of suspension is at a time when the recruitment of foreign nationals and UK students is at its height. Given the concerns that have been raised, is there scope for HEFCW to provide more positive support to the university, to ensure that suspension is what we are looking at, rather than revocation, because there are fears that the situation could deteriorate if the matter is not addressed as a matter of urgency?

Diolch i chi am eich ateb. Yn amlwg, mae'n destun pryder fod y cyfnod o atal dros dro yn digwydd ar adeg pan fo recriwtio pobl dramor a myfyrwyr o'r DU ar ei anterth. O ystyried y pryderon a godwyd, a oes lle i CCAUC ddarparu cymorth mwy cadarnhaol i'r brifysgol i sicrhau bod mai ataliad yw'r hyn sydd yma, yn hytrach na dirymiad, oherwydd bod yna ofn y gallai'r sefyllfa ddirywio os nad eir i'r afael â'r mater ar frys?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not assisted in terms of being able to give a considered response to the Member's point, in that the Home Office chose to announce this action yesterday without any prior notice or consultation with the Welsh Government. In fact, as I rose to give this statement, I finally had some kind of communication from the Home Office about a Welsh university. So, I suppose that I should be glad that it is here at all.

Nid wyf wedi cael cymorth i roi ymateb ystyriol i bwynt yr Aelod, yn yr ystyr bod y Swyddfa Gartref wedi dewis cyhoeddi'r cam hwn ddoe heb rybudd ymlaen llaw a heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Yn wir, wrth imi godi i roi'r datganiad hwn, cefais ryw fath o gyfathrebiad o'r diwedd gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â phrifysgol yng Nghymru. Felly mae'n debyg y dylwn fod yn falch ei fod yma o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The withdrawal of Glyndŵr University's highly trusted visa sponsor status does, of course, have potentially serious implications, not just for the institution, but for the reputation of the Welsh higher education sector as a whole. I will be writing to the Minister for Immigration immediately to express my concern about the way in which this announcement was made. As I say, I met the chief executive of the higher education funding council yesterday afternoon, and I have asked HEFCW to look into the issues raised by yesterday's statement. HEFCW is responsible for monitoring the operations of universities in Wales, including their quality control and assurance arrangements. HEFCW will also be considering the wider issues that may be raised by this case, and I will be meeting the chair and chief executive, as I said, of the funding council again on 1 July to take stock of the position.

Wrth gwrs, mae goblygiadau difrifol posibl i dynnu statws dibynadwy iawn fel noddwr Prifysgol Glyndŵr yn ôl-statws y mae ymddiried mawr ynddo-nid yn unig i'r sefydliad, ond o ran enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Fewnfudo ar unwaith i fynegi fy mhryder am y modd y gwnaed y cyhoeddiad. Fel y dywedais, cefais gyfarfod â phrif weithredwr y cyngor cyllido addysg uwch brynawn ddoe ac rwyf wedi gofyn i CCAUC edrych ar y materion a gododd o'r datganiad ddoe. Mae CCAUC yn gyfrifol am fonitro gweithrediadau prifysgolion yng Nghymru, gan gynnwys eu trefniadau rheoli ansawdd a sicrwydd. Bydd CCAUC hefyd yn ystyried y materion ehangach a allai godi o'r achos hwn, a byddaf yn cyfarfod â chadeirydd a phrif weithredwr y cyngor cyllido, fel y dywedais, ar 1 Gorffennaf i ystyried y sefyllfa.

It would be inappropriate, however, for me to comment further on the details of the particular case when I understand that potential criminal proceedings are being considered.

Fodd bynnag, byddai'n amhriodol imi wneud sylwadau pellach ar fanylion yr achos penodol a minnau wedi cael ar ddeall fod achos troseddol posibl dan ystyriaeth.

14:59

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was very disappointed to hear that you had not had any prior warning of what was going to be announced, but then, that does not surprise me, given that the Home Office, for some unknown reason, just does not understand devolution. However, for me, the issue is the potential harm and damage to reputation, and not just of the institution and the wider HE sector, as I am more concerned about student satisfaction, which is used as an indicator of the performance of universities. While I understand that the Home Office has said that those overseas students who are currently studying at Glyndŵr will be allowed to stay, I wonder what the Welsh Government can do to ensure that those students will be looked after in what will obviously be a rapid-moving and uncertain time for them. I think their safety, security and reassurance are important in order for them to be able to continue with the studies they have come to do. So, I wonder how we, as a Government—or how you, as a Government—can support them through this difficult time.

Weinidog, roeddwn yn siomedig iawn o glywed nad oeddech wedi cael rhybudd ymlaen llaw o'r hyn a oedd yn mynd i gael ei gyhoeddi, ond wedyn, nid yw hynny'n syndod imi o gofio nad yw'r Swyddfa Gartref, am ryw reswm anhysbys, yn deall datganoli o gwbl. Fodd bynnag, i mi mae'r mater yn ymwneud â niwed posibl a niwed i enw da'r sefydliad a'r sector AU ehangach, ond yn waeth na hynny rwy'n poeni mwy am foddhad myfyrwyr, sy'n cael ei ddefnyddio fel dangosydd o berfformiad prifysgolion. Er fy mod yn deall bod y Swyddfa Gartref wedi dweud y bydd y myfyrwyr tramor sydd ar hyn o bryd yn astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr yn cael caniatâd i aros, tybed beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau y bydd y myfyrwyr hynny'n cael gofal yn yr hyn a fydd yn amlwg yn amser ansicr a chyfnewidiol iddynt. Rwy'n credu bod diogelwch a sicrwydd yn bwysig er mwyn iddynt allu parhau â'r astudiaethau y daethant yma ar eu cyfer. Felly, tybed sut y gallwn ni, fel Llywodraeth—neu sut y gallwch chi, fel Llywodraeth—eu cynorthwyo drwy'r cyfnod anodd hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, Presiding Officer, I am constrained in what I might be able to say in terms of the particular case, because of the potential criminal proceedings under consideration. However, of course, the needs and welfare of students would be very near the forefront of my mind in terms of how we proceed from this point, as would the educational, social and, indeed, economic needs of the north-east of Wales. I and my officials have had a series of discussions with Glyndŵr University and Coleg Cambria about the recommendations of the report by Sir Adrian Webb, since its publication last year. I regret that, so far, those institutions have not been able to agree a way forward that would deliver the ambitions for higher education in north-east Wales that I am sure we all share. That situation will, I hope, change.

Fel y dywedais, Lywydd, rwyf wedi fy nghyfyngu o ran yr hyn y gallaf ei ddweud am yr achos penodol oherwydd yr achos troseddol posibl sydd dan ystyriaeth. Fodd bynnag, byddai anghenion a lles myfyrwyr yn flaenllaw yn fy meddwl wrth gwrs o ran sut rydym yn symud ymlaen o'r pwynt hwn, fel y mae anghenion addysgol a chymdeithasol gogledd-ddwyrain Cymru, a'i hanghenion economaidd yn wir. Rwyf fi a fy swyddogion wedi cael cyfres o drafodaethau gyda Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria ynglŷn ag argymhellion yr adroddiad gan Syr Adrian Webb ers ei gyhoeddi y llynedd. Rwy'n gresynu nad yw'r sefydliadau hynny hyd yn hyn wedi gallu cytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n cyflawni'r uchelgeisiau rydym oll yn eu rhannu, rwy'n siŵr, ar gyfer addysg uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y sefyllfa honno'n newid.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:01

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Glyndŵr University—I am sure that you will celebrate the fact—has the highest proportion of young undergraduate entrants from state schools, the highest proportion from lower socioeconomic classes, and the highest proportion in Wales of students claiming disabled student allowance. However, because it has opted for low fee levels—£6,500 as against £9,000—it is absolutely dependent on the income that it derives from its overseas students. Given that the concern raised only applies to only some 3% of the total student numbers and less than 8% of its overseas student numbers, and given that it appears that the biggest problem might lie in its London campus, due to problems—I know that you cannot comment on possible criminal proceedings—with the intermediary company, how urgently will you, personally, be making direct representations to the UK Government on the basis of the facts that you are able to establish with the institution itself?

Rwy'n siŵr y byddwch yn dathlu'r ffaith mai Prifysgol Glyndŵr sydd â'r gyfran uchaf o newydd-ddyfodiad ifanc israddedig o ysgolion y wladwriaeth, y gyfran uchaf o fyfyrwyr o'r dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol is a'r gyfran uchaf yng Nghymru o fyfyrwyr sy'n hawlio lwfans myfyrwyr anabl. Fodd bynnag, oherwydd ei bod wedi dewis lefelau isel o ffioedd—£6,500 o gymharu â £9,000—mae'n hollol ddibynnol ar yr incwm a ddaw gan ei myfyrwyr tramor. O ystyried bod y pryder a godwyd ond yn berthnasol i oddeutu 3% o gyfanswm y myfyrwyr a llai nag 8% o'i myfyrwyr tramor, ac o ystyried ei bod yn ymddangos efallai mai'r broblem fwyaf yw ei champws yn Llundain oherwydd problemau—gwn na allwch roi sylwadau ar achos troseddol posibl—gyda'r cwmni cyfryngol, pa mor fuan y byddwch chi'n bersonol yn cyflwyno sylwadau uniongyrchol i Lywodraeth y DU ar sail y ffeithiau y gallwch eu cadarnhau gyda'r sefydliad ei hun?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:02

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as soon as is humanly possible, although, of course, I think that it would be wise to consider the outcome of that meeting with the chair and chief executive of the funding council, which I will be undertaking on 1 July.

Wel, cyn gynted ag sy'n feidrol bosibl, ond wrth gwrs, credaf y byddai'n ddoeth ystyried canlyniad y cyfarfod gyda chadeirydd a phrif weithredwr y cyngor cyllido y byddaf yn ei gynnal ar 1 Gorffennaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:02

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud, mae hyn yn fater o bwys i bob prifysgol yng Nghymru oherwydd enw da ein system addysg uwch. Nawr eich bod mewn cysylltiad â'r Swyddfa Gartref, Weinidog, a fedrwch chi gadarnhau a oes unrhyw brifysgol arall yng Nghymru sydd o dan unrhyw fath o amheuaeth yn y cyd-destun hwn?

As the Minister has just said, this is an important issue for every university in Wales because of the reputation of our higher education system. Now that you are in contact with the Home Office, Minister, can you confirm whether any other university in Wales is under any sort of suspicion in this context?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gan droi at yr hyn sydd wedi digwydd yn benodol ym Mhrifysgol Glyndŵr, rwy'n deall bod tua 2,000 o fyfyrwyr ar gampws yn Llundain sydd ynghlwm wrth y broblem hon. Mae'n bosibl iawn fod twyll o ryw fath wedi digwydd, ond, wedi dweud hynny, dyna 2,000 o fyfyrwyr a oedd i fod yn ddigon abl yn Saesneg i ddilyn cwrs prifysgol ym Mhrifysgol Glyndŵr. Beth felly sydd wedi mynd o'i le â'r gwaith o ddiogelu ansawdd y mae'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn gyfrifol amdano, a'r brifysgol ei hun? A fyddwch chi'n cynnal ymchwiliad i'r agwedd honno, sydd yn llwyr yng ngofal Gweinidogion a'r cyngor cyllido yma yng Nghymru?

Turning specifically to what has happened in Glyndŵr University, I understand that there are some 2,000 students on a campus in London involved in this problem. It is entirely possible that some sort of fraud has taken place, but, that said, those are 2,000 students who should have a sufficient level of English to follow a university course at Glyndŵr University. What, therefore, has gone wrong with the quality assurance that HEFCW is responsible for, and the university itself? Will you carry out an inquiry into that aspect, which is fully in the hands of Ministers and the funding council here in Wales?

15:03 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, these issues are in the hands of the funding council, and I will be pressing the funding council in terms of answers to some of those very important questions that Simon Thomas has raised. As regards the numbers and the figures that he has mentioned, I am not in a position to comment on the accuracy or otherwise of those. Although I am in contact with the Home Office formally speaking, I have literally been handed what looks like—let us see—about a 12-page communication from the Home Office as I have risen to make this statement. So, I cannot really deliver a considered answer to the Member at this point.

Wel, mae'r materion hyn yn nwylo'r cyngor cyllido a byddaf yn pwysu ar y cyngor cyllido i gael atebion i rai o'r cwestiynau pwysig iawn y mae Simon Thomas wedi'u codi. O ran y niferoedd a'r ffigurau y soniodd amdanynt, nid wyf mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar eu cywirdeb neu fel arall. Er fy mod mewn cysylltiad ffurfiol â'r Swyddfa Gartref, trosglwyddwyd yr hyn sy'n edrych fel—gadewch imi weld—cyfathrebiad 12 tudalen gan y Swyddfa Gartref yn llythrennol wrth i mi godi i wneud y datganiad hwn. Felly ni allaf roi ateb ystyriol i'r Aelod yn y fan hon.

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:04 **Cwestiwn Brys: Gwasanaeth Ambiwllans Cymru**

Urgent Question: The Welsh Ambulance Service

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to ask the urgent question.

Galwaf ar Darren Millar i ofyn y cwestiwn brys.

15:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o 8.4% ym mherfformiad Gwasanaeth Ambiwllans Cymru o ran ymateb i alwadau categori A? EAQ(4)0459(HSS)

Will the Minister make a statement on the 8.4% year on year drop in the performance of the Welsh Ambulance Service in responding to category A calls? EAQ(4)0459(HSS)

15:04 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

The ambulance response times for May are very disappointing. There is more that health boards can do, but the ambulance service itself needs to demonstrate urgent improvement. The key elements of the McClelland review have been put in place; it is now for the ambulance service to turn reforms into the required performance.

Mae amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Mai yn siomedig iawn. Mae mwy y gall byrddau iechyd ei wneud ond mae angen i'r gwasanaeth ambiwlans ei hun ddangos gwelliant ar frys. Mae elfennau allweddol o adolygiad McClelland wedi'u rhoi ar waith; mater i'r gwasanaeth ambiwlans yn awr yw cyflawni'r perfformiad sy'n ofynnol o'r diwygiadau.

15:05

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, it has been another month and yet another missed ambulance performance target, and this is for the month of May, when there was no snow, and no ice or widespread flooding to affect the transport network. In fact, you have now succeeded in presiding over the worst ambulance performance in any of the UK nations in recent history. We all know that minutes matter in terms of patient outcomes, particularly in serious situations such as heart attack, stroke or serious accident, where they can mean the difference between life and death. It has been over a year since the last Welsh ambulance service review. We were promised change; you have delivered some in terms of legislative change and arrangements for the accountability of the ambulance service, and those are things that have been very welcome, but there are also parts of the outcome of that review on which there was consensus in the Chamber, particularly in terms of the separation of clinical and non-clinical transport, which have yet to be taken forward. Tell us today, Minister: when will the people of Wales have an ambulance service that they are able to be proud of in terms of its performance?

Wel, Weinidog, mae wedi bod yn fis arall a tharged perfformiad ambiwlans arall wedi'i fethu, a hynny ar gyfer mis Mai, pan na chafwyd eira, na rhew na llifogydd eang i effeithio ar y rhwydwaith trafndiaeth. Yn wir, dyma berfformiad gwaethaf y gwasanaeth ambiwlans yn hanes diweddar unrhyw un o wledydd y DU yn digwydd o dan eich arolygiaeth chi. Rydym i gyd yn gwybod bod munudau'n bwysig o ran canlyniadau i gleifion, yn enwedig mewn sefyllfaoedd difrifol fel trawiad ar y galon, strôc neu ddamwain ddirifol, lle y gallant olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Mae dros flwyddyn ers yr adolygiad diwethaf o wasanaeth ambiwlans Cymru. Cawsom addewid o newid; rydych wedi cyflawni rhai o ran newid deddfwriaethol a threfniadau ar gyfer atebolrwydd y gwasanaeth ambiwlans, ac mae'r rhain yn bethau sydd i'w croesawu'n fawr, ond mae yna hefyd rannau o ganlyniadau'r adolygiad hwnnw lle y cafwyd consensws yn y Siambr, yn enwedig o ran gwahanu trafndiaeth glinigol ac anghlinigol, sydd eto i'w datblygu. Dywedwch wrthym heddiw, Weinidog: pa bryd y bydd pobl Cymru yn cael gwasanaeth ambiwlans y gallant fod yn falch ohono o ran ei berfformiad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar makes some important points about the elements that have been put in place to assist the ambulance service trust to do exactly what we would like it to do. Let me address the one specific question that he raised in relation to the disaggregation of patient transport responsibilities from the rest of ambulance performance. My ambition, and I think that it is an ambition shared across the Chamber, is to create an emergency medical service out of the Welsh ambulance trust. In order to be able to do that, the McClelland review said that aspects of patient transport—routine patient transport—should be transferred to local health boards. We have taken a proportionate approach to that in order to allow the ambulance trust to concentrate on the other changes that have been going on. I think that the time has now come to accelerate that change. I communicated that to the chief executive and chair of the ambulance trust when I met them earlier this week. I expect the report of the Win Griffiths work into patient transport to be published imminently, and we will act upon it.

Mae Darren Millar yn gwneud rhai pwyntiau pwysig am yr elfennau a roddwyd ar waith i gynorthwyo'r ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans i wneud yn union yr hyn yr hoffem iddi ei wneud. Gadewch imi fynd i'r afael â'r un cwestiwn penodol a gododd mewn perthynas â gwahanu cyfrifoldebau cludo cleifion oddi wrth weddill perfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Fy uchelgais i, ac rwy'n meddwl ei bod yn uchelgais a rennir ar draws y Siambr, yw creu gwasanaeth meddygol brys allan o ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru. Er mwyn gallu gwneud hynny, dywedodd adolygiad McClelland y dylid trosglwyddo agweddau ar gludiant cleifion—cludiant cleifion nad yw'n wasanaeth brys—i'r byrddau iechyd lleol. Rydym wedi defnyddio dull cymesur o weithredu hynny er mwyn galluogi'r ymddiriedolaeth ambiwlans i ganolbwyntio ar y newidiadau eraill sydd wedi bod yn digwydd. Rwy'n meddwl ei bod yn amser bellach i gyflymu'r newid hwnnw. Dywedais hynny wrth brif weithredwr a chadeirydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans pan gyfarfûm â hwy yn gynharach yr wythnos hon. Rwy'n disgwyl y bydd yr adroddiad ar y gwaith Win Griffiths ar gludo cleifion yn cael ei gyhoeddi'n fuan, a byddwn yn gweithredu arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it is not that long ago that you and I toured the new emergency quadrant at Ysbyty Glan Clwyd. When we talked to staff there, the issue of ambulances and the handover of patients from the paramedic ambulance services into the accident and emergency department was discussed, and concerns were raised at that point. However, we heard from staff that the improvements at the emergency quadrant at the hospital would make it easier—I will get it right this time—to assess to admit rather than admit to assess patients. If we are not meeting these targets, could you confirm whether the Welsh ambulance service has the resources, both in funding and staffing, that it needs to provide the service that people using the emergency quadrant at Ysbyty Glan Clwyd will expect?

Weinidog, nid oes cymaint â hynny o amser wedi mynd heibio ers i chi a minnau ymweld â chwadrant yr adran ddamweiniau ac achosion brys newydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Pan siaradasom â staff yno, trafodwyd mater ambiwlansys a throsglwyddo cleifion o'r gwasanaethau ambiwlans parafeddygol i'r adran ddamweiniau ac achosion brys a mynegwyd pryderon ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, clywsom gan staff y byddai'r gwelliannau yng nghwadrant brys yr ysbyty yn ei gwneud yn haws—caf hwy yn iawn y tro hwn—i asesu er mwyn derbyn yn hytrach na derbyn er mwyn asesu cleifion. Os nad ydym yn cyrraedd y targedau hyn, a allwch gadarnhau pa un a oes gan wasanaeth ambiwlans Cymru yr adnoddau, o ran cyllid a staffio, sydd eu hangen arno ar gyfer darparu'r gwasanaeth y bydd pobl sy'n defnyddio'r cwadrant brys yn Ysbyty Glan Clwyd yn ei ddisgwyl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I said in my original answer that there is more that health boards can do. We know that the ability of the Welsh ambulance service to discharge its responsibilities has been affected by handover delays. They have reduced significantly across Wales over the last 12 months, but a couple of difficult areas have remained: one has been at Glan Clwyd; the other is at the University Hospital of Wales in Cardiff. Both of those have had significant investment to develop new emergency departments. The one at Glan Clwyd has been open for three weeks; the Cardiff one opens fully this week. I certainly expect that those investments will lead to reductions in handover times and allow the ambulance trust to be back on the road meeting its obligations. I certainly can confirm to Ann Jones that significant investment has been made in the ambulance service in recent years in terms of equipment, in terms of revenue, and in terms of staffing. There were 79 extra staff last year and 119 new members of staff are planned to be recruited this year. I am pleased to be able to say this afternoon that, despite all the things that are said about the ambulance service, all 24 advanced paramedics who are on the Swansea University course and who will graduate in September of this year have been recruited by the Welsh Ambulance Services NHS Trust.

Dywedais yn fy ateb gwreiddiol fod rhagor y gallai byrddau iechyd ei wneud. Gwyddom fod gallu gwasanaeth ambiwlans Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau wedi cael ei effeithio gan achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion. Mae eu nifer wedi gostwng yn sylweddol ar draws Cymru dros y 12 mis diwethaf ond mae un neu ddau o fannau anodd yn parhau: un yw Glan Clwyd; y llall yw Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Buddsoddiwyd yn sylweddol yn y ddau er mwyn datblygu adrannau damweiniau ac achosion brys newydd. Mae'r un yng Nglan Clwyd wedi bod ar agor ers tair wythnos; mae'r un yng Nghaerdydd yn agor yn llawn yr wythnos hon. Rwy'n sicr yn disgwyl y bydd y buddsoddiadau hynny'n arwain at leihau amseroedd trosglwyddo ac yn galluogi'r ymddiriedolaeth ambiwlans i fod yn ôl ar y trywydd i gyflawni ei rhwymedigaethau. Gallaf gadarnhau'n sicr i Ann Jones fod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y gwasanaeth ambiwlans yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cyfarpar, referniw a staffio. Cafwyd 79 o staff ychwanegol y llynedd ac mae bwriad i recriwtio 119 aelod newydd o staff eleni. Er gwaethaf yr holl bethau sy'n cael eu dweud am y gwasanaeth ambiwlans, rwy'n falch o allu dweud y prynhawn yma fod pob un o'r 24 o uwch barafeddygon sydd ar gwrs Prifysgol Abertawe ac a fydd yn graddio ym mis Medi eleni wedi cael eu recriwtio gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych wedi dweud wrthym y prynhawn yma eich bod eisiau gweld gwelliant ar frys—'urgent improvement'—ym mherfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Nid oes dim am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn ymddangos yn arbennig o 'urgent' ar hyn o bryd, ac nid oes gwelliant mewn perfformiad wedi deillio o'r newidiadau a'r adolygiadau rydych wedi rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf. A fydddech yn fodlon diffinio i ni felly y prynhawn yma beth yw'ch disgwiliad o ran 'urgent improvement'? A ydych yn fodlon rhoi targed i chi'ch hun o ran 'urgent improvement', sef amserlen i bob pwrpas, i chi a'r gwasanaeth iechyd, ynghylch pryd rydych yn disgwyl gweld gwelliant mewn perfformiad? Sonioch eich bod wedi cwrrdd â chadeirydd a phrif weithredwr y gwasanaeth ambiwlans ddechrau'r wythnos hon. A wnaethoch chi osod amserlen iddyn nhw gwrrdd â'ch disgwiliad chi o 'urgent improvement'?

Minister, you have told us this afternoon that you wish to see 'urgent improvement' in the performance of the ambulance service. There is nothing about the performance of the ambulance service that appears particularly urgent at the moment, and all of the changes and reviews that you have put in place over the past year have not resulted in any improvement in performance. Would you therefore be willing to define for us this afternoon what you mean by 'urgent improvement'? Are you willing to give yourself a target in terms of urgent improvement, that is, a timetable to all intents and purposes, for yourself and for the health service, as to when you expect to see an improvement in performance? You mentioned that you had met with the chair and chief executive of the ambulance service earlier this week. Did you set a timetable for them to meet your expectations of 'urgent improvement'?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not only have I met with the chair and chief executive of the ambulance trust, but last week I met with Professor Siobhan McClelland both as the author of the review and now the chair of the Emergency Ambulance Services Committee for Wales. This morning, I met with representatives of all three major unions who work within the Welsh ambulance trust. I have said to them all that I expect an urgent improvement over the next three months. I do not want to be in the position of coming in front of this Assembly in September to find that the performance that we have seen in May, I am afraid, has continued into June as well. I do not want to be here having to explain to you why the ambulance service has not been able to make the necessary improvements.

Rwyf fi nid yn unig wedi cyfarfod â chadeirydd a phrif weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans, ond yr wythnos diwethaf cyfarfûm â'r Athro Siobhan McClelland fel awdur yr adolygiad ac yn awr fel cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys Cymru. Y bore yma, cyfarfûm â chynrychiolwyr o bob un o'r tri undeb mawr sy'n gweithio yn ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru. Rwyf wedi dweud wrth bob un ohonynt fy mod yn disgwyl gwelliant ar frys dros y tri mis nesaf. Nid wyf eisiau bod yn y sefyllfa o orfod dod gerbron y Cynulliad hwn ym mis Medi a chanfod bod y perfformiad a welsom ym mis Mai wedi parhau i mewn i fis Mehefin hefyd. Nid wyf eisiau dod yma i orfod esbonio i chi pam nad yw'r gwasanaeth ambiwlans wedi gallu gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

15:12

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have implemented governance reform, you have changed commissioning arrangements, you have given them more money, you have recruited more staff, and yet the figures published today are letting you down and they are letting the people of Wales down. What would success look like for you in the next three months? If the ambulance trust does not reach that benchmark, what action will you take?

Weinidog, rydych wedi diwygio trefniadau llywodraethu, rydych wedi newid y trefniadau comisiynu, rydych wedi rhoi mwy o arian iddynt, rydych wedi recriwtio rhagor o staff, ac eto mae'r ffigurau a gyhoeddwyd heddiw yn destun siom i chi ac yn destun siom i bobl Cymru. Beth y byddech chi'n ei ystyried yn llwyddiant dros y tri mis nesaf? Os nad yw'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn cyrraedd y meincnod hwnnw, pa gamau y byddwch yn eu cymryd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:12

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I just put a couple of things on the record? These are not try to gloss over the figures that have been published today, but it is true to say that the number of life-threatening calls made in May was the highest for 15 months. Forty per cent of all the calls that come in to the Welsh ambulance service are recorded as immediately life-threatening, yet what the unions said to me today is that, when their members go out on those calls and arrive to see people, the idea that 40% of them are in immediately life-threatening situations turns out not to be true at all. There were also more patients conveyed within eight minutes to hospital in May than in any other month this year.

A gaf fi gofnodi un neu ddau o bethau? Nid ymdrech i roi sglein ar y ffigurau a gyhoeddwyd heddiw yw'r rhain, ond mae'n wir dweud bod nifer y galwadau lle'r oedd bywydau yn y fantol a wnaed ym mis Mai yn uwch nag a fu ers 15 mis. Mae pedwar deg y cant o'r holl alwadau i wasanaeth ambiwlans Cymru yn cael eu cofnodi fel rhai lle y mae bywydau yn y fantol yn uniongyrchol ond dywedodd yr undebau hyn wrthyf heddiw: pan fydd eu haelodau'n ymateb i'r galwadau hynny ac yn cyrraedd i weld pobl, nid yw'r syniad fod 40% ohonynt yn sefyllfaoedd lle y mae bywydau yn y fantol yn uniongyrchol yn wir o gwbl wedi'r cyfan. Hefyd, trosglwyddwyd mwy o gleifion i ysbyty o fewn wyth munud yn ystod mis Mai nag yn ystod unrhyw fis arall eleni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

All that said, the points that Kirsty Williams makes are exactly the points that concern me. With all those things that have been put in place, we are not seeing the improvement that we are entitled to see. I indicated to Elin Jones what I had said to all those people I have met about the timescale within which I expect improvement. What I expect to see over that period is a recovery from where we have been in May and this month. I want to see performance improving month on month; I want July to be better than June, August to be better than July, and September to be better than the other two months. I think that if we can see that, and if we can see the ambulance trust recovering its performance with an upward trajectory, then I think there will be some understanding around this Chamber that the necessary improvements are being achieved.

Ar ôl dweud hyn oll, y pwyntiau a wnaeth Kirsty Williams yw'r union bwyntiau sy'n peri pryder i mi. Gyda'r holl bethau a roddwyd ar waith, nid ydym yn gweld y gwelliant y mae gennym hawl i'w weld. Dywedais wrth Elin Jones yr hyn a ddywedais wrth bawb rwyf wedi'u cyfarfod ynglŷn â'r cyfnod o amser rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn digwydd o'i fewn. Yr hyn rwy'n disgwyl ei weld dros y cyfnod hwnnw yw adferiad o ble rydym wedi bod yn ystod mis Mai a'r mis hwn. Rwyf am weld perfformiad yn gwella o fis i fis; rwyf am i fis Gorffennaf fod yn well na mis Mehefin, mis Awst yn well na mis Gorffennaf, a mis Medi'n well na'r ddau fis arall. Os gallwn weld hynny, ac os gallwn weld yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn gwella'i pherfformiad gan ddangos tuedd ar i fyny, yna rwy'n credu y bydd rhywfaint o ddealltwriaeth yn y Siambr hon fod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

15:14

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know I have raised with you on many occasions, but I feel I must again today, that ambulance response times in Monmouthshire, Torfaen and Blaenau Gwent are consistently the lowest. I know you have good intentions, but it does not help my constituents.

Weinidog, gwyddoch fy mod wedi codi'r mater hwn gyda chi ar sawl achlysur ond rwy'n teimlo rheidrwydd i wneud hynny eto heddiw. Amseroedd ymateb ambiwlansys yn Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent yw'r rhai isaf yn gyson. Gwn fod gennyhch fwriadau da, ond nid yw'n helpu fy etholwyr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

William Graham is absolutely right to point that out; I have discussed exactly this issue in the meetings that I have had. We have a national ambulance service for Wales, but the three regions under which it operates perform very differently. Performance even in the last two months in north Wales has shown some signs of positive improvement. In south-west Wales, performance has been holding its own in some places. However, the performance on a Welsh level is reduced by that concentration of problems that we see in the south-east. I said in my meeting with the trade unions today that I expect them to be partners with us in solving some of those deep-seated and intractable problems. I was very encouraged by the positive way in which they made a commitment to doing just that.

Mae William Graham yn gwbl gywir i dynnu sylw at hynny; rwyf wedi trafod yr union fater hwn mewn cyfarfodydd a gefais. Mae gennym wasanaeth ambiwlans cenedlaethol i Gymru, ond mae'r tri rhanbarth y mae'n gweithredu o'u mewn yn perfformio'n wahanol iawn i'w gilydd. Hyd yn oed yn y ddau fis diwethaf yng ngogledd Cymru, mae perfformiad wedi dangos rhai arwyddion o welliant cadarnhaol. Yn ne-orllewin Cymru, mae perfformiad wedi'i gynnal mewn rhai mannau. Fodd bynnag, mae perfformiad ar lefel Cymru yn cael ei waethygu oherwydd y crynodiad o broblemau a welwn yn y de-ddwyrain. Dywedais yn fy nghyfarfod gyda'r undebau llafur heddiw fy mod yn disgwyl iddynt fod yn bartneriaid gyda ni yn y gwaith o ddatrys rhai o'r problemau dwfn ac anhydrin hyn. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan y ffordd gadarnhaol yr ymrwymasant i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:15

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

**Dadl y Ceidwadwyr Cymreig:
Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-
filwyr**

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 4 yn enw Elin Jones, gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Lesley Griffiths.

**Welsh Conservatives Debate:
Armed Forces Personnel and
Veterans**

We selected the following amendments: Amendments 1 and 4 in the name of Elin Jones, amendment 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Lesley Griffiths.

15:15

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to move the motion.

Galwaf ar Andrew RT Davies i gynnig y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5534 Paul Davies

Motion NDM5534 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r digwyddiadau diweddar i goffáu D-Day, Diwrnod Lluoedd Arfog y DU a chanmlyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf;

1. Notes the recent D-Day Commemorations, the upcoming UK Armed Forces Day, and the centenary of the beginning of the First World War;

2. Yn gwerthfawrogi cyfraniadau milwyr o Gymru, yn ddynion a menywod, ac yn cydnabod yr anawsterau y gallant eu hwynebu ar ôl dychwelyd i fywyd sifil;

2. Values the contributions of Welsh servicemen and women and recognises the difficulties they may have upon returning to civilian life;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cynllun Cerdyn Cyn-filwyr i Gymru i alluogi:

3. Calls upon the Welsh Government to establish a Veterans' Card Scheme for Wales to enable:

a) ehangu'r cynllun prisiau consesiynol presennol i gynnwys cyn-filwyr

a) an expansion of the existing concessionary fares scheme to include veterans

b) mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol i gyn-filwyr

b) free entry for veterans to local authority swimming pools

c) mynediad am ddim i gyn-filwyr i safleoedd Cadw i gyn-filwyr

c) free entry for veterans to Cadw sites

d) blaenoriaeth o ran triniaeth ar gyfer cyflyrau/anafiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol ar y GIG

d) priority treatment for service related conditions/injuries on the NHS

e) blaenoriaeth o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i gyn-filwyr y mae angen addasiadau i'r cartref arnynt.

4. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r potensial i godi cofeb Gymreig yn yr Ardd Goed Genedlaethol yn Swydd Stafford, i gofio ac anrhydeddu'r holl ddynion a menywod dewr o Gymru a ymladdodd ac a gollodd eu bywydau yn gwasanaethu'r genedl.

e) priority delivery of Disabled Facilities Grants for veterans requiring home adaptations.

4. Further calls upon the Welsh Government to explore the potential to erect a Welsh memorial at the National Arboretum in Staffordshire, to remember and honour all the brave men and women from Wales who fought and lost their lives in service of the nation.

15:15

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

It is a very appropriate time to reflect on our armed services and, in particular, the sacrifices that many have made over many decades in defence of the values that we hold very dear to our good selves in this great democracy of ours. On the weekend, it is national Armed Forces Day. Last Saturday in north Wales, various Members from all the political parties celebrated Armed Forces Day. I am also told that today is national reservists' day—reservists have been encouraged to wear their uniform to work, something I did not realise until I heard it on the radio this morning. I, too, commend the excellent work that the reservists undertake on behalf of our full-time armed services. I had the pleasure of celebrating the royal salute in Cardiff castle a week last Saturday, which was undertaken by the reservist division from Newport.

I will deal with the amendments first, if I may. In the first instance, we will not be supporting amendment 1 in the name of Elin Jones. We will be supporting amendment 2, we will not supporting amendment 3 and we will be supporting amendment 4 in the name of Elin Jones.

Today, we are in a year where we are commemorating many acts of heroism. The D-day commemorations were only a couple of weeks ago and the commemorations around the ultimate sacrifice that many gave in opening the second front was magnified by the veterans who were able to attend those services on the Normandy beaches. This, I think, by most people's estimations, is most probably the last commemoration that many of those veterans will be able to attend, hence the D-day association's last official gathering. It is important that we maintain the link between the sacrifices that many made across the conflicts that our armed services have been involved in. With the link, as time progresses, becoming more and more stretched to be able to speak to people who actually participated in those conflicts, there is a duty, I would suggest, on the Government, and also on charities and people with the best interests of our armed services at heart, to make sure that there are education tools there and, above all, the ability to take excursions from schools and colleges out to the battlefields and the graveyards that are littered across the whole of the continent, because they amplify the sacrifice of the many thousands—the lost generation—who gave up their lives in the first and second world wars, and the fifty other conflicts that the British army has been involved in around the world since the second world war.

Cynigiau y cynnig.

Mae'n adeg briodol iawn i ystyried ein lluoedd arfog ac yn arbennig, aberth llawer o bobl dros sawl degawd yn amddiffyn y gwerthoedd a ystyriwn yn annwyl iawn yn y ddemocratiaeth fawr hon o'n heiddo. Ar y penwythnos, mae'n Ddiwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog. Ddydd Sadwrn diwethaf yng ngogledd Cymru, dathlodd nifer o Aelodau o bob plaid wleidyddol Ddiwrnod y Lluoedd Arfog. Dywedwyd wrthyf hefyd mai heddiw yw diwrnod cenedlaethol y milwyr wrth gefn—anogwyd milwyr wrth gefn i wisgo'u lifrai i'r gwaith, rhywbeth nad oeddwn yn ymwybodol ohono nes imi ei glywed ar y radio y bore yma. Rwyf hefyd yn cymeradwyo'r gwaith rhagorol y mae'r milwyr wrth gefn yn ei wneud ar ran ein gwasanaethau arfog amser llawn. Cefais y pleser o ddatlu'r salwt brenhinol yng nghastell Caerdydd wythnos i ddydd Sadwrn diwethaf, a gynhaliwyd gan adran Casnewydd o'r milwyr wrth gefn.

Hoffwn ymdrin â'r gwelliannau yn gyntaf, os caf. Yn y lle cyntaf, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Elin Jones. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 3, a byddwn yn cefnogi gwelliant 4 yn enw Elin Jones.

Heddiw, rydym mewn blwyddyn lle rydym yn coffáu sawl gweithred o arwriaeth. Dim ond cwpl o wythnosau sydd ers digwyddiadau coffa D-day ac ychwanegwyd at y digwyddiadau coffa a oedd yn ymwneud â'r aberth eithaf a wnaed gan lawer wrth agor yr ail ffrynt gan y cyn-filwyr a allodd fynychu'r gwasanaethau hynny ar draethau Normandi. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno, rwy'n meddwl, ei bod yn fwy na thebyg mai dyma'r digwyddiadau coffa olaf y bydd llawer o'r cyn-filwyr hyn yn gallu eu mynychu, a dyna pam y cynhaliodd y gymdeithas D-day ei chyfarfod swyddogol olaf. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal y cyswllt rhwng yr aberth a wnaed gan lawer ar draws y rhyfeloedd y mae ein gwasanaethau arfog wedi bod yn rhan ohonynt. Gyda'r cyswllt hwn yn gwanychu fwyfwy, wrth i amser fynd heibio, o ran gallu siarad â phobl a gymerodd ran yn y brwydrau hyn, byddwn yn awgrymu fod dyletswydd ar y Llywodraeth, a hefyd ar elusennau a phobl sy'n gweithio er lles ein lluoedd arfog, i wneud yn siŵr fod yna adnoddau addysgol yno ac yn anad dim, y gallu i fynd â grwpiau o ysgolion a cholegau allan i feysydd y gad a'r mynwentydd sy'n frith ar draws y cyfandir, am eu bod yn tynnu sylw at aberth y miloedd lawer-y genhedlaeth golla roddodd eu bywydau yn y rhyfel byd cyntaf a'r ail, a'r hanner cant o ryfeloedd eraill y mae byddin Prydain wedi bod yn rhan ohonynt o gwmpas y byd ers yr ail ryfel byd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is a unique opportunity this Saturday for many to be able to focus on the dedication in the various services that will be held across the whole of the United Kingdom. Stirling is the centre of the national commemorations, but, as I have said, there will be services across the whole of Wales. It was a tribute that we were able to pay here in south Wales when the national day was held here back in 2010. It was held in Roald Dahl Plass and many people will remember the magnificent display put on by the battle of Britain formation that flew over the Senedd and out across Cardiff. Anyone who heard the drone of the engines of the Lancaster bomber that forms part of that display could only stand in awe at what that display reminds us of.

I would also call on everyone here today to use this opportunity to reflect on what part we can all play as Members within our communities in the commemorations that will be taking place in August and over the next four years for the centenary of the first world war. It is easy, almost, for people in today's twenty-first century to look back, reflect and cast doubt and aspersions on some of the motivation that was behind the conflict. I ultimately believe that it was a just conflict. It stood up against aggression—aggression from one part of Europe that sought to dominate some of the democracies and, ultimately, the allies prevailed and I do believe that Europe and the world was a safer place. However, ultimately, when you look at the numbers that were involved who laid down their lives, we cannot feel anything but horror when we look at the sheer magnitude of death and injury that befell those many, many millions of people who went forward to fight in that conflict. In particular, there was a huge sacrifice on the home front by the many industries here that had to provide the food, for example, and the energy via the coal mines and keep the domestic economy going, because it was a whole nation behind our armed services that ultimately allowed democracy to prevail. It is that ability for democracy to prevail that has led Britain to be at the centre of many of the battles across the globe. As I said, there have been 50 since the second world war.

It is with huge pride, as I lead the Assembly group here, that the Conservative council was one of the first councils in Wales to sign up to the armed forces covenant, and I pay tribute to the former councillor, Councillor Janice Charles, who was instrumental in her cabinet position at that time in being at the forefront of bringing forward the armed services community covenant, which all local authorities are now signed up to. I also pay tribute to the excellent work that the Royal British Legion has undertaken in making sure that that has been brought in across the whole of Wales. However, it needs to be more than just a piece of paper. It needs to jump off that piece of paper and ultimately be a covenant that is ingrained in the thinking of local authorities in the way they develop their services and the way they promote remembrance and the activities of our armed services and in making sure that the link between remembrance and understanding is never broken because, if we fail to understand the sacrifices that many of our fellow citizens have made, we can only go down a very slippery slope of entering into further conflict around the globe.

Mae'n gyfle unigryw y Sadwrn hwn i lawer allu canolbwyntio ar yr ymroddiad mewn gwahanol wasanaethau a gynhelir ar draws y Deyrnas Unedig. Stirling yw canolbwynt y digwyddiadau coffa cenedlaethol, ond fel y dywedais, cynhelir gwasanaethau ar draws Cymru gyfan. Roedd yn deyrnged y gallem ei thalu yma yn ne Cymru pan gynhaliwyd y diwrnod cenedlaethol yma yn ôl yn 2010. Cafodd ei gynnal yn Roald Dahl Plass a bydd llawer o bobl yn cofio'r arddangosfa ysblennydd gan yr awyrennau Brwydr Prydain a hedfanodd dros y Senedd ac allan ar draws Caerdydd. Ni allai neb a glywodd rwm peiriannau'r awyren fomio Lancaster sy'n rhan o'r arddangosfa ond arswydo at yr hyn roedd yr arddangosfa honno'n ein hatgoffa ohono.

Byddwn hefyd yn galw ar bawb yma heddiw i ddefnyddio'r cyfle hwn ystyried y rhan y gallwn i gyd fel Aelodau ei chwarae yn ein cymunedau yn y digwyddiadau coffa a gynhelir yn ystod mis Awst a thros y pedair blynedd nesaf dros ganmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf. Bron nad yw'n hawdd i bobl heddiw yn yr unfed ganrif ar hugain edrych yn ôl, adlewyrchu a thaenu amheuaeth dros beth o'r cymhelliant a oedd yn sail i'r gwrthdaro. Yn y pen draw, credaf ei fod yn wrthdaro cyfiawn. Safai yn erbyn ymddygiad ymosodol—ymddygiad ymosodol un rhan o Ewrop a geisiai dra-arglwyddiaethu ar rai o'r gwledydd democrataidd ac yn y pen draw, llwyddodd y cynghreiriaid ac rwy'n credu bod Ewrop a'r byd yn lle mwy diogel. Fodd bynnag, yn y pen draw, pan edrychwch ar y niferoedd a aberthodd eu bywydau, ni allwn deimlo dim ond arswyd wrth edrych ar anferthedd y nifer a fu farw ac a anafwyd o blith y miliynau lawer a aeth i ymladd yn y gwrthdaro hwnnw. Cafwyd aberth enfawr ar y ffrynt cartref yn arbennig gan y diwydiannau niferus yma y bu'n rhaid iddynt ddarparu'r bwyd, er enghraifft, a'r ynni drwy gyfrwng y glofeydd a chadw'r economi ddomestig i fynd, oherwydd mai'r genedl gyfan y tu cefn i'n gwasanaethau arfog a ganiataodd i ddemocratiaeth ennill y dydd yn y pen draw. Y gallu hwn i ddemocratiaeth ennill y dydd sydd wedi arwain Prydain i fod yn ganolog mewn llawer o frwydrau ar draws y byd. Fel y dywedais, mae wedi bod yn 50 mlynedd ers yr ail ryfel byd.

Gyda balchder mawr, gan fy mod yn arwain y grŵp yn y Cynulliad yma, y nodaf mai cyngor Ceidwadol oedd un o'r cynghorau cyntaf yng Nghymru i ymuno â chyfamod y lluoedd arfog ac rwy'n talu teyrnged i'r cyn-gynghorydd Janice Charles a oedd yn allweddol yn ei swydd yn y cabinet ar y pryd ac ar flaen y gad yn cyflwyno cyfamod cymuned y lluoedd arfog y mae pob awdurdod lleol bellach wedi ymrwymo iddo. Rwy'n talu teyrnged hefyd i waith rhagorol y Llenng Brydeinig Frenhinol yn gwneud yn siŵr bod hynny'n cael ei gyflwyno ledled Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae angen iddo fod yn fwy na darn o bapur yn unig. Mae angen iddo neidio oddi ar y darn hwnnw o bapur ac yn y pen draw, i fod yn gyfamod sy'n rhan annatod o feddylfryd awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn datblygu eu gwasanaethau a'r ffordd y maent yn hyrwyddo digwyddiadau coffa a gweithgareddau ein lluoedd arfog ac i wneud yn siŵr nad yw'r cyswllt rhwng coffa a dealltwriaeth byth yn cael ei dorri, oherwydd os methwn â deall yr aberth a wnaeth llawer o'n cyd-ddinasyddion, ni wnawn ond llithro dros y dibyn i ryfeloedd pellach o gwmpas y byd.

Moving on, the third part of the motion is the long-standing Conservative ambition or goal—call it what you will—to establish a veterans card here in Wales. We believe that this scheme would greatly enhance access to medical services here in Wales for ex-service personnel. It would also show the high regard their commitment and service have been held in by society by offering various schemes, such as admission to Cadw sites, free swimming at swimming pools, concessionary fares schemes for veterans and, importantly, the delivery of disabled facilities grants. Some of those things sound relatively minor, but there is huge symbolism in being able to deliver those sorts of benefits in the very communities that many of our ex-service personnel live in. If you look at the numbers across Wales, we are looking at about 220,000 veterans across the whole of Wales. There are currently still 5,000 regular service personnel in our armed forces from Wales and 3,000 reservists as well supporting the regular armed services. I notice that the Government, in its amendment today, is seeking to delete part of the motion that calls for this veterans card to be brought forward. I do think that it is time now that the Government responds positively on this. I do take the Minister at her word when she says that she has her expert group looking at this, but I point out to the Minister that the previous Minister was also looking at it and that the previous Minister before that was looking at this veterans card scheme. I do think that, now, especially in a year of commemorations of many of the great sacrifices, is time for the Minister to show faith and ultimately deliver on this pledge, which I do not think finds any objection across the whole of the Chamber.

We also believe passionately in the ability to develop a comprehensive pathway for healthcare and, in particular, for the treatment of post-traumatic stress disorder. The former Health, Wellbeing and Local Government Committee in the last Assembly did a very extensive piece of work in this field, and I know that the former Minister for health, who is in her place today, also looked at the recommendations and delivered on many of them. Along with the work of the Royal British Legion, Help for Heroes and other charities across Wales have been doing their best to make sure that that help is there for sufferers of PTSD. However, it is worth remembering that most instances of PTSD do not happen for a considerable time after the event—some 12 or 13 years on average is what is quoted in the medical evidence that was given to that committee—and, very often, it can be a lifelong issue that needs to be addressed with the support and care packages that need to be put in place.

Finally, the last part of the motion today calls on the Welsh Government to look at the establishment of a national memorial at the National Memorial Arboretum in Staffordshire. We believe that this is worthy of exploration by the Government. The national arboretum in Staffordshire really has become a focal point, not just for the armed services, but also for many of the organisations that have supported our armed services, whether they are the police, the ambulance service, which we talked about during the urgent question today, or some of the other civilian aspects of society that create a whole approach in supporting our armed services in their endeavours. It was set up in 1994 and was finally commissioned and opened to the public in May 2001. It stretches over 150 acres of land.

Gan symud ymlaen, trydedd ran y cynnig yw uchelgais neu nod—fel y mynnwch—hirsefydlog y Ceidwadwyr o sefydlu cerdyn i gyn-filwyr yma yng Nghymru. Credwn y byddai'r cynllun hwn yn gwella mynediad at wasanaethau meddygol yn fawr yma yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog. Byddai hefyd yn dangos y parch mawr sydd i'w hymrwymiad a'u gwasanaeth yn y gymdeithas drwy gynnig amryw o gynlluniau, megis mynediad i safleoedd Cadw, nofio am ddim mewn pyllau nofio, cynlluniau tocynnau rhatach ar gyfer cyn-filwyr ac yn bwysig, darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae rhai o'r pethau hyn yn swnio'n gymharol fach, ond mae symbolaeth enfawr mewn gallu darparu'r mathau hyn o fuddion yn yr union gymunedau y mae llawer o'n cyn-filwyr yn byw ynddynt. Os edrychwch ar y niferoedd ar draws Cymru, mae tua 220,000 o gyn-filwyr ar draws Cymru gyfan. Mae'n dal i fod 5,000 o filwyr rheolaidd ar hyn o bryd yn ein lluoedd arfog o Gymru a 3,000 o filwyr wrth gefn hefyd yn cefnogi'r lluoedd arfog rheolaidd. Sylwaf fod y Llywodraeth, yn ei gwelliant heddiw, yn ceisio dileu rhan o'r cynnig sy'n galw am gyflwyno'r cerdyn i gyn-filwyr. Rwy'n credu ei bod yn bryd yn awr i'r Llywodraeth ymateb yn gadarnhaol i hyn. Rwy'n derbyn gair y Gweinidog pan ddywed fod ganddi ei grŵp arbenigol yn edrych ar hyn, ond rwy'n tynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith bod y Gweinidog blaenorol hefyd wedi edrych arno a bod y Gweinidog blaenorol cyn hynny wedi edrych ar y cynllun cardiau i gyn-filwyr. Erbyn hyn bellach, yn enwedig mewn blwyddyn o ddiwyddiadau i goffâu llawer o'r aberthau mawr, rwy'n credu ei bod yn bryd i'r Gweinidog ddangos ffydd ac yn y pendraw, i gyflawni'r addewid hwn nad wyf yn credu bod unrhyw wrthwynebiad iddo ar draws y Siambr gyfan.

Rydym hefyd yn credu'n gryf yn y gallu i ddatblygu llwybr cynhwysfawr ar gyfer gofal iechyd ac yn arbennig, ar gyfer trin anhwylder straen wedi trawma. Gwnaeth y cyn-Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn y Cynulliad diwethaf waith helaeth yn y maes hwn a gwn hefyd fod y cyn-Weinidog iechyd, sydd yn ei sedd heddiw, wedi edrych ar yr argymhellion ac wedi cyflawni llawer ohonynt. Yn ogystal â gwaith y Lleng Brydeinig Frenhinol, mae Help for Heroes ac elusennau eraill ledled Cymru wedi bod yn gwneud eu gorau i sicrhau bod cymorth ar gael i ddiodeffwyr Anhwylder Straen Wedi Trawma. Fodd bynnag, mae'n werth cofio nad yw'r rhan fwyaf o achosion o Anhwylder Straen Wedi Trawma yn digwydd am gryn amser ar ôl y digwyddiad—tua 12 neu 13 mlynedd ar gyfartaledd yw'r hyn a ddyfynnir yn y dystiolaeth feddygol a roddwyd i'r pwyllgor—ac yn aml iawn, mae'n fater gydol oes sydd angen mynd i'r afael ag ef drwy'r pecynnau cymorth a gofal y mae angen eu rhoi ar waith.

I orffen, mae rhan olaf y cynnig heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar sefydlu cofeb genedlaethol yn yr Ardd Goed Genedlaethol yn Swydd Stafford. Credwn fod hyn yn haeddu sylw'r Llywodraeth. Mae'r ardd goed genedlaethol yn Swydd Stafford wedi dod yn ganolbwynt, nid yn unig ar gyfer y gwasanaethau arfog, ond hefyd ar gyfer llawer o'r sefydliadau sydd wedi cefnogi ein lluoedd arfog, yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans y buom yn siarad amdano yn ystod y cwestiwn brys heddiw neu rai o agweddau sifil eraill o gymdeithas sy'n creu agwedd gyfan o ran cefnogi ein lluoedd arfog yn eu hymdrechion. Sefydlwyd yr ardd yn 1994 a chafodd ei chomisynu'n derfynol a'i hagar i'r cyhoedd ym mis Mai 2001. Mae'n ymestyn dros 150 erw o dir.

There are many memorials at the national arboretum and regrettably, there is not one dedicated to Welsh service personnel. From what I have learnt and understood about the national arboretum, I believe that it is now time that it is championed by the Welsh Government to bring forward a memorial at such a significant point of remembrance for the country. The Queen obviously dedicated the national armed forces memorial on 12 October at the National Memorial Arboretum. Therefore, I hope that the Minister will show a favourable response to that part of the motion and will look to explore the possibility of establishing such a memorial.

With those few comments, I bring this motion before the house today and I look forward to the contributions from fellow Members.

Mae llawer o gofebion yn yr ardd goed genedlaethol ac yn anffodus, nid oes un ar gyfer milwyr y lluoedd arfog o Gymru. O'r hyn a ddysgais ac a ddeallais am yr ardd goed cenedlaethol, rwy'n credu ei bod yn bryd i Lywodraeth Cymru ei hyrwyddo yn awr er mwyn cyflwyno cofeb ar adeg coffa mor arwyddocaol i'r wlad. Y Frenhines, mae'n amlwg, a gyflwynodd y gofeb genedlaethol i'r lluoedd arfog ar 12 Hydref yn yr Ardd Goed Genedlaethol. Felly rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn dangos ymateb ffafriol i'r rhan honno o'r cynnig ac y bydd yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cofeb o'r fath.

Gyda'r ychydig sylwadau hynny, rwy'n cyflwyno'r cynnig gerbron y tŷ heddiw ac rwy'n edrych ymlaen at gyfraniadau fy nghyd-Aelodau.

15:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Lindsay Whittle to move amendments 1 and 4, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliannau 1 a 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn gresynu at y ffaith bod toriadau i fudd-daliadau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys y dreth ystafell wely, yn effeithio ar gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd.

Regrets that cuts to benefits for disabled people, including the imposition of the bedroom tax, are affecting veterans and serving members of the Armed Forces.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 4 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd ag Anhwylder Straen wedi Trawma.

Calls on the Welsh Government to ensure that the health service provides adequate support for veterans with Post Traumatic Stress Disorder.

15:26

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendments 1 and 4.

Cynigiau welliannau 1 a 4.

I am pleased that the Conservative party has brought this motion before this house today. During the course of the debate, I and other Plaid Cymru Members will give reasons why we want those amendments supported.

Rwy'n falch bod y blaid Geidwadol wedi dod â'r cynnig hwn gerbron y tŷ heddiw. Yn ystod y ddadl, byddaf fi ac Aelodau eraill Plaid Cymru yn rhoi rhesymau pam ein bod am gefnogi'r gwelliannau hynny.

I am very proud to say that just over four years ago, I visited our troops in Afghanistan. I have mentioned this before in the Chamber. I think that I am still the only Welsh politician to do so and I did not fly in in the morning and fly out at night, as many politicians do when they go to these places to support our troops. I spent five days there visiting Camp Souter, the International Security Assistance Force camp, Camp Bastion, Kabul and Kandahar. I visited those areas and flew during the visits at night, because of the dangers to the visiting party that I was with. I can tell you, in parts, it was quite hair-raising.

May I tell you that lots of my friends and family were very concerned indeed about my personal safety and were worried? I was there for five days. What do the families of some of our troops who are there for six months at a time feel? My family say that they dreaded the telephone ringing—for a mere five days. These families of our young people are in that situation for six months at a time; they must be going through living hell, at times—a living hell. I can assure you that it was an honour and a privilege to have spoken to about 30 different Welsh troops from all parts of Wales, as well as to troops from other parts of Britain.

I am very glad to see that the Welsh Government is taking some action to reduce waiting times in some parts of Wales for some of our veterans suffering from post-traumatic stress disorder. I know that additional money is being made available for further psychological help. I have a fear that this is too Cardiff-centric and I think that that is very worrying, as I said. When I visited, I only spoke to one soldier from Cardiff. She was a local girl from Llandaf, actually. Nevertheless, all of the rest were from other parts of Wales. I think that the money that we are being offered is too little, sadly, and is tragically too late for some of the young men and women who may have suffered up to the point of taking their own lives. Oh, how we owe them and their families an apology.

I do not think it is all about the Welsh NHS picking up the financial tab here; I believe that the Ministry of Defence has a duty of care too. When we left Afghanistan, I was in a hangar with about 500 or 600 troops and the five or six visitors from Wales and other countries in the United Kingdom, and we were made to watch a 15-minute video on post-traumatic stress disorder—a 15-minute video. Well, it should be a little bit more than that, I would respectfully suggest.

I do not think that there is an excuse for ex-service personnel to have to wait up to half a year to get more access to help and treatment in certain health board areas, and I want to see an end to the postcode lottery in Wales. Now, obviously, we would not oppose veterans having free entry to certain facilities in Wales—that is commendable—but, really, our main concern is to make it absolutely clear to veterans, from all conflicts, that, whatever happens, they will be assured of medical and/or psychological help not just if they need it, but when they need it.

Ychydig dros bedair blynedd yn ôl, rwy'n falch iawn o ddweud fy mod wedi ymweld â'n milwyr yn Affganistan. Rwyf wedi crybwyll hyn o'r blaen yn y Siambr. Rwy'n meddwl mai fi yw'r unig wleidydd o Gymru o hyd i wneud hynny ac nid hedfan yno yn y bore a hedfan oddi yno yn y nos a wneuthum, fel y mae llawer o wleidyddion yn ei wneud pan fyddant yn mynd i'r lleoedd hyn i gefnogi ein milwyr. Treuliais bum diwrnod yno yn ymweld â Gwersyll Souter, gwersyll Diogelwch Rhyngwladol Cymorth yr Heddlu, Gwersyll Bastion, Kabul a Kandahar. Ymwelais â'r ardaloedd hynny gan hedfan yn y nos yn ystod yr ymweliadau, oherwydd y peryglon i'r parti ymweld roeddwn i'n rhan ohono. Gallaf ddweud wrthyhych, ar adegau, roedd yn ddigon i godi gwallt eich pen.

A gaf fi ddweud wrthyhych fod llawer o fy ffrindiau a fy nheulu yn bryderus iawn yn wir am fy niogelwch personol ac yn poeni? Roeddwn i yno am bum niwrnod. Beth y mae teuluoedd rhai o'n milwyr sydd yno am chwe mis ar y tro yn ei deimlo? Mae fy nheulu'n dweud eu bod yn arswydo rhag i'r ffôn ganu—am bum niwrnod yn unig. Mae teuluoedd ein pobl ifanc yn y sefyllfa honno am chwe mis ar y tro; rhaid eu bod yn byw drwy uffern ar adegau—uffern byw. Gallaf eich sicrhau ei bod yn faint ac yn anrhydedd siarad ag oddeutu 30 o wahanol filwyr o bob rhan o Gymru yn ogystal â milwyr o rannau eraill o Brydain.

Rwy'n falch iawn o weld bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i leihau amseroedd aros mewn rhannau o Gymru ar gyfer rhai o'n cyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Gwn fod arian ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth seicolegol pellach. Mae gen i fon fod hyn yn rhy Gaerdydd-ganolog ac rwy'n credu bod hynny'n peri pryder mawr, fel y dywedais. Dim ond ag un milwr o Gaerdydd y siaredais pan ymwelais â hwy. Merch leol o Landaf oedd hi, fel y mae'n digwydd. Serch hynny, dôl pob un o'r lleill o rannau eraill o Gymru. Rwy'n credu bod yr arian sy'n cael ei gynnig inni'n rhy ychydig, yn anffodus, ac mae'n rhy hwyr, gwaetha'r modd, ar rai o'r dynion a merched ifanc sydd wedi dioddef hyd at gymryd eu bywydau eu hunain o bosibl. O, mae arnom gymaint o ymddiheuriad iddynt a'u teuluoedd.

Nid wyf yn credu mai mater o GIG Cymru yn talu'r gost ariannol yw hyn i gyd; credaf fod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddyletswydd gofal hefyd. Pan adawsom Affganistan, roeddwn mewn awyrennyd gyda thua 500 neu 600 o filwyr a'r pum neu chwe ymwelwr arall o Gymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, a bu'n rhaid inni wlylo fideo 15-munud ar anhwylder straen wedi trawma—fideo 15 munud. Wel, dylai fod ychydig yn hwy na hynny, os caf fi awgrymu'n barchus.

Nid wyf yn meddwl bod esgus dros wneud i gyn-filwyr aros hyd at hanner blwyddyn i gael mwy o fnyediad at help a thriniaeth mewn rhai byrddau iechyd ac rwyf am weld diwedd ar y loteri cod post yng Nghymru. Nawr, yn amlwg, ni fyddem yn gwrthwynebu i gyn-filwyr gael mynediad am ddim i gyfleusterau penodol yng Nghymru—mae hynny'n ganmoladwy—ond mewn gwirionedd, yr hyn sydd bwysicaf yw ei gwneud yn gwbl eglur i gyn-filwyr o bob gwrthdaro fod sicrwydd o gymorth meddygol a/neu seicolegol iddynt beth bynnag sy'n digwydd, nid yn unig os ydynt ei angen, ond pan fydd ei angen arnynt.

The official figure of 4% of veterans in Wales suffering from PTSD must be an underestimate. We know from the statements of the many veterans who visit us in our surgeries that many are very reluctant, for various reasons—some obvious reasons—to talk about their problems. These problems are more often likely to be complex, and need, for me anyway, to have what we would call a holistic approach to treatment and support.

Plaid Cymru has actually produced a paper on support for veterans, and we have suggested a number of initiatives: first, mandatory health assessments as part of the discharge process—not just a 15-minute video film, please, and a phone number to contact; secondly, specialist support officers to conduct regular check-ups post-discharge, with appropriate advice and support; and, thirdly, initiatives to tackle substance and alcohol misuse. While we have also recommended a military wellbeing Act to safeguard the rights of armed forces—

Rhaid bod y ffigwr swyddogol sy'n nodi bod 4% o gyn-filwyr Cymru yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn amcangyfrif rhy isel. Gwyddom o ddatganiadau nifer o gyn-filwyr sy'n ymweld â ni yn ein cymorthfeydd fod llawer yn amharod iawn, am amryw o resymau—rhai rhesymau amlwg—i siarad am eu problemau. Mae'r problemau hyn gan amlaf yn debygol o fod yn gymhleth, ac i mi beth bynnag, maent yn galw am yr hyn y byddem yn ei alw'n agwedd gyfannol tuag at driniaeth a chymorth.

Mae Plaid Cymru wedi cynhyrchu papur ar gefnogi cyn-filwyr ac rydym wedi awgrymu nifer o fentrau: yn gyntaf, asesiadau iechyd gorfodol fel rhan o'r broses ryddhau—nid dim ond ffilm fideo 15 munud, os gwelwch yn dda, a rhif ffôn ar gyfer cysylltu; yn ail, swyddogion cymorth arbenigol i gynnal archwiliadau rheolaidd ar ôl rhyddhau, gyda chynngor a chymorth priodol; ac yn drydydd, mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol. Er ein bod hefyd wedi argymhell Deddf lles milwrol i ddiogelu hawliau'r lluoedd arfog—

15:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:31 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am winding up.

Rwy'n dirwyn i ben.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—and their families to ongoing aftercare, legal advice, counselling support, as well as improved compensation and, of course, decent housing.

[Parhau.]—a'u teuluoedd i ôl-ofal parhaus, cyngor cyfreithiol, cymorth cwnsela, yn ogystal â gwell iawndal ac wrth gwrs, tai gweddus.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Peter Black to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yn Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU am gynigion ar gyfer Bil Cwynion am Wasanaethau, er mwyn gwella'r system gwynion yn y Lluoedd Arfog drwy sefydlu Ombwdsmon ar gyfer milwyr.

Welcomes the announcement in the UK Government's Legislative Programme of proposals for a Service Complaints Bill to improve the complaints system in the Armed Forces through the creation of an Ombudsman for service personnel.

15:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2 in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliant 2 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Welsh Conservatives for tabling the motion today. With Armed Forces Day in a couple of days' time, on 28 June, this is obviously very timely, and I think that it is becoming an annual occasion in this Chamber.

Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r cynnig heddiw. Gyda Diwrnod y Lluoedd Arfog ymhen deuddydd, ar 28 Mehefin, mae hyn yn amlwg yn amserol iawn ac rwy'n credu ei fod yn dod yn achlysur blynyddol yn y Siambur hon.

These regular debates give us an opportunity to acknowledge the immense contribution to our country made by serving members and veterans of the armed forces, and provide an opportunity for us to thank the brave men and women who serve, and who have served, in the armed forces community in Wales, and their families—as I think Lindsay has just made clear—in terms of the anxiety that they often suffer, for the contribution, commitment, and sacrifice that they make, and have made. So, on behalf of myself and the Welsh Liberal Democrats I would just like to say ‘thank you’ to all of them.

These debates also provide an opportunity for us to be updated on the various issues around the armed forces personnel, their families, and veterans. As such, I welcome the fact that we are again talking about a veterans card for Wales, which I think can make an important contribution and which we very much support in principle. However, we do think that there is still a need for more detailed information, and I would echo Andrew R.T. Davies’s plea for the information to become available. I think that this is possibly the third time that we have debated this veterans card, and we have, on each occasion, been told that we need that detail and that that detail will be forthcoming. That has not happened yet.

So, although we will be supporting amendment 3, because we do need to have that detail, I do think that, this time, the detail needs to come forward far more quickly than it has done in the past. We also need to have some idea of the cost and scope of such a veterans card and of how it can be implemented across Wales. Certainly, I hope that we are able to do something on that, but, without having that detail, we cannot support what is in the motion as it is written. However, we certainly want to have that information so that we can take that forward.

I would also like the Minister for local government to update us on what she discussed with the task and finish group in January, where this and many other issues were discussed. As I understand it, there was talk of a pilot scheme for this card. So, if a pilot scheme is in the offing, then maybe the Minister will be able to tell us about that.

Turning to our amendment, it calls on the National Assembly for Wales to support us in welcoming the announcement in the UK Government’s legislative programme in this year’s Queen’s Speech proposing a service complaints Bill to improve the complaints system in the armed forces through the creation of an ombudsman for service personnel. I think that that is a very important announcement and it will certainly be a much-needed change in the service complaints system, after many years of this issue not being addressed. This will, hopefully, make a big difference in terms of enabling service personnel to bring forward issues that they have and to make sure that they are being dealt with.

Mae'r dadleuon rheolaidd yn rhoi cyfle i gydnabod cyfraniad aruthrol aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y lluoedd arfog i'n gwlad, ac yn rhoi cyfle inni ddiolch i'r dynion a'r menywod dewr sy'n gwasanaethu, ac sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yng Nghymru a'u teuluoedd—fel yr eglurodd Lindsay—o ran y pryder y maent yn aml yn ei ddiodef, am eu cyfraniad, eu hymrwymiad a'u haberth. Felly, ar ran fy hun a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hoffwn ddweud 'diolch yn fawr' wrth bob un ohonynt.

Mae'r dadleuon hyn hefyd yn rhoi cyfle inni gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion amrywiol sy'n ymwneud â milwyr y lluoedd arfog, eu teuluoedd, a chyn-filwyr. Fel y cyfryw, rwy'n croesawu'r ffaith ein bod unwaith eto'n siarad am gerdyn cyn-filwyr i Gymru. Rwy'n meddwl y gallai wneud cyfraniad pwysig ac rydym yn gefnogol iawn iddo mewn egwyddor. Fodd bynnag, credwn o hyd fod angen gwybodaeth fwy manwl a byddwn yn ategu ple Andrew RT Davies ynghylch sicrhau bod y wybodaeth yn dod ar gael. Rwy'n credu mai dyma'r trydydd tro o bosibl inni drafod cerdyn cyn-filwyr ac ar bob un o'r achlysuron, cawsom wybod bod angen y manylion hynny ac y byddai'r manylion hynny'n dod i law. Nid yw hynny wedi digwydd eto.

Felly, er y byddwn yn cefnogi gwelliant 3, oherwydd bod angen y manylion hynny arnom, rwy'n credu y tro hwn bod angen i'r manylion gael eu cyflwyno'n llawer cyflymach nag y gwnaed yn y gorffennol. Mae angen inni hefyd gael rhywfaint o syniad o gost a chwmpas cerdyn gyn-filwyr o'r fath a sut y gellir ei weithredu ledled Cymru. Yn sicr, rwy'n gobeithio y gallwn wneud rhywbeth ynglŷn â hynny, ond heb gael y manylion, ni allwn gefnogi'r hyn sydd yn y cynnig fel y mae yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, rydym yn sicr yn awyddus i gael yr wybodaeth er mwyn inni allu bwrw ymlaen â hynny.

Byddwn hefyd yn hoffi i'r Gweinidog llywodraeth leol roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr hyn y bu'n ei drafod gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Ionawr, pan drafodwyd hyn a llawer o faterion eraill. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, cafwyd sôn am gynllun peilot ar gyfer y cerdyn. Felly, os oes cynllun peilot yn yr arfaeth, efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym am hynny.

Gan droi at ein gwelliant, mae'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'n cefnogi wrth inni groesawu'r cyhoeddiad yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn Araith y Frenhines eleni a oedd yn argymhell Bil cwynion y lluoedd arfog i wella'r system gwynion yn y lluoedd arfog drwy greu ombwdsmon ar gyfer milwyr. Rwy'n meddwl bod hwn yn gyhoeddiad pwysig iawn a bydd yn sicr yn newid mawr ei angen yn system gwynion y lluoedd arfog ar ôl blynyddoedd lawer o fethu â rhoi sylw i'r mater. Gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran galluogi milwyr y lluoedd arfog i leisio pryderon a gwneud yn siŵr eu bod yn cael sylw.

We will not support amendment 1, not because I do not have sympathy with the opposition to the bedroom tax, but simply because it is inaccurate, because there is an exemption to the bedroom tax for families of members of the armed forces. As such, there is no direct impact on members of the armed forces in terms of that. That was actually secured as part of the long-running and continuing debate about the bedroom tax. For that reason, we do not think that that amendment is necessary.

On the other amendments, we believe that there is clearly an issue, and I think that this has been already highlighted by a number of speakers, in terms of the treatment of those suffering from PTSD and the support that they and their families receive. My experience, and the experience of my colleagues, is that there has been underinvestment in those facilities not just in Wales, but throughout the UK. Although we welcome the additional £650,000 of funding announced this week by the Welsh Government for Veterans' NHS Wales, we do think that there are issues in terms of how we can improve access to treatment and reduce waiting times for sufferers of PTSD, which still need to be addressed. Hopefully, some of that money might go towards that, but there are issues around that. As my colleague, Eluned Parrott, warned in February 2012, after 10 years of Welsh troops being in continuous operations in Afghanistan and the fact that this disorder can take up to 10 years to present itself, we are sitting on a PTSD time bomb. Again, in April 2013, she said that issues such as long waiting times and delays between diagnosis and referral still remain when it comes to treatment of PTSD. Clearly, those issues are still with us and have not gone away. I would hope that, as part of this debate, the Government can also address how it is starting to deal with that particular problem.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1, nid am nad oes gennyf gydymdeimlad â'r gwrthwynebiad i'r dreth ystafell wely, ond yn syml oherwydd ei fod yn anghywir, oherwydd mae eithriad yn bodoli i'r dreth ystafell wely ar gyfer teuluoedd aelodau o'r lluoedd arfog. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar aelodau o'r lluoedd arfog o ran hynny. Cafodd hyn ei sicrhau yn rhan o'r ddatlfaith sy'n parhau ynghylch y dreth ystafell wely. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn credu bod angen y gwelliant.

O ran y gwelliannau eraill, rydym yn credu bod yna broblem, yn amlwg, a chredaf fod hyn wedi cael ei amlygu eisoes gan nifer o siaradwyr, o ran y driniaeth i'r rhai sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma a'r gefnogaeth y maent hwy a'u teuluoedd yn ei chael. Yn fy mhrofiad i, a phrofiad fy nghydweithwyr, ni fuddsoddwyd digon yn y cyfleusterau hynny, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU. Er ein bod yn croesawu'r £650,000 ychwanegol o arian a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Lywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru y Cyn-filwyr, credwn fod problemau o ran sut y gallwn wella mynediad at driniaeth a lleihau amseroedd aros ar gyfer dioddefwyr Anhwylder Straen Wedi Trawma, sy'n dal angen sylw. Y gobaith yw y gallai peth o'r arian fynd tuag at hynny ond mae problemau ynghlwm wrth hynny. Fel y rhybuddiodd fy nghydweithiwr, Eluned Parrott, ym mis Chwefror 2012, ar ôl i filwyr Cymru fod yn weithredol yn barhaol yn Affganistan ers 10 mlynedd a'r ffaith y gall yr anhwylder gymryd hyd at 10 mlynedd i ddod yn amlwg, mater o amser yw hi cyn y ceir ffrwydrad o achosion o Anhwylder Straen Wedi Trawma. Unwaith eto, yn Ebrill 2013, dywedodd fod problemau fel amseroedd aros hir ac oedi rhwng diagnosis a chyfeirio yn dal i fodoli o ran trin anhwylder straen wedi trawma. Yn amlwg, mae'r materion hynny'n dal i fod gyda ni ac nid ydynt wedi diflannu. Byddwn yn gobeithio, fel rhan o'r ddatlfaith hon, y gall y Llywodraeth fynd i'r afael hefyd â'r modd y mae'n dechrau ymdrin â'r broblem benodol honno.

15:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Lesley Griffiths to move amendment 3, tabled in her name.

Galwaf ar Lesley Griffiths i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn ei henw.

Gwelliant 3—Lesley Griffiths

Amendment 3—Lesley Griffiths

Ym mhwynt 3, dileu 'sefydlu' a rhoi 'ystyried' yn ei le.

In point 3, delete 'establish' and replace with 'consider'.

15:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I move amendment 3.

Cynigiad welliant 3.

In valuing the contributions of Welsh servicemen and women, we must recognise the difficulties that they might face upon returning to civilian life. Leading a debate here in 2008, I called for support for the Royal British Legion's Honour the Covenant campaign, and the community covenant scheme was launched by the current UK Government in May 2011 as part of a wider armed forces covenant package. All 22 local authorities in Wales are now fully signed up to the armed forces community covenant. The Welsh Conservatives welcome the work of both the Welsh and UK Governments in achieving this. However, as the Royal British Legion told me at last Saturday's north Wales Armed Forces Day in Wrexham, it launched a document entitled 'Community covenants: what's next?' last week, calling on local authorities to deliver five top policy changes: to make tangible changes to social housing allocations policy; to fully disregard military compensation payments when means testing for council delivered support; to prioritise disabled facilities grant applications, where the disability is a result of service in the armed forces, and although all councils are currently doing this, assurance is needed where this is discretionary and always under review. It also called for local authorities to consider the needs of the armed forces community when planning local services, and to offer a school place to the children of members of the armed forces who apply mid-term, increasing class sizes, to accept them where necessary. We call upon the Welsh Government to champion these calls. We also commend volunteering for the legion and other armed forces charities such as the Royal British Legion's Wrexham advice and information centre due to open in September.

I spoke at the Wrexham launch of the Change Step service by north-Wales based drug and alcohol charity CAIS, recognising the need for veterans to support veterans in a peer mentoring support and advisory service. Too many ex-forces personnel drop out of the welfare support system, become homeless or cut off from mainstream services and become socially isolated. Among combat veterans, there is a common pattern of complex post-traumatic stress disorder, with attempted symptom suppression by alcohol or drug abuse, a downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontation with the law and even suicide. Although I campaigned with CAIS against the closure of the only independent respite and treatment centre in the UK for traumatised ex-forces personnel, Tŷ Gwyn in Llandudno, on behalf of those who had come to rely on it and who told me that their complex needs were not being met by the NHS or other providers, Tŷ Gwyn closed in late 2005. The Pathways residential PTSD centre also came and went in Bangor.

Wrth werthfawrogi cyfraniadau milwyr o Gymru, mae'n rhaid inni gydnabod yr anawsterau y gallent eu hwynebu wrth ddychwelyd i fywyd sifil. Wrth arwain dadl yma yn 2008, gelwais am gefnogaeth i ymgyrch Anrhydeddu'r Cyfamod y Llang Brydeinig Frenhinol, a lansiwyd cynllun y cyfamod cymunedol gan Lywodraeth bresennol y DU ym mis Mai 2011 fel rhan o becyn cyfamod ehangach y lluoedd arfog. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru bellach wedi ymuno â chyfamod y lluoedd arfog yn llawn. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflawni hyn. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Llang Brydeinig Frenhinol wrthyf yn Niwrnod Lluoedd Arfog gogledd Cymru yn Wrecsam ddydd Sadwrn diwethaf, lansiodd ddogfen o'r enw Community covenants: what's next?' yr wythnos diwethaf yn galw ar awdurdodau lleol i gyflwyno'r pum prif newid polisi: gwneud newidiadau sylweddol i'r polisi dyrannu tai cymdeithasol; llwyr ddiystyru taliadau iawndal milwrol wrth gynnal prifion modd i gael cymorth gan y cyngor; blaenoriaethu ceisiadau am grant cyfleusterau i'r anabl os yw'r anabledd yn deillio o wasanaeth yn y lluoedd arfog, ac er bod pob cyngor yn gwneud hyn ar hyn o bryd, mae angen sicrwydd lle y mae hyn yn digwydd yn ôl disgrisiwn ac o dan adolygiad bob amser. Galwodd hefyd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion cymuned y lluoedd arfog wrth gynllunio gwasanaethau lleol ac i gynnig lle mewn ysgol i blant aelodau o'r lluoedd arfog sy'n gwneud cais ar ganol tymor, gan gynyddu maint dosbarthiadau i'w derbyn lle y bo angen. Galwn ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r galwadau hyn. Rydym hefyd yn cymeradwyo gwirfoddoli gyda'r Llang ac elusennau eraill y lluoedd arfog megis canolfan gyngor a gwybodaeth Llang Brydeinig Frenhinol Wrecsam sydd i fod i agor ym mis Medi.

Siaradais yn y lansiad yn Wrecsam am y gwasanaeth Newid Cam gan elusen cyffuriau ac alcohol CAIS yng ngogledd Cymru, gan gydnabod yr angen i gyn-filwyr gefnogi cyn-filwyr drwy gymorth mentora gan gymheiriaid a gwasanaeth ymgynghorol. Mae gormod o gyn-filwyr y lluoedd arfog yn disgyn allan o'r system gymorth lles, yn mynd yn ddigartref neu'n torri ffwrdd o wasanaethau prif ffrwd ac yn cael eu hynysu'n gymdeithasol. Ymhlith cyn-filwyr a fu'n ymladd, mae yna batrwm cyffredin o anhwylder straen wedi trawma cymhleth, gydag ymdrech i atal symptomau drwy gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau, llwybr disgynnol o anawsterau cyflogaeth, problemau perthynas, gwrthdaro â'r gyfraith a hyd yn oed hunanladdiad. Er fy mod wedi ymgyrchu gyda CAIS yn erbyn cau'r unig ganolfan seibiant a thriniaeth annibynnol yn y DU ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog, sef y Tŷ Gwyn yn Llandudno, ar ran y rhai a oedd wedi dod i ddibynnu arni ac a ddywedodd wrthyf nad oedd eu hanghenion cymhleth yn cael eu diwallu gan y GIG neu ddarparwyr eraill, caeodd y Tŷ Gwyn ar ddiwedd 2005. Agor a chau fu hanes y ganolfan breswyl Anhwylder Straen Wedi Trawma, The Pathways, ym Mangor hefyd.

Steven Hughes, regimental medical officer of 2 para in the Falklands war, who had co-founded Pathways, warned that if conventional mental health services were so comprehensive, there would not be such a high veteran rate of suicide, high prison population and such a large number of veterans sleeping rough. Of approximately 220,000 armed forces veterans living in Wales, with 50,000 or more of those in north Wales, an estimated 4%, or almost 9,000, need mental health support. The all-Wales veterans mental health service, funded by £485,000, cannot meet the full spectrum or scale of need. Of the 158 veterans referred in 2012, only 100 were treated over a 12-month period, only 24 service user feedback forms were completed and only 39 veterans were discharged.

The 2012 Healthcare Inspectorate Wales report 'Healthcare and the Armed Forces Community in Wales' recommended that

'the Welsh Government should consider the utility of establishing a form of residential facility within Wales'.

I remain very concerned that the Kennedy report, commissioned by the Welsh Government, with terms of reference set by the Welsh Government, concluded that there is no evidence or strong support to warrant such a residential facility to support

'veterans with PTSD so long as sufficient capacity exists within existing NHS and Third Sector providers.'

Clearly, it does not. A one-size-fits-all approach can never work for veterans needing person-centred treatment.

The Welsh Government relaunch of the all-Wales veterans health and wellbeing service tomorrow must be measured against the small numbers and high drop-out rates identified in the figures I referred to earlier. Any further moneys for veteran support in Wales should be preceded by up-to-date statistics on what the service is delivering and proper discussion over what is needed. By the way, the £650,000 in fact includes only £100,000 for ex-forces personnel.

Rhybuddiodd Steven Hughes, swyddog meddygol catroddol 2 para yn rhyfel y Falklands a oedd yn un o sefydlwyr Pathways, pe bai gwasanaethau iechyd meddwl confensiynol mor gynhwysfawr, ni fyddai'r cyfraddau hunanladdiad a charchariadau ymhlith cyn-filwyr mor uchel ac ni fyddai cynifer o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd. O'r oddeutu 220,000 o gyn-filwyr y lluoedd arfog sy'n byw yng Nghymru, gyda 50,000 neu fwy o'r rheini yng ngogledd Cymru, amcangyfrifir bod 4%, neu bron 9,000, angen cymorth iechyd meddwl. Ni all gwasanaeth iechyd meddwl cyn-filwyr Cymru, sy'n cael £485,000 o gyllid, ddiwallu sbectrwm na graddau llawn yr angen. O'r 158 o gyn-filwyr a gyfeiriwyd atynt yn 2012, dim ond 100 a gafodd eu trin dros gyfnod o 12 mis, dim ond 24 o ffurflenni adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwblhawyd a dim ond 39 o gyn-filwyr a ryddhawyd o'r gwasanaeth.

Argymhellodd adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2012, 'Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru':

'Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddioldeb sefydlu cyfleuster preswyl o ryw fath yng Nghymru'.

Rwy'n dal yn bryderus iawn fod adroddiad Kennedy, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chylch gorchwyl a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth na chefnogaeth gref i gyfiawnhau cyfleuster preswyl o'r fath i gefnogi

'cyn-filwyr sy'n dioddef o Anhwyllder Straen wedi Trawma cyn belled â bod digon o gapasiti yn bodoli eisoes o fewn y GIG a darparwyr Trydydd Sector.'

Mae'n amlwg nad oes digon o gapasiti. Ni all dull un ateb i bawb byth weithio i gyn-filwyr sydd angen triniaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rhaid mesur ail-lansiad gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru gan Lywodraeth Cymru yfory yn erbyn y niferoedd bach a'r cyfraddau uchel sy'n rhoi'r gorau iddi a nodwyd yn y ffigurau y cyfeiriais atynt yn gynharach. Cyn rhoi arian pellach tuag at gynorthwyo cyn-filwr yng Nghymru, dylid cael yr ystadegau diweddaraf ynghylch yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu a thrafodaeth briodol ynglŷn â'r hyn sydd ei angen. Gyda llaw, dim ond £100,000 o'r £650,000 sydd wedi'i gynnwys ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog mewn gwirionedd.

15:42

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Your time is up. I call on Ann Jones.

Mae eich amser ar ben. Galwaf ar Ann Jones.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:42

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I think that the way in which this debate has been introduced is one that nobody can disagree with, and I think that we all recognise the huge contribution that our Welsh service personnel have and are still making to our safety. I was very much taken by what Lindsay Whittle was saying about his visit and the fact that his family felt very threatened for five days, and yet we send people off to far-flung places for weeks and months on end. I think that there are those of us within our communities who will have seen the devastation when somebody is lost to a family and how much we need to rally around as a Government and as a community to help those people.

I believe that the Welsh Government has introduced quite a lot to help and support veterans, and veterans from many campaigns, across the piece. However, there is an elephant in the room today and, if I may say, I believe that that is the UK coalition Government's cuts to the block grant here, which have inhibited the Welsh Government from putting all the things that Andrew R.T. Davies spoke about into the veterans card. Yes, everybody wants to see that.

I noticed that you talked in your speech about the ability for democracy to prevail, and the Secretary of State, two weeks ago, was saying the same sort of things. When we listened to the contribution from Mick Antoniw, who is on Assembly business with the Committee of the Regions and cannot be here, he raised the issues of constituents who were present in the gallery. I think that that brought home what the bedroom tax actually is about and what it means. When he discussed, with the permission of Mr Caruana, his particular problem, namely that he has lived in a specially adapted home for some 27 years with a support mechanism and with his children living just around the corner—

Antoinette Sandbach a gododd—

Diolch i chi, Lywydd. Credaf fod y ffordd y cyflwynwyd y ddadl hon yn un na all neb anghytuno â hi ac rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cydnabod cyfraniad aruthrol ein lluoedd arfog yng Nghymru tuag at ein diogelwch. Hoffais yn fawr yr hyn a ddywedodd Lindsay Whittle am ei ymweliad a'r ffaith bod ei deulu'n teimlo dan fygythiad mawr am bum niwrnod, ac eto rydym yn anfon pobl i ffwrdd i lefydd pellennig am wythnosau a misoedd ar y tro. Rwy'n meddwl bod rhai ohonom yn ein cymunedau wedi gweld y dinistr pan fydd teulu'n colli rhywun a chymaint sy'n rhaid inni ei wneud fel Llywodraeth ac fel cymuned i helpu'r bobl hynny.

Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cryn dipyn i helpu a chefnogi cyn-filwyr, a chyn-filwyr o lawer o ymgyrchoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae yna eliffant yn yr ystafell heddiw ac os caf ddweud, rwy'n credu mai toriadau Llywodraeth glymblaid y DU i'r grant bloc yma yw hwnnw. Maent wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cynnwys yr holl bethau y soniodd Andrew RT Davies amdanynt yn y cerdyn cyn-filwyr. Ydynt, mae pawb am weld hwnnw.

Rwy'n sylwi eich bod wedi sôn yn eich araith am allu democratiaeth i ennill y dydd ac roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, bythefnos yn ôl, yn dweud yr un math o bethau. Pan wrandawsom ar gyfraniad Mick Antoniw, sydd ar fusnes y Cynulliad gyda Phwyllgor y Rhanbarthau ac ni all fod yma, soniodd am etholwyr a oedd yn bresennol yn yr oriel. Rwy'n meddwl fod hynny wedi crisialu'r hyn y mae'r dreth ystafell wely yn ei olygu mewn gwirionedd. Pan drafododd broblem benodol Mr Caruana, gyda chaniatâd y gŵr hwnnw, sef ei fod wedi byw mewn cartref wedi'i addasu'n arbennig ers tua 27 mlynedd gyda system gymorth a'i blant yn byw rownd y gornel—

Antoinette Sandbach rose—

15:44

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I am not going to give way. You can wait until I have finished, and then I will let you in.

Na, nid wyf yn mynd i ildio. Gallwch aros nes y byddaf wedi gorffen, ac yna byddaf yn ildio i chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not when you have finished.

Nid pan fyddwch wedi gorffen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

He asked where was the justice in forcing him out of his home because of the bedroom tax. We then went on to hear about that. The Secretary of State met them, and I think that we thought, 'Well, that's progress'.

Gofynnodd pa fath o gyfiawnder oedd cael ei orfodi allan o'i gartref oherwydd y dreth ystafell wely. Clywsom am hynny wedyn. Cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol eu cyfarfod ac rwy'n credu ein bod ni wedi meddwl, 'Wel, mae hynna'n gam ymlaen'.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:45

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What has that got to do with the debate?

Beth sydd gan hynny i'w wneud gyda'r ddadl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:45	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>It has a lot to do with the debate, if you would just listen. The Secretary of State for Wales, in meeting the veteran who was being affected by the bedroom tax, proceeded to get quite unprofessional and asked him whether he was a member of the Labour Party. When he said 'No', his response was 'Well, do you vote Labour?'</p>	<p>Mae ganddo lawer i'w wneud â'r ddadl pe baech chi ond yn gwranddo. Aeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wrth gwrdd â'r cyn-filwr a oedd yn cael ei effeithio gan y dreth ystafell wely, yn ei flaen i fod yn eithaf amhroffesiynol gan ofyn iddo a oedd yn aelod o'r Blaidd Lafur. Pan ddywedodd 'Na', ei ymateb oedd 'Wel, a ydych yn pleidleisio Llafur?'</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	<p>Were you there?</p>	<p>Oeddech chi yno?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>Well, I have had it on good authority and I know who I trust. Mr Caruana then said that he had to leave the room. He felt insulted. He felt degraded, and he thought that a Government was elected to support everyone and not necessarily those who showed a particular political persuasion. So, that is what it has to do with this debate. It is about the veterans and about how you want to do it, but how your Government in the UK is—[Interruption.]</p>	<p>Wel, clywais hynny o le da ac rwy'n gwybod pwy rwyf yn ymddiried ynddynt. Yna dywedodd Mr Caruana fod yn rhaid iddo adael yr ystafell. Teimlai iddo gael ei sarhau. Teimlai wedi'i ddiraddio, a chredai fod Llywodraeth yn cael ei hethol i gefnogi pawb, nid o anghenraid y rhai a ddangosai farn wleidyddol benodol. Felly, dyna beth sydd gan hyn i'w wneud â'r ddadl. Mae'n ymwneud â'r cyn-filwyr a sut rydych am ei wneud, ond sut y mae eich Llywodraeth yn y DU yn—[Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Ann Jones said that she was not taking an intervention.</p>	<p>Dywedodd Ann Jones nad oedd yn cymryd ymyriad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:46	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>I will take an intervention now.</p>	<p>Cymeraf ymyriad yn awr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:46	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	<p>I am very grateful to Ann Jones for taking the intervention. The point about the veterans card is to give quick access to services and to identify people quickly as veterans. I understand the point that you are making, but there is funding that is available to be drawn down by local councils to ensure that, where there is injustice of the type that you are describing, that funding is in place to make sure that they are not affected by the—</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn i Ann Jones am dderbyn yr ymyriad. Y pwynt am y cerdyn cyn-filwyr yw ei fod yn rhoi mynediad cyflym i wasanaethau ac yn fodd o adnabod pobl sy'n gyn-filwyr yn gyflym. Rwy'n deall y pwynt rydych yn ei wneud, ond mae arian ar gael i'w dynnu i lawr gan gynghorau lleol i sicrhau bod arian yn ei le, lle y mae anghyfiawnder o'r math rydych yn ei ddisgrifio, er mwyn gwneud yn siŵr nad effeithir arnynt gan y—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:46	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>Okay. That is fine. However, it is great to say, 'Yes, let's have free access to swimming for all veterans'. It would be quite nice to be able to say 'Let's have the swimming pools opened'. Part of the problem is that our swimming pools are being closed. Actually, if they have to use bus services, which are being taken away because of the lack of— [Interruption.] No, no, no. Because of the lack of funding from the UK Government—</p>	<p>lawn. Mae hynny'n iawn. Fodd bynnag, mae'n wych dweud, 'Ie, gadewch i ni gael mynediad am ddim i nofio ar gyfer pob cyn-filwr'. Byddai'n eithaf braf gallu dweud 'Gadewch i ni sicrhau bod pyllau nofio ar agor'. Rhan o'r broblem yw bod ein pyllau nofio yn cael eu cau. Mewn gwirionedd, os oes rhaid iddynt ddefnyddio gwasanaethau bysiau, sy'n cael eu dileu oherwydd y diffyg—[Torri ar draws.] Na, na, na. Oherwydd diffyg cyllid gan Lywodraeth y DU—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:47	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Order.</p>	<p>Trefn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:47	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>Because of the lack of funding from the UK Government, down into the Welsh block grant that allows us—</p>	<p>Oherwydd diffyg cyllid gan Lywodraeth y DU, i grant bloc Cymru sy'n caniatáu i ni—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:47	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	<p>Will you take an intervention?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:47

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I am not taking any more. I took one from Antoinette. I just want to finish very quickly on this point. I want to say that I do, as I said at the start. I think that your contribution was measured, but I do think that the elephant in the room is being missed. The one thing that you can do, as the leader of the opposition here and the leader of the Conservative Party in Wales, is to talk to the Secretary of State and, for God's sake, get him to apologise to those veterans that he really, really did do an injustice to.

Na, nid wyf yn cymryd rhagor. Cymerais un gan Antoinette. Rwyf fi ond eisiau gorffen yn gyflym iawn ar y pwynt hwn. Rwyf am ddweud fy mod, fel y dywedais ar y dechrau. Rwy'n meddwl bod eich cyfraniad yn bwylllog, ond rwy'n credu nad yw'r eliffant yn yr ystafell yn cael ei weld. Yr un peth y gallwch ei wneud, fel arweinydd yr wrthblaid yma ac arweinydd y Blaid Geidwadol yng Nghymru, yw siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol ac er mwyn Duw, ei gael i ymddiheuro i'r cyn-filwyr hynny y mae wedi ymddwyn mor anghyfiawn tuag atynt mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:47

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the centenary of the first world war draws closer, people across the country will pause for reflection and remember those who fought in both past and present conflicts. With many of our troops currently deployed in operations around the world, it is perhaps more poignant than ever that we pause to consider what support is available when they leave the forces. We owe a huge debt of gratitude to those who fight for our country and our freedom. It is essential that effective services are in place to provide our armed forces community with the care and support that they richly deserve. Men and women who have served their country with distinction deserve the best help that can be provided when they return to civilian life.

Wrth i ganmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf nesáu, bydd pobl ar draws y wlad yn oedi i ystyried a chofio'r rhai a frwydrodd mewn rhyfeloedd yn y gorffennol a'r presennol. Gyda llawer o'n milwyr yn gweithio ar hyn o bryd mewn ymgyrchoedd o gwmpas y byd, efallai ei bod yn bwysicach nag erioed inni oedi i ystyried pa gymorth sydd ar gael pan fyddant yn gadael y lluoedd. Mae arnom ddiolch enfawr i'r rhai sy'n ymladd dros ein gwlad a thros ein rhyddid. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau effeithiol ar waith i roi'r gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu i gymuned ein lluoedd arfog. Mae dynion a menywod sydd wedi gwasanaethu eu gwlad gyda chlod yn haeddu'r cymorth gorau y gellir ei roi pan fyddant yn dychwelyd i fywyd sifil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Leaving the military often means having to relocate, move home, find new employment and undergo a change in lifestyle. The experience of leaving the forces can be difficult, and some find it extremely daunting and problematic. The Welsh Conservatives remain greatly concerned about the effect that any cut to the health budget will have on the NHS services provided to the armed services community in Wales. Labour's decision to reduce funding for the Welsh NHS must not come at the expense of post-traumatic stress disorder sufferers.

Yn aml, mae gadael y fyddin yn golygu gorfod symud, symud cartref, dod o hyd i gyflogaeth newydd a newid ffordd o fyw. Gall y profiad o adael y lluoedd fod yn anodd ac mae rhai yn ei chael yn hynod o anodd ac yn broblematic. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch yr effaith y bydd toriad yn y gyllideb iechyd yn ei chael ar y gwasanaethau GIG a roddir i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Ni ddylai penderfyniad Llafur i leihau'r cyllid ar gyfer y GIG yng Nghymru ddigwydd ar draul dioddefwyr anhwylder straen wedi trawma.

In the UK, the Department of Health has responded to this warning by saying that, from next year, every part of the country will have GPs specially trained to respond to the physical and mental health needs of veterans. Veterans will be entitled to priority access to NHS care when their medical condition or care relates to their time in the armed forces. The United Kingdom Government is investing £22 million to support veterans' physical and mental health as well as funding 24 specialist veterans' prosthetic centres. Wounded soldiers are to receive care from specially trained GPs in every area of England. Under these Government plans, as the report warns, the NHS will be failing veterans when they are most in need. This will provide care for all patients and provide a very much more consistent approach to rehabilitation.

Yn y DU, mae'r Adran Iechyd wedi ymateb i'r rhybudd hwn drwy ddweud y bydd gan bob rhan o'r wlad o'r flwyddyn nesaf ymlaen feddygon teulu wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymateb i anghenion iechyd corfforol a meddyliol cyn-filwyr. Bydd cyn-filwyr yn cael hawl i fynediad â blaenoriaeth at ofal y GIG pan fydd eu cyflwr neu eu gofal meddygol yn ymwneud â'u hamser yn y lluoedd arfog. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn buddsoddi £22 miliwn i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol cyn-filwyr ac yn cyllido 24 o ganolfannau prosthetig arbenigol i gyn-filwyr. Mae milwyr wedi'u clwyfo i dderbyn gofal gan feddygon teulu wedi'u hyfforddi'n arbennig ym mhob ardal yn Lloegr. O dan y cynlluniau hyn gan y Llywodraeth, fel y mae'r adroddiad yn rhybuddio, bydd y GIG yn gwneud cam â chyn-filwyr pan fydd fwyaf o angen cymorth arnynt. Bydd hyn yn darparu gofal i bob claf ac yn cynnig dull o adsefydlu sy'n llawer iawn mwy cyson.

The Welsh Government has funded the development of a specialist mental health service for veterans—the all-Wales veterans health and wellbeing service—yet a report by Healthcare Inspectorate Wales from 2012 states that, although most had heard of Combat Stress and Healing the Wounds, very few were aware of the existence of the all-Wales service or how mainstream NHS mental health services were accessed. It became clear to me that, when the military is no longer responsible for their care, our heroes have to fend for themselves. The Welsh Government needs to follow the example of the coalition Government in the UK on matters pertaining to the NHS. Veterans remain some of our bravest and best, and the whole country has a moral obligation to support them. By making a specially trained GP available to every local area, we should continue to prioritise support for our veterans' physical and mental health.

The Professor Briggs review, known as the Chavesse report, stated these worrying findings. There is a lack of connection between the MOD and the NHS, especially in rehabilitation, which results in a fragmented service and risks serving personnel, reservists and veterans falling into a no-man's land. When service personnel are discharged, the NHS becomes the sole provider of their continuing care. There is a risk that they will not receive continuing care in a timely manner. Variable and patchy rehabilitation means veterans may miss clinical consultations and get lost in the system.

It is currently impossible for the NHS system to recognise serving reservists and veterans in order to ensure fast-tracked care for them. Both clinicians and veterans seem unaware of the covenant and its implications for their care. As a result, veterans often neglect to inform their GP that they are ex-servicemen and do not provide the GP with their discharge report. Hopefully, this report will be taken into consideration by Governments both here and in Westminster and, with good will, we can perform the military covenant to the benefit of all our veterans.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer cyn-filwyr—gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru—ac eto mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn 2012 yn datgan, er bod y mwyafrif wedi clywed am Combat Stress a Healing the Wounds, ychydig iawn a oedd yn ymwybodol o fodolaeth gwasanaeth i Gymru gyfan na sut i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd y GIG. Pan nad yw'r gwasanaethau milwrol yn gyfrifol am eu gofal mwyach, daeth yn amlwg i mi fod yn rhaid i'n harwyr ofalu amdanynt eu hunain. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddilyn esiampl Llywodraeth glymblaid y DU ar faterion yn ymwneud â'r GIG. Cyn-filwyr yw rhai o'n pobl ddewraf a gorau o hyd, ac mae rhwymedigaeth foisol ar y wlad gyfan i'w cefnogi. Drwy sicrhau bod meddyg teulu wedi'i hyfforddi'n arbennig ar gael i bob ardal leol, dylem barhau i flaenoriaethu cymorth ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol ein cyn-filwyr.

Soniodd adolygiad yr Athro Briggs, a elwir yn adroddiad Chavesse, am y canfyddiadau hyn sy'n peri pryder. Mae diffyg cysylltiad rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GIG, yn enwedig o ran adsefydlu, sy'n arwain at wasanaeth tameddiog a risg bod milwyr sy'n gwasanaethu, milwyr wrth gefn a chyn-filwyr yn disgyn i dir neb. Pan fydd milwyr y lluoedd arfog yn cael eu rhyddhau, y GIG sy'n dod yn unig ddarparwr eu gofal parhaus. Mae perygl na fyddant yn derbyn gofal parhaus mewn modd amserol. Mae adsefydlu sy'n amrywio ac yn anghyson yn golygu y gall cyn-filwyr gollu ymgynghoriadau clinigol a mynd ar goll yn y system.

Mae'n amhosibl ar hyn o bryd i system y GIG adnabod milwyr wrth gefn sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr er mwyn sicrhau gofal llwybr cyflym ar eu cyfer. Mae clinigwyr a chyn-filwyr i'w gweld yn anymwybodol o'r cyfamod a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer eu gofal. O ganlyniad, mae cyn-filwyr yn aml yn methu â hysbysu eu meddyg teulu eu bod yn gyn-filwyr ac nid ydynt yn darparu eu hadroddiad rhyddhau i'r meddyg teulu ei weld. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth yma ac yn San Steffan a gydag ewyllys da, gallwn gyflawni'r cyfamod milwrol er budd ein holl gyn-filwyr.

15:51

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to take part in this debate this afternoon and will focus my comments on the plight of returning veterans and the welfare benefit changes that impact on serving personnel. We know that veterans have always faced challenges on returning home, but the UK Government's widespread cuts to public spending has made it significantly more difficult.

Veterans have to deal with the stress of the transition from the armed forces back to civilian life, sometimes dealing with injury and the effects of trauma, mental health problems, relationship breakdown, addiction and homelessness, which are all too common, leaving veterans vulnerable and at risk. That was outlined earlier on in great detail by Mark Isherwood.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddatl y prynhawn yma a byddaf yn canolbwyntio fy sylwadau ar sefyllfa cyn-filwyr sy'n dychwelyd a'r newidiadau yn y budd-daliadau lles sy'n effeithio ar filwyr sy'n gwasanaethu. Rydym yn gwybod bod cyn-filwyr bob amser wedi wynebu heriau ar ôl dychwelyd adref, ond mae toriadau eang Llywodraeth y DU i wariant cyhoeddus wedi gwneud hynny'n llawer anos.

Rhaid i gyn-filwyr ymdopi â straeu y pontio rhwng y lluoedd arfog a bywyd sifil, gan ymdopi weithiau ag anafiadau ac effeithiau trawma, problemau iechyd meddwl, perthynas yn chwalu, dibyniaeth a digartrefedd, sydd oll ond yn rhy gyffredin, gan adael cyn-filwyr yn agored i wynebu niwed a pherygl. Amlinellwyd hynny'n fanwl iawn yn gynharach gan Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As acknowledged in the Welsh Government's homelessness plan, veterans are disproportionately represented in homelessness figures. That may rise further as many more are made redundant in the coming years. I am no cheerleader for the Minister for housing, but I am pleased that, last year, the Welsh Government pledged £2 million to support armed forces veterans in need of housing support. That is the sort of substantive action that demonstrates a commitment to valuing the contribution made by those who have served in the armed forces. However, that is not enough while the UK Government's harmful policies are still in place. The bedroom tax, in particular, is having a devastating effect on some of the most vulnerable veterans.

Take the case of the Scottish veteran paying £31 a week to cover the bedroom tax out of an income of £71 because the temporary accommodation that he was given when he became homeless had three bedrooms. That was not his fault and not his choice. It was not a decent way to treat him. I put my support on record for the comments made earlier by Ann Jones about the disrespect shown to one of our veterans in this building just a few weeks ago. That man is owed an apology and I hope that he will get it.

It is unacceptable that the bedroom tax should be payable at all on temporary accommodation, but that is the way it is. The choice should not be between being homeless and potentially falling into rent arrears. On serving personnel, earlier this year, Plaid Cymru councillor and veteran himself, Paul James, uncovered evidence that, despite the assurances of the Westminster Government, forces families who might have an empty bedroom while a family member is training or overseas on active duty are not entirely exempt from the bedroom tax, as we have been led to believe. That was repeated this afternoon by Peter Black; he does not often get things wrong, so the PR spin on this has been very effective indeed.

While forces families do not have to pay the bedroom tax while their family member is on military operations, once they are back in barracks, the bedroom tax is again payable. There is a big difference between being on operations and being stationed abroad and so on. Paul James calculated that a family with a child on active service might lose out on over £3,000 a year, depending on how much time they spend on active duty. I am confident that we would all agree in this Chamber, in principle, that this should not be.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:55.

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to add my voice to the many today honouring those who have served in the armed forces. I believe that it is important to offer more than words and, instead, to ensure that veterans receive the assistance and support that they need and surely deserve.

Fel y cydnabyddir yng nghynllun digartrefedd Llywodraeth Cymru, caiff cyn-filwyr eu cynrychioli'n anghymesur yn y ffigurau digartrefedd. Gallai hynny godi ymhellach wrth i lawer mwy gael eu gwneud yn ddi-waith yn y blynyddoedd i ddod. Nid wyf yn gefnogwr brwd i'r Gweinidog tai, ond rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi addo £2 filiwn y llynedd i gefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog sydd angen cymorth tai. Dyna'r math o weithredu sylweddol sy'n dangos ymrwymiad i werthfawrogi cyfraniad y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddigon tra bo polisïau niweidiol Llywodraeth y DU yn dal ar waith. Mae'r dreth ystafell wely yn arbennig yn cael effaith ddinistriol ar rai o'r cyn-filwyr mwyaf agored i niwed.

Cymerwch achos y cyn-filwr o'r Alban sy'n talu £31 yr wythnos o dreth ystafell wely allan o incwm o £71 oherwydd bod tair ystafell wely yn y llety dros dro a roddwyd iddo pan aeth yn ddi-gartref. Nid ei fai na'i ddewis ef oedd hynny. Nid oedd yn ffordd weddus o'i drin. Rwy'n cofnodi fy nghefnogaeth i sylwadau Ann Jones yn gynharach ynghylch y diffyg parch a ddangoswyd i un o'n cyn-filwyr yn yr adeilad hwn ychydig wythnosau yn ôl. Dylai'r dyn hwnnw gael ymddiheuriad ac rwy'n gobeithio y bydd yn ei gael.

Mae'n annerbyniol bod y dreth ystafell wely yn daladwy o gwbl ar lety dros dro, ond dyna fel y mae. Ni ddylai fod yn ddewis rhwng bod yn ddi-gartref a mynd i ddyled ar y rhent o bosibl. Ar fater y lluoedd arfog yn gynharach eleni, datgelodd y cynghorydd dros Blaid Cymru, Paul James, sy'n gyn-filwr ei hun, dystiolaeth nad yw teuluoedd y lluoedd arfog a allai fod ag ystafell wely wag tra bod aelod o'r teulu yn cael hyfforddiant neu dramor ar ddyletswydd weithredol, er gwaethaf y sicrwydd a roddir gan y Llywodraeth yn San Steffan, wedi'u heithrio yn gyfan gwbl rhag y dreth ystafell wely, fel y cawsom ein harwain i greu. Cafodd hynny ei ailadrodd y prynhawn yma gan Peter Black; nid yw'n aml yn cael pethau'n anghywir, felly mae'r sbin cysylltiadau cyhoeddus ar hyn wedi bod yn effeithiol iawn yn wir.

Er nad oes rhaid i deuluoedd y lluoedd arfog dalu'r dreth ystafell wely tra bod aelod o'u teulu ar weithrediadau milwrol, wedi iddynt ddod yn ôl i'r barics bydd y dreth ystafell wely yn daladwy unwaith eto. Mae gwahaniaeth mawr rhwng bod ar weithrediadau milwrol a chael eu lleoli dramor ac yn y blaen. Cyfrifodd Paul James y gallai teulu sydd â phlentyn ar wasanaeth gweithredol golli allan ar dros £3,000 y flwyddyn, yn dibynnu ar faint o amser y maent yn ei dreulio ar ddyletswydd weithredol. Rwy'n hyderus y byddem i gyd yn cytuno yn y Siambur hon, o ran egwyddor, na ddylai hyn ddigwydd.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:55.

Rwy'n falch i ategu fy nghefnogaeth i'r nifer o bobl heddiw sydd wedi anrhydeddu'r rhai a fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cynnig mwy na geiriau a sicrhau, yn lle hynny, bod cyn-filwyr yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ac y maent yn sicr o fod yn ei haeddu.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to speak in today's debate. I would like to say, Members, what a privilege it was for me on Saturday to join the Minister, other north Wales AMs and the Secretary of State for Wales as we—irrespective of any political allegiance—stood together and paid our tributes, in the way that we saw fit, to recognise and commemorate Armed Forces Day.

This is a significant year for our country. It sees the ending of combat operations of our British forces in Afghanistan. Whatever your views on the war, the bravery, selflessness and heroism of our troops is unquestionable. Many have paid the ultimate price. Many bear life-changing physical wounds. Too many are battling with complex mental illness, breakdowns and addiction. We owe these brave men and women an insurmountable debt, as we do those who have served in past conflicts. That is why 2014 is of such huge importance. It is the one-hundredth anniversary of the start of the first world war—a conflict that led to the death of millions, who paid the ultimate sacrifice, with our brave Welsh troops playing an equal and vital role alongside their United Kingdom counterparts. The year also commemorates the seventieth anniversary of the D-day landings, which saw over 160,000 troops cross into Nazi-occupied France. These are all hugely significant events, in which our armed forces played a vital role. The role is one of which we can be proud, but not without humility also.

Much has been said about the suffering that people who have fought on behalf of our country now have. The charity Combat Stress estimates that it takes, on average, over 13 years from the time of discharge for a veteran to recognise many of the symptoms and then to seek help. The number of Afghanistan veterans referred to Combat Stress in 2013 was 57% higher than in 2012, and 20% of veterans were more likely to suffer from severe mental health problems. Combat Stress is assisting more veterans now than at any point in time. An estimated 13% are suffering from alcohol problems and homelessness, and—sadly, tragically—for younger veterans, those aged 24 and under are approximately two to three times more likely to take their own lives.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl heddiw. Aelodau, hoffwn ddweud cymaint o faint oedd hi i mi i ymuno â'r Gweinidog, ACau eraill o ogledd Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ddydd Sadwrn wrth inni sefyll gyda'n gilydd a thalu ein teyrngedau heb ystyried unrhyw deyrngarwch gwleidyddol, yn y ffordd y gwelsom yn dda i gydnabod a choffâu Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Mae hon yn flwyddyn arwyddocaol i'n gwlad. Mae'n ddiwedd ar weithrediadau brwydro ein lluoedd Prydeinig yn Affganistan. Beth bynnag yw eich barn am y rhyfel, mae dewrder, anhunanoldeb ac arwriaeth ein milwyr yn ddiarnheul. Mae llawer wedi talu'r pris eithaf. Mae llawer yn dioddef yn sgîl anafiadau corfforol sy'n newid eu bywydau. Mae gormod yn brwydro yn erbyn salwch meddwl cymhleth, chwalfa nerfau a dibyniaeth. Mae arnom ddyled enfawr i'r dynion a'r menywod dewr hyn, fel sydd arnom i'r rhai a wasanaethodd yn rhyfeloedd y gorffennol. Dyna pam y mae 2014 mor bwysig. Mae'n ganmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf—gwrthdaro a arweiniodd at farwolaeth miliynau a dalodd yr aberth eithaf, gyda'n milwyr Cymreig dewr yn chwarae rhan gyfartal a hanfodol ochr yn ochr â'u cymheiriaid o'r Deyrnas Unedig. Yn ystod y flwyddyn hefyd, cafwyd digwyddiadau coffa i nodi 70 mlynedd ers glaniadau D-day, pan aeth dros 160,000 o filwyr drosodd i Ffrainc a oedd wedi'i meddiannu gan y Natsïaid. Mae'r rhain i gyd yn ddigwyddiadau hynod o arwyddocaol y chwaraeodd ein lluoedd arfog ran hanfodol ynddynt. Mae'n rôl y gallwn fod yn falch ohoni, ond nid heb ostyngeddrwydd hefyd.

Mae llawer wedi'i ddweud am y dioddefaint sy'n wynebu pobl a ymladdodd dros ein gwlad. Mae'r elusen Combat Stress yn amcangyfrif ei bod yn cymryd dros 13 mlynedd ar gyfartaledd o adeg rhyddhau cyn-filwr i sawl un o'r symptomau gael eu nodi ac yna i ofyn am gymorth. Roedd nifer y cyn-filwyr o Affganistan a gyfeiriwyd at Combat Stress yn 2013 57% yn uwch nag yn 2012, ac roedd 20% o gyn-filwyr yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd meddwl difrifol. Mae Combat Stress yn cynorthwyo mwy o gyn-filwyr yn awr nag ar unrhyw adeg. Amcangyfrifir bod 13% yn dioddef o broblemau alcohol a digartrefedd ac yn anffodus—yn drasig—i gyn-filwyr iau, mae'r rhai sy'n 24 oed ac iau tua dwy i dair gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad.

The potential knock-on of this for our veterans greatly concerns me. In that, I am talking about the cuts to our health service. The variations in waiting times for the treatment of PTSD that were uncovered by the BBC recently are deeply concerning. Prompt diagnosis and treatment is essential. I commend the Welsh Government in setting up the all-Wales veterans health and wellbeing service. However, it is worrying that Healthcare Inspectorate Wales found that very few veterans had even heard of it, so there is more to be done there. The UK Government has launched the community covenant scheme, allowing and affording local authorities the opportunity to access a £30 million fund for projects promoting understanding of local armed forces and their communities. I am very pleased that 22 local authorities have signed up to this. Last week, the Royal British Legion called on local authorities to assist serving and ex-servicemen and women further. It called for tangible changes to social housing allocations policy in Wales, and for disabled facility grants to be prioritised where a disability is as a result of service. I echo those calls.

I call today on the Welsh Government and the Minister responsible to take the lead here and drive these recommendations across all Welsh local authorities. The Welsh Conservatives have long called for an all-Wales veterans card. To me, this is such a tangible and really evidential way of showing the support that we believe those who have served and those who have gone before us deserve as the very minimum: the expansion of free bus travel, free entry to council swimming pools, free entry to Cadw sites, the provision of priority care in our NHS and help to overcome the lack of knowledge about this. In short, it is about caring and it is about supporting. Minister, I have spoken on numerous occasions now in debates, and very proudly so, but with humility, too, and it just concerns me that the message is not getting through. Please support those who have served in our armed forces, today, now, and at any time.

Mae effaith ganlyniadol bosibl hyn ar ein cyn-filwyr yn destun pryder mawr i mi. Yn hynny o beth, rwy'n sôn am y toriadau i'n gwasanaeth iechyd. Mae'r amrywiadau yn yr amseroedd aros ar gyfer trin anhwylder straen wedi trawma a ddatgelwyd gan y BBC yn ddiweddar yn achos pryder dwfn. Mae diagnosis a thriniaeth brydlon yn hanfodol. Cymeradwyaf Lywodraeth Cymru am sefydlu gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi canfod mai ychydig iawn o gyn-filwyr a oedd wedi clywed amdano hyd yn oed, felly mae mwy o waith i'w wneud ar hynny. Mae Llywodraeth y DU wedi lansio cynllun y cyfmod cymunedol, sy'n caniatáu a rhoi cyfle i awdurdodau lleol wneud defnydd o gronfa o £30 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r lluoedd arfog a'u cymunedau yn lleol. Rwy'n falch iawn bod 22 o awdurdodau lleol wedi ymrwmo i hyn. Yr wythnos diwethaf, galwodd y Llew Brydeinig Frenhinol ar awdurdodau lleol i roi cymorth pellach i filwyr sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr. Galwai am newidiadau sylweddol i bolisi dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru ac am flaenoriaethu grantiau cyfleusterau i'r anabl lle y mae anabledd yn deillio o wasanaeth milwrol. Ategef y galwadau hyn.

Galwaf heddiw ar Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog cyfrifol i gymryd yr awenau a hyrwyddo'r argymhellion hyn ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw ers amser am gerdyn cyn-filwyr Cymru. I mi, mae hon yn ffordd mor bendant a gwirioneddol dystiolaethol o ddangos y cymorth rydym yn credu y mae'r rhai sydd wedi gwasanaethu a'r rhai sydd wedi mynd o'n blaenau'n ei haeddu fel lleiafswm pur: ehangu teithiau bws am ddim, mynediad am ddim i byllau nofio cynghorau, mynediad am ddim i safleoedd Cadw, darparu gofal â blaenoriaeth yn ein GIG a helpu i oresgyn y diffyg gwybodaeth ynglŷn â hyn. Yn fyr, mae'n ymwneud â gofalu ac mae'n ymwneud â chefnogi. Weinidog, rwyf wedi siarad mewn dadleuon ar sawl achlysur bellach, ac rwy'n falch iawn o wneud hynny, ond gyda gostyngeddrwydd hefyd, ac mae'n fy mhryderu nad yw'r neges i'w gweld yn cael ei chlywed. Cefnogwch y rhai sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog, heddiw, yn awr, ac ar unrhyw adeg.

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I am very pleased to respond to this debate on behalf of the Welsh Government, and I thank Members for their contributions. June has been a particularly poignant month, given the events to commemorate the seventieth anniversary of the D-day landings. The First Minister was in Normandy and was fortunate enough to speak to veterans who had landed on those beaches 70 years earlier. The heroism shown and the sacrifice made by our veterans are things that we should always remember.

Rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddadl hon ar ran Llywodraeth Cymru, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae Mehefin wedi bod yn fis arbennig o deimladwy, o ystyried y digwyddiadau i goffáu 70 mlynedd ers glaniadau D-day. Roedd y Prif Weinidog yn Normandi ac yn ddigon ffodus i siarad â chyn-filwyr a oedd wedi glanio ar y traethau hynny 70 mlynedd yn gynharach. Mae'r arwriaeth a ddangoswyd a'r aberth a wnaed gan ein cyn-filwyr yn bethau y dylem eu cofio bob amser.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As Members have said, this year marks the centenary of the beginning of the first world war. Our commemorative programme is characterised by a determination to involve everyone, either within their local community or by contributing to national events and activities. I ask you to encourage your constituents to attend the events being arranged, or to arrange their own events and projects and to let us know about their plans via the Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 website. I think Andrew R.T. Davies raised a very important point about educating our young people. Again, Welsh Government has given specific funding to high schools in order to do this. The First Minister and I will be representing Welsh Government at several events in August, at the time of the centenary.

I am pleased that point 1 of the motion recognises Armed Forces Day. Welsh Government funds a flagship event in north Wales and one in south Wales, and, as other Members have mentioned, I was very pleased to be at the north Wales event, in Wrexham, last Saturday, and the First Minister will be attending the event in Cardiff next Saturday. I was also present at Cardiff castle on Monday for the armed forces flag-raising ceremony. So, I think it a very appropriate time to again pay tribute to our armed forces personnel for all they do on our behalf.

I also support point 2 of the motion. I have referred to the Welsh Government's package of support for the armed forces community in Wales previously in Plenary. We published the revised document this time last year, and, of course, there have been further developments, which include the provision of £2 million to provide housing for service leavers, a substance misuse treatment framework aimed at improving access to substance misuse treatment for veterans, a pathway to care for veteran prisoners, and the inclusion of veterans as a priority group in the all-Wales reducing reoffending strategy.

I support amendment 1. We estimate that, in 2015-16 alone, some of the UK's key welfare reforms will result in a loss of around £900 million in Wales. Adult children who are in the armed forces but who continue to live with their parents will be treated as continuing to live at home when deployed on operations in relation to the bedroom tax, as Jocelyn Davies pointed out. This, however, does not apply if they are not on active duty.

Regarding amendment 2, there are some legal technicalities with Ministry of Defence funding organisations in Wales that support the armed forces community. We actively encourage Welsh applications to all MOD grants, including the community covenant grant scheme and leaver grant. The Armed Forces (Service Complaints and Financial Assistance) Bill will resolve these issues.

Fel y mae Aelodau wedi dweud, eleni yw canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf. Mae ein rhaglen goffa yn cael ei nodweddu gan benderfyniad i gynnwys pawb, naill ai o fewn eu cymuned leol neu drwy gyfrannu at ddiwyddiadau a gweithgareddau cenedlaethol. Rwy'n gofyn i chi annog eich etholwyr i fynychu'r digwyddiadau sy'n cael eu trefnu neu i drefnu eu digwyddiadau a'u prosiectau eu hunain ac i roi gwybod inni am eu cynlluniau drwy wefan Cymru'n Cofio 1914-1918. Rwy'n meddwl bod Andrew RT Davies wedi nodi pwynt pwysig iawn am addysgu ein pobl ifanc. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid penodol i ysgolion uwchradd er mwyn gwneud hyn. Bydd y Prif Weinidog a minnau'n cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn nifer o ddiwyddiadau ym mis Awst, ar adeg y canmlwyddiant.

Rwy'n falch bod pwynt 1 y cynnig yn cydnabod Diwrnod y Lluoedd Arfog. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu digwyddiad blaenllaw yng ngogledd Cymru ac un arall yn y de, ac fel y mae Aelodau eraill wedi sôn, roeddwn yn falch iawn o fod yn nigwyddiad gogledd Cymru yn Wrecsam ddydd Sadwrn diwethaf, a bydd y Prif Weinidog yn bresennol yn y digwyddiad yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn nesaf. Roeddwn hefyd yn bresennol yng nghastell Caerdydd ddydd Llun ar gyfer seremoni codi baner y lluoedd arfog. Felly rwy'n meddwl ei bod yn amser priodol iawn i dalu teyrnged eto i filwyr ein lluoedd arfog am bob dim y maent yn ei wneud ar ein rhan.

Rwyf hefyd yn cefnogi pwynt 2 y cynnig. Rwyf wedi cyfeirio at becyn cymorth Llywodraeth Cymru i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru o'r blaen yn y Cyfarfod Llawn. Cyhoeddwyd y ddogfen ddiwygiedig yr adeg hon y llynedd ac wrth gwrs, bu datblygiadau pellach, sy'n cynnwys darpariaeth o £2 filiwn i ddarparu tai i bobl sy'n gadael y lluoedd arfog, fframwaith trin camddefnyddio sylweddau sy'n anelu at wella mynediad at driniaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer cyn-filwyr, llwybr i ofal ar gyfer carcharorion sy'n gyn-filwr, a chynnwys cyn-filwyr fel grŵp blaenoriaeth yn strategaeth lleihau aildrosedd Cymru.

Rwy'n cefnogi gwelliant 1. Yn 2015-16 yn unig, rydym yn amcangyfrif y bydd rhai o ddiwygiadau lles allweddol y DU yn arwain at golled o tua £900 miliwn yng Nghymru. Bydd plant sy'n oedolion yn y lluoedd arfog ond sy'n parhau i fyw gyda'u rhieni yn cael eu trin fel rhai sy'n parhau i fyw gartref mewn perthynas â'r dreth ystafell wely pan fyddant yn gweithio ar weithrediadau milwrol, fel y nododd Jocelyn Davies. Nid yw hyn yn berthnasol, fodd bynnag, os nad ydynt ar ddyletswydd weithredol.

O ran gwelliant 2, mae rhai manylion technegol cyfreithiol gyda sefydliadau cyllido'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru sy'n cefnogi cymuned y lluoedd arfog. Rydym yn annog ceisiadau o Gymru am holl grantiau'r Weinyddiaeth Amddiffyn gan gynnwys cynllun grantiau'r cyfamod cymunedol a'r grant i rai sy'n gadael y lluoedd arfog. Bydd Bil y Lluoedd Arfog (Cwynion am y Gwasanaeth a Chymorth Ariannol) yn datrys y materion hyn.

I do not support point 3 of the motion as it stands and move to amend this. As I stated in Plenary on 14 May, initial findings on the need for a card were inconclusive. I have agreed to explore opportunities for a pilot scheme to further examine whether there is a robust case, and a paper setting out the options will be presented to my expert group on the needs of the armed forces community tomorrow. Following advice from this group, I will make a decision on the way forward. As you know, the group includes members of the armed forces community. I do not want to pre-empt tomorrow's discussion, however, the feedback that I am getting so far is not strongly in support of a Wales-specific card. I think that it is really important to draw a distinction between an ID card and the provision of services to veterans. The two are not interdependent, and my considerations will take this into account. I know that Peter Black and Andrew R.T. Davies mentioned a pilot scheme, which I have had a look at. I have had it costed and it will be discussed at the expert group tomorrow. Ann Jones made an important point when she talked about the elephant in the room, because, having had such a massive cut to our budget, as a whole, from the UK Government, we have to look at the impact of what we spend, and, unless that card really brings benefits, I will have to look very closely at the cost of it.

I will give an example of why the two are not interdependent, if the NHS in Wales is already required to provide priority treatment and care for veterans whose health problems result from their service. All 22 local authorities, as has been recognised this afternoon, have now signed the community covenants. The last one was Blaenau Gwent in December of last year. Several have already introduced free or discounted access to swimming and leisure services, using existing means of identification. It is important that this community covenant document does not sit on a shelf gathering dust, and I have recently written to all 22 local authorities asking what action has been taken since they signed the community covenants, and I have been reassured that they look at this covenant on an ongoing basis to monitor what services they are providing.

I can also confirm that the Welsh Government is prepared to consider a concessionary rate, or free admission, to Cadw sites for veterans. We are currently undertaking a review of adaptations, including disabled facilities grants, and we will ensure that consideration of priority delivery of disabled facilities grants for veterans is included. We have already excluded military pensions and compensations from the means test for disabled facilities grants. Our concessionary bus travel scheme was extended in 2011 to include seriously injured service personnel and seriously injured veterans. Therefore, you can see that a great deal of work has gone on over the past year.

Nid wyf yn cefnogi pwynt 3 y cynnig fel y mae ac rwy'n cynnig y dylid newid hwn. Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mai, roedd y canfyddiadau cychwynnol ar yr angen am gerdyn yn amhendant. Rwyf wedi cytuno i archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllun peilot i archwilio ymhellach a oes achos cadarn, a bydd papur yn nodi'r opsiynau yn cael ei gyflwyno i fy ngrŵp arbenigol ar anghenion cymuned y lluoedd arfog yfory. Yn dilyn cyngor gan y grŵp hwn, byddaf yn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen. Fel y gwyddoch, mae'r grŵp yn cynnwys aelodau o gymuned y lluoedd arfog. Nid wyf am achub y blaen ar drafodaeth yfory, ond nid yw'r adborth rwy'n ei gael hyd yn hyn yn gryf o blaid cerdyn penodol i Gymru. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn inni wahaniaethu rhwng cerdyn adnabod a darparu gwasanaethau i gyn-filwyr. Nid yw'r ddau beth yn gyd-ddibynnol, a byddaf yn rhoi ystyriaeth i hyn. Gwn fod Peter Black ac Andrew R.T. Davies wedi sôn am gynllun peilot, ac rwyf wedi bwrw golwg arno. Rwyf wedi trefnu iddo gael ei gostio a bydd yn cael ei drafod gan y grŵp arbenigol yfory. Gwnaeth Ann Jones bwynt pwysig pan soniodd am yr elfiant yn yr ystafell, oherwydd ar ôl toriad mor fawr i'n cyllideb gyffredinol gan Lywodraeth y DU, mae'n rhaid inni edrych ar effaith yr hyn rydym yn ei wario, ac oni bai bod y cerdyn yn creu manteision go iawn, bydd yn rhaid imi edrych yn ofalus iawn ar ei gost.

Rhoddaf enghraifft pam nad yw'r ddau'n gyd-ddibynnol, os yw'n ofynnol i'r GIG yng Nghymru eisoes i ddarparu triniaeth a gofal â blaenoriaeth i gyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd yn deillio o'u gwasanaeth. Fel y cydnabuwyd y prynhawn yma, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol bellach wedi cytuno i gefnogi'r cyfamodau cymunedol. Yr olaf oedd Blaenau Gwent ym mis Rhagfyr y llynedd. Mae nifer eisoes wedi cyflwyno mynediad rhad ac am ddim neu am bris gostyngol i wasanaethau nofio a hamdden, gan ddefnyddio dulliau presennol o adnabod cyn-filwyr. Mae'n bwysig nad yw dogfen y cyfamod cymunedol yn eistedd ar silff yn hel llwch ac rwyf wedi ysgrifennu at bob un o'r 22 awdurdod lleol yn gofyn pa gamau a gymerwyd ers iddynt dderbyn y cyfamodau cymunedol. Rwyf wedi cael sicrwydd eu bod yn edrych ar y cyfamod ar sail barhaus i fonitro pa wasanaethau y maent yn eu darparu.

Gallaf hefyd gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn barod i ystyried prisiau rhatach neu fynediad am ddim i gyn-filwyr i safleoedd Cadw. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o addasiadau, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, a byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys ystyriaeth i flaenoriaethu grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer cyn-filwyr. Rydym eisoes wedi eithrio pensïynau ac iawndal milwrol o'r prawf modd ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl. Cafodd ein cynllun teithio rhatach ar fysiau ei ymestyn yn 2011 i gynnwys milwyr y lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol a chyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol. Felly gallwch weld bod llawer iawn o waith wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

I support amendment 4: improving the mental health of veterans and ensuring funding for the all-Wales veterans health and wellbeing service is a programme for government commitment. The Welsh Government has provided recurring funding of £485,000, which supports provision for veterans, and an additional £100,000 to the £650,000 investment in psychological therapies in the current year has also been agreed. This will focus on equalising waiting times across the service, and a review of the service is currently being undertaken by Public Health Wales.

In relation to a memorial at the National Memorial Arboretum, the Welsh Government would consider how it might be able to support that, but Welsh soldiers are already remembered in memorials across Wales, including the national war memorial in Cathays park.

If I may, I will just say something about reservists. It is Uniform to Work Day today and I think that it is important to mention that, because we value our reservists. Certainly, the MoD cuts coming from the UK Government mean that we are going to rely on reservists even more. Today, as Andrew R.T. Davies said, is national reservist day, and we have encouraged reservists to wear their uniforms to work to encourage others to join up. The Welsh Government supports this very much today, and we have had reservist recruitment teams in Cathays park from all three services, and they will be visiting other Welsh Government offices in the coming months.

Rwy'n cefnogi gwelliant 4: mae gwella iechyd meddwl cyn-filwyr a sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru yn rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd o £485,000, sy'n cefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer cyn-filwyr, a chytunwyd hefyd i roi £100,000 ychwanegol at y buddsoddiad o £650,000 mewn therapïau seicolegol yn y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gydraddoli amseroedd aros ar draws y gwasanaeth ac mae adolygiad o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mewn perthynas â chofeb yn yr Ardd Goed Genedlaethol, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai gefnogi hynny, ond mae milwyr Cymru eisoes yn cael eu coffáu gan gofebion ar draws Cymru, gan gynnwys y gofeb ryfel genedlaethol ym mharc Cathays.

Os caf, rwyf am ddweud rhywbeth am filwyr wrth gefn. Mae'n Ddiwrnod Gwisgo Lifrai i'r Gwaith heddiw ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig sôn am hynny, oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi ein milwyr wrth gefn. Yn sicr, mae toriadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n dod gan Lywodraeth y DU yn golygu ein bod yn mynd i ddiybennu mwy fyth ar filwyr wrth gefn. Heddiw, fel y dywedodd Andrew RT Davies, mae'n ddiwrnod cenedlaethol y milwyr wrth gefn ac rydym wedi annog milwyr wrth gefn i wisgo eu lifreion i'r gwaith i annog eraill i ymuno. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn yn fawr iawn heddiw a daeth timau recriwtio milwyr wrth gefn i barc Cathays o bob un o'r tri llu arfog, a byddant yn ymweld â swyddfeydd eraill Llywodraeth Cymru yn ystod y misoedd nesaf.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:08 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to everyone who has taken part in this debate. For the best part, most contributions have been thoughtful and helpful in helping us to develop what I think is strong support here in the National Assembly. One thing that we are all united on is our admiration for our armed forces and for our veteran community here in Wales. Let us face it, we owe the freedoms that we enjoy today to their heroism and sacrifice over the decades, and we should never cease to remember that. It is a timely debate, as everybody has said.

I am a little bit disappointed that there have been some attempts to politicise the debate. That was not the spirit in which the debate was brought forward. I would rather focus on what this National Assembly can do to influence and support veterans across Wales, and I think that there are some steps that need not cost a great deal that we can take, that would add a great deal of value to the support service that is already there in Wales for many in our armed forces and veteran community.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau wedi bod yn ystyriol ac yn ddefnyddiol i'n helpu i ddatblygu cefnogaeth y credaf sy'n gryf yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Un peth rydym i gyd yn unedig yn ei gylch yw ein hedmygedd o'n lluoedd arfog a chymuned ein cyn-filwyr yma yng Nghymru. Gadewch inni wynebu'r peth, mae'r rhyddid rydym yn ei fwynhau heddiw yn deillio o'u harwriaeth a'u haberth dros y degawdau, ac ni ddylem byth anghofio hynny. Mae'n ddadl amserol, fel y mae pawb wedi'i ddweud.

Rwyf ychydig yn siomedig fod rhai ymdrechion wedi bod i wneud y ddadl yn un wleidyddol. Nid dyna oedd yr ysbryd y cyflwynwyd y ddadl ynddi. Byddai'n well gennyf ganolbwyntio ar yr hyn y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei wneud i ddylanwadu ar gyn-filwyr, a'u cefnogi ym mhob cwr o Gymru, ac rwy'n meddwl bod rhai camau na ddylent gostio llawer y gallwn eu cymryd a fyddai'n ychwanegu llawer iawn o werth i'r gwasanaeth cymorth sydd eisoes ar gael yng Nghymru ar gyfer llawer yn ein lluoedd arfog a chymuned y cyn-filwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I want to pay tribute to the Minister for her personal commitment to the armed forces and veterans in Wales. I am pleased to see some of the action that the Welsh Government has already taken to support the armed forces community here. We know that the housing support, for example, has been very welcome, as was the development and the establishment of the all-Wales veterans health and wellbeing service, which is being rebranded tomorrow as the Veterans' NHS Wales service. These are very good developments indeed and, of course, there has been encouragement from the Welsh Government as well, in trying to ensure that all local authorities in Wales are subscribers to their own armed forces community covenant. I am very pleased that it was a Welsh Conservative-led local authority that forged ahead on that front initially.

However, as I have said, I am disappointed by some contributions, or some aspects of some contributions. Let us not forget that there is an elephant in the room: no-one has mentioned the fact that Tony Blair sent troops into Afghanistan without the right kit, or even boots, in some cases. It is a little bit disappointing. However, putting that aside, let us concentrate on the positives.

Ann Jones a gododd—

16:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not have time, Ann.

I would like to say what a fantastic contribution the third sector makes in Wales to supporting our armed forces—the Royal British Legion, the Soldiers, Sailors, Airmen and Families Association, Blind Veterans UK and, of course, CAIS, particularly in north Wales with its Change Step programme.

Alun Ffred Jones a gododd—

16:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sorry; I do not have any time to take any interventions.

We need to work with them in a very constructive way in order to expand the range of services that they are able to provide, particularly for those veterans who are struggling with mental health problems. While I very much welcome the additional £100,000 that has been awarded to the Veterans' NHS Wales service to address some of the very serious capacity issues that that service has in some parts of Wales, with waits of up to six months to access an assessment, I have to reflect on the fact that funding for the NHS, and in particular for mental health services in the NHS, fell in cash terms—not in real terms, in terms of being compared against inflation—by £24 million between 2011-12 and 2012-13. That has a damaging impact on the other opportunities that veterans have to be able to engage with mental health services, and I am very concerned about that indeed.

Hoffwn dalu teyrnged i'r Gweinidog am ei hymrwymiad personol i'r lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru. Rwy'n falch o weld rhai o'r camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cymryd i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yma. Gwyddom fod y cymorth tai, er enghraifft, wedi'i groesawu'n fawr, fel roedd datblygu a sefydlu gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru, sy'n cael ei ail-frandio yfory fel gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr. Mae'r rhain yn ddatblygiadau da iawn yn wir ac wrth gwrs, cafwyd anogaeth gan Lywodraeth Cymru yn ogystal i geisio sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn arddel eu cyfamedd cymunedol eu hunain ar gyfer y lluoedd arfog. Rwy'n falch iawn mai awdurdod lleol a arweinir gan y Ceidwadwyr Cymreig a arweiniodd ar hynny yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, fel y dywedais, rwyf wedi fy siomi gan rai cyfraniadau neu rai agweddau o rai cyfraniadau. Gadewch inni beidio ag anghofio bod yna elfiant yn yr ystafell: nid oes neb wedi sôn am y ffaith bod Tony Blair wedi anfon milwyr i Affganistan heb y cit cywir, na hyd yn oed esgidiau mewn rhai achosion. Mae'n siomedig braidd. Fodd bynnag, gan roi hynny o'r neilltu, gadewch i ni ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol.

Ann Jones rose—

Nid oes gennyf amser, Ann.

Hoffwn ddweud cyfraniad mor wych y mae'r trydydd sector yn ei wneud yng Nghymru i gefnogi ein lluoedd arfog—y Llang Brydeinig Frenhinol, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd, Blind Veterans UK ac wrth gwrs, CAIS, yn enwedig yng ngogledd Cymru gyda'u rhaglen Newid Cam.

Alun Ffred Jones rose—

Mae'n ddrwg gennyf; nid oes gennyf amser i gymryd unrhyw ymyriadau.

Mae angen i ni weithio gyda hwy mewn ffordd adeiladol iawn er mwyn ehangu'r ystod o wasanaethau y gallant eu darparu, yn enwedig ar gyfer cyn-filwyr sy'n cael trafferth gyda phroblemau iechyd meddwl. Er fy mod yn croesawu'n fawr y £100,000 ychwanegol a roddwyd i wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr fynd i'r afael â rhai o'r materion capasiti difrifol iawn sy'n wynebu'r gwasanaeth mewn rhai rhannau o Gymru, gyda phobl yn aros hyd at chwe mis i gael eu hasesu, rhaid i mi ystyried y ffaith bod cyllid ar gyfer y GIG, ac yn arbennig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y GIG, wedi lleihau o ran arian parod—nid mewn termau real, o ran ei gymharu yn erbyn chwyddiant—£24 miliwn rhwng 2011-12 a 2012-13. Mae hynny'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd eraill sydd gan gyn-filwyr i allu ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, ac rwy'n bryderus iawn am hynny, wir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was pleased to hear the Minister refer to the fact that the expert group is meeting tomorrow. I just want to make one final point, as I know that I do not have a great deal of time. I do not think that the veterans card scheme need necessarily be an expensive scheme to implement—we already have swimming pools in our communities, bus services are already running and disabled facilities grants already have to be delivered—but it is a really important way of identifying veterans out there in Wales and making sure that we are meeting their needs.

Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn cyfeirio at y ffaith bod y grŵp arbenigol yn cyfarfod yfory. Rwyf eisiau gwneud un pwynt terfynol gan fy mod yn gwybod nad oes gennyf lawer o amser. Nid wyf yn meddwl bod angen i gynllun cerdyn cyn-filwyr fod yn gynllun drud i'w weithredu o reidrwydd—mae gennym eisoes byllau nofio yn ein cymunedau, gwasanaethau bus sy'n rhedeg eisoes ac eisoes mae'n rhaid darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl—ond mae'n ffordd bwysig iawn o adnabod y cyn-filwyr sydd yng Nghymru a gwneud yn siŵr ein bod yn diwallu eu hanghenion.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Post na Ofynnir amdano

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Tynnwyd gwelliant 1 yn ôl.

Welsh Conservatives Debate: Unsolicited Mail

The following amendments have been selected: amendment 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts. Amendment 1 has been withdrawn.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Russell George i gynnig y cynnig.

I call on Russell George to move the motion.

Cynnig NDM5535 Paul Davies

Motion NDM5535 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod aelwydydd a busnesau yng Nghymru yn cael llawer o bost heb gyfeiriad nad yw byth yn cael ei agor ac sydd naill ai'n mynd yn syth i'w dirlenwi neu'n cael ei ailgylchu;

1. Notes that Welsh households and businesses receive a great deal of unaddressed mail which is never opened and either goes to land fill or is recycled;

2. Yn credu bod hwn yn strae'n ychwanegol ar:

2. Believes this is an added strain on:

a) busnesau, sy'n gorfod talu am waredu gwastraff; a

a) businesses, which have to pay for waste removal; and

b) awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldeb am gasglu'r gwastraff.

b) local authorities, who have a responsibility to collect the waste.

3. Yn pryderu am yr effaith amgylcheddol sy'n niweidiol i'n hadnoddau naturiol, gyda phob tunnell o bost heb gyfeiriad arno yn defnyddio 17 o goed a 7000 galwyn o ddŵr i'w gynhyrchu;

3. Is concerned about the environmental impact which is damaging to our natural resources, with each tonne of unaddressed mail using 17 trees and 7000 gallons of water to produce;

4. Yn nodi ymhellach Ymgyrch Age Cymru 'Sgamiau a Thwyll'.

4. Further notes the Age Cymru Campaign 'Scams and Swindles'.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyhoeddusrwydd i gynlluniau eithrio fel y Gwasanaeth Dewis Derbyn Post.

5. Calls on the Welsh Government to publicise opt out schemes such as the Mailing Preference Service.

I move the motion.

Before I go into the main part of my contribution, I would like to thank colleagues from other parties for their early support regarding the principles underpinning this debate and in light of that, we will be supporting all of the amendments that have been tabled.

There is no question that the issue of unaddressed, unwanted, blanket junk mail is an issue that frustrates people on the doorsteps up and down the country—and some people have told me that this is no less true at election time. However, there is a serious underlying issue, namely the nuisance factor. In terms of the environment, the cost of junk mail is enormous. The average household receives 453 pieces of unwanted mail a year. Each tonne of junk mail uses 17 trees and 7,000 gallons of water. In 2012, over 0.5 million tonnes of paper and 16.5 billion litres of water were used to produce an estimated 17.5 billion pieces of junk mail. That is 4.4% of the UK's annual consumption of paper and board and is equivalent to 9 million trees. It can cost councils up to £700,000 per year to dispose of junk mail to landfill, putting enormous weight on the taxpayer and on the environment.

There is also a social element to a sizeable portion of targeted junk mail, with much of it going under the radar of authorities, and that is the millions of scam letters that are sent to households every year. Scam mail is used by organised criminals both in this country and overseas to target the vulnerable and elderly in order to get them to part with money through schemes that are delivered through the letterbox. Many of us have seen examples of these types of scams, such as letters about winning a competition that we have never entered asking us to send money upfront to release a large cash prize. If a victim replies to such a piece of mail, they end up on so-called 'suckers lists', only to be further bombarded with more mail, psychologically wearing down that person and causing more and more distress.

According to the Office of Fair Trading, these types of scams are estimated to cost their victims up to £3.5 billion a year. One example it gave demonstrates the scale of this problem: 22,000 people responded to a single scam mailshot last year and sent in £0.5 million in just one day—money taken from unsuspecting individuals and families.

Cynigiaf y cynnig.

Cyn imi ddechrau ar brif ran fy nghyfraniad, hoffwn ddiolch i gydweithwyr o'r pleidiau eraill am eu cymorth cynnar o ran yr egwyddorion sy'n sail i'r ddatl hon ac yng ngoleuni hynny, byddwn yn cefnogi'r holl welliannau sydd wedi'u cyflwyno.

Nid oes unrhyw gwestiwn fod mater post sothach digyfeiriad, diwahoddiad, cyffredinol yn peri rhwystredigaeth i bobl ar garreg y drws ar hyd a lled y wlad—ac mae rhai pobl wedi dweud wrthyf fod hyn yr un mor wir ar adeg etholiad. Fodd bynnag, mae yna fater difrifol wrth wraidd hyn, sef y ffactor niwsans. O ran yr amgylchedd, mae cost post sothach yn enfawr. Mae'r cartref cyffredin yn derbyn 453 o eitemau o bost diwahoddiad y flwyddyn. Mae pob tunnell o bost sothach yn defnyddio 17 o goed a 7,000 galwyn o ddŵr. Yn 2012, defnyddiwyd dros 0.5 miliwn tunnell o bapur a 16.5 biliwn litr o ddŵr i gynhyrchu 17.5 biliwn eitem amcangyfrifedig o bost sothach. Mae hynny'n 4.4% o ddefnydd blynyddol y DU o bapur a chardbord ac mae'n cyfateb i 9 miliwn o goed. Gall gostio hyd at £700,000 y flwyddyn i gynghorau gludo post sothach i safleoedd tirlenwi, gan roi pwysau enfawr ar y trethdalwr ac ar yr amgylchedd.

Hefyd, mae yna elfen gymdeithasol i gyfran sylweddol o bost sothach wedi'i dargedu, gyda llawer ohono allan o gyrraedd radar yr awdurdodau, sef y miliynau o lythyrau sgâm sy'n cael eu hanfon i gartrefi bob blwyddyn. Defnyddir post sgâm gan droseddwr cyfundrefnol yn y wlad hon a thramor i dargedu pobl agored i niwed a'r henoed er mwyn eu cael i roi arian i gynlluniau a ddosberthir drwy'r blwch llythyrau. Mae llawer ohonom wedi gweld enghreifftiau o'r mathau hyn o sgamiau, megis llythyrau am ennill cystadleuaeth nad ydym erioed wedi cystadlu arni yn gofyn inni anfon arian ymlaen llaw i ryddhau gwobr ariannol fawr. Os bydd dioddefwyr yn ymateb i bost o'r fath, cânt eu gosod ar yr hyn a elwir yn rhestrau o rai hawdd eu twyllo, i gael eu peledu ymhellach gan ragor o bost, a'u blino'n seicolegol gan achosi mwy a mwy o ofid.

Yn ôl y Swyddfa Masnachu Teg, amcangyfrifir bod y mathau hyn o sgamiau yn costio hyd at £3.5 biliwn y flwyddyn i'w dioddefwyr. Mae un enghraifft a roddodd yn dangos graddau'r broblem hon: ymatebodd 22,000 o bobl i un ymgyrch bost sgam y llynedd ac anfon £0.5 miliwn mewn un diwrnod yn unig-arian a gymerwyd gan unigolion a theuluoedd diarwybod.

As I mentioned, much of this dark mail is going unnoticed by authorities and by the families of the victims who have been targeted. This is why we should rightly commend the work of a number of organisations, such as the Think Jessica campaign and Age Cymru, who are helping to shine a light on some of the murkier parts of this industry. These third sector organisations, along with others, have been calling for change and I believe that change can and must happen to protect our citizens and our environment. That is why we have as a party launched a public consultation to discuss how we can find practical solutions to address the hundreds of pieces of unwanted mail that are delivered to Welsh households every year, one third of which is discarded before it has even been opened.

We are putting forward a range of options in the consultation process, and one of those options is placing a levy on the sender of junk mail, with that money then to be reinvested in various areas, which could potentially include the forestry industry, the protection of rural post offices, or even local authorities in order to help with waste recycling and management. We want the public and businesses to respond to our consultation. We want to hear about their experiences and we want to hear about their alternative ideas, if they have any to bring forward.

As the party of business and enterprise, we acknowledge that there will be concerns from some businesses and the Royal Mail on this issue, as there were concerns from businesses when the Welsh Government looked to implement the carrier bag levy. The Government, to its credit, knew that the plastic bag blight had to be addressed and it got on with it with tremendous results, particularly in terms of changing consumer behaviour and attitudes, with very little impact on the business sector.

We do not believe that these proposals are going to jeopardise the universal service obligation. I strongly believe in the universal service obligation, and that is why I had no hesitation in signing up to Llyr's statement of opinion on that subject. However, the fact of the matter, as I see it, is that voluntary agreements and self-governance has led to junk mail becoming cheaper to produce and distribute, and the larger the volume, the less targeted the mailshot, which is clearly unsustainable.

So, change has to happen or be enforced—I think it is that simple. We all want this country to be a greener, more sustainable place. We have a major piece of legislation being introduced in less than a fortnight's time to help initiate that change among public sector organisations, but the private sector must also do its bit to contribute to that change. I hope that this will be a useful debate this afternoon and that it will trigger wider conversations across Wales because, as the former Minister for the environment Jane Davidson said:

'Junk mail contributes nothing to the environment...and nothing to society.'

Fel y soniais, mae llawer o'r post amheus hwn yn digwydd heb i'r awdurdodau na theuluoedd y dioddefwyr sy'n cael eu targedu sylwi arno. Dyna pam y dylem gymeradwyo gwaith nifer o sefydliadau, fel ymgyrch Think Jessica ac Age Cymru, sy'n helpu i daflu goleuni ar rai o'rannau mwy amheus y diwydiant hwn. Mae'r sefydliadau trydydd sector hyn, ynghyd ag eraill, wedi bod yn galw am newid ac rwy'n credu y gall newid ddigwydd, a bod yn rhaid iddo ddigwydd er mwyn diogelu ein dinasyddion a'n hamgylchedd. Dyna pam rydym fel plaid wedi lansio ymgyngoriad cyhoeddus i drafod sut y gallwn ddoed o hyd i atebion ymarferol i fynd i'r afael â'r cannoedd o eitemau o bost diwahoddiad sy'n cael eu dosbarthu i gartrefi Cymru bob blwyddyn, a thraean ohono'n cael ei daflu cyn ei agor hyd yn oed.

Rydym yn cyflwyno amrywiaeth o opsiynau yn ystod y broses ymgyngori, ac un o'r opsiynau yw gosod ardoll ar anfonwyr post sothach, gyda'r arian hwnnw wedyn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwahanol feysydd, a allai gynnwys y diwydiant coedwigaeth, diogelu swyddfeydd post gwledig neu awdurdodau lleol hyd yn oed er mwyn helpu gydag ailgylchu a rheoli gwastraff. Rydym eisiau i'r cyhoedd a busnesau ymateb i'n hymgyngoriad. Rydym yn awyddus i glywed am eu profiadau ac rydym eisiau clywed eu syniadau os oes ganddynt rai i'w cyflwyno.

Fel plaid menter a busnes, rydym yn cydnabod y bydd pryderon gan rai busnesau a'r Post Brenhinol ynglŷn â'r mater hwn, fel y pryderon a fynegwyd gan fusnesau pan oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu'r ardoll ar fagiâu plastig. Roedd y Llywodraeth, er clod iddi, yn gwybod bod yn rhaid mynd i'r afael â malltod bagiau plastig a bwriodd iddi ar y mater gan arwain at gwnlyniadau aruthrol, yn enwedig o ran newid ymddygiad ac agweddau defnyddwyr, gydag ychydig iawn o effaith ar y sector busnes.

Nid ydym yn credu bod y cynigion hyn yn mynd i beryglu'r ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol. Rwy'n credu'n gryf yn yr ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol, a dyna pam nad oedais cyn cefnogi datganiad barn Llyr ar y pwnc hwnnw. Fodd bynnag, y gwir fel y'i gwelaf yw bod cytundebau gwirfoddol a hunanlywodraethu wedi arwain at gynhyrchu a dosbarthu post sothach yn rhatach, a pho fwyaf yw'r ymgyrch bostio, y lleiaf yn y byd o dargedu sydd arni, sy'n amlwg yn anghynaliadwy.

Felly, rhaid i newid ddigwydd neu gael ei orfodi—rwy'n credu ei fod mor syml â hynny. Rydym i gyd am i'r wlad hon fod yn lle gwyrdd a mwy cynaliadwy. Mae gennym ddeddfwriaeth bwysig yn cael ei chyflwyno mewn llai na phythefnos i helpu i gychwyn y newid hwnnw ymlith sefydliadau'r sector cyhoeddus, ond mae'n rhaid i'r sector preifat hefyd wneud ei ran i gyfrannu at y newid hwnnw. Rwy'n gobeithio y bydd hon yn ddadl ddefnyddiol y prynhawn yma ac y bydd yn sbarduno sgyrisiau ehangach ledled Cymru oherwydd, fel y dywedodd Jane Davidson, y cyn Weinidog dros yr amgylchedd:

'Nid yw post sothach yn cyfrannu dim i'r amgylchedd... a dim i gymdeithas.'

16:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tynnwyd gwelliant 1 yn ôl. Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Amendment 1 has been withdrawn. I have selected the two amendments to the motion. I call on Llyr Gruffydd to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio ag awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus i fabwysiadu biliau a chyfathrebu di-bapur lle bynnag y bo'n bosibl.

Calls on the Welsh Government to work with local authorities and the private sector to adopt paperless billing and communication where possible.

16:20

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very glad to move amendment 2 on behalf of Plaid Cymru.

Rwy'n falch iawn o gynnig gwelliant 2 ar ran Plaid Cymru.

I am grateful to the Conservatives for bringing forward this rubbish debate—because that is exactly what it is; it is a debate about rubbish and the way we tackle the waste that is generated.

Diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddatl hon am sbwriel—oherwydd dyna'n union beth ydyw; mae'n ddatl am sbwriel a'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r gwastraff a gynhyrchir.

Ar yr olwg gyntaf, mae'n gynnig canmoladwy iawn; mae post heb gyfeiriad yn broblem ac mae bocsys ailgylchu yn aml yn llawn ohono. Fodd bynnag, ar ôl pwyso a mesur yn fanylach, nid yw hi mor syml â hynny, efallai. Mae busnesau, fel y cyfeirir ato yn y cynnig, yn talu i waredu'r gwastraff hwn, ond, ar y llaw arall, fel y mae'r Aelod wedi cydnabod wrth gynnig y cynnig, mae'n arf marchnata pwysig a gwerthfawr i nifer o fusnesau. Mae'n rhaid inni ofalu nad ydym ni'n tansellio gallu a hawl busnesau i hyrwyddo eu hunain drwy ddatblygiadau fel hyn, cyhyd â'u bod nhw'n gwneud hynny mewn modd cyfrifol. I fi, 'scams' a thwyll yw'r priif ffocws yn hyn o beth, a thadco'r problemau sy'n deillio o hynny. Rwyf hefyd yn canmol gwaith Age Cymru yn y maes hwn, ac rwyf hefyd yn barod i gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Rwy'n meddwl mai yn y fan honno y dylai'r ffocws fod. Wrth agor y ddatl, cyfeiriodd Russell George at 'levy' posibl ar 'junk mail'. Eto, rwy'n deall y cymhelliad, ac roedd e'n rhyw hanner cydnabod y byddai rhyw fath o oblygiadau, yn enwedig i'r Post Brenhinol, wrth gwrs.

At first glance, it is a very praiseworthy motion; unaddressed mail is a problem and recycling boxes are often full of the stuff. However, having considered it in more detail, it is not as simple as that, perhaps. Businesses, as mentioned in the motion, have to pay to dispose of this waste, but, on the other hand, as the Member recognised in moving the motion, it is an important and valuable marketing tool for many businesses. We must be careful that we do not undermine the right and ability of businesses to promote themselves through such developments, as long as they do so in a responsible manner. To me, scams and fraud are the main focus in this regard, and tackling the problems that emerge from that. I also praise the work of Age Cymru in this area, and I am also willing to support the Liberal Democrat amendment. I think that is where the focus should lie. In opening the debate, Russell George mentioned a possible levy on junk mail. Again, I understand the motivation behind that, and there was semi-recognition of the implications, particularly for the Royal Mail, of course.

We know that the Royal Mail needs to price competitively to compete against other forms of advertising and that unaddressed mail contributes crucial revenue, which then supports staff wages, and also underpins the revenue that covers the cost of delivering the universal service across the entire network. So, I feel that there might be, maybe unintentionally, a bit of a Tory pincer movement here on the Royal Mail. On the one hand you are undermining, or potentially undermining, an important revenue stream for it, and, at the same time, the UK Government is opening up the market to allow its competitors to cherry-pick the most profitable routes, which currently help subsidise and protect services in less-profitable areas, such as your own rural communities in Montgomeryshire. Letter volumes are already in decline and services are already under pressure, and there is a real danger that this could make things worse.

Gwyddom fod angen i'r Post Brenhinol brisio'n gystadleuol er mwyn cystadlu yn erbyn mathau eraill o hysbysebu a bod post heb gyfeiriad yn cyfrannu refeniw hollbwysig, sydd wedyn yn cefnogi cyflogau staff a hefyd yn sail i refeniw sy'n cynnwys y gost o ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol ar draws y rhwydwaith cyfan. Felly rwy'n teimlo y gallai fod, yn anfwriadol efallai, ychydig o wasgu yma ar y Post Brenhinol ar ran y Toriaid. Ar y naill law rydych yn tansellio, neu'n bygwth tansellio, ffrwd refeniw bwysig ar ei gyfer, ac ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU yn agor y farchnad er mwyn caniatáu i'w chystadleuwyr ddehollol y llwybrau mwyaf proffidiol, sy'n helpu ar hyn o bryd i sybideiddio ac amddiffyn gwasanaethau mewn ardaloedd llai proffidiol, megis eich cymunedau gwledig eich hun yn Sir Drefaldwyn. Mae llai a llai o lythyrau'n cael eu postio a gwasanaethau eisoes o dan bwysau ac mae perygl gwirioneddol y gallai hyn wneud pethau'n waeth.

The motion says that collecting the waste is an added strain on local authorities. Well, we were in a meeting of the environment committee this morning taking evidence from senior officers responsible for waste and recycling departments in Welsh local authorities, and the evidence was actually to the contrary: they were telling us how this is actually generating income for local authorities. Recycled waste paper is a valuable resource and they do not want to lose it. The truck still passes the front door and has to collect other materials, and they saw that it would be a loss of income. However, that focus, of course, is on the monetary cost, and that probably says a lot about where we are at in this country today in terms of what is wrong perhaps with the way that we deal with many of these situations.

One aspect of this motion that I fully respect is the environmental cost. The fact that it takes 17 trees and 7,000 gallons of water to produce one tonne of unaddressed mail is a very startling fact, and our amendment urges the Welsh Government, local authorities and the private sector to adopt paperless billing and communications where that is possible as part of that answer. However, I have to take the Tories' environmental sympathies with a pinch of salt. It is all well and good coming here and worrying about the damaging effects on the environment and on our earth's resources of junk mail. Well, come on, let us get real. This is the party that wants to cut the 'green crap', as somebody once described it, with a Chancellor who has said he does not want to be at the forefront of tackling climate change and who has slammed costly green policies—

Mae'r cynnig yn dweud bod casglu gwastraff yn straen ychwanegol ar awdurdodau lleol. Wel, roeddem mewn cyfarfod o'r pwyllgor amgylchedd y bore yma yn cymryd tystiolaeth gan yr uwch swyddogion sy'n gyfrifol am wastraff ac adrannau ailgylchu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ac roedd y dystiolaeth i'r gwrthwyneb mewn gwirionedd: roeddynt yn dweud wrthym sut y mae hyn mewn gwirionedd yn cynhyrchu incwm i awdurdodau lleol. Mae papur gwastraff a ailgylchir yn adnodd gwerthfawr ac nid ydynt am ei golli. Mae'r lori'n dal i basio'r drws ac yn gorfod casglu deunyddiau eraill, a gwelent y byddai'n arwain at golli incwm. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar y gost ariannol wrth gwrs, ac mae'n debyg fod hynny'n dweud llawer am ein sefyllfa yn y wlad hon heddiw o ran yr hyn sydd o'i le efallai ar y ffordd rydym yn ymdrin â llawer o'r sefyllfaoedd hyn.

Un agwedd ar y cynnig hwn rwy'n ei pharchu'n llwyr yw'r gost amgylcheddol. Mae'r ffaith bod angen 17 o goed a 7,000 galwyn o ddŵr i gynhyrchu un dunnell o bost heb gyfeiriad yn ffaith frawychus iawn ac mae ein gwelliant yn annog Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector preifat i fabwysiadu biliau a chyfathrebu di-bapur lle y mae hynny'n bosibl fel rhan o'r ateb hwnnw. Fodd bynnag, rhaid imi gymryd cydymdeimlad amgylcheddol y Toriaid gyda phinsiad o halen. Mae'n ddigon hawdd dod yma a phoeni am effeithiau niweidiol post sothach ar yr amgylchedd ac ar adnoddau'r ddaear. Wel, dowch wir, gadewch i ni wynebu ffeithiau. Dyma'r blaid sydd am roi diwedd ar y 'green crap', fel y disgrifiodd rhywun y peth, a Changhellor sydd wedi dweud nad yw'n dymuno bod ar flaen y gad o ran gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac sydd wedi condemnio polisiau gwyrdd costus-

16:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, I will.

Gwnaf, mi wnaif.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am really grateful to the Member for taking an intervention. Do you not believe that it is a gross intrusion into people's privacy and space when they receive constant barrages of mail that they have not requested, and threatening mail in many instances, that pull people into scams? Why do you object to that? Why do you object to bringing legislation forward?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Onid ydych yn credu ei bod yn ymyriad eithafol ar breifatrwydd a gofod pobl pan fyddant yn derbyn pentyrrau cyson o bost nad ydynt wedi gofyn amdano, a phost bygythiol mewn llawer o achosion, sy'n denu pobl i sgamiau? Pam rydych yn gwrthwynebu hynny? Pam rydych yn gwrthwynebu cyflwyno deddfwriaeth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:24 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, it is a pity that you have not listened to me for the last four minutes and fourteen seconds, because I have emphasised the need to focus on tackling the scams element. It is a nuisance, of course it is, but for you to come here on the premise that it is done on environmental grounds should be taken with a pinch of salt, I think. Your party is obsessed with fuelling this dash for gas; the prospect of fracking and moving us towards a more carbon-intensive source of energy production I think says it all—no doubt to the detriment of investment in other cleaner renewable sources of energy as well.

Wel, mae'n drueni nad ydych wedi gwrandao arnaf am y pedwar munud a phedair eiliad ar ddeg diwethaf oherwydd rwyf wedi pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r elfen sgamiau. Mae'n niwsans, wrth gwrs ei fod, ond mae i chi ddod yma a rhoi'r argraff ei fod yn cael ei wneud ar sail amgylcheddol i'w gymryd gyda phinsiad o halen, rwy'n credu. Mae gan eich plaid obsesiwn â thanio'r ysfia i ddod o hyd i nwy; mae'r posibilrwydd o ffracio a'n symud tuag at ffynhonnell ynni mwy drud-ar-garbon yn dweud y cyfan rwy'n meddwl—ar draul buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy glanach eraill hefyd yn ddiau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

It may come as a surprise to you, but I will be supporting an amended motion here, because I believe that we need to tackle the scams that are happening out there, but, for heaven's sake, get your priorities right.

Efallai y bydd yn syndod i chi, ond byddaf yn cefnogi cynnig wedi'i wella yma oherwydd fy mod yn credu bod angen inni fynd i'r afael â'r sgamiau sy'n digwydd, ond er mwyn popeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich blaenoriaethau'n gywir.

16:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Eluned Parrott i gynig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call for amendment 3 Eluned Parrott submitted the name Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3-Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r broses ar gyfer 'Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad', i amddiffyn pobl hŷn rhag masnachwyr twyllodrus diegwyddor a sgamiau ar garreg y drws.

Calls on the Welsh Government to review the process for 'No Cold Calling Zones', to protect older people from unscrupulous rogue traders and scams on the doorstep.

16:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 3.

Cynigiau welliant 3.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome this debate today on the issue of unaddressed mail, which, as the motion highlights, can have a huge environmental impact. However, I too think that we should be very clear at the outset that unaddressed mail is a different subject from that of scams targeting older people. While unaddressed mail can cause some of the problems outlined in the motion, many businesses do use it as a perfectly legal technique to promote their services. A scam is different. It is an illegal attempt to gain money from people under false pretences, and I think that we have to be incredibly careful not to conflate these terms casually, partially because it casts a shadow over companies that are acting perfectly legally with no intention to mislead, and partially because I think it gives credence to the idea that all addressed mail is therefore honest, when, sadly, we know that many of the more sophisticated scam operations are perfectly capable of obtaining people's data and using them. I would not want people to have this false sense of security and believe that an addressed piece of mail franked by the Royal Mail is more trustworthy, inherently, than an unaddressed one, because it simply is not the case.

Croesawaf y ddadl hon heddiw ar fater post heb gyfeiriad sy'n gallu effeithio'n enfawr ar yr amgylchedd, fel y mae'r cynnig yn ei amlygu. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn meddwl y dylem fod yn glir iawn ar y dechrau fod post heb gyfeiriad yn bwnc gwahanol i sgamiau sy'n targedu pobl hŷn. Er y gall post heb gyfeiriad achosi rhai o'r problemau a amlinellir yn y cynnig, mae llawer o fusnesau yn ei ddefnyddio fel techneg berffaith gyfreithlon i hyrwyddo eu gwasanaethau. Mae sgam yn wahanol. Mae'n ymgais anghyfreithlon i gael arian gan bobl drwy dwyll ac rwy'n meddwl bod yn rhaid inni fod yn hynod ofalus i beidio â chysylltu'r termau hyn yn ddifeddwl, yn rhannol am ei fod yn taflu cysgod dros gwmnïau sy'n gweithredu'n berffaith gyfreithlon heb unrhyw fwriad i gamarwain, ac yn rhannol oherwydd ei fod yn rhoi hygredded i'r syniad fod pob post â chyfeiriad yn onest, a ninnau'n gwybod, yn affodus, fod llawer o'r sgamiau mwy soffistigedig yn berffaith abl i gael gafael ar ddata pobl a'i ddefnyddio. Ni fyddwn am i bobl gael ymdeimlad ffug o ddiogelwch a chredu bod post â chyfeiriad wedi'i ffrancio gan y Post Brenhinol yn fwy dibynadwy, yn ei hanfod, nag un heb gyfeiriad gan nad yw hynny'n wir o gwbl.

Our amendment today focuses on the impact of scams on vulnerable people, such as the elderly. It is an incredibly important issue. The consequences for Welsh citizens who are victimised are very severe. The average financial loss, according to Age Cymru, is £1,200, and we know that, in some cases, sadly, it is hugely more than that. It does have a particular impact on the elderly, who may not have online access in order to check the legitimacy of some of these communications or who may not know who to turn to for help. In our amendment today, we wanted to take a practical look at what we could do to cut down on the number of scams, so we have called on the Welsh Government to review the process for establishing no-cold-calling zones, which aim to tackle doorstep crime incidents by specifying zones in which doorstep callers are not welcome. The scheme is remarkably and commendably cheap and efficient, but there is a big variation in terms of the numbers of properties protected by zones across Wales. So, for example, there are 7,000 homes covered in Monmouthshire, more than 2,000 homes in Caerphilly, but just 184 homes in Newport, and this is a cause for concern for me. One reason for this variation may well be the process required for setting up these no-cold-calling zones, and Age Cymru is leading a campaign on this issue to try to help simplify the process because it believes that, if there were less demanding criteria, that would lead to the creation of more zones. It would also make life better for reputable local traders who would benefit from a reduction in the amount of work being taken off them by rogue traders offering lower prices because they are not complying with legal obligations in the work they are doing.

So, we urge the Welsh Government to review this process and to look at ways in which we can establish more no-cold-calling zones. An indication of the scheme's potential is the no-cold-calling commitment made by British Gas, EDF, E.ON, Npower and Scottish and Southern Energy, further to significant concerns raised over the practices of the energy industry in the past with regard to cold calling. All have agreed to abide by the EnergySure code of practice that requires those energy companies to take account of a consumer's personal circumstances—

Mae ein gwelliant heddiw yn canolbwyntio ar effaith sgamiau ar bobl sy'n agored i niwed, megis yr henoed. Mae'n fater hynod bwysig. Mae'r canlyniadau i ddinasyddion Cymru sy'n cael eu heffeithio yn ddirifol iawn. Mae cyfartaledd y golled ariannol, yn ôl Age Cymru, yn £1,200 a gwyddom ei fod yn llawer mwy na hynny mewn rhai achosion, yn anffodus. Mae'n effeithio'n arbennig ar yr henoed, nad oes ganddynt fodd o fynd ar lein o bosibl i wirio dilysrwydd rhai o'r cyfathrebiadau hyn neu nad ydynt yn gwybod at bwy i droi am help. Yn ein gwelliant heddiw, roeddem yn awyddus i edrych yn ymarferol ar yr hyn y gallem ei wneud i leihau nifer y sgamiau, felly rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r broses ar gyfer sefydlu ardaloedd dim galw diwahoddiad, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â digwyddiadau troseddol ar garreg y drws drwy bennu ardaloedd lle nad oes croeso i rai sy'n galw wrth y drws. Mae'r cynllun yn hynod o rad ac effeithlon ac yn haeddu clod am hynny, ond mae nifer y cartrefi sy'n cael eu diogelu mewn ardaloedd ledled Cymru yn amrywio'n fawr. Er enghraifft felly, mae 7,000 o gartrefi yn cael eu diogelu yn Sir Fynwy, mwy na 2,000 o gartrefi yng Nghaerffili, a dim ond 184 o gartrefi yng Nghasnewydd, ac mae hyn yn peri pryder i mi. Mae'n bosibl iawn mai un rheswm dros yr amrywio yw'r broses sy'n ofynnol ar gyfer sefydlu'r ardaloedd dim galw diwahoddiad ac mae Age Cymru yn arwain ymgyrch ar y mater i geisio symleiddio'r broses am eu bod yn credu y byddai'n arwain at greu mwy o ardaloedd pe bai'r meini prawf yn llai beichus. Byddai hefyd yn gwneud bywyd yn well i fasnachwyr lleol ag enw da a fyddai'n elwa o leihau'r gwaith sy'n cael ei gymryd oddi wrthynt gan fasnachwyr twyllodrus sy'n cynnig prisiau is oherwydd nad ydynt yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol yn y gwaith y maent yn ei wneud.

Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r broses hon ac i edrych ar ffyrdd y gallwn sefydlu mwy o ardaloedd dim galw diwahoddiad. Arwydd o botensial y cynllun yw'r ymrwymiad dim galw diwahoddiad a wnaed gan Nwy Prydain, EDF, E.ON, Npower a Scottish and Southern Energy, yn sgîl y pryderon sylweddol a fynegwyd ynghylch arferion y diwydiant ynni yn y gorffennol o ran galw diwahoddiad. Mae pob un wedi cytuno i gadw at god ymarfer EnergySure sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau ynni hynny i ystyried amgylchiadau personol defnyddiwr—

16:28 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take a brief intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad byr?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:28 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Oh, yes, certainly. Sorry, I did not see you.

O, gwnaf, yn sicr. Mae'n ddrwg gen i, doeddwn i ddim yn eich gweld.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:28 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you join me in raising concerns that the no-cold-calling zones do not actually apply to representatives who call on behalf of the third sector? I have had a number of complaints in my own constituency where there are no-cold-calling zones, thank goodness, but where agents acting on behalf of charitable organisations can sometimes be pretty vigorous in trying to obtain donations, and it is causing some anxiety for my constituents. Do you think that is something that the Government ought to address?

A wnewch ategu fy mhryderon nad yw'r ardaloedd dim galw diwahoddiad mewn gwirionedd yn berthnasol i gynrychiolwyr sy'n galw ar ran y trydydd sector? Rwyf wedi cael nifer o gwynion yn fy etholaeth lle y ceir ardaloedd dim galw diwahoddiad, diolch byth, ond lle y gall asiantau sy'n gweithredu ar ran sefydliadau elusennol fod yn eithaf egniol weithiau wrth geisio cael rhoddion ac mae'n achosi rhywfaint o bryder i fy etholwyr. A ydych yn credu bod hynny'n rhywbeth y dylai'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is something that I hope we can understand better, but I will have to be frank here: the purpose of no-cold-calling zones is to prevent vulnerable people from being scammed and targeted in an illegal way, and I hope that you are not suggesting that the third sector and charities, in going about their business, are acting in an illegal way. If there are incidents, I hope that they will report them to the police, as they ought to do. As I said, we welcome the action that has been taken to tackle scammers and rogue traders by organisations such as the Royal Mail, for example by cancelling 10 contracts with identified scammers, preventing hundreds of thousands of items of scam mail—mainly from overseas it has to be said—from reaching UK customers and by putting in place an e-mail or telephone contact process for Royal Mail staff to report concerns about customers or postings for further investigation.

Turning to the amendments, we will be supporting Elin Jones's amendment today, given the inclusion of the 'where possible' caveat, which recognises that some people may of course prefer paper billing where they are prevented from accessing online billing due to disability, age or unreliable broadband. Finally, I have one point for the Minister. I wrote to the then Minister for the Environment and Sustainable Development to request an update on the responsibility deal signed between the Scottish, UK and Welsh Governments and the Direct Marketing Association back in 2011, but at that time there was no progress to report, as I understand it. I would be grateful if the Minister could update the Chamber on progress on that issue today.

Mae'n rhywbeth rwy'n gobeithio y gallwn ei ddeall yn well, ond mae'n rhaid i mi fod yn onest yma: diben ardaloedd dim galw diwahoddiad yw atal pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu twyllo a'u targedu mewn ffordd anghyfreithlon, ac rwy'n gobeithio nad ydych yn awgrymu bod y trydydd sector ac elusennau, wrth wneud eu gwaith, yn gweithredu mewn ffordd anghyfreithlon. Os oes digwyddiadau, rwy'n gobeithio bod yr heddlu'n cael gwybod amdanynt, fel y dylent. Fel y dywedais, rydym yn croesawu camau sydd wedi'u cymryd gan sefydliadau megis y Post Brenhinol, er enghraifft, i fynd i'r afael â sgamwyr a masnachwyr twyllodrus drwy ganslo 10 o gontractau gyda sgamwyr dynodedig, gan atal cannoedd o filoedd o eitemau o bost sgam—yn bennaf o dramor, mae'n rhaid dweud—rhag cyrraedd cwsmeriaid yn y DU, a thrwy roi proses ar gyfer cysylltu drwy e-bost neu dros y ffôn ar waith i staff y Post Brenhinol allu adrodd am bryderon ynglŷn â chwsmeriaid neu eitemau post ar gyfer eu hymchwilio ymhellach.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliant Elin Jones heddiw, o ystyried cynnwys y cafeat 'lle y bo modd', sy'n cydnabod efallai y bydd hi'n well gan rai pobl filiau papur os nad oes modd ganddynt o weld biliau ar lein oherwydd anabledd, oedran neu fand eang annibynadwy. Yn olaf, mae gennyf un pwynt ar gyfer y Gweinidog. Ysgrifennais at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y fargen cyfrifoldeb y cytunwyd arni rhwng Llywodraethau'r Alban, y DU a Chymru a'r Gymdeithas Marchnata Uniongyrchol yn ôl yn 2011, ond ar y pryd nid oedd unrhyw gynnydd i'w adrodd, yn ôl fel y deallaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr heddiw am y cynnydd a wnaed ar y mater.

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon yn prynhawn yma. Byddaf i hefyd yn canolbwyntio fy sylwadau ar bwynt 4 o'n dadl heddiw, sef sgamiau a dderbynnir trwy'r post.

Rwy'n siŵr bod pob un ohonom wedi clywed straeon yn y cyfryngau o bobl hŷn yn dioddef o'r amrywiaeth eang o sgamiau sy'n dod trwy'r post. Yn wir, mae Age Cymru wedi dweud bod achosion o unigolion sydd wedi derbyn hyd at 70 o lythyrau bob dydd sydd, wrth gwrs, yn hollol annerbyniol. Y ffaith yw y gall unrhyw un ohonom ddioddef o sgâm, ond fel sydd wedi cael ei ddweud eisoes, yr henoed a'r bregus sydd yn aml yn cael eu targedu ac sy'n agored i gael eu twyllo.

Mewn etholaethau gwledig fel yr etholaeth rwyf i'n ei chynrychioli, lle mae cyfran uchel o drigolion oedranuss, mae pobl yn aml yn ynysig yn gymdeithasol, maen nhw'n bobl sy'n ymddiried yn ormodol, ac mewn rhai achosion, maen nhw'n bobl sy'n gallu dioddef o salwch fel dementia. Yn anffodus, mae'r bobl hŷn yn dargedau allweddol. Maen nhw'n dod o dan anfantais ddifrifol wrth dderbyn post o'r fath, oherwydd, mewn llawer o achosion, maen nhw'n byw ar ben ei hun, ac nid ydynt ar y rhyngwyd, felly nid ydynt mewn sefyllfa i gael eu haddysgu am sgamiau. Nid ydynt mewn sefyllfa i siarad ag unrhyw un am y broblem.

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate this afternoon. I will also be concentrating my comments on point 4 of our debate today, namely scams received through the post.

I am sure that all of us have heard media stories of older people suffering from a wide range of scams that come through the post. Indeed, Age Cymru has said that there are cases of individuals having received up to 70 letters every day, which, of course, is totally unacceptable. The truth is that any one of us could be the victim of a scam, but as has already been said, it is the elderly and the vulnerable who often are targeted and are open to being cheated.

In rural constituencies like the one that I represent, where there is a high proportion of elderly residents, people are often socially isolated, they are people who trust too much and, in some cases, they are people who can suffer from illnesses such as dementia. Unfortunately, these people are key targets. They come under a serious disadvantage in receiving post like this, because, in many cases, they live alone and they are not on the internet, so they are not in a position to be educated about scams. They are not in a position to talk to anyone about the problem.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol o'r sgamiau cyffredin hyn, fel loteri a gwobrau raffl sy'n honni bod pobl wedi ennill rhywbeth er nad ydynt hyd yn oed wedi cymryd rhan mewn unrhyw beth. Mae digon o achosion o bobl sy'n derbyn catalog a sgamiau mewn llyfryn, sydd, unwaith eto yn addo enillion sydd byth yn digwydd. Yn anffodus, rwyf ar ddeall bod llai na 5% o bobl yn hysbysu'r awdurdodau am sgamiau, felly nid yw nifer o droseddwyd yn atebol am eu gweithredoedd.

Fodd bynnag, wrth ddweud hynny, mae gwaith da yn cael ei wneud gan nifer o sefydliadau ar draws Cymru ac yn wir ar draws y Deyrnas Unedig ar y mater hwn. Mae'r Post Brenhinol yn gweithio'n agos gydag Ymgyrch Sterling, sy'n uned fach o fewn adran reoli troseddau arbenigol, trefnedig ac economaidd y gwasanaeth heddlu yn Llundain. Mae'n gweithredu o New Scotland Yard a gwaith y tîm yw atal troseddau economaidd a cheisio atal sgamiau o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Yn amlwg, mae angen gwneud mwy i atal y sgamiau post hyn yng Nghymru ac yn wir ar draws y Deyrnas Unedig.

Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod Russell George, rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn cefnogi galwadau Age Cymru i'r Post Brenhinol roi'r gorau i ddsbarthu post sydd â chymhellion ariannol ar du allan yr amlenni ac i helpu i nodi dioddefwyr. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn gwneud yr hyn a allwn i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn yn ein hetholaethau. Y mis diwethaf, wrth gwrs, oedd mis ymwybyddiaeth sgamiau ac rwy'n falch iawn bod nifer o Aelodau wedi cefnogi ac arwyddo'r datganiad barn. Yn lleol, yn fy ardal i, rwy'n falch bod Cyngor Sir Penfro yn hyrwyddo ymgyrch Cyngor ar Bopeth i atal sgamiau ar draws y sir ac rwy'n falch bod yr awdurdod lleol wedi bod yn gwneud ei rhan i godi'r ymwybyddiaeth hon.

Fodd bynnag, er yr ymdrechion hyn, mae angen gwneud llawer mwy. Wrth gwrs, mae Age Cymru yn galw ar ddarparwyr post i wneud dau newid allweddol i geisio diogelu pobl hyn a bregus. Yn gyntaf, mae'n gofyn am roi'r gorau i ddsbarthu post sy'n addo cymhelliad ariannol mawr i'r derbynnydd ar y tu allan i'r amlen. Yn ail, mae'n galw ar ddarparwyr post i nodi pobl sy'n derbyn y math hwn o bost ac i basio'r manylion ymlaen at yr awdurdodau a allai wedyn benderfynu a oes angen cefnogaeth ar y bobl hyn. Yn bersonol, byddaf i yn cefnogi'r amcanion hyn ac rwy'n gobeithio y bydd Aelodau eraill hefyd yn cefnogi ymgyrch Age Cymru. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn annog pobl i edrych allan am ffrindiau, teulu neu gymdogion a allai fod mewn perygl ac i ymgynghori gyda Chyngor ar Bopeth a hefyd Safonau Masnach os ydym yn poeni bod rhywun yn cael ei dargedu a'i dwyllo.

Rwy'n gobeithio yn fawr iawn bod Llywodraeth Cymru nid yn unig yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth a chyda Safonau Masnach ac Age Cymru i'w helpu i fynd i'r afael â sgamwyr, ond hefyd gydag awdurdodau lleol i'w helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sgamiau fel hyn, ac yn bwysicach fyth gyda'r cyhoedd, yn enwedig y sawl sydd â pherthnasau oeddrannus neu agored i niwed, i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Felly, i gloi, rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r nod hwn ac rwy'n annog Aelodau i gefnogi ein cynnig ni heddiw.

Most of us are aware of these common scams, such as the lottery and raffle prizes that claim that people have won something even though they have not even participated in anything. There are plenty of cases of people receiving a catalogue or a booklet containing scams, which promise winnings that are never awarded. Unfortunately, I understand that fewer than 5% of people report scams to the authorities, so many offenders are not held to account for their actions.

However, having said that, there is good work being done by a number of organisations across Wales and, indeed, across the UK on this issue. The Royal Mail is working closely with Operation Sterling, which is the Metropolitan Police Service's economic and specialist crime unit. It operates out of New Scotland Yard and the work of the team is to prevent economic crime and to try to prevent scams from outwith the UK. Clearly, more needs to be done to prevent such postal scams in Wales and, indeed, across the United Kingdom.

As my colleague Russell George said, I hope that all Members will support Age Cymru's calls for the Royal Mail to stop distributing post with financial incentives on the outside of the envelopes and to help identify victims. It is important that we all do what we can to raise awareness of this issue in our constituencies. Last month was, of course, scams awareness month and I am very pleased that many Members supported and signed the statement of opinion. Locally, in my area, I am pleased that Pembrokeshire County Council is promoting a Citizens Advice campaign to prevent scams across the county and I am pleased that the local authority has been playing its part in raising awareness of this issue.

However, despite these efforts, much more needs to be done. Of course, Age Cymru is calling on postal providers to make two key changes to try to protect the elderly and frail. First, it is asking for the cessation of the distributing of post that promises a financial incentive to the recipient on the outside of the envelope. Secondly, it is calling on postal providers to identify people receiving this kind of post and to pass the details on to the authorities, which could then decide whether those people need support. Personally, I will be supporting these objectives and I hope that other Members will also support Age Cymru's campaign. It is crucial that we all encourage people to look out for friends, family or neighbours who may be at risk and to consult with Citizens Advice and trading standards if they are concerned that someone is being targeted and swindled.

I very much hope that the Welsh Government is not only working with Citizens Advice, trading standards and Age Cymru to help them to tackle scammers, but also with local authorities to help promote awareness of these scams, and, more importantly, working with the public, particularly those with elderly relatives or vulnerable relatives, to ensure that everything possible is done to tackle this problem.

So, in conclusion, I call upon the Welsh Government to do everything in its power to support this aim and I encourage Members to support our motion today.

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf i hefyd yn falch i gael y cyfle i gyfrannu'r prynhawn yma ac i ddilyn yr hyn roedd Paul yn ei ddweud yn y fan honno, achos rwy'n sicr yn cefnogi gwelliannau 4 a 5 ac ymgyrch Age Cymru ar sgamiau a thwyll.

Arwyddair Cymdeithas Bêl-droed Cymru yw 'Gorau chwarae, cyd chwarae' ac, unwaith eto, mae sir Gâr a sir Benfro, fel y cyfeiriodd Paul, yn dangos y ffordd wrth gydweithio ar y mater hwn. Rwyf wedi gweld sut mae tîm safonau masnach cyngor sir Gâr, yr heddlu a'r bwrdd iechyd lleol yn cydweithio er mwyn nodi'r ardaloedd sy'n debygol o gael eu targedu gan farchnatwyr milain a ffug. Rwyf wedi gweld y llwyddiant mae'r cydweithio hwn wedi cael yn barod mewn ardaloedd gwledig yn etholaeth Llanelli.

Mae bod yn gymydog da yn golygu mwy na dim ond cadw llygad ar iechyd corfforol yr henoed yn y gymdeithas. Yn aml, mae pobl hŷn sydd yn byw ar ben eu hunain angen cyngor, cymorth a chysur wrth godi ymwybyddiaeth o fathau cynyddol o dwyll. Rydym yn sôn am ddsbarthu arferion da ym maes iechyd ac ym maes addysg. Yn yr achos hwn, mae angen i un gymuned ddysgu gwersi cymuned gyfagos. Wedi'r cyfan, casgliad o gymunedau yw llawer o'r wlad. Gall gwrs a ddysgir mewn un ardal fod o gymorth i drigolion ardal arall ac mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i leihau sgamiau a thwyll, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar yr henoed.

I am also pleased to have the opportunity to contribute this afternoon and to follow what Paul was saying there, because I certainly support amendments 4 and 5 and the Age Cymru campaign on scams and swindles.

The motto of the Football Association of Wales is 'Gorau chwarae, cyd chwarae'—the best play is team play—and, once again, Carmarthenshire and Pembrokeshire, as Paul mentioned, have shown the way in working together on this issue. I have seen how the trading standards team in Carmarthenshire, the police and the local health board collaborate to identify areas that are likely to be targeted by these malicious false advertisers. I have seen the success of this collaboration in rural parts of the Llanelli constituency.

Being a good neighbour means more than just keeping an eye on the physical health of the elderly in society. Often, older people who live alone need advice, support and comfort in raising awareness of the growing forms of fraud. We are talking about expanding good practice in health and in education. In this case, one community needs to learn lessons from other communities. After all, the country is a collection of communities. Lessons learned in one area can help residents in another area, and it is important that we all work together to combat scams and swindles, particularly those affecting the elderly.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Members, every day our postmen and postwomen carry out the admirable task of delivering our mail on time, day in, day out, come rain, shine, snow, or even gale force winds, but how much of this mail is what we actually want, and I am not talking about household bills here? I am actually talking about the blatant force-feeding of junk mail to our householders here in Wales.

Let me start today by providing a few eye-opening facts: an average Welsh household receives 453 pieces of unwanted mail a year, of which one third is binned without even being opened, with large amounts of this ending up in our landfill sites. It is estimated that 12 billion pieces of junk mail are sent each year in the UK. Ninety per cent of junk mail is unsolicited, and the UK Government, of course, is looking into the problem of persistent telephone cold calling, and I pay tribute to Alun Cairns MP for leading on this. Each tonne of junk mail uses 17 trees and 7,000 gallons of water to produce, and it can cost local councils up to £700,000 per year to dispose of this unwanted junk. This is an environmental and financial drain and someone, somewhere—in fact, we are all, unwittingly picking up the tab for this rubbish communication. If I buy a newspaper, I have not chosen to receive the bundle of advertising material often tucked inside, and I actually take it out. I certainly do not expect a postman or postwoman to place numerous leaflets, envelopes, magazines, et cetera that I have not requested through my letterbox only for me to have to then dispose of them.

Aelodau, bob dydd mae ein postmyn yn ymgymryd â'r dasg ragorol o ddsbarthu ein post ar amser, ddydd ar ôl dydd, boed law, hindda, eira, neu wyntoedd tymhestlog hyd yn oed, ond faint o'r post hwn rydym ei eisiau mewn gwirionedd, ac nid wyf yn sôn am filiau'r cartref yma? Sôn rwyf fi mewn gwirionedd am y post sothach sy'n cael ei wthio i lawr gyddfau deiliaid tai yma yng Nghymru.

Gadewch imi ddechrau heddiw drwy roi ychydig o ffeithiau i agor ein llygaid: ar gyfartaledd, mae cartrefi Cymru yn derbyn 453 o eitemau o bost nad oes mo'i eisiau y flwyddyn ac mae un rhan o dair ohono'n cael ei roi yn y bin heb hyd yn oed ei agor, gyda llawer o hwn yn mynd i'n safleoedd tirlenwi. Amcangyfrifir bod 12 biliwn eitem o bost sothach yn cael ei anfon bob blwyddyn yn y DU. Mae naw deg y cant o bost sothach yn ddigymell. Mae Llywodraeth y DU, wrth gwrs, yn edrych ar broblem galwadau ffôn diwahoddiad cyson, a thalaf deyrnged i Alun Cairns AS am arwain ar hyn. Mae pob tunnell o bost sothach yn defnyddio 17 o goed a 7,000 galwyn o ddŵr i'w gynhyrchu, a gall gostio hyd at £700,000 y flwyddyn i gynghorau lleol gael gwared ar y sothach hwn nad oes mo'i eisiau. Mae'n draul amgylcheddol ac ariannol ac mae rhywun, rywle—pawb ohonom mewn gwirionedd—yn talu'r gost am yr ohebiaeth sgrwtsh hon yn ddiarwybod. Os byddaf yn prynu papur newydd, nid wyf wedi dewis derbyn y bwndel o ddeunydd hysbysebu sy'n aml yn cuddio y tu mewn, ac rwy'n ei dynnu allan. Yn sicr nid wyf yn disgwyl i bostmyn osod nifer o daflenni, amlenni, cylchgronau ac ati nad wyf wedi gofyn amdanynt drwy fy mlwch llythyrau i mi gael gwared arnynt.

Quite often, when we are out and about during our elections, we see signs saying 'No junk mail/newsletter'. However, I would not hesitate to say that when I see these, I actually do deliver election material, because I believe that everybody has a democratic right to receive information about our democratic process. Often, however, when we talk about junk mail, it is magazines, advertising for disability aids, clothing or household items and, as has been said, scam letters saying that people have won the lottery. This is a blatant intrusion, and you would think that a third being binned before being opened proves that junk mail is much easier to get rid of, but with the less targeted campaigns going to everyone unaddressed being the cheapest method, when it costs as little as 3p per item with a return of roughly £3 for every £1 spent, according to the Royal Mail's chief executive, simple economics says, 'Send more'.

However, there is a dark side: scam letters—we have heard about the lottery—saying that people have won thousands of pounds, but also to-good-to-be-true deals. Older people, particularly the disabled people who cannot perhaps get out to go shopping, who are unable to access the internet, where they could actually have some choice and competition in terms of pricing, are often taken in by the too-good-to-be-true offers that often come in this kind of mail. Age Cymru highlights how, in Wales, 1,658 post, e-mail or telephone scams were reported in one year, with only two prosecutions. The Office of Fair Trading believes that only 5% of scams are ever reported, so the numbers reported could be hugely underestimating the scale of the offences actually taking place. In 2008, Help the Aged found that seven out of 10 older people are targeted every month by scams via telephone or letter. There are schemes that home owners can use to try to opt out of receiving junk mail, such as the mail preference system, but I know of people who have tried this and it is very difficult to actually ensure that you are not receiving all of this nonsense. The Welsh Government certainly does need to encourage take-up of any schemes that are available.

Our goal in raising this debate today is to stimulate discussion on how we can tackle this nuisance. It is a burden on our local authorities, our environment, our own businesses and our individual households. I hope that Members will support our motion.

Yn aml iawn, pan fyddwn yn mynd o gwmpas yn ystod ein hetholiadau, gwelwn arwyddion yn dweud 'Dim post sothach/cylchlythron'. Fodd bynnag, ni fyddwn yn oedi rhag dweud fy mod yn dosbarthu deunydd etholiad pan welaf y rhain am fy mod yn credu bod gan bawb hawl ddemocrataidd i dderbyn gwybodaeth am ein proses ddemocrataidd. Yn aml, fodd bynnag, pan fyddwn yn sôn am bost sothach, sôn y byddwn am gylchgronau, hysbysebu ar gyfer cymhorthion anabled, dillad neu eitemau cartref ac fel y dywedwyd, llythyrau sgam yn dweud bod pobl wedi ennill y loteri. Mae hyn yn ymyrraeth amlwg, a byddech yn meddwl y byddai'r ffaith bod traean ohono'n mynd i'r bin cyn cael ei agor yn profi bod post sothach yn llawer haws i gael ei wared, ond gan mai ymgyrchoedd sy'n targedu llai a mynd i bawb heb gyfeiriad yw'r dull rhataf, gan gostio cyn lleied â 3c yr eitem gydag elw o tua £3 am bob £1 a werir, yn ôl prif weithredwr y Post Brenhinol, mae economeg syml yn dweud, 'Anfonwch fwy'.

Fodd bynnag, mae yna ochr dywyll i hyn: llythyrau sgam—rydym wedi clywed am y loteri—sy'n dweud bod pobl wedi ennill miloedd o bunnoedd, ond bargeinion sy'n rhy dda i fod yn wir hefyd. Mae pobl hyn, yn enwedig pobl anabl nad ydynt yn gallu mynd allan i siopa o bosibl, nad oes modd ganddynt o ddefnyddio'r rhyngwyd lle gallent gael rhywfaint o ddewis a chystadleuaeth o ran prisiau, yn aml yn cael eu twyllo gan gynigion rhy dda i fod yn wir sy'n aml yn dod gyda'r math hwn o bost. Mae Age Cymru yn tynnu sylw at 1,658 sgam post, e-bost neu dros y ffôn yr adroddwyd yn eu cylch yng Nghymru mewn un flwyddyn, gan arwain at ddau erlyniad yn unig. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn credu mai 5% o sgamiau yn unig sy'n cael eu hadrodd, felly gallai'r niferoedd yr adroddwyd yn eu cylch fod yn amcangyfrif llawer rhy isel o nifer y troseddau sy'n digwydd mewn gwirionedd. Yn 2008, gwelodd Help the Aged fod saith o bob 10 o bobl hyn yn cael eu targedu bob mis drwy sgamiau dros y ffôn neu drwy lythyr. Mae yna gynlluniau y gallai perchnogion tai eu defnyddio i geisio optio allan o dderbyn post sothach, megis y system dewis post, ond gwn am bobl sydd wedi rhoi cynnig ar hyn ac mae'n anodd iawn sicrhau mewn gwirionedd nad ydych yn derbyn yr holl nonsens hwn. Mae'n sicr bod angen i Lywodraeth Cymru annog pobl i fanteisio ar unrhyw gynlluniau sydd ar gael.

Ein nod wrth gyflwyno'r ddaol hon heddiw yw ysgogi trafodaeth ynglŷn â sut y gallwn fynd i'r afael â'r niwsans hwn. Mae'n faich ar ein hawdurdodau lleol, ein hamgylchedd, ein busnesau a'n cartrefi ein hunain. Rwy'n gobethio y bydd yr Aelodau yn cefnogi ein cynnig.

It is not like me to start with statistics, but it does take, apparently, the equivalent of 9 million trees and the content of Pontsticill reservoir to produce the 7.5 billion pieces of junk mail sent out in the UK every year. While that may seem a handy solution as to what to do with the larches felled due to *Phytophthora* in my region, it is a Welsh Government ambition that Wales becomes a zero-waste nation by 2050. The chances of achieving that will, of course, be zero if we do not consider the impact of these massive volumes of uninvited mail on our environment and the burden that it places on local authorities. Thirty-six years seems a long time from today; I know that, but we do have an interim target to recycle 58% of municipal waste by next year. According to the latest figures, five local authorities—Cardiff, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Torfaen and Newport—could not even meet last year's interim target of recycling 52% of municipal waste. So, with local authorities' budgets being cut and the amount of junk mail increasing, how can we hope to achieve the 58% target in 2015, let alone 70%, which is the next milestone target, in just over a decade?

The Welsh Government's own adviser has called the recycling system—or rather, the 22 different recycling systems—as too complicated, uneconomic and confusing. Clearly, if more people are to recycle we need a system that is simple to understand, cheaper for local authorities to run, and reduces costs to local businesses, which, of course, still pay for the collection of recyclates as well as other waste. What will not contribute to lowering costs for either local authorities or businesses is an increase in uninvited mail, addressed or otherwise. Actually, it is up to two thirds that is discarded unopened, not one third. Mailing material straight into the bin also does nothing to the cost of the sender. What does it matter? Why should the cost matter when junk mail provides a source of endless recyclable material and revenue, according to Llyr Gruffydd? Many of those enticing offers that have come through the letterbox will be printed on recycled paper, of course, reinforcing a subliminal message of benevolence and social conscience.

According to the American paper and pulp association, paper-making fibres can typically be recycled around five times before they become too short to be recycled again, at which point senders are directly mailing landfill, costing anything up to £700,000 a year. So, to go back to my opening remarks, junk mail will still require considerable amounts of wood and water even if the industry increases the amount of recycled material that they use.

Nid fy arfer yw dechrau gydag ystadegau, ond mae'n debyg bod angen yr hyn sy'n cyfateb i 9 miliwn o goed a chynnwys cronfa Pontsticill i gynhyrchu'r 7.5 biliwn o eitemau o bost sothach a anfonir allan yn y DU bob blwyddyn. Er y gallai ymddangos yn ateb defnyddiol ynghylch beth i'w wneud â'r coed llarwydd a dorrwyd o ganlyniad i *Phytophthora* yn fy rhanbarth, uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld Cymru yn dod yn genedl dim gwastraff erbyn 2050. Nid oes unrhyw obaith o gyflawni hynny, wrth gwrs, os nad ystyriwn effaith y llwyth enfawr o bost diwahoddiad ar ein hamgylchedd a'r baich y mae'n ei roi ar awdurdodau lleol. Mae 36 mlynedd yn ymddangos ymhell i ffwrdd o heddiw; gwn hynny, ond mae gennym darged interim i ailgylchu 58% o wastraff trefol erbyn y flwyddyn nesaf. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, ni allodd pum awdurdod lleol—Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Torfaen a Chasnewydd—gyrraedd targed interim y llynedd hyd yn oed o ailgylchu 52% o wastraff trefol. Felly, gyda chyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu torri a phost sothach ar gynnydd, sut y gallwn ni obeithio cyrraedd y targed o 58% yn 2015, heb sôn am 70%, sef targed y garreg filltir nesaf, mewn ychydig dros ddegawd?

Mae cynghorydd Llywodraeth Cymru ei hun wedi galw'r system ailgylchu-neu'n hytrach, y 22 o systemau ailgylchu gwahanolyn system sy'n rhy gymhleth, yn aneconomaidd ac yn ddryslud. Yn amlwg, er mwyn i ragor o bobl ailgylchu, mae angen system sy'n syml i'w deall, yn rhatach i awdurdodau lleol ei rhedeg ac sy'n lleihau costau i fusnesau lleol, sydd wrth gwrs, yn dal i dalu am gasgliadau ailgylchu a gwastraff arall hefyd. Yr hyn na fydd yn cyfrannu at leihau costau ar gyfer naill ai awdurdodau lleol neu fusnesau yw cynnydd yn y post diwahoddiad, gyda chyfeiriad neu fel arall. A dweud y gwir, mae hyd at ddwy ran o dair yn cael ei daflu heb ei agor, nid un rhan o dair. Nid yw postio deunydd yn syth i'r bin yn gwneud dim i gostau'r sawl sy'n ei anfon. Beth yw'r ots? Pam y dylai'r gost fod o bwys pan fo post sothach yn creu ffynhonnell ddiddiwedd o ddeunydd ailgylchadwy a refeniw, yn ôl Llyr Gruffydd? Bydd llawer o'r cynigion atyniadol hynny sydd wedi dod drwy'r blwch llythyrau wedi'u hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu wrth gwrs, gan atgyfnerthu neges isymwybodol o ewyllys da a chydwybod gymdeithasol.

Yn ôl cymdeithas bapur a mwydion America, fel arfer gellir ailgylchu ffibrau gwneud papur tua phum gwaith cyn iddynt fynd yn rhy fyr i gael eu hailgylchu eto, ac ar y pwynt hwnnw, mae anfonwyr yn postio deunydd yn uniongyrchol i safle tirlenwi, sy'n costio hyd at £700,000 y flwyddyn. Felly, i fynd yn ôl at fy sylwadau agoriadol, bydd yn dal i fod angen pren a dŵr sylweddol i greu post sothach hyd yn oed os yw'r diwydiant yn cynyddu faint o ddeunydd wedi'i ailgylchu a ddefnyddiant.

While more and more of us face our letterboxes with a curled lip in the morning, others do, of course, look forward to them as a source of contact with the outside world. Members have already spoken most convincingly on this. However, before finishing, I wanted to mention those people who look at their letterboxes with a sense of unfulfilled longing. These are the people who want to hear from their banks, insurers and energy providers by post, but are told that they may only communicate via the company's website. So, while I have no objection to Plaid's amendment 2 on a strict interpretation of the amendment, as drafted, it is worth remembering that not everyone can live their life online. For those who are poor, financially or geographically, the internet is somewhere that they cannot collect their information updates, their bank statements and their bills. It is certainly not somewhere where they can spot mistakes, pay their bills or respond to e-mails.

Members may already be aware of the Keep Me Posted campaign, a national movement that is resisting the steady withdrawal of free postal communication with customers. It puts many at a disadvantage, not just those without good internet access, but older people, people with particular disabilities, people like me who cannot remember 20 different passwords and executors who cannot identify and value the estates of deceased account holders. So, while I can support Plaid's exhortation to move away from the thoughtless use of paper, we still need to give some thought to those who still need, or even prefer, information by mail. I hope that the Royal Mail will be supporting Keep Me Posted every bit as much as its commitment to the universal service and its obligations to deliver addressed mail.

There is a world of difference between post that involves and connects us and post that entices and cons us. I am glad that this debate has given us the opportunity to mark the difference.

Er bod mwy a mwy ohonom yn wynebu ein blychau llythyrau gydag wynebâu diflas yn y bore, mae eraill yn edrych ymlaen at eu gweld fel modd o gysylltu â'r byd y tu allan. Mae Aelodau eisoes wedi siarad yn argyhoeddiadol ar hyn. Fodd bynnag, cyn gorffen, roeddwn i eisiau sôn am y bobl sy'n edrych ar eu blychau llythyrau gydag ymdeimlad o ddyhead nad yw'n cael ei wireddu. Dyma'r bobl sydd am glywed gan eu banciau, eu hyswirwyr a'u cyflenwyr ynni drwy'r post, ond sy'n cael gwybod mai dim ond drwy wefan y cwmni y gallant gyfathrebu. Felly er fy mod yn gwrthwynebu gwelliant 2 Plaid Cymru wrth ddehongli'r gwelliant fel y'i drafftiiwyd yn fanwl, mae'n werth cofio na all pawb fyw eu bywydau ar-lein. I'r rhai sy'n dlawd, yn ariannol neu'n ddaearyddol, nid yw'r rhyngwrwyd yn fan lle y gallant gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf, eu datganiadau banc a'u biliau oddi arni. Yn sicr, nid yw'n fan lle y gallant ganfod camgymeriadau, talu eu biliau neu ymateb i e-byst.

Mae'n bosibl bod yr Aelodau eisoes yn gwybod am ymgyrch Keep Me Posted, mudiad cenedlaethol sy'n gwrthsefyll y tueddiad cyson i osgoi anfon gohebiaeth bost am ddim i gwsmeriaid. Mae'n creu anfantais i lawer o bobl, nid dim ond pobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwrwyd, ond pobl hŷn, pobl ag anabledau penodol, pobl fel fi nad ydynt yn gallu cofio 20 o gyfrineiriau gwahanol ac ysgutorion nad ydynt yn gallu prisio a dod o hyd i ystadau deiliaid cyfrif sydd wedi marw. Felly, er fy mod yn cefnogi anogaeth y Blaid i symud oddi wrth y defnydd difeddwl o bapur, mae angen inni roi rhywfaint o ystyriaeth i'r rhai sy'n dal i fod angen gwybodaeth drwy'r post, neu'r rhai sy'n well ganddynt ei chael drwy'r post hyd yn oed. Rwy'n gobeithio y bydd y Post Brenhinol yn cefnogi Keep Me Posted lawn cymaint â'i ymrwymiad i'r gwasanaeth cyffredinol a dosbarthu post wedi'i gyfeirio.

Mae byd o wahaniaeth rhwng post sy'n ein cynnwys ac yn ein cysylltu a phost sy'n ein hudo ac yn ein twyllo. Rwy'n falch bod y ddadl hon wedi rhoi cyfle inni nodi'r gwahaniaeth.

16:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies.

I call on the Minister of Natural Resources and Food, Alun Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:46

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I enjoyed listening to Suzy's contribution, but I am not sure that the debate has provided us with the opportunity to agree on all those different things. I find myself in the rather peculiar position of coming to the Chamber for a second week running to say that the Government will support the motion and all the amendments. I feel terrified that Llyr Gruffydd will make me appear far too reasonable in this place. In terms of where we agree, I think that we will all vote together at the end of this debate, but I am not sure that agreement in the vote will reflect agreement on the things discussed during the debate.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mwynheais wrando ar gyfraniad Suzy, ond nid wyf yn siŵr fod y ddadl wedi rhoi cyfle inni gytuno ar yr holl bethau gwahanol hynny. Rwy'n cael fy hun mewn sefyllfa braidd yn rhyfedd lle rwy'n dod i'r Siambr am yr ail wythnos yn olynol i ddweud y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig a'r holl welliannau. Rwy'n arswydo y bydd Llyr Gruffydd yn gwneud i mi ymddangos yn llawer rhy resymol yn y lle hwn. O ran yr hyn rydym yn cytuno arno, rwy'n meddwl y byddwn i gyd yn pleidleisio gyda'i gilydd ar ddiwedd y ddadl hon, ond nid wyf yn siŵr y bydd y cytundeb hwnnw yn y bleidlais yn adlewyrchu cytundeb ar y pethau a drafodwyd yn ystod y ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We have, as Eluned Parrott pointed out, conflated a number of different issues in a rather contradictory way. There is a world of difference between an illegal scam and an unaddressed mailshot, which is a fair form of marketing. There is a world of difference between marketing and access to information from banks or other utilities through paperless billing. These are different issues and should be addressed in different ways. They need to be addressed in different ways. There is agreement across the Chamber on the appalling impact that scams and illegal activity can have on people, particularly vulnerable people. There is absolutely no tolerance of that anywhere. Eluned Parrott called for additional help and support for the establishment of no-call zones across Wales. She may have missed the announcement in February when the Minister for local government, Lesley Griffiths, provided additional support for no-call zones in Wales, taking the number of properties covered up to around 50,000. I think that an additional £35,000 was made available to local authorities to do that. There is a wide agreement on that illegal activity.

So, let us focus on the two remaining issues. First, paperless billing; secondly, the issue of unaddressed marketing. It is a curious thing to listen to the Conservative Party saying that there should be an additional levy on business, there needs to be more red tape on business, that businesses should be inhibited in the way they seek to develop their markets and market their products. I have some—

Fel y nododd Eluned Parrott, rydym wedi cyfuno nifer o wahanol faterion mewn ffordd braidd yn anghyson. Mae byd o wahaniaeth rhwng sgam anghyfreithlon ac ymgyrch bostio heb gyfeiriad, sy'n ffurf deg ar farchnata. Mae byd o wahaniaeth rhwng marchnata a mynediad at wybodaeth gan fanciau neu gyfleustodau eraill drwy filiau di-bapur. Mae'r rhain yn faterion gwahanol a dylid eu trin mewn gwahanol ffyrdd. Maent angen mynd i'r afael â hwy mewn ffyrdd gwahanol. Mae cytundeb ar draws y Siambr ynghylch yr effaith ofnadwy y gall sgamiau a gweithgarwch anghyfreithlon ei chael ar bobl, yn enwedig pobl agored i niwed. Ni ellir goddef hynny yn unman. Galwodd Eluned Parrott am gymorth a chefnogaeth ychwanegol i sefydlu ardaloedd dim galw diwahoddiad ledled Cymru. Efallai ei bod wedi methu'r cyhoeddiad ym mis Chwefror pan roddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog llywodraeth leol, gymorth ychwanegol i ardaloedd dim galw diwahoddiad yng Nghymru, gan gynyddu nifer y cartrefi sydd wedi'u cynnwys i oddeutu 5,000. Rwy'n meddwl bod £35,000 ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol wneud hynny. Mae cytundeb eang ar weithgaredd anghyfreithlon o'r fath.

Felly, gadewch i ni ganolbwyntio ar y ddau fater sy'n weddill. Yn gyntaf, bilio di-bapur; yn ail, mater marchnata heb gyfeiriad. Mae'n rhyfedd gwranddo ar y Blaid Geidwadol yn dweud y dylai fod ardoll ychwanegol ar fusnesau, fod angen mwy o fiwrocratiaeth ym myd busnes, y dylai busnesau gael eu hatal o ran y ffordd y maent yn ceisio datblygu eu marchnadoedd a marchnata eu cynnyrch. Mae gennyf rywffaint o—

16:48 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you not agree, though, that it is unfair on businesses that have a legal responsibility to pay for their waste to be disposed to have to pay for waste they had not even asked for in the first place? That is a cost to businesses, is it not?

Oni fydddech yn cytuno, fodd bynnag, ei bod yn annheg fod busnesau sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i dalu i'w gwastraff gael ei waredu yn gorfod talu am wastraff nad ydynt wedi gofyn amdano yn y lle cyntaf? Mae hynny'n gost i fusnesau, onid yw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:49 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a fair form of marketing to provide mailshots to either domestic householders or businesses. There is nothing illegal in that.

Mae'n ffurf deg ar farchnata i gynnal ymgyrch bostio naill ai at ddeiliaid tai domestig neu fusnesau. Nid oes dim yn anghyfreithlon yn hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am happy to take an intervention from the leader of the opposition if he is going to say to me that the Conservatives would like to ban this form of marketing.

Rwy'n fodlon cymryd ymyriad gan arweinydd yr wrthblaid os yw'n mynd i ddweud wrthyf y byddai'r Ceidwadwyr yn hoffi gwahardd y math hwn o farchnata.

16:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a gross infringement of people's privacy and space to have the volumes of mail that we currently have, which is unsolicited, coming through their own personal mailbox, unaddressed. There is a growing problem and it is for Government and politicians to seek to consult and address this problem. That is the issue—it is private space and people deserve to have that privacy in their own homes.

Mae'n drosedd enfawr yn erbyn preifatrwydd a gofod pobl i gael cymaint o bost ag sydd gennym ar hyn o bryd, sy'n ddigymell, yn dod drwy eu blychau post personol eu hunain, heb gyfeiriad. Mae'n broblem gynyddol a mater i'r Llywodraeth a gwleidyddion yw ceisio ymgynghori a mynd i'r afael â'r mater. Dyna'r broblem—gofod preifat ac mae pobl yn haeddu cael preifatrwydd o'r fath yn eu cartrefi eu hunain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:49 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is quite something. So, the Welsh Conservatives want to say to Mr Handyman down the road, 'You can't put a card through a door; it is illegal.' That is what he is saying. [Interruption.] He did not differentiate. My local— [Interruption.]

Wel, mae hynny'n dipyn o beth. Felly, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn awyddus i ddweud wrth Mr Tasgmon i lawr y ffordd, 'Ni chewch roi cerdyn drwy'r drws; mae'n anghyfreithlon.' Dyna'r hyn y mae'n ei ddweud. [Torri ar draws.] Nid oedd yn gwahaniaethu. Mae fy—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The way that debates work is that you put your points and then you listen to the reply. You do not use unparliamentary language, even if it is of a relatively mild sort. It may be okay for the saloon bar, but not here. [Welsh Conservatives: 'Hear hear.'] Do not say 'hear hear'; It is your own leader that I am telling off. [Laughter.] I call on the Minister.

Trefn. Y ffordd y mae dadleuon yn gweithio yw eich bod yn cyflwyno eich pwyntiau ac yna rydych yn gwrandao ar yr ateb. Nid ydych i ddefnyddio iaith anseneddol, hyd yn oed os yw o fath cymharol ysgafn. Gall fod yn iawn ar gyfer y bar, ond nid yma. [Ceidwadwyr Cymreig: 'Clywch clywch'] Peidiwch â dweud 'clywch clywch'; rwy'n dweud y drefn wrth eich arweinydd. [Chwerthin.] Galwaf ar y Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am simply relieved that it is not me being told off this time. As someone who enjoys his local take-aways, perhaps on too regular a basis, I am astonished that the Conservatives want to stop these businesses from telling me about the latest deal on a tandoori or a pizza. That is the most draconian infringement on business that I have heard in seven years in this place. It is an extraordinary statement to hear from a Conservative leader. Llyr Gruffydd was absolutely right—I do not say that too often, and I probably will not say it again for another few weeks—that we were subjected to ludicrous propaganda before the last UK general election. 'Vote blue, go green' was what we heard time and again. Since then, the Conservative Party has completely turned its back on any sort of climate change agenda and any sort of environmental agenda. [Interruption.] I will give way again if the Deputy Presiding Officer will be kind enough to allow it. I have listened to UK Ministers time and again speaking against climate change; speaking against the concept of understanding that we have seen from the Intergovernmental Panel on Climate Change; and speaking against any action that this Government has taken to address any of those issues. So, to come here and tell us that you are concerned about sustainability, well, I say to you, 'Physician, heal thyself.'

Rwyf ond yn falch nad fi sy'n ei chael hi'r tro yma. Fel rhywun sy'n mwynhau ei siopau tecawé lleol, yn rhy reolaidd efallai, rwy'n synnu bod y Ceidwadwyr am atal y busnesau hyn rhag dweud wrthyf am y fargen ddiweddaraf ar y tandoori neu'r pizza. Dyna'r cyfyngiad mwyaf llym ar fusnes rwyf wedi'i glywed mewn saith mlynedd yn y lle hwn. Mae'n ddatganiad eithriadol i'w glywed gan arweinydd y Ceidwadwyr. Roedd Llyr Gruffydd yn llygad ei le-nid wyf yn dweud hynny'n rhy aml ac mae'n fwy na thebyg na fyddaf yn ei ddweud eto am rai wythnosau-ein bod wedi wynebu propaganda chwerthinllyd cyn etholiad cyffredinol diwethaf y DU. 'Vote blue, go green' oedd yr hyn a glywsom dro ar ôl tro. Ers hynny, mae'r Blaid Geidwadol wedi troi ei chefn yn gyfan gwbl ar unrhyw fath o agenda newid hinsawdd ac unrhyw fath o agenda amgylcheddol. [Torri ar draws.] Ildiaf eto os yw'r Dirprwy Lywydd yn ddigon caredig i'w ganiatáu. Rwyf wedi gwrandao ar Weinidogion y DU yn siarad yn erbyn newid yn yr hinsawdd dro ar ôl tro; yn siarad yn erbyn y cysyniad o ddealltwriaeth a welsom gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd; ac yn siarad yn erbyn unrhyw gamau y mae'r Llywodraeth hon wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r materion hynny. Felly, mae dod yma i ddweud wrthym eich bod yn pryderu am gynaliadwyedd, wel, rwy'n dweud wrthyf, 'Feddyg, iachâ dy hun.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let us address the other issues. Elin Jones in her amendment—and Llyr Gruffydd in arguing the case for it—talked about paperless billing. I am attracted by that. I think that we need to work towards that agenda. However, Peter—sorry, Paul Davies; Peter Davies has been advising us on other things. Paul Davies has spent a considerable amount of time—which I am delighted about—on the Keep Me Posted campaign, which seeks to maintain people's rights to be billed via paper if they wish to do so. I assume that he has not told his leader about this. In terms of where we are going, I agree that private individuals need to have the right to be dealt with through paper bills and through the post if they require that. That is important. There are different issues in business. However, certainly for private individuals, they need to have those rights.

Gadewch i ni fynd i'r afael â'r materion eraill. Siaradodd Elin Jones yn ei gwelliant—a Llyr Gruffydd wrth ddadlau'r achos drosto—am filio di-bapur. Rwy'n cael fy nenu gan hynny. Credaf fod angen inni weithio tuag at yr agenda honno. Fodd bynnag, mae Peter—mae'n ddrwg gennyf, Paul Davies; bu Peter Davies yn ein cynghori ar bethau eraill. Mae Paul Davies wedi treulio cryn dipyn o amser—ac rwyf wrth fy modd ynglŷn â hyn—ar yr ymgyrch Keep Me Posted, sy'n ceisio cynnal hawliau pobl i gael eu biliau ar bapur os ydynt yn dymuno. Rwy'n cymryd yn ganiataol nad yw wedi dweud wrth ei arweinydd ynglŷn â hyn. O ran ble'r ydym yn mynd, rwy'n cytuno bod angen i unigolion preifat gael yr hawl i gael biliau papur a thrwy'r post os ydynt angen hynny. Mae hynny'n bwysig. Mae pethau'n wahanol i fusnesau. Fodd bynnag, yn sicr ar gyfer unigolion preifat, mae angen iddynt gael yr hawliau hynny.

In closing, from a Government perspective, we will be supporting the motion and we will be supporting the amendments. What we have to do—and what I take out of this—is show an absolute determination to ensure that, whatever marketing activities are undertaken by business, they are done in a proportionate way. We need to ensure that we continue to invest in recycling and in the municipal targets that we have for zero waste. The Conservative spokesperson, Russell George, was absolutely right about our ambitions there. I hope that what we will take out this ambition is a Conservative Party that, once again, is committed to the environment and to sustainability, and will continue to support us when we bring forward issues around climate change, a green economy and green growth to this Chamber.

Wrth gloi, o safbwynt y Llywodraeth, byddwn yn cefnogi'r cynnig a byddwn yn cefnogi'r gwelliannau. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud—a'r hyn rwy'n ei gymryd allan o hyn—yw dangos penderfyniad llwyr i sicrhau bod gweithgareddau marchnata busnesau, beth bynnag y bônt, yn cael eu gwneud mewn ffordd gymesur. Mae angen inni sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn ailgylchu ac yn y targedau trefol dim gwastraff sydd gennym. Mae Russell George, llefarydd y Ceidwadwyr, yn llygad ei le ynghylch ein huchelgeisiau yn hynny o beth. Rwy'n gobeithio mai'r hyn a welwn o'r uchelgais hwn yw Plaid Geidwadol sydd, unwaith eto, wedi ymrwymo i'r amgylchedd ac i gynaliadwyedd ac a fydd yn parhau i'n cefnogi pan fyddwn yn cyflwyno materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, yr economi werdd a thwf gwyrdd gerbron y Siambr hon.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Russell George i ymateb i'r ddadl.

I call Russell George to respond to the debate.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:54 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. This debate today was a little bit more lively than I had anticipated. I had thought that there would be more consensus across the Chamber. However, I am pleased that there has been consensus with regard to the amendments, and some of the contributions have given me some food for thought as well. Llyr was talking quite a bit of rubbish at some points in his contribution, and I am disappointed that parts of his contribution were party political. That is not what this debate was about today. However, I agree with Llyr in raising concerns about undermining small businesses. I want to put on the record that we on this side of the Chamber are greatly supportive of SMEs, and none of our proposals is aimed at all at stopping small businesses advertising themselves on a local basis—that is not what our proposals are about today. So, I hope that I can be clear by putting that firmly on the record.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae'r ddadl hon heddiw ychydig yn fwy bywiog na'r hyn a ddisgwyliwn. Roeddwn wedi meddwl y byddai mwy o gonsensws ar draws y Siambr. Fodd bynnag, rwy'n falch bod consensws o ran y gwelliannau ac mae rhai o'r cyfraniadau wedi rhoi rhywfaint o waith cnoi cil imi hefyd. Roedd Llyr yn siarad cryn dipyn o sbwriel ar adegau yn ei gyfraniad, ac rwy'n siomedig fod rhannau o'i gyfraniad o natur gwleidyddiaeth plaid. Nid dyna oedd y ddadl hon heddiw. Fodd bynnag, cytunaf â'r modd y mae Llyr wedi mynegi pryderon am danseilio busnesau bach. Rwyf am gofnodi ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi busnesau bach a chanolig yn gadarn ac nid oes yr un o'n cynigion wedi'i anelu o gwbl at atal busnesau bach rhag hysbysebu eu hunain yn lleol—nid ymwneud â hynny y mae ein cynigion heddiw. Felly rwy'n gobeithio y gallaf fod yn glir drwy gofnodi hynny'n bendant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I again make the point I made earlier, during the intervention to the Minister, that many businesses unfairly receive a lot of junk mail for which they have a responsibility to pay to have taken away. Why is that fair for a small business that is struggling to pay large amounts of costs to them—and they are large amounts—whether it goes to landfill or recycling? So, let us be fair to small businesses in that regard

Unwaith eto rwy'n gwneud pwynt a wneuthum yn gynharach, yn ystod yr ymyriad i'r Gweinidog, ei bod yn annheg ar lawer o fusnesau sy'n derbyn llawer o bost sothach fod ganddynt gyfrifoldeb i dalu am gael ei wared. Pam y mae hynny'n deg i fusnes bach sy'n ei chael yn anodd talu costau mawr—ac maent yn fawr—pa un a yw'n mynd i safleoedd tirlenwi neu i'w ailgylchu? Felly, gadewch inni fod yn deg i fusnesau bach yn hynny o beth.

I was also in committee this morning, and Llyr referred to one local authority that claims that it is an income for that authority for receiving recycled waste. I kind of see that as a backward argument, really. I know that Llyr is making a wider point, and I understand that. Should we have more junk mail so that local authorities make more money? Should we stop the carrier bag charge so that local authorities can have more plastic, to give them more income, to help them to meet their targets? Of course not. So, I think that there is a wider issue there as well, to be fair.

Roeddwn hefyd yn y pwyllgor y bore yma, a chyfeiriodd Llyr at un awdurdod lleol sy'n honni ei fod yn incwm i'r awdurdod hwnnw ar gyfer derbyn gwastraff a ailgylchwyd. Rwy'n gweld honno fel dadl tu chwith mewn ffordd. Gwn fod Llyr yn gwneud pwynt ehangach ac rwy'n deall hynny. A ddylem gael mwy o bost sothach fel bod awdurdodau lleol yn gwneud mwy o arian? A ddylem atal y tâl am fagiâu siopa fel y gall awdurdodau lleol gael mwy o blastig, i roi mwy o incwm iddynt, i'w helpu i gyrraedd eu targedau? Wrth gwrs na ddylem. Felly, rwy'n credu bod yma fater ehangach hefyd, i fod yn deg.

The Lib Dems' spokesperson made the important point that we are supporting Plaid's amendments on the basis of the particular words 'where possible'. I think that that is the only basis on which we are able to support that particular amendment.

Gwnaeth llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol y pwynt pwysig ein bod yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru ar sail y geiriau penodol 'lle y bo modd'. Rwy'n meddwl mai ar y sail honno'n unig y gallwn gefnogi'r gwelliant penodol dan sylw.

I thank Paul Davies for his contributions with regard to the work of Age Cymru, highlighting the real concerns of that campaign. Of course, Janet Finch-Saunders made her comments with regard to the importance of election leaflets being distributed to the public. Many of the concerns that I had at the European election were that not enough information was being given to the electorate. So, I can of course say that Welsh Conservative literature is not rubbish or junk at all; it is accurate and informative information. I cannot speak at all for other parties. Janet quite rightly made the serious points about the unwanted and intrusive aspects as regards people's lives in terms of phone calls and receiving unwanted mail.

Suzy Davies of course made the point that you can only recycle paper five times. Again, that is particularly useful to know with regard to Llyr's comments and the local authority that gave evidence this morning to our committee. However, I am also pleased that, again, Suzy Davies highlighted our point, in which we can support Plaid's debate on the 'where possible' sentence in its amendment.

Coming to the Minister, again, I feel pleased that the Government is supporting our amendments today, and indeed is supporting the amendments of the other parties as well, but I am disappointed that he did stoop to make it party political. He obviously does not agree with the former Minister for the environment, Jane Davidson, who said that junk mail contributes nothing to the environment and nothing to society. He obviously has a different view from hers. I am disappointed that he misinterpreted our proposals and our amendments today, as they are very much pro-business and we very much want businesses to advertise their businesses locally, and that is not what our proposal or debate is about today.

We have launched a consultation on this, however. We genuinely want to hear people's views. We want people to disagree with us and our proposals. We want a conversation and we want to initiate that conversation. That is what we want, and, where possible, we want people to come forward with ideas themselves, which may be different from ours. We hope that, as a result of the conversation that we are trying to engage in across Wales, it will help us to form our policies. We very much hope that it will help other parties to form their manifesto commitments ahead of the next Assembly elections.

There have been too many occasions in the past when goodwill and good intentions to tackle this issue have fallen by the wayside, and I and my Welsh Conservative colleagues are determined to initiate a real change in this area. However, I firmly believe that the wider Welsh public are behind us on this issue, and I hope that other aspects of our society will follow suit.

Diolch i Paul Davies am ei gyfraniadau mewn perthynas â gwaith Age Cymru, gan dynnu sylw at bryderon gwirioneddol yr ymgyrch honno. Wrth gwrs, gwnaeth Janet Finch-Saunders ei sylwadau mewn perthynas â phwysigrwydd dosbarthu taflenni etholiadol i'r cyhoedd. Roedd llawer o'r pryderon a oedd gennyf yn ystod yr etholiad Ewropeaidd yn ymwneud â'r ffaith nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r etholwyr. Felly, gallaf ddweud nad yw llenyddiaeth Ceidwadwyr Cymru yn sbwriel neu'n sothach o gwbl; mae'n wybodaeth gywir ac addysgol. Ni allaf siarad dros y pleidiau eraill o gwbl. Yn gwbl briodol, gwnaeth Janet y pwyntiau difrifol ynglŷn ag agweddau ymwithiol nad oes neb mo'u heisiau i fywydau pobl o ran galwadau ffôn a derbyn post nad ydynt mo'i eisiau.

Gwnaeth Suzy Davies y pwynt na allwch ailgylchu papur fwy na phum gwaith. Unwaith eto, mae hynny'n arbennig o ddefnyddiol i wybod mewn perthynas â sylwadau Llyr a'r awdurdod lleol a roddodd dystiolaeth i'n pwyllgor y bore yma. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn falch bod Suzy Davies unwaith eto wedi tynnu sylw at ein pwynt, sef y gallwn gefnogi dadl y Blaid ynghylch y frawddeg 'lle y bo modd' yn ei gwelliant.

Gan droi at y Gweinidog, unwaith eto, rwy'n falch bod y Llywodraeth yn cefnogi ein gwelliannau heddiw, ac yn wir yn cefnogi gwelliannau'r pleidiau eraill yn ogystal, ond rwy'n siomedig ei fod wedi iselhau ei hun i'w droi'n wleidyddiaeth plaid. Mae'n amlwg nad yw'n cytuno â Jane Davidson, cyn Weinidog yr amgylchedd, a ddywedodd nad yw post sothach yn cyfrannu dim i'r amgylchedd a dim byd i gymdeithas. Mae'n amlwg fod ganddo farn wahanol i'w hun hi. Rwy'n siomedig ei fod wedi camddechongli ein cynigion a'n gwelliannau heddiw, gan eu bod yn gefnogol iawn i fusnes ac rydym yn awyddus iawn i fusnesau hysbysebu eu busnesau'n lleol, ac nid ymwneud â hynny y mae ein cynnig na'r ddadl hon heddiw.

Rydym wedi lansio ymgyngoriad ar hyn, fodd bynnag. Rydym o ddirif eisiau clywed barn pobl. Rydym am i bobl anghytuno â ni a'n cynigion. Rydym am sgwrs ac rydym am gychwyn y sgwrs honno. Dyna'r hyn rydym ei eisiau, a lle y bo modd, rydym am i bobl gyflwyno eu syniadau eu hunain, a allai fod yn wahanol i'n rhai ni. O ganlyniad i'r drafodaeth rydym yn ceisio'i chymell ledled Cymru, rydym yn gobeithio y bydd yn ein helpu i lunio ein polisiau. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd yn helpu pleidiau eraill i ffurfio ymrwymadau eu manifestos cyn etholiadau nesaf y Cynulliad.

Mae gormod o achlysuron wedi bod yn y gorffennol pan fo ewyllys da a bwriadau da i fynd i'r afael â'r mater hwn wedi cael eu gadael ar ôl, ac rwyf fi a fy nghydweithwyr o blith Ceidwadwyr Cymru yn benderfynol o gychwyn newid gwirioneddol yn y maes hwn. Fodd bynnag, rwy'n credu'n gryf bod llawer o'r cyhoedd yng Nghymru yn ein cefnogi ar y mater hwn ac rwy'n gobeithio y bydd elfennau eraill o'n cymdeithas yn dilyn eu hesiampl.

17:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed to. Are there any objections? There is objection. Therefore, I will defer the vote on this item until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Plaid Cymru: Gweithgaredd Corfforol

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Paul Davies.

Plaid Cymru Debate: Physical Activity

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and amendments 4 and 5 in the name of Paul Davies.

17:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Bethan Jenkins i wneud y cynnig.

I call on Bethan Jenkins to move the motion.

Cynnig NDM5536 Elin Jones

Motion NDM5536 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn dymuno'n dda i dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

1. Wishes the Welsh team well in the forthcoming Commonwealth Games.

2. Yn nodi pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i iechyd a lles.

2. Notes the importance of sport and physical activity to health and well-being.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) sicrhau bod gan bawb fynediad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol;

a) ensure everyone has access to sport and physical activity;

b) adolygu effeithiolrwydd addysg gorfforol o ran annog cyfranogi gydol oes mewn chwaraeon a mynd i'r afael â chyfraddau cyfranogi isel ymhlith rhai grwpiau economaidd-gymdeithasol; ac

b) review the effectiveness of physical education in encouraging lifelong participation in sports and tackling low participation rates amongst some socio-economic groups; and

c) gwella'r cysylltiadau rhwng cyrff llywodraethu cenedlaethol, awdurdodau lleol, ysgolion a chlybiau chwaraeon i sicrhau bod arferion hyfforddiant gorau yn cael eu mabwysiadu i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu cystadlu ar y lefel uchaf.

c) improve links between national governing bodies, local authorities, schools and sports clubs to ensure best coaching practices are adopted to increase the chances of future generations being able to compete at the highest level.

17:00

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I am glad to open this debate on sport. I do not know about any of you, but I am ready for a run around the bay after that debate.

Rwy'n falch o agor y ddaol hon ar chwaraeon. Nid wyf yn gwybod amdanoch chi ond rwy'n barod i redeg o gwmpas y bae ar ôl y ddaol ddiwethaf.

Before I start, I would like to pay tribute to Owen Williams from the Cardiff Blues. I hope that he will improve, as he has been injured in Singapore. We would all like to send our best wishes to him.

Cyn i mi ddechrau, hoffwn dalu teyrnged i Owen Williams o dîm Gleision Caerdydd. Rwy'n gobeithio y daw'n well, gan ei fod wedi cael ei anafu yn Singapore. Hoffai pawb ohonom anfon ein dymuniadau gorau ato.

Now that we are in the height of going into the Commonwealth Games, and that it is the start of Wimbledon and that we have the World Cup this month, we are excited about the opportunities that sport gives us, not only for Wales but on an international level.

Nawr ein bod ynghanol y bwrlwm sy'n arwain at Gemau'r Gymanwlad, a'i bod yn ddechrau Wimbledon a bod Cwpan y Byd y mis hwn, rydym yn gyffrous ynghylch y cyfleoedd y mae chwaraeon yn eu rhoi inni, nid yn unig yng Nghymru, ond ar lefel ryngwladol.

It is important for Plaid, in releasing our 'Inspire Wales' document, that it is not about looking at how the current Commonwealth team does, although we are supportive of it, but at looking at how young people throughout Wales in our current education system come through and can aspire to take part in those games or in other sports in years to come. What we have seen is a worrying trend of many young people not being able to get to that goal because of where they come from—perhaps they are from a more deprived area—or because their gender has stopped them from reaching their goals. We would like to see, through this document, those obstacles removed.

When I speak to people who take part in active sport, a lot of them say, 'We do not want to hear high-level strategic messaging all of the time; what we want to know is how we can continue to make sure that we can take part in sport, be it in any walk of life, be it a team sport or an individual sport. That is what is most important to us.'

Therefore, in this document, we have tried to say how we can put more comprehensive things in place so that it is a reality on the ground, as opposed to being something that is unreachable for many people in society. The Sutton Trust recently said that a third of British medal winners in the 2012 London Olympics were from private schools. Further research was done recently that showed that the number of privately educated elite athletes is making up a great proportion of our squad. That is not to say that it is a bad thing that they come from that particular sector of society, but it does make you sit back to try to analyse why we are not seeing more people coming through from other sectors of society, so that they do not have the barriers that they face at the moment.

I was listening to Radio Wales yesterday on the way to work, and I heard the director of Tennis Wales state that it is changing focus so that it can get more young people generally into playing tennis here in Wales, as opposed to focusing on a few talented young people, so that they can spread that more widely. As we know, across Wales, tennis is probably seen as an upper-class sport, and that should not be the case, and that is mainly because, in some of our county council areas, tennis courts are not kept up to date, are not valued and invested in. Swansea Tennis Centre, for example, was threatened with closure, and those operating Swansea Tennis Centre had to come together as a co-operative to make sure that that could be sustained in the future. Good on them for doing it, but they should not have to do that. They should have that national backing so that more people can get involved in the sport.

Mae'n bwysig i Blaid Cymru, wrth ryddhau ein dogfen 'Ysbrydoli Cymru', nad yw'n ymwneud ag edrych ar sut y mae tîm presennol y Gymanwlad yn ei wneud, er ein bod yn ei gefnogi. Mae'n edrych ar sut y mae pobl ifanc ledled Cymru ein system addysg bresennol yn dod drwodd ac yn gallu ymgeisio i gymryd rhan yn y gemau hynny neu mewn chwaraeon eraill yn y blynyddoedd i ddod. Yr hyn a welsom yw tuedd sy'n peri pryder gyda llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gallu cyrraedd y nod hwnnw oherwydd ble maent yn byw—efallai eu bod yn dod o ardal fwy difreintiedig—neu oherwydd bod eu rhyw wedi'u rhwystro rhag cyrraedd eu nod. Drwy'r ddogfen hon, hoffem weld y rhwystrau hynny'n cael eu chwalu.

Wrth siarad â phobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon egniol, mae llawer ohonynt yn dweud, 'Nid ydym eisiau clywed negeseuon strategol lefel uchel drwy'r amser; yr hyn rydym am ei wybod yw sut y gallwn barhau i wneud yn siŵr y gallwn gymryd rhan mewn chwaraeon, beth bynnag a wnawn mewn bywyd, boed yn chwaraeon tîm neu gamp unigol. Dyna beth sydd bwysicaf i ni.'

Yn y ddogfen hon felly, rydym wedi ceisio dweud sut y gallwn roi pethau mwy cynhwysfawr ar waith fel ei fod yn realiti ar lawr gwlad, yn hytrach na'i fod allan o gyrraedd llawer o bobl mewn cymdeithas. Dywedodd Ymddiriedolaeth Sutton yn ddiweddar fod traean o enillwyr medalau Prydain yn y Gemau Olympaidd yn Llundain 2012 yn dod o ysgolion preifat. Roedd ymchwil pellach a wnaed yn ddiweddar yn dangos mai addysg breifat a gafodd cyfran fawr o'r athletwyr elitaidd yn ein carfan. Nid yw hynny'n dweud ei fod yn beth drwg eu bod yn dod o'r sector arbennig hwnnw o'r gymdeithas ond mae'n gwneud i chi feddwl a cheisio dadansoddi pam nad ydym yn gweld mwy o bobl yn dod o sectorau eraill o gymdeithas, fel nad ydynt yn wynebu'r rhwystrau a wynebant ar hyn o bryd.

Roeddwn yn gwranddo ar Radio Wales ar y ffordd i'r gwaith ddoe, a chlywais gyfarwyddwr Tennis Cymru yn datgan eu bod yn newid eu ffocws fel y gall rhagor o bobl ifanc yn gyffredinol ddechrau chwarae tenis yma yng Nghymru yn hytrach na chanolbwyntio ar rai pobl ifanc dalentog, fel y gallant ledaenu hynny'n ehangach. Fel y gwyddom, ledled Cymru, mae'n debyg bod tenis yn cael ei gweld fel camp ar gyfer y dosbarthiadau uwch ac ni ddylai fod felly, a'r rheswm am hynny'n bennaf yw'r ffaith nad yw cyrtiau tenis yn cael eu cynnal a'u cadw yn rhai o ardaloedd ein cyngorau sir: ni chânt eu gwerthfawrogi ac ni fuddsoddir ynddynt. Roedd Canolfan Denis Abertawe, er enghraifft, yn wynebu bygythiad o gau a bu'n rhaid i'r rhai sy'n rhedeg Canolfan Denis Abertawe ddod at ei gilydd fel cwmni cydweithredol i wneud yn siŵr y gellid ei chynnal yn y dyfodol. Maent yn haeddu cymeradwyaeth ond ni ddylent fod wedi gorfod gwneud hynny. Dylent gael cefnogaeth genedlaethol fel y gall mwy o bobl gymryd rhan yn y gamp.

We have heard in questions to the Minister for culture before about the fact that fewer young girls take part in sport as they get older. Worryingly, one of the statistics is that boys have more freedom from parents to decide what they do with their free time, and that is from a Sport Wales survey recently. Girls do not feel they can have that freedom to take part in extracurricular sport. The drop-off rates for girls are higher as they get older than the rates for boys. Once again, that is something that should animate us all if we want to see a strong team of women coming through in various aspects of sport in the future. It will come as no surprise for you to hear me say that it may be to do with wider social influences, such as self-esteem and body confidence. Therefore, it is not just about the sport itself, but how young women—and an increasing number of young boys—feel about themselves and their bodies. That is why we need to do much more work in that area.

The other issue that we have identified is that, on average, 101 minutes per week are allocated to physical education, which is lower than the two hours per week that is recommended by the Welsh Government. That is why we have stated in the document that that should be adhered to and that the two hours should be kept so that we can make sure that young people have that time within the school timetable.

I will go into the document in more detail. We have a few points that I think it will be interesting for people to hear, and the Minister can respond, obviously. We are looking to have comprehensive research done by the Welsh Government or Sport Wales into the reasons for participating in, taking up and dropping out of a sport for adults and children from different socioeconomic groups and the different protected characteristics. I believe that this would be the baseline for an evidence-driven approach to policy.

The second recommendation is a switch in focus from investing in expensive sporting facilities to looking at how sport and leisure facilities are delivered. Therefore, this would not be a costly suggestion from Plaid Cymru. We have looked at Ireland's approach, where regional bodies assume responsibility for planning, measuring, encouraging and delivering sport and leisure facilities at a regional level that is linked with local authorities. We urge the Welsh Government to look at that further.

Rydym wedi clywed mewn cwestiynau i'r Gweinidog diwylliant o'r blaen am y ffaith bod llai o ferched ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'n destun pryder mai un o'r ystadegau yw bod bechgyn yn cael mwy o ryddid gan rieni i benderfynu beth y maent am ei wneud â'u hamser rhydd. Daw hynny o arolwg Chwaraeon Cymru yn ddiweddar. Nid yw merched yn teimlo eu bod yn cael rhyddid o'r fath i gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol. Mae cyfraddau merched sy'n rhoi'r gorau iddi yn uwch wrth iddynt fynd yn hŷn na'r cyfraddau ar gyfer bechgyn. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth a ddylai ein hysgogi ni i gyd os ydym am weld tîm cryf o fenywod yn datblygu mewn gwahanol agweddau ar chwaraeon yn y dyfodol. Ni fydd yn syndod ichi fy nghlywed yn dweud y gallai fod yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol ehangach megis hunan-barch a hyder corfforol. Felly, nid ymwneud â'r gamp ei hun yn unig y mae, ond â'r modd y mae menywod ifanc—a nifer cynyddol o fechgyn ifanc—yn teimlo amdanynt eu hunain a'u cyrff. Dyna pam y mae angen i ni wneud llawer mwy o waith yn y maes hwn.

Y mater arall a nodwyd gennym yw mai 101 munud yr wythnos ar gyfartaledd sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addysg gorfforol, sy'n is na'r ddwy awr yr wythnos a argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Dyna pam rydym wedi datgan yn y ddogfen y dylid glynu wrth hynny ac y dylid cadw at y ddwy awr fel y gallwn sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr amser hwnnw o fewn amserlen yr ysgol.

Rwyf am edrych yn fwy manwl ar y ddogfen. Mae gennym ychydig o bwyntiau y credaf y bydd o ddi-ddordeb i bobl eu clywed, a gall y Gweinidog ymateb wrth gwrs. Rydym yn anelu i gael gwaith ymchwil cynhwysfawr wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru neu Chwaraeon Cymru ar y rhesymau dros gymryd rhan mewn chwaraeon, dros ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon a thros roi'r gorau i chwaraeon ar gyfer oedolion a phlant o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a'r gwahanol nodweddion gwarchoddedig. Rwy'n credu y byddai hon yn llinell sylfaen i ddull yn seiliedig ar dystiolaeth o lunio polisïau.

Yr ail argymhelliad yw newid mewn ffocws o fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon drud i edrych ar sut y caiff cyfleusterau chwaraeon a hamdden eu darparu. Felly, ni fyddai hwn yn awgrym costus gan Blaid Cymru. Rydym wedi edrych ar ddull Iwerddon o fynd ati, lle y mae cyrff rhanbarthol yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio, mesur, annog a darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar lefel ranbarthol sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ymhellach ar hynny.

The third point is to consider a statutory responsibility on local authorities to deliver sport and leisure facilities, working with regional bodies and sports clubs. This is a very important point, because, as I have said this week already, this may stop local authorities like Swansea from looking to sell off school playing fields—something that clearly will not aid children's progression in sport. This could also be a part of looking at the pricing and the leasing of pitches or facilities. At the moment, young people are being priced out of taking part in sport. That is something that I meet young constituents to discuss on a regular basis, and it does animate them considerably.

The fourth point would be to consider placing a requirement on schools to open their facilities to communities outside school hours. I met the Welsh Football Trust years ago, when I was first elected, to discuss this and it said that it could utilise many school facilities if only it was given access to them after school hours. Some schools, I do not doubt for a minute, are really good at this, but others are not as good. Quite often, it may be to do with how the school is funded or how it funds the staff, so they may not be able to open the school for the hours that they wish.

Point five in our document seeks to place a requirement on schools to deliver a varied programme of two hours per week of high-quality PE and to consult pupils on this. I have talked to people on Twitter and Facebook over the last few days about this particular suggestion, because it could address the drop-off in certain areas of society, especially among girls. One woman said to me on Twitter that netball skirts should be banned. I think that some tight gym wear should be banned as well. I have very bad memories of having to try to fit myself into very unattractive leggings when I was doing gym at school, as many of you will also have done. The loss of confidence that goes with that is incredibly damaging for young people, because you want to feel comfortable doing sport and you want to feel that you can relax and that you will not be judged on how you look in a certain kit. Therefore, if you talk to young people more about that, you will see that they have views on it. The same is true of the type of sport. Some boys may not want to play the conventional sport that they are told they should grow up to do. The same is true for girls: if girls want to do a certain sport, then they should feel that they have access to it and are able to do that.

The sixth recommendation we make is to have an Inspire Wales programme. I know that many people go into schools already, who are famous and who can inspire people to get involved in sport, but if we widened that particular type of scheme, we could see more young people getting involved in sport. For example, I was at a charity dinner last week with John Hartson, who was talking of his experience having gone through the problems that he has gone through and his fight with cancer. For someone like that to go into a school on a regular basis would be a phenomenal experience for some young people, who would never have thought that it would be possible for them to get involved.

Y trydydd pwynt yw ystyried cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan weithio gyda chyrff rhanbarthol a chlybiau chwaraeon. Mae hwn yn bwynt pwysig iawn oherwydd, fel y dywedais eisoes yr wythnos hon, gall hyn atal awdurdodau lleol fel Abertawe rhag ystyried gwerthu meysydd chwarae ysgolion—rhywbeth nad yw'n mynd i gynorthwyo datblygiad plant mewn chwaraeon, mae'n amlwg. Gallai hyn hefyd fod yn rhan o'r broses o edrych ar brisiau a rhentu caeau neu gyfleusterau. Ar hyn o bryd, mae prisiau'n gwahardd pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n cyfarfod ag etholwyr ifanc i'w drafod yn rheolaidd, ac mae'n fater sydd o ddiddordeb sylweddol iddynt.

Y pedwerydd pwynt fyddai ystyried gosod gofyniad ar ysgolion i agor eu cyfleusterau i gymunedau y tu allan i oriau ysgol. Cyfarfûm ag Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru i drafod hyn flynyddoedd yn ôl pan gefais fy ethol gyntaf a dywedodd y gallai ddefnyddio llawer o gyfleusterau ysgol pe bai ond yn cael mynediad iddynt ar ôl oriau ysgol. Nid wyf yn amau am funud fod rhai ysgolion yn dda iawn am wneud hyn ond nid yw eraill cystal. Yn aml iawn, gallai fod yn ymwneud â sut y mae'r ysgol yn cael ei hariannu neu sut y mae'n ariannu'r staff, felly efallai na fyddant yn gallu agor yr ysgol am yr oriau y byddent yn ei ddymuno.

Pwynt pump yn ein dogfen yw ceisio ei gwneud yn ofyniad ar ysgolion i gyflwyno rhaglen amrywiol o addysg gorfforol o ansawdd uchel am ddwy awr yr wythnos ac i ymgynghori â disgyblion ynglŷn â hyn. Rwyf wedi siarad â phobl ar Twitter a Facebook yn ystod y dyddiau diwethaf ynghylch yr awgrym penodol hwn, oherwydd gallai fynd i'r afael â'r nifer sy'n rhoi'r gorau i chwaraeon mewn rhai rhannau o'r gymdeithas, yn enwedig ymysg merched. Dywedodd un fenyw wrthyf ar Twitter y dylid gwahardd sgertiau pêl-rwyd. Rwy'n meddwl y dylid gwahardd dillad gymnasteg tynn hefyd. Mae gen i atgofion drwg iawn, fel y bydd gan lawer ohonoch, o orfod gwisgo legins anneniadol iawn pan oeddwn yn gwneud gymnasteg yn yr ysgol. Mae'r diffyg hyder sy'n gysylltiedig â hynny yn hynod niweidiol i bobl ifanc, oherwydd eich bod am deimlo'n gyfforddus wrth wneud chwaraeon ac rydych am deimlo eich bod yn gallu ymlacio ac na chewch eich barnu ar sut rydych yn edrych mewn dillad penodol. Felly, os siaradwch fwy â phobl ifanc am hynny, gwelwch fod ganddynt farn ar y mater. Mae'r un peth yn wir am y math o chwaraeon. Efallai na fydd rhai bechgyn yn awyddus i gymryd rhan yn y chwaraeon confensiynol y dywedir wrthynt y dylent eu chwarae wrth dyfu'n hŷn. Mae'r un peth yn wir am ferched: os yw merched eisieu gwneud chwaraeon penodol, yna dylent deimlo y gallant wneud hynny'n hawdd.

Ein chweched argymhelliad yw sefydlu rhaglen Ysbrydoli Cymru. Gwn fod llawer o bobl enwog yn mynd i ysgolion eisoes er mwyn ysbrydoli pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, ond pe baem yn ehangu'r math hwnnw o gynllun, gallem weld mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Er enghraifft, roeddwn mewn cinio elusennol gyda John Hartson yr wythnos diwethaf, lle'r oedd yn sôn am ei brofiad ar ôl wynebu'r problemau a gafodd a'i frwydr yn erbyn canser. Byddai i rywun felly fynd i ysgol yn rheolaidd yn brofiad anferthol i rai pobl ifanc na fyddent byth wedi meddwl y byddai'n bosibl iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon.

The seventh point is on the development of mentoring and coaching programmes to be delivered by regional groups. This last part would have the potential to go a bit further, and I will use the example of my running club, Run4All in Neath. It was set up by parents from a local school coming together, and it now runs the risk of becoming a victim of its own success as it has grown to the point where members have to consider wider issues such as health and safety and management of facilities. When we are encouraging people to take part in sport, we have to make sure that they have the tools that they need to set up a club or a new organisation from scratch, because it takes a lot of financial nuance and managerial skills, managing expectations or applying for grants and so forth. I appreciate that Sport Wales does that, but it needs to be done on a more cohesive basis.

I will stop talking for now and let other people take part in the debate. I hope that we have lively contributions.

Mae'r seithfed pwynt yn ymwneud â datblygu rhaglenni mentora a hyfforddi i'w cyflwyno gan grwpiau rhanbarthol. Mae yna botensial i'r rhan olaf hon fynd ychydig ymhellach a defnyddiaf fy nghlwb rhedeg, Run4All yng Nghastell-nedd, fel enghraifft. Cafodd ei sefydlu gan rieni ysgol leol yn dod at ei gilydd ac mae bellach yn wynebu'r risg o ddioddef yn sgîl ei lwyddiant ei hun gan ei fod wedi tyfu i'r pwynt lle y mae'n rhaid i'r aelodau ystyried materion ehangach fel iechyd a diogelwch a rheoli cyfleusterau. Wrth annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod ganddynt yr offer sydd ei angen arnynt i sefydlu clwb neu sefydliad newydd o'r dechrau, gan ei fod yn galw am lawer o grebwyll ariannol a sgiliau rheoli, rheoli disgwyliadau neu wneud cais am grantiau ac yn y blaen. Rwy'n sylweddoli bod Chwaraeon Cymru yn gwneud hynny ond mae angen ei wneud yn fwy cydlynus.

Rwy'n rhoi'r gorau i siarad am y tro i adael i bobl eraill gymryd rhan yn y drafodaeth. Rwy'n gobeithio y cawn gyfraniadau bywiog.

17:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the five amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn credu ei bod yn bwysig bod ffyrdd egniol o fyw ar gael i bawb.

Believes it is important that active lifestyles are available to all.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Yn is-bwynt 3b, dileu 'cyfranogi gydol oes mewn chwaraeon' a rhoi 'ymarfer corff gydol oes' yn ei le.

In sub-point 3b, delete 'participation in sports' and replace with 'exercise'.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

Insert as new sub-point at end of point 3:

sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig wedi'i ddylunio i annog ffyrdd egniol o fyw.

ensure that the built environment is designed to encourage active lifestyles.

17:11

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1, 2 and 3.

Cynigaf welliannau 1, 2 a 3.

I welcome the debate today on the importance of physical activity. I also join others in wishing the Welsh team well in the forthcoming Commonwealth Games.

Croesawaf y ddadl heddiw ar bwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Rwyf hefyd yn ymuno ag eraill i ddymuno'n dda i'r tîm o Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad sydd i ddod.

Active lifestyles are important, and there is a great deal of scientific evidence on the positive effects of physical activity as part of a healthy lifestyle, including direct benefits in preventing chronic diseases such as cardiovascular disease, diabetes, cancer, hypertension, obesity, depression and osteoporosis. This has economic benefits for the NHS, but it also has socioeconomic dividends by, for example, reducing the cost to employers of sick day absences and improving productivity.

It is estimated that a physically active person on average earns £6,500 more each year, and the cost of physical inactivity in Wales has been estimated at £650 million a year. There are also viable social benefits through encouraging people to become more active and involved in their local community, giving people an opportunity to explore an area, meet new people and foster a greater sense of community. However, current levels of physical activity are still too low, with the report by chief medical officers in 2011 showing that only 36% of men and 23% of women in Wales were meeting the recommended guidelines on physical activity.

The Welsh Liberal Democrat amendments today focus on the need to look not just as sport, but at the wider picture of an active lifestyle. It is disappointing, in our view, that the motion focuses on lifelong participation in sport rather than lifelong participation in exercise, which is more encompassing of a broader active lifestyle. Exercise does not need to be a competition, and the focus of physical education on traditional sports rather than the wider benefits of exercise may be discouraging for many young people.

Similarly, in its response to the consultation on the public health White Paper, Sustrans expressed its disappointment that it only looks at physical activity as part of tackling obesity. While these are—

Mae ffyrdd o fyw egniol yn bwysig ac mae llawer iawn o dystiolaeth wyddonol ar effeithiau cadarnhaol gweithgarwch corfforol fel rhan o ffordd iach o fyw, gan gynnwys manteision uniongyrchol o ran atal clefydau cronig fel clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, canser, pwysedd gwaed uchel, gordewdra, iselder ac osteoporosis. Mae manteision economaidd i hyn ar gyfer y GIG ond mae buddion economaidd-gymdeithasol iddo hefyd, er enghraifft, lleihau'r gost i gyflogwyr yn sgil absenoldeb salwch a gwella cynhyrchiant.

Amcangyfrifir bod person sy'n gwneud gweithgarwch corfforol yn ennill £6,500 yn fwy bob blwyddyn ar gyfartaledd, ac amcangyfrifwyd bod cost diffyg gweithgarwch corfforol yng Nghymru yn £650 miliwn y flwyddyn. Ceir manteision cymdeithasol hyfyw hefyd drwy annog pobl i fod yn fwy egniol a chymryd rhan yn eu cymuned leol, gan roi cyfle i bobl archwilio ardal, cyfarfod â phobl newydd a meithrin mwy o ymdeimlad cymunedol. Fodd bynnag, mae'r lefelau presennol o weithgarwch corfforol yn dal yn rhy isel, gyda'r adroddiad gan brif swyddogion meddygol yn 2011 yn dangos mai dim ond 36% o ddynion a 23% o fenywod yng Nghymru sy'n cyflawni'r hyn y mae'r canllawiau yn ei argymhell o ran gweithgarwch corfforol.

Mae gwelliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw'n canolbwyntio ar yr angen i edrych nid yn unig ar chwaraeon, ond ar y darlun ehangach o ffordd o fyw egniol. Yn ein barn ni, mae'n siomedig fod y cynnig yn canolbwyntio ar gyfranogi gydol oes mewn chwaraeon yn hytrach na chyfranogi gydol oes mewn ymarfer corff, sy'n cwmpasu ffordd o fyw egniol yn fwy cyffredinol. Nid oes angen i ymarfer corff fod yn gystadleuaeth, ac efallai fod ffocws addysg gorfforol ar chwaraeon traddodiadol yn hytrach na manteision ehangach ymarfer corff yn digalonni llawer o bobl ifanc.

Yn yr un modd, yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn iechyd y cyhoedd, mynegodd Sustrans eu siom mai dim ond yn edrych ar weithgarwch corfforol fel rhan o'r broses o fynd i'r afael â gordewdra a wneir. Er bod y rhain —

17:13 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you give way?

A wneuch chi ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:13 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:13 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Do you consider that delivering Focus leaflets a form of exercise? [Laughter.]

A ydych yn ystyried bod dosbarthu taflenni Golwg yn ffurf ar ymarfer corff? [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:14 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is the only exercise I get, Mike. [Laughter.] Actually, it is quite vigorous and regular, so I think that I count it as a physical activity that is benefiting my health, hopefully. I have been able to lose a lot of weight recently because of it.

Dyna'r unig ymarfer corff rwy'n ei gael, Mike. [Chwerthin.] A dweud y gwir, mae'n eithaf egniol ac yn rheolaidd, felly rwy'n meddwl fy mod yn ei gyfrif fel gweithgarwch corfforol sy'n llesol i fy iechyd, gobeithio. Rwyf wedi gallu colli llawer o bwysau'n ddiweddar o'i herwydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Physical inactivity and obesity are separate public health issues, even though they are linked, as a person can be a healthy weight but still suffer issues from a lack of physical activity. Much of the work to promote physical activity is carried out by bodies outside the traditional world of public health. Such a narrow focus linked to obesity may dissuade them from engaging in the public health process.

As the motion notes, it is also disappointing that participation and active lifestyle levels among some socioeconomic groups is lower in comparison, and more needs to be done to identify and tackle the barriers to participation. Action to ensure that the built environment is designed to encourage active lifestyles is one way to do this, as highlighted in our amendment 3. In Wales, 49% of our journeys are under three miles, and the UK Cabinet Office has stated that 78% of local journeys by car under five miles could be replaced with walking, cycling or public transport. But, the built environment must be designed to accommodate this. Even a two-mile walking trip or five miles by bike would give the 30 minutes of moderate physical activity recommended for adults. The Active Travel (Wales) Act 2013 is welcome legislation, but this must be better integrated within the public health White Paper, and the benefits for improved physical health must be considered across all Government portfolios.

The UK Government has recently launched a consultation on developing a national physical activity approach that was much broader in focus. It looked at ways to challenge social norms such as 'No ball games' signs, technology issues such as having publicly usable electronic bike locks in public places, environmental and political issues such as prioritising pedestrians in all local planning decisions, ethical issues such as offers of free activities to individuals on low incomes, and to the two cyclists in the Chamber—Andrew R.T. Davies and Carl Sargeant—more bike lanes as well. This is the broader approach that our amendments today advocate and that we hope the Welsh Government will consider in developing proposals for the public health White Paper. We hope that colleagues will support our amendments today. We also support the amendments by the Conservatives, in particular welcoming the forthcoming 2014 IPC Athletics European Championships, which will draw around 600 athletes from 40 countries. I commend the amendments to the Chamber.

Mae diffyg gweithgarwch corfforol a gordewdra yn faterion iechyd cyhoeddus ar wahân, er eu bod yn gysylltiedig, gan fod rhywun yn gallu cario pwysau iach a dal i ddioddef problemau oherwydd diffyg gweithgarwch corfforol. Mae llawer o'r gwaith ar hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn cael ei wneud gan gyrff y tu allan i faes traddodiadol iechyd y cyhoedd. Gallai gosod ffocws mor gul ar ordewdra eu hatal rhag cymryd rhan ym mhroses iechyd y cyhoedd.

Fel y nodar cynnig, testun siom hefyd yw'r ffaith bod y nifer sy'n ymhél â ffyrdd o fyw egniol yn is ymlith rhai grwpiau economaidd-gymdeithasol mewn cymhariaeth ac mae angen gwneud rhagor i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan. Un ffordd o wneud hyn yw gweithredu i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig wedi'i gynllunio i annog ffyrdd o fyw egniol, fel yr amlygwyd yn ein gwelliant rhif 3. Yng Nghymru, mae 49% o'n siwrneiau o dan dair milltir, ac mae Swyddfa Cabinet y DU wedi datgan y gellid osgoi 78% o deithiau lleol o dan bum milltir mewn car drwy gerdded, seiclo neu drafnidiaeth gyhoeddus. Ond mae'n rhaid i'r amgylchedd adeiledig fod wedi'i gynllunio ar gyfer hyn. Byddai taith gerdded ddwy filltir hyd yn oed, neu bum milltir ar feic, yn rhoi'r 30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol a argymhellir ar gyfer oedolion. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ddeddfwriaeth i'w chroesawu, ond rhaid ei hintegreiddio'n well o fewn y Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd, a rhaid ystyried y manteision o ran gwella iechyd corfforol ar draws holl bortffolios y Llywodraeth.

Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ddatblygu ymagwedd genedlaethol tuag at weithgarwch corfforol a oedd yn llawer ehangach o ran ei ffocws. Edrychai ar ffyrdd o herio normau cymdeithasol megis arwyddion 'Dim chwarae pêl', materion technolegol fel sicrhau y gellir defnyddio cloeon beic electronig yn gyhoeddus mewn mannau cyhoeddus, materion amgylcheddol a gwleidyddol megis blaenoriaethu cerddwyr ym mhob penderfyniad cynllunio lleol, materion moesegol fel cynnig gweithgareddau am ddim i unigolion ar incwm isel, ac i'r ddau feiciwr yn y Siambr—Andrew RT Davies a Carl Sargeant—mwy o lonydd beicio hefyd. Dyma'r ymagwedd ehangach y mae ein gwelliannau heddiw yn ei hyrwyddo ac y gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd. Rydym yn gobeithio y bydd ein cydweithwyr yn cefnogi ein gwelliannau heddiw. Rydym hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr, yn enwedig croesawu Pencampwriaethau Ewropeaidd Athletau'r IPC 2014 sydd i ddod, a fydd yn denu tua 600 o athletwyr o 40 o wledydd. Rwy'n cymeradwyo'r gwelliannau i'r Siambr.

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 4—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu effaith gadarnhaol digwyddiadau chwaraeon ar lefelau cyfranogaeth mewn chwaraeon, megis Pencampwriaethau Athletau Ewrop y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol sydd ar fin cael eu cynnal yn Abertawe.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call Suzy Davies to move amendments 4 and 5, which were introduced in the name of Paul Davies.

Amendment 4—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Welcomes the positive impact of sporting events on levels of participation in sport, such as the forthcoming IPC Athletics European Championships in Swansea.

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod bod cymryd rhan mewn chwaraeon a hyfforddi chwaraeon yn gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Recognises that participation in sport and sports coaching are opportunities to use Welsh within the community.

17:16

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendments 4 and 5.

Cynigiad welliannau 4 a 5.

I thank Plaid for tabling this motion today. It may only be a month or so since we debated the Assembly committee's report into participation in sport, but I do not think we can let it pass unremarked that a crack team of Welsh men and women is about to go to Glasgow and show the world what this small nation can do with determination and discipline. That is not an invitation for you to interpret any of those words as a secret message to the 'Yes' campaign—I clearly see you are doing that—rather, it is a plea to everyone who has been brainwashed into believing that sport equals football and tennis: it is time to wake up and smell the medals. We on these benches would wish to be associated with the sentiments of this motion and we look forward to the Commonwealth Games being an arena where our elite athletes turn talent into triumph.

Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Efallai mai tua mis yn unig sydd ers inni drafod adroddiad pwyllgor y Cynulliad i gyfranogiad mewn chwaraeon, ond nid wyf yn meddwl y gallwn osgoi sôn bod tîm arbennig o ddynion a menywod o Gymru ar fin mynd i Glasgow i ddangos i'r byd beth y gall y genedl fach hon ei wneud gyda phenderfyniad a disgyblaeth. Nid yw hynny'n wahoddiad ichi ddehongli'r geiriau hyn fel neges gudd i'r ymgyrch 'Ie'—rwy'n gweld yn glir eich bod yn gwneud hynny—yn hytrach, mae'n ble ar bawb sydd wedi'u cyflyru i gredu bod chwaraeon yn gyfystyr â phêl-droed a thenis: mae'n amser deffro ac arogi'r medalau. Rydym ni ar y meinciau hyn eisiau cael ein cysylltu â'r teimladau sy'n sail i'r cynnig hwn ac edrychwn ymlaen at Gemau'r Gymanwlad fel arena lle bydd ein hathletwyr elitaidd yn troi talent yn fuddugoliaeth.

We took the opportunity of this debate to draw Members' attention to another international sporting contest, this time in Wales, and featuring Welsh athletes. The IPC Athletics European Championships in Swansea, a few weeks after the Commonwealth Games, is a top-end competition between athletes with disabilities from across Europe. I introduced the amendment not just to name-check the event and my region, but because this debate is about wellbeing and the role of sport in promoting that. The competitors you will see in Swansea, and some of those competing in Glasgow, are the ultimate inspirational and aspirational expression of the proposition that participation in sport, most particularly at this level, is not the same as participating in exercise. That is why, although we will be supporting the motion and most of the amendments, we will not be supporting amendment 3. It is not that we disagree with what a revised point 3(b) would say, but the original motion encapsulates something that the amendment does not. Exercise is certainly beneficial personally, and Peter Black has already reminded us how it contributes to the wellbeing of individuals, their communities and the economy, but I see sport, particularly at grass-roots level, as something else. I see, for example, with my own children and their peers, and even at the other end of the age spectrum with my husband and his veteran five-a-side games, how physical participation in sport demonstrates the importance of the group bond—trust, teamwork, respect for others, collective responsibility, joint ambition and combined striving. Even singles players are part of team with their coaches and their management and so on. Like it or not, sport develops our inner competitor; a desire to excel, to win, perhaps for ourselves, but also for our team and our group. It is a motivation that turns the world and through sport it can be nurtured positively, responsibly and respectfully.

Sport allows us to express emotions collectively—emotions that are suppressed, perhaps in daily life. We more passive participants—I will have to admit to that being the limit of my participation—have a collective noun all of our own: spectators. Spectators share moments of joy and despair. It is never just polite pleasure and mild disappointment, is it? That communal experience where you sing or cry together is, in my mind, a contributor to wellbeing. With a bit of luck, you will all have enjoyed a rollercoaster day, but together and, most importantly, you know that you are not alone, and that, even for a few hours, can make a difference to anyone's mental wellbeing, regardless of their socioeconomic background. The downside of this, though, is that moments of tribal togetherness can result in fairly counter-productive celebrating or commiserating and exhortations to eat healthily and take regular exercise can be forgotten.

Rydym wedi manteisio ar y cyfle y mae'r ddadl hon yn ei gynnig i dynnu sylw'r Aelodau at gystadleuaeth chwaraeon ryngwladol arall, y tro hwn yng Nghymru, ac yn cynnwys athletwyr o Gymru. Mae Pencampwriaethau Ewropeaidd Athletau'r IPC yn Abertawe, ychydig wythnosau ar ôl Gemau'r Gymanwlad, yn gystadleuaeth ar y lefel uchaf rhwng athletwyr ag anabledau o bob cwr o Ewrop. Cyflwynais y gwelliant, nid yn unig er mwyn tynnu sylw at y digwyddiad a fy rhanbarth, ond oherwydd bod y ddadl hon yn ymwneud â lles a rôl chwaraeon yn y broses o hyrwyddo hynny. Y cystadleuwyr a welch yn Abertawe, a'r rhai sy'n cystadlu yn Glasgow, yw mynegiant ysbrydol eithaf i ymgyrraedd ato y gosodiad nad yw cymryd rhan mewn chwaraeon, yn fwyaf arbennig ar y lefel hon, yr un fath â chymryd rhan mewn ymarfer corff. Dyna pam, er y byddwn yn cefnogi'r cynnig a'r rhan fwyaf o'r gwelliannau, na fyddwn yn cefnogi gwelliant 3. Nid yw hynny oherwydd ein bod yn anghytuno â'r hyn y byddai pwynt diwygiedig 3(b) yn ei ddweud, ond am fod y cynnig gwreiddiol yn crynhoi rhywbeth nad yw'r gwelliant yn ei wneud. Mae ymarfer corff yn sicr yn fuddiol yn bersonol, ac mae Peter Black eisoes wedi ein hatgoffa ynglŷn â sut y mae'n cyfrannu at les unigolion, eu cymunedau a'r economi, ond rwy'n gweld chwaraeon, yn enwedig ar lawr gwlad, fel rhywbeth arall. Rwy'n gweld, er enghraifft, gyda fy mhiant fy hun a'u cyfoedion, a hyd yn oed ar ben arall y sbectrwm oedran, gyda fy ngŵr a'i gemau pump bob ochr i bobl hŷn, sut y mae cymryd rhan yn gorfforol mewn chwaraeon yn dangos pwysigrwydd bondio fel grŵp—ymddiriedaeth, gwaith tîm, parch at eraill, rhannu cyfrifoldeb, uchelgais gyffredin a chydymdrechu. Mae hyd yn oed pobl sy'n cymryd rhan mewn campau i unigolion yn rhan o dîm gyda'u hyfforddwyr a'u rheolwyr ac yn y blaen. Pa un a ydych yn hoffi hynny ai peidio, mae chwaraeon yn datblygu'r cystadleuydd mewnol; yr awydd i ragori, i ennill, efallai er ein mwyn ein hunain, ond er mwyn ein tîm a'n grŵp hefyd. Mae'n ysgogiad sy'n peri i'r byd droi a thrwy chwaraeon, gellir ei feithrin yn gadarnhaol, yn gyfrifol ac yn barchus.

Mae chwaraeon yn ein galluogi i fynegi emosiynau ar y cyd—emosiynau sy'n cael eu llesteirio yn ein bywydau bob dydd o bosibl. Mae gennym ni sy'n gyfranogwyr mwy goddefol—rhaid i mi gyfaddef mai dyna derfyn fy nghyfranogiad—enw torfol ein hunain: gwylwyr. Gwylwyr sy'n rhannu eiliadau o lawenydd ac anobaith. Nid yw byth yn fater o bleser cwrtais a siom tawel, oni chytunwch? Mae'r profiad cymunedol pan fyddwch yn canu neu'n crio gyda'ch gilydd yn cyfrannu at les yn fy marn i. Gydag ychydig o lwc, byddwch i gyd wedi mwynhau diwrnod o godi i'r entrychion a disgyn i'r pydew, ond gyda'ch gilydd, ac yn bwysicaf oll, byddwch yn gwybod nad ydych ar eich pen eich hun, a bod hynny, hyd yn oed am ychydig oriau'n unig, yn gallu gwneud gwahaniaeth i les meddyliol rhywun, beth bynnag yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Anfantais hyn, fodd bynnag, yw y gall eiliadau o agosatrwydd llwythol arwain at ddatlu neu foddï gofidiau eithaf gwrthgynhyrchiol pan fydd anogaeth i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd yn cael eu hanghofio.

To finish, I have a few words on amendment 6. Although Sports Wales's coaching strategy 2010-2016 says nothing about the use of Welsh, its later 'Active Adults 2012: The State of the Nation' report indicated that more Welsh-speaking adults than average participated in sport and that a higher number than average volunteered in sport, but that only 1% of adults undertook coaching through the medium of Welsh. This may well point to a demand for sport and other exercise sessions at grass roots or more developed levels to be provided through the medium of Welsh. However, it also points to a classic opportunity to achieve what we talk about so often in this Chamber, which is the normalisation of Welsh in everyday life and everyday situations, showing kids who learn Welsh in schools that it is a real language outside the classroom and kids who have been lucky enough to be brought up with Welsh that it is a real language outside the home and that English and Welsh can be used together casually with no preachy political undertones, as befits the universal language of sport.

Felly, Cymru am byth. Yr wyf yn gobeithio y cawn glywed tipyn o Gymraeg gan ein cystadleuwyr yng Ngemau'r Gymanwlad, a llongyfarchiadau 'in advance' iddyn nhw.

I orffen, mae gennyf ychydig o eiriau am welliant 6. Er nad yw strategaeth hyfforddi Chwaraeon Cymru 2010-2016 yn dweud dim am y defnydd o'r Gymraeg, mae ei adroddiad diweddarach, 'Oedolion Egnïol 2012: Cyflwr y Genedl' yn nodi bod mwy o oedolion sy'n siarad Gymraeg na'r cyfartaledd wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a bod nifer uwch na'r cyfartaledd wedi gwirfoddoli mewn chwaraeon, ond mai 1% yn unig o oedolion a oedd yn hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl bod hyn yn amlygu galw am sesiynau chwaraeon a mathau eraill o ymarfer corff ar lawr gwlad neu ddarparu lefelau mwy datblygedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu bod cyfle heb ei ail i gyflawni'r hyn y siaradwn yn ei gylch mor aml yn y Siambr hon, sef normaleiddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd a sefyllfaoedd pob dydd, gan ddangos i blant sy'n dysgu Gymraeg yn yr ysgolion ei bod yn iaith go iawn y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac i blant sydd wedi bod yn ddigon ffodus i gael eu magu drwy gyfrwng y Gymraeg, ei bod yn iaith go iawn y tu allan i'r cartref, ac y gellir defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd yn ddiymdrech heb unrhyw isleisiau gwleidyddol a phregethwrol, fel sy'n gweddu i iaith fyd-eang chwaraeon.

Therefore, 'Cymru am byth'. I hope that we will hear a fair bit of Welsh spoken by our team in the Commonwealth Games, and congratulations in advance to them.

17:21

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Bethan Jenkins wedi rhoi amlinelliad cynhwysfawr iawn o gynnwys a phwrpas dadl heddiw. Rwyf eisiau ffocysu yn benodol ar y rôl mae ysgolion yn gallu ei chwarae yn y cyd-destun hwn. Wrth ddweud hynny, rwy'n derbyn y pwynt roedd Peter Black yn ei wneud; wrth ddefnyddio'r gair 'chwaraeon', roeddem yn sôn am ystyr ehangach y gair ac am gynnwys pob math o ymarfer corff, felly rydym yn derbyn y gwelliant hwnnw, os oes angen hidlo gwybed fel petai. Beth sy'n bwysig yw ein bod yn cydnabod, er mwyn gwneud y dewisiadau o ba fath o chwaraeon neu ba fath o ymarfer corff rydych eisiau ei wneud, bod yn rhaid i chi fod yn hyderus yn eich corff eich hunan a bod yn rhaid i chi fybod beth mae eich corff yn abl i'w wneud ac ym mha ffordd y gallwch edrych ar ôl y corff a thrin y corff. Mae hwnnw'n dod i lawr, yn y bôn, at beth sy'n cael ei alw yn y 'jargon' erbyn hyn yn 'llythrennedd corfforol', sy'n arbennig o anodd i'w ddehongli yn Gymraeg, mae'n rhaid dweud, ond dyna yw'r geiriau.

Fel yr ydym eisoes wedi ei glywed, nid ydym ar hyn o bryd yn darparu'r nifer o oriau bob wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ysgolion y mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn ei argymhell. Rwy'n meddwl bod cyfle felly gydag adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm sy'n digwydd ar hyn o bryd i adeiladu ar beth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd—rhyw 100 munud yr wythnos, fel dywedodd Bethan—ac ehangu ar hynny at y nod o ddwy awr o ymarfer corff ystyrlon i'n plant a'n pobl ifanc. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig oherwydd mae'n meithrin y math o bethau yr oedd Suzy Davies yn sôn amdanynt—ymwneud â'ch gilydd a gweithio fel tîm—ond y mae hefyd yn meithrin hyder yn y corff sydd gyda chi ac yn y ffordd y gallwch ddefnyddio'r corff hwnnw. Y gobaith wedyn yw y byddwch yn parhau i wneud chwaraeon neu ymarfer corff tu allan i'r ysgol—yn Gymraeg hefyd, gan fod hynny'n bwysig iawn.

Bethan Jenkins has outlined in a comprehensive manner the purpose and content of the debate today. I want to focus particularly on the role that schools can play in this context. In saying that, I do accept the point that Peter Black made; in using the word 'sport', we are looking at it in its widest sense of all kinds of exercise, so we accept that amendment, if we want to split hairs. What is important is that we recognise that, if you are to make the right choices in terms of the kind of sport or exercise you want to undertake, you have to be confident in your own physical state and you have to know what your body is able to do and how you can look after your body and treat it. That comes down essentially to what is called, in jargon, 'physical literacy', which is particularly difficult to interpret in Welsh, if I may say so. However, those are the terms used.

As we have already heard, at present, we are not providing in schools the number of hours per week for children and young people that the Welsh Government and Sport Wales recommend. I think that there is an opportunity therefore with the Donaldson review of the curriculum, which is currently ongoing, to build on what is provided at present—some 100 minutes a week as Bethan suggested—and to enhance that so that we reach that target of two hours of physical activity per week for our children and young people. I think this is important because it nurtures the kinds of things that Suzy Davies mentioned in terms of team relationships and team-building, but it also develops physical confidence and competence in the way that you can use your body and, hopefully then, you will continue to participate in sport or exercise outwith school—and do so in Welsh, of course; that is also very important.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn gwybod eisoes bod problem gyda ni. Ar hyn o bryd, mae niferoedd y merched yn eu harddegau yn arbennig yn lleihau yn sylweddol o ran eu cyfranogiad o chwaraeon. Tra bod 65% o fechgyn yn teimlo'n gysurus yn cymryd rhan mewn ymarfer corff yn y dosbarth ac yn yr ysgol, dim ond llai na hanner y merched sy'n teimlo'r un peth. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth iawn—mae Bethan wedi cyffwrdd â rhai ohonynt—ond maen nhw'n bendant yn ymwneud â hunanhyder ac, o ran merched ifanc yn enwedig, eu delwedd o'u cyrff, sy'n ymwneud â chymdeithas a'r ffordd y mae cymdeithas yn trin menywod hefyd. Felly, mae'n rhan o'r patrwm hwnnw. Rydym yn gwybod ein bod yn gallu gwella ar hynny. Rydym yn gwybod bod pethau yn cael eu gwneud—soniodd Bethan am yr hyn sy'n digwydd yng Ngwerniniaeth Iwerddon. Mae camau y medrwch eu cymryd i gryfhau ac ehangu ar hynny.

Ail ran y broblem sydd gyda ni, yn ogystal â'r bwlch rhwng y bechgyn a'r merched yn yr ysgolion, yw'r bwlch rhwng y rhai mwyaf breintiedig a'r mwyaf difreintiedig. Mae gap o 11% rhwng y rhai sydd yn fwyaf llwyddiannus yn economaidd, y rhai sydd o gefndir teuluol o'r fath, a'r rhai mwyaf difreintiedig yn y ffordd maen nhw'n ymwneud â chwaraeon. Hynny yw, y mwyaf tlawd yr ydych yng Nghymru, nid yn unig ydych chi ar ei hôl hi o ran cyrhaeddiad addysgiadol, fel rydym wedi ei drafod eisoes heddiw yn y Cynulliad, ond rydych chi ar ei hôl hi o ran cyfrannu a bod yn rhan o chwaraeon. Mae hynny'n rhywbeth sydd angen edrych arno'n ofalus iawn. Yn yr un ffordd, mae 10% llai o ddisgyblion sydd ag anabledd o ryw fath yn cyfranogi o chwaraeon. Rydym eisoes wedi gweld, wrth gwrs, gyda'r mabolgampau Paralympic cymaint y mae modd adeiladu ar y gallu hwnnw i wneud yn siŵr bod pob plentyn, beth bynnag yw ei allu, beth bynnag yw'r anabledd posibl sydd ganddo, neu beidio, yn gallu cyfranogi o chwaraeon.

Mae'r cyfle gennym yn awr i adeiladu ar y gwaith mae tasglu Tanni Grey-Thompson wedi ei wneud. Mae gennym y safonau mae Chwaraeon Cymru wedi'u gosod yn eu lle. Yr hyn sydd eisiau ei wneud yw gwneud yn siŵr bod llythrennedd corfforol yn mynd drwy'r cwricwlwm. Ie, mae'n gallu digwydd am ddwy awr yr wythnos, ond gallem hefyd gyfoethogi'r ddwy awr honno, er enghraifft, drwy gynnal dosbarthiadau ymarfer corff mewn ysgolion Saesneg eu hiaith yn y Gymraeg, sy'n cyfoethogi ar draws y cwricwlwm. Mae pethau y gallwch eu gwneud i adeiladu ar y cyfleoedd.

Yr hyn sy'n galonogol yw bod llawer mwy am ymwneud â chwaraeon ac ymarfer corff nac sy'n eu gwneud yn awr. Mae merched ar y blaen fan hyn, er eu bod ar ei hôl hi o ran cyfrannu, am fod 20% o ferched am wneud mwy a dros 10% o fechgyn am wneud mwy. Os ydym yn rhoi cyfle iddynt yn eu hysgolion i ddyysgu mwy am sut y gallent gyfrannu ac ymarfer drwy eu hoes, bydd llai o oedolion nag sydd gennym ar hyn o bryd, yn anffodus, yn dioddef o afiechydon a gordewdra.

We already know that we have a problem. At present, the number of teenage girls particularly who participate in sport tends to drop significantly. While 65% of boys feel comfortable participating in physical activity in school and the classroom, fewer than 50% of girls feel likewise. The reasons for this are very complex—Bethan has touched upon some of them—but they certainly relate to self-confidence and, in terms of young women particularly, their body image, which is a social issue and has to do with the way that society treats women as well. So, it is part of that bigger picture. We know that we can make improvements there and we know that there are things that are done—Bethan mentioned what is happening in the Republic of Ireland. There are steps you can take to strengthen and enhance that provision.

The second part of the problem we have, in addition to the gap between girls and boys in our schools, is the gap between the most privileged and the most disadvantaged. There is a gap of 11% between those who are most economically successful, or from the most privileged family backgrounds, and the most disadvantaged in their participation in sport. That is to say, the poorer you are in Wales, not only are you falling behind in terms of educational attainment, as we have already discussed in the Assembly today, but you are also falling behind in terms of participation in sport. That is something that needs to be addressed in detail. Likewise, 10% fewer pupils who have some sort of disability participate in sports. We have already seen, of course, with the Paralympic Games how much we can build on that ability to make sure that all children, whatever their ability, whatever disability they may have, or may not have, are able to participate in sports.

We have an opportunity now to build on the work that the Tanni Grey-Thompson taskforce has undertaken. We have the standards put in place by Sport Wales. What needs to be done is to ensure that physical literacy spans the whole curriculum. Yes, it can happen for two hours a week, but we could also enhance those two hours, for example, by conducting physical exercise classes in English-medium schools through the medium of Welsh, which will enhance the curriculum more widely. There are steps that you can take to enhance the opportunities available.

What is encouraging is that there are far more people who want to become involved in sport and physical exercise than take part at present. Girls are ahead here, although they are falling behind in terms of actual participation, as 20% of women want to do more and over 10% of boys want to do more. If we give them opportunities in their schools to learn more about how they can participate throughout their lives, there will be fewer adults suffering from illnesses and obesity than we have at present.

17:26

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch hefyd i gyfrannu'r prynhawn yma ac rwy'n cefnogi pob gwelliant.

I am also pleased to contribute this afternoon and I support every amendment.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fel Suzy, rwy'n falch i ddymuno'n dda i dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad. Bydd y tîm yn derbyn cefnogaeth frwd drwy gydol mis Gorffennaf ac Awst, ac edrychaf ymlaen at groesawu'r tîm a'r staff hyfforddi yn ôl. Rwy'n gobeithio y bydd ganddynt 27 o fedalau—targed a osodwyd gan Chwaraeon Cymru ar gyfer Glasgow, sef wyth yn fwy na'r 19 a enillwyd yn Delhi yn 2010. O Lanelli, wrth gwrs, byddaf yn dilyn Dai Greene, pencampwr athletau'r Gymanwlad yn y 400m dros glwydi. Mae'n llysgennad balch dros yr ardal.

Mae'n rhaid cofio bod gennym gyfleusterau o'r safon orau yng Nghymru. Pan oeddem yn wynebu'r posibilrwydd na allai tîm pêl-droed Llanelli ymuno â Chynghrair Pêl-droed Cymru MacWhirter, stadiwm Stebonheath oedd yn rhan allweddol o'r ddadl a gyflwynwyd gennyf. Mae'n stadiwm pêl-droed na all Cymru fforddio ei gollu. Mae'r academi'n cynnig cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i chwaraewyr ifanc. Rwyf yn glir bod cyfleusterau lleol sy'n agored i bawb yn hollbwysig.

Nid wyf yn cynnig polisiâu sy'n seiliedig ar stadia mawr. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod y capasiti presennol yn parhau i gynnal digwyddiadau mawr â rôl mewn annog cyfranogiad cymunedol. Cynhaliodd y stadiwm nifer o gemau ym Mhencampwriaeth dan 19 oed Menywod UEFA yn 2013. Gwyddom fod clybiau lleol yn aml yn adrodd cynnydd mewn aelodaeth ar ôl digwyddiadau chwaraeon mawr. Mae defnyddio digwyddiadau elitaidd i roi hwb i gyfranogiad yn rhywbeth y gallwn fanteisio arno.

Fel y dywedodd pobl yn gynharach, mae merched a menywod ifanc yn enghraifft dda o grŵp lle mae rhagor o gyfle i gynyddu cyfranogiad. Mae'n faes rwyf wedi gweithio arni fel yr Aelod Lleol. Cwrddais â Chwaraeon Cymru i weld cynlluniau peilot ar waith. Pan geisiais roi peli pêl-droed i dimau merched lleol, gwelais fod timau merched yn sylweddol llai na'r timau bechgyn cyfatebol.

Gwyddom yn awr gan ein Gweinidog chwaraeon, yn y blynyddoedd diwethaf, ein bod wedi cynyddu traean ar y nifer o chwaraewyr pêl-droed benywaidd. Gobeithiaf y gallwn gynyddu hynny unwaith eto a mwy. Rwy'n noddi digwyddiad Dug Caeredin yn y Senedd heno. Rwyf wedi cyfarfod â'i llysgenhadon benywaidd sydd wedi cyflawni llwyddiant mawr mewn chwaraeon, gan gynnwys Tori James o sir Benfro, y ferch ieuengaf ym Mhrydain a'r Gymraes gyntaf i gyrraedd copa Everest. Yn ddiweddar, mae newydd deithio o Land's End i John O'Groats mewn llinell syth gan groesi'r môr a dringo'r mynyddoedd.

Mae ymgyrch Chwaraeon Cymru, Sut Mae'ch Symud Chi?, yn cynnwys sir Gaerfyrddin fel un o'r pedwar awdurdod lleol. Mae ganddi agwedd wedi'i thargedu, heb bwysau, i annog menywod a merched mewn chwaraeon gan chwalu'r rhwystrau i gyfranogiad. Rwyf wedi ymweld â â'r ganolfan datblygu pêl-rwyd yng nghanolfan hamdden Llanelli ac yr wyf yn ymwybodol bod Coleg Sir Gâr yn gweithredu cynllun teyrngarwch sy'n cynnig cyfarpar i fyfyrwyr benywaidd. Y gwir amdani yw bod angen i ni ddeall y rhwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol yn gywirach.

Like Suzy, I am pleased to wish the Welsh team well for the Commonwealth Games. The team will receive enthusiastic support throughout July and August, and I look forward to welcoming back the team and the coaching staff. I hope that they will have 27 medals—the target set by Sport Wales for Glasgow, which is eight more than the 19 won in Delhi in 2010. From Llanelli, I will of course be following Dai Greene, the reigning Commonwealth athletics champion in the 400m hurdles. He is a proud ambassador for the area.

We have to remember that we have facilities of the highest standard in Wales. When we were facing the possibility that Llanelli football team could not join the MacWhirter Welsh Football League, the Stebonheath stadium was a key part of the argument that I put forward. It is a football stadium that Wales cannot afford to lose. The academy offers valuable training opportunities to young players. I am clear that local facilities that are open to all are paramount.

I do not propose policies based on large stadia. However, it must be ensured that the existing capacity continues in order to host large-scale events with a role in encouraging grass-roots participation. The stadium hosted several games in the UEFA Women's Under-19 Championship in 2013. We know that local clubs often report an increase in membership after major sporting events. Using elite events to boost participation is something that we can capitalise on.

As other speakers said earlier, girls and young women are a prime example of a group where there is greater scope to increase participation. It is an area that I have worked on as the local AM. I met Sport Wales to see for myself the pilot schemes in operation. I sought to donate footballs to local girls teams, and I found that there were substantially fewer teams than their male counterparts.

We now know from our Minister for sport that, in recent years, we have increased by a third the number of female football players. I hope that we can increase that again. I am sponsoring a Duke of Edinburgh event in the Senedd this evening. I have met female ambassadors who have achieved great sporting success, including Tori James from Pembrokeshire, the youngest British female and the first Welsh woman to reach the summit of Everest. Recently, she has just travelled from Land's End to John O'Groats in a straight line, crossing seas and climbing the mountains.

Sport Wales's What Moves You? campaign includes Carmarthenshire as one of four local authorities. It has a no pressure, targeted approach to encourage women and girls into sport by breaking the barriers to participation. I have visited the netball development centre in Llanelli leisure centre and I am aware that Carmarthenshire College operates a loyalty scheme that offers female students kit and equipment. The truth is that we need to understand the barriers facing certain groups better.

Wrth daflu golwg ar ymdrechion i gynyddu cyfranogiad yn gyffredinol, rwyf am gofnodi fy niolch i wirfoddolwyr. Mae arolwg oedolion egniol Chwaraeon Cymru yn dweud wrthym fod eu niferoedd wedi cynyddu, gan gyfateb i dros 300,000 o boblogaeth Cymru. Byddwn oll yn eu hadnabod yn ein cymunedau. Maent yn adnodd gwyb. Heb eu hamser a'u harbenigedd, byddai llawer o glybiau lleol ac ifanc yn anghynaliadwy.

In light of efforts to increase participation generally, I want to place on record my thanks to volunteers. The Sport Wales active adults survey tells us that their numbers have increased, equating to over 300,000 of the Welsh population. We will all recognise the volunteers in our communities. They are a tremendous resource. Without their time and expertise, many local and young clubs would be unsustainable.

Rwy'n falch y penderfynodd sir Gâr i beidio â chario ymlaen gyda chodi costau caeau chwarae eleni. Rwyf wastad wedi bod yn glir, er gwaethaf y penderfyniadau cyllideb anodd sydd o'n blaen, ac mae costau sir Gâr yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, bod chwaraeon cymunedol yn allweddol i Gymru iach. Maent yn ddull i fynd i'r afael â gordewdra hefyd. Rwyf wedi cwrrd â phwyllgor chwaraeon unedig sir Gâr ac ymgyrchu ar ei ran, ac yn sylweddoli faint o glybiau lleol sydd yn gweithredu. Mae mor bwysig i'w cadw, ac efallai, drwyddynt, y gallwn leihau gordewdra yng Nghymru.

I am pleased that Carmarthenshire decided not to go ahead with increasing pitch fees this year. I have always been clear that, despite the difficult budget choices ahead of us, and Carmarthenshire's costs are below the national average, grass-roots sports are vital to a healthy Wales. They are a means of tackling obesity also. I have met with the Carmarthenshire unified sports committee and have campaigned on its behalf, and appreciate how many local clubs are operating. It is so important to keep them, and perhaps, through them, we can reduce obesity in Wales.

Mae gwaith diweddar gan wasanaeth addysg y Cynulliad yn dangos bod pobl ifanc yn gryf iawn o blaid mwy o wersi addysg gorfforol yn yr ysgol. Mae galwadau gan y plant am fwy o wersi gorfodol yn amlwg yn galonogol. Mae'r cyfnod sylfaen, er enghraifft, yn dysgu drwy chwarae, rhywbeth a adeiladir arno yng nghyfnodau allweddol diweddarach.

Recent work by the Assembly's education service shows that young people are very much in favour of more physical education lessons in school. The calls from children for more compulsory lessons are encouraging. The foundation phase, for example, teaches learning through play, something that is built upon in later key stages.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Conclude, please.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:31 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Mae gennym fentrau gan Lywodraeth Cymru fel y cynllun 5x60 yr ydym ni'n gwario £4.9 miliwn arno. Mae'n tynnu ar ystod o randdeiliaid gyda 99% o ysgolion uwchradd yn cymryd rhan.

We have Welsh Government initiatives such as the 5x60 scheme, which we spend £4.9 million on. It draws on a range of stakeholders, with 99% of secondary schools taking part.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Gorffennwch.

Conclude.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:32 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Disgyblion, yn hanfodol, sy'n dewis eu gweithgareddau eu hunain.

Crucially, pupils choose activities themselves.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:32 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Rwyf am siarad am gyfleusterau chwaraeon yn bennaf, a gwasanaethau, ac mae'r pwynt wedi cael ei wneud yn gynharach, wrth gwrs, nad oes rhaid i chi gymryd rhan mewn chwaraeon ffurfiol er mwyn bod yn iach ac er mwyn eich lles corfforol. Mae hynny'n berffaith wir. Ar y llaw arall, nid oes dwywaith bod cymryd rhan mewn chwaraeon o ryw fath, boed yn gystadleuol neu fel arall, yn rhoi pleser di-ben-draw ac yn llesol ar sawl lefel. Rwy'n hoff iawn o'r dyfyniad hwnnw gan y chwaraewr pêl-droed hyfryd hwnnw o Frasil Oscar a ddywedodd rywdro:

I want to focus on sports facilities and services mainly, and the point was made earlier, of course, that you do not have to participate in formal sporting activity to be healthy and for your own physical wellbeing. That is perfectly true. On the other hand, there is no doubt that participation in sport of some kind, whether competitively or otherwise, gives huge pleasure and it is beneficial on many levels. I am very fond of that quotation from that wonderful football player from Brazil, Oscar, who said:

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

'Beauty comes first. Victory is secondary. What matters is joy.'

'Beauty comes first. Victory is secondary. What matters is joy.'

Wrth gwrs, roedd o'n gallu fforddio dweud hynny gan ei fod yn gystal chwaraewr, ond ta waeth.

Cyn y gallwn ni sôn am chwaraeon a chymryd rhan mewn chwaraeon, mae angen cyfleusterau, boed rheiny yn rai cyhoeddus, trydydd sector neu breifat, a strwythurau sy'n cynnal y gweithgarwch hwnnw. Rwy'n falch iawn o weld ffigurau calonogol Chwaraeon Cymru am y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Maent i'w croesawu yn fawr iawn, ac, yn sicr, o 2008 ymlaen, pan oedd gennyf ryw fath o gyfrifoldeb am y maes hwn yn Llywodraeth Cymru'n Un, fe ddaru Chwaraeon Cymru, ac iddo mae'r clod, ganolbwyntio ar ddatblygu hyfforddi arweinwyr a fyddai'n hyrwyddo a datblygu gweithgarwch chwaraeon o fewn clybiau a chwaraeon gwahanol. Mae wedi talu ar ei ganfed ac mae i'w ganmol yn aruthrol am y llwyddiant hwnnw. Roedd y pwyslais yn gwbl iawn. Roedd yn manteisio ar frwdfrydedd y strwythurau ar lawr gwlad, wrth gwrs.

Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, y gwir amdani ydy bod y wasgfa ar lywodraeth leol yn bygwth ein cyfleusterau chwaraeon ni ledled y wlad, ac rydym ni wedi gweld cyfleusterau'n cael eu cau yn Wrecsam ac mewn lleoedd eraill wrth i'r esgid wasgu. Yn y blynyddoedd nesaf, rydym yn disgwyl neu'n ofni y bydd toriadau llym ar wario a chyllidebau llywodraeth leol, efallai dros 3%. Yn wyneb y cystadleuaeth neu'r angen o'r sector statudol, y gofynion o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol, fe allwch chi weld pam byddai cynghorau yn edrych yn fanwl ar eu gwariant ym maes hamdden. Rwy'n credu mai camgymeriad fyddai hynny, ond nid oes dwywaith bod hyn yn berygl gwirioneddol.

Felly, beth ydym yn eu cynnig fel atebion ym Mhlaid Cymru? Yn sicr, rydym yn cytuno â Chwaraeon Cymru bod angen gweld cydweithio rhwng cynghorau, ond nid wyf yn credu byddai hynny'n ddigon. Rydym hefyd yn meddwl y dylid edrych yn fanwl ar y posibiladau o ryw fath o gerdyn 'Oyster' lles cenedlaethol er mwyn caniatáu i ddinasyddion Cymru ddefnyddio cyfleusterau mewn gwahanol rannau o'r wlad. Yn sicr, o ran datblygu a chynnal y cyfleusterau, mae'n rhaid ar batrymau o'r newydd. Mae Bethan Jenkins wedi cyfeirio at Iwerddon, lle mae partneriaethau chwaraeon lleol yn gyfrifol am hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon ar lawr gwlad. Nid yw hynny mor wahanol i'r hyn mae Chwaraeon Cymru yn ceisio anelu ato, heblaw nad yw'r strwythurau hynny yn eu lle.

Fodd bynnag, nid oes dwywaith yn fy marn i bod yn rhaid i ni edrych ar y brwdfrydedd hwnnw a'r diddordeb hwnnw sydd yn bodoli o fewn chwaraeon ac o fewn clybiau ym mhob rhan o Gymru fel un ateb i'r problemau. Yn Sweden, maent yn dibynnu ar y sector gwirfoddol i drefnu gweithgarwch chwaraeon a rhedeg cyfleusterau, ond gyda chymorth llywodraeth leol a'r wladwriaeth. Mae hwn yn fodol ac yn strwythur yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn awyddus i weld yn datblygu yng Nghymru er lles, wrth gwrs, ein pobl, a hefyd fel ffordd o ymbwerau a rhoi egni i'n pobl ar lawr gwlad, a chyrraedd yr hyn yr ydym i gyd eisiau gweld, sef cenedl iach a ffit sydd hefyd yn cael llwyddiant ar y llwyfan ryngwladol.

Of course, he could afford to say that because he is such a good player, but never mind about that.

Before we can discuss sport and participation in sport, you need facilities, be they public, third sector or private facilities, and structures that maintain those activities. I am extremely pleased to see the encouraging figures from Sport Wales on the numbers participating in sport. That is to be welcomed, and, certainly, from 2008 onwards, when I had some sort of responsibility for this area in the One Wales Government, Sport Wales, and the credit goes to it, concentrated on developing leaders who would promote and develop physical activity within clubs and various sports. It has paid off and it is to be praised for that success. The emphasis was entirely correct. It took advantage of the enthusiasm within the structures at grass-roots level, of course.

However, in looking to the future, the truth is that the pressures on local government threaten our sports facilities the length and breadth of the country, and we have seen facilities closed in Wrexham and in other areas as the financial squeeze takes hold. In the next few years, we expect or fear that there will be stringent cuts in spending and in the budgets of local authorities, perhaps over 3%. In light of the competition or the needs of the statutory sector, the demands of education and social services, you can see why councils would look in detail at their expenditure in the area of leisure. I think that that would be a mistake, but there is no doubt that this is a very real risk.

So, what are we proposing as solutions in Plaid Cymru? Certainly, we agree with Sport Wales that we need to see collaboration between councils, but I do not think that that would be sufficient. We also believe that we should look in detail at the possibilities of some kind of national wellbeing 'Oyster' card to allow Welsh citizens to use facilities in various parts of the country. Certainly, in terms of developing and sustaining those facilities, you have to look at this issue anew. Bethan Jenkins has referred to Ireland, where local sports partnerships are responsible for promoting participation in sport at a grass-roots level. That is not so different from what Sport Wales is aiming for; it is just that those structures are not necessarily in place.

However, there is no doubt in my opinion that we need to look at that enthusiasm and that interest that exists within sport and within clubs in all parts of Wales as one solution to the problems. In Sweden, they are dependent upon the voluntary sector to organise sporting activity and to run facilities, but with the assistance of local government and the state. This is a model and structure that we in Plaid Cymru are keen to see developed in Wales for the benefit of our people, of course, and also as a means of empowering and energising our people at grass-roots level, and of achieving what we all want to see, namely, a healthy, fit nation that is also successful on the international stage.

A gaf i ddweud wrth Alun Ffred Jones, gan ei fod wedi dyfynnu chwaraewr pêl-droed o Frasil yn ei araith, byddwn wedi disgwyl iddo ddewis dyfyniad gan y chwaraewr Fred yn hytrach na'r chwaraewr Oscar? [Chwerthin.] Fodd bynnag, beth bynnag am hynny, a gaf i gychwyn drwy gyfeirio at y ffaith yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn ymfalchïo yn y ffaith bod ystadegau diweddar Chwaraeon Cymru yn dangos bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon nawr, gyda 39% o bobl Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd yn 2012, o'i gymharu â dim ond 29% tair blynedd yn gynharach? Er hyn, mae'r canrannau sydd yn cymryd rhan yn is mewn rhai sectorau, megis merched ifanc, menywod, pobl hŷn, pobl anabl, a phobl ar incwm isel. Felly, mae job o waith dal i'w gwneud i sicrhau bod pawb mewn cymdeithas yn teimlo bod chwaraeon ac ymarfer corff yn rhywbeth sydd yn perthyn iddynt.

Mae'r strwythurau a chyfleoedd yn eu lle mewn ffordd weddol o dorfol i ddynion, yn aml, a bechgyn ifanc, gymryd rhan mewn chwaraeon, ac mae canran uchel o ddynion ifanc a chanol oed yn chwarae mewn timau rygbi a phêl-droed yn lleol. Mae gemau pêl-droed pum bob ochr, er enghraifft, yn ffordd arbennig o dda o gynnwys dynion ifanc mewn chwaraeon. Nid yw rhai o strwythurau timau a chyngreiriau lleol hyn wedi datblygu i'r un graddau, neu nad oes cymaint ohonynt, ar gyfer merched a menywod. Mae hyn yn esbonio, i ryw raddau, pam fod dilyniant o ran cymryd rhan mewn chwaraeon o'r ysgol i'r gymdeithas yn ehangach yn is i ferched nag i fechgyn. I rai o'r grwpiau hynny sydd yn gwneud llai o ymarfer corff, mae canolfan hamdden leol yn lleoliad pwysig ofnadwy er mwyn caniatau mynediad fforddiadwy a lleol at chwaraeon. Mae canolfannau hamdden o dan bwysau mawr oherwydd y toriadau i gyllid cynghorau sir, a byddwn yn hoffi dlywed y Gweinidog y prynhawn yma yn ei ymateb yn dangos i ni sut mae'r Llywodraeth yn barod i edrych yn benodol ar gydweithio gyda llywodraeth leol er mwyn sicrhau parhad a dyfodol ein canolfannau hamdden, sydd yn darparu gwasanaeth a chyfleoedd fforddiadwy i bobl cymryd rhan mewn chwaraeon, ac yn gwneud hynny er mwyn cwrdd ag anghenion cymunedau'n lleol.

Wrth gwrs, mae cerdded, rhedeg a seiclo yw'r ffyrdd rhatach i wneud ymarfer corff, o bosibl. Mae'n braf gweld sut mae mudiadau gwirfoddol ac elusennol wedi medru ysbrydoli pobl i gerdded, rhedeg a seiclo dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn hyrwyddo eu mudiadau neu godi arian ar eu cyfer.

Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â nifer o'r digwyddiadau hyn ac mae rhai ohonom yn cymryd rhan mewn rhai ohonynt, rwy'n siŵr. Rwy'n meddwl am ddiwyddiadau fel y 'Race for Life', teithiau cerdded lleol a theithiau cerdded cenedlaethol fel Cerddwn Ymlaen, teithiau beicio lleol, a rhedeg 10 km neu hanner marathon neu beth bynnag yr ydych yn gallu ei wneud. Mae cyn-Aelod o'r Cynulliad hwn wedi cerdded ar hyd Clawdd Offa yn ddiweddar: cerddodd Ieuan Wyn Jones ar hyd Clawdd Offa er mwyn codi arian a bu i nifer o bobl, gan gynnwys rhai Aelodau eraill o'r Cynulliad hwn, gyd-gerdded gydag ef dros y cyfnod hwnnw.

May I say to Alun Ffred Jones, as he quoted a football player from Brazil in his speech, I would have expected him to choose to quote the player Fred, rather than Oscar? [Laughter.] However, regardless of that, may I start by referring to the fact that I am sure that we are all proud of the fact that the latest Sport Wales statistics show that more people are taking part in sport now, with 39% of the people of Wales taking part in sport regularly in 2012, compared to only 29% three years previously? Despite this, the percentages taking part are lower in some sectors, such as young girls, women, older people, the disabled, and people on low incomes. So, we still have work to do to ensure that everyone in society feels that sport and exercise is something that belongs to them.

The structures and opportunities are quite widely in place for men, often, and boys, to take part in sport, and a high percentage of young and middle-aged men play in local rugby and football teams. Five-a-side football matches, for example, are an excellent way of including young men in sport. Some of the team structures and local leagues have not been developed to the same extent, or there are not as many of them, for girls and women. This explains, to some extent, why continuity in terms of participation in sport from school into society more widely is lower for girls than for boys. For some of those groups that do less exercise, the local leisure centre is an extremely important site in order to allow affordable and local access to sport. Leisure centres are under a great deal of pressure because of the cuts to county council budgets, and I would like to hear the Minister, in his response this afternoon, demonstrate how the Government is willing to look specifically at collaborating with local government in order to ensure continuity and a future for our leisure centres, which provide affordable services and opportunities for people to take part in sport, and do that in order to meet the needs of the local community.

Of course, walking, running and cycling are the cheapest ways, perhaps, to exercise. It is great to see how voluntary and charity groups have been able to inspire people to walk, run and cycle over the past few years in order to promote their groups or to raise money for them.

We are all familiar with many of these events and some of us take part in them, I am sure. I am thinking of events such as Race for Life, local and national walking events such as Cerddwn Ymlaen, local bike rides, and running 10 km or half a marathon or whatever you can do. A former Member of this Assembly has walked the length of Offa's Dyke recently: Ieuan Wyn Jones walked Offa's Dyke in order to raise money and a number of people, including some other Members of this Assembly, walked with him over that period.

Cyfeiriais yn gynharach yr wythnos hon wrth ofyn cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon at Ras yr Iaith, a ddigwyddodd yng Ngheredigion a rhai o'r siroedd o gwmpas y gorllewin ddydd Gwener diwethaf. Roedd pobl yn rhedeg er mwyn codi arian a hyrwyddo'r Gymraeg. Gwnaethwyd hynny yng Nghymru am y tro cyntaf, mae'n fodel llwyddiannus yng Ngwlad y Basg, Iwerddon a Llydaw erbyn hyn. Rwy'n cyfaddef, gyda llaw, na wnes i rhedeg, er fe wnes i gefnogi bawb a wnaeth redeg yn arbennig o egniol. Roedd hi'n ddiwrnod gwych wrth weld pobl o bob oedran yn rhedeg fel amaturiaid drwy drefi marchnad y gorllewin a phawb yn gwneud hynny i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg.

I gloi, nid yw'n bosibl i mi—. Na, a dweud y gwir, rwy'n gweld yr amser yn parhau, felly rwy'n cloi, gan fy mod wedi cychwyn fy araith gan gyfeirio at gwpan y byd, drwy ddweud bod cwpan y byd gan bawb i'w wyllo heno hefyd.

I referred earlier this week in asking questions to the Minister for Culture and Sport to Ras yr Iaith, which took place in Ceredigion and some of the counties in west Wales last Friday. People ran in order to raise money and to promote the Welsh language. That was done in Wales for the first time; it is a successful model in the Basque Country, Ireland and Brittany. I admit, by the way, that I did not run, although I did support everyone who ran particularly energetically. It was an excellent day seeing people of all ages running as amateurs through market towns and everyone doing that to promote and celebrate the Welsh language.

In closing, it is not possible for me—. No, to be honest, I see that time is getting on, so I will conclude, as I began my speech referring to the world cup, by saying that everyone has the world cup to watch tonight.

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths. I call on the Minister for Culture and Sport, John Griffiths.

17:41 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport

I very much welcome this debate and the focus it provides on sport and physical activity. The Welsh Government supports the motion and the amendments. First, I join Plaid Cymru in wishing all the best to Owen Williams of Cardiff Blues and Wales and his family for a full recovery. I also join Members in wishing our Welsh team well in the Commonwealth Games. The fact that we will be sending such an excellent team with such strong medal hopes is a tribute to the support that Welsh Government and other bodies have provided to support sport in Wales and the way in which that support and the funding involved has been used by Sport Wales and our national governing bodies to develop the elite pathway.

Rwy'n croesawu'r ddadl hon yn fawr a'r ffocws y mae'n ei roi ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig a'r gwelliannau. Yn gyntaf, rwy'n ategu dymuniadau gorau Plaid Cymru i Owen Williams o dîm Gleision Caerdydd a Chymru a'i deulu ac yn gobeithio y caiff adferiad llwyr. Rwyf hefyd yn ategu dymuniadau da yr Aelodau i'n tîm o Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad. Mae'r ffaith y byddwn yn anfon tîm mor ardderchog gyda'r fath obeithion cryf am fedalau yn deyrnged i'r gefnogaeth y mae'r Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill wedi'i rhoi i chwaraeon yng Nghymru a'r ffordd y caiff y cymorth a'r cyllid dan sylw ei ddefnyddio gan Chwaraeon Cymru a'n cyrff llywodraethu cenedlaethol tuag at ddatblygu'r llwybr elitaidd.

I would also like to welcome Plaid Cymru's document, 'Inspire Wales', as a contribution to ideas and to the debate in general. Obviously, we want to see ideas coming forward and we are very keen to engage in that debate as a Welsh Government. I think it is clear that we are all agreed that sport and physical activity promotes health and wellbeing. There is plenty of evidence linking low levels of activity with an increased risk of major diseases, such as dementia, cardiovascular disease and some types of cancer. It is for that reason that our strategies and policies aim to further increase the embedding of physical activity in our people's lifestyles. We do have some encouraging progress, as has been referred to in this debate. The recent school sports and active adults surveys published by Sport Wales showed a growth in the number of participants in sport across almost all sectors of society. However, there are gaps and Members have referred to them. We are taking action, through, for example, Sport Wales's recent £3 million investment, to increase opportunities for under-represented groups to take part in sport.

Hefyd, hoffwn groesawu dogfen Plaid Cymru, 'Ysbrydoli Cymru', fel cyfraniad at y syniadau a'r ddadl yn gyffredinol. Yn amlwg, rydym am weld syniadau'n cael eu cyflwyno ac rydym yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y ddadl honno fel Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu ei bod yn amlwg ein bod i gyd yn cytuno bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn hybu iechyd a lles. Mae digon o dystiolaeth sy'n cysylltu lefelau isel o weithgarwch gyda mwy o risg o glefydau difrifol, megis dementia, defyd cardiofasgwlaidd a rhai mathau o ganser. Dyna pam y mae ein strategaethau a'n polisiau yn anelu at wella'r broses o ymgorffori gweithgarwch corfforol yn rhan o ffordd o fyw ein pobl. Rydym wedi gweld cynnydd calonogol, fel y cyfeiriwyd ato yn ystod y ddadl hon. Mae'r arolygon diweddar o chwaraeon ysgol ac oedolion egniol a gyhoeddwyd gan Chwaraeon Cymru yn dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar draws bron bob sector o gymdeithas. Fodd bynnag, mae bylchau o hyd ac mae'r Aelodau wedi cyfeirio atynt. Rydym yn cymryd camau, er enghraifft, drwy'r buddsoddiad diweddar o £3 miliwn yn Chwaraeon Cymru, i gynyddu'r cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol allu cymryd rhan mewn chwaraeon.

We are very keen on access to the outdoors as an important part of our physical activity agenda. We have invested in our Wales coastal path, our public rights of way, and additional opportunities for access to water sport. Later this year, we will be publishing a Green Paper on access that will seek views on this and other issues.

Yes, local authorities are very important, as Members have mentioned. We are working very closely with local authorities, the WLGA and other bodies that have a key role to play to help deal with the impact of budget reductions on the provision of leisure services. We are already seeing, and Members will be familiar with this, the emergence of a range of different models. We are heartened by the responsible and creative way in which some local authorities are working with third-sector providers and others to ensure that these crucial facilities are not lost.

The role of schools is crucial in increasing levels of physical activity. Our children and young people need to have these good habits embedded at the earliest possible age. This is why we commissioned Tanni Grey-Thompson to conduct her review. Evidence from Estyn shows the importance of good-quality physical education, including how it positively impacts on other areas of learning for many of our pupils. So, we are taking this work forward. The Minister for Education and Skills and I launched a physical literacy programme for schools this March. As part of this work, Sport Wales has been tasked by the Department of Education and Skills with developing a physical literacy framework. This will be tested in schools in a new programme. It aims to motivate children and young people in our more deprived communities to engage in sport and physical activity, encouraging that crucial change in attitude for life. The work of Professor Graham Donaldson on the assessment and curriculum arrangements in Wales is due to be reported to the Minister for Education and Skills at the turn of this year. The findings of our school and physical activity task and finish group, including the group's recommendations for physical education to become a core subject, will be considered as part of this review.

Some groups in society—as Members have mentioned—such as teenage girls and members of black minority ethnic groups, have lower levels of participation. As I mentioned, we will have the Calls for Action grant to address those issues: £1.5 million for black ethnic minority background pupils, as well as those with disabilities and those in our more deprived communities; and a further £1 million to generate positive action to encourage more young women and girls to play sport. A range of partners and local groups will be involved in this work. Of course, organisations such as Disability Sport Wales are producing very strong results, for which we are very grateful.

Rydym yn awyddus iawn i weld mynediad i'r awyr agored yn dod yn rhan bwysig o'n hagenda ar gyfer gweithgarwch corfforol. Rydym wedi buddsoddi yn llwybr arfordir Cymru, ein hawliau tramwy cyhoeddus a chyfleoedd ychwanegol o ran mynediad i chwaraeon dŵr. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyrdd ar fynediad a fydd yn gofyn am farn pobl ar hyn a materion eraill.

Ydynt, mae awdurdodau lleol yn bwysig iawn, fel y mae Aelodau wedi crybwyll. Rydym yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff eraill sydd â rôl allweddol i'w chwarae yn helpu i ymdrin ag effaith toriadau yn y gyllideb ar ddarparu gwasanaethau hamdden. Rydym eisoes yn gweld, a bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â hyn, ystod o wahanol fodelau'n ymddangos. Cawn ein calonogi gan y ffordd gyfrifol a chreadigol y mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr trydydd sector ac eraill i sicrhau nad yw'r cyfleusterau hanfodol hyn yn cael eu colli.

Mae rôl ysgolion yn allweddol ar gyfer codi lefelau gweithgarwch corfforol. Mae angen ymgorffori'r arferion da hyn ar yr oedran cynharaf posibl ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Dyma pam rydym wedi comisiynu Tanni Grey-Thompson i gynnal ei hadolygiad. Mae tystiolaeth gan Estyn yn dangos pwysigrwydd addysg gorfforol safonol, gan gynnwys sut y mae'n cael effaith gadarnhaol ar feysydd dysgu eraill ar gyfer llawer o'n disgyblion. Felly rydym yn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau raglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion ym mis Mawrth. Fel rhan o'r gwaith, mae Chwaraeon Cymru wedi cael y dasg gan yr Adran Addysg a Sgiliau o ddatblygu fframwaith llythrennedd corfforol. Bydd yn cael ei brofi yn yr ysgolion ar ffurf rhaglen newydd. Ei nod yw ysgogi plant a phobl ifanc yn ein cymunedau mwy difreintiedig i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan annog newid agweddau am oes, sy'n allweddol. Cyflwynir adroddiad ar waith yr Athro Graham Donaldson ar asesu a threfniadau'r cwricwlwm yng Nghymru ar droad y flwyddyn. Bydd canfyddiadau ein grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgarwch corfforol a'r ysgolion, gan gynnwys argymhellion y grŵp ar gyfer gwneud addysg gorfforol yn bwnc craidd, yn cael eu hystyried yn rhan o'r adolygiad hwn.

Fel y soniodd yr Aelodau, mae llai yn ymhél â chwaraeon o blith rhai grwpiau yn y gymdeithas, megis merched yn eu harddegau ac aelodau o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Fel y soniais, bydd gennym y grant Galw am Weithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny: £1.5 miliwn ar gyfer disgyblion o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â rhai sydd ag anabledau a rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig; ac £1 filiwn arall ar gyfer creu camau cadarnhaol i annog mwy o fenywod ifanc a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Bydd amrywiaeth o bartneriaid a grwpiau lleol yn rhan o'r gwaith hwn. Wrth gwrs, mae sefydliadau fel Chwaraeon Anabled Cymru yn creu canlyniadau cadarn iawn, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am hynny.

Members mentioned the IPC championships, and I very much look forward to going along to witness those championships myself over the course of the summer. Some of the work that we are doing concentrates on those who are most sedentary. I work very closely with the Minister for Health and Social Services, through our physical activity executive group, to take forward crucial work in that area. We also know that Sport Wales's child poverty and community sport strategies are very important in reaching those who are hardest to reach. We have new partners like StreetGames offering those most accessible doorstep sports opportunities for young people living in our more socially deprived areas. That work is taking place in partnership with our Communities First teams, to make each project sustainable and part of the very fabric of those communities. So, I think that we have a good deal of very important work in training Wales, which is producing good results, as evidenced by these surveys.

Members mentioned coaching, and of course this is crucial. Sport Wales is working with the UK Sport coaching team and our other home countries to ensure that the coach development pathway exists and is communicated for each sport. That elite programme will be about talent identification and effective engagement in all of our communities to ensure that we have the coaching that we need in place. Our Welsh Language Commissioner is working with Sport Wales in terms of some of the Welsh language issues.

We know that Wales is passionate about sport. We are a sporting nation. I believe that the actions that I have described here today show the commitment of the Welsh Government to increasing our sporting prowess and, equally importantly, the health of this nation. We can be justly pleased with the progress that we have made at the grass-roots and elite levels. I believe that we can look forward to excellent results in Glasgow and in the future as we make Wales more and more a sporting nation.

Crybyyllodd yr Aelodau bencampwriaethau'r IPC ac edrychaf ymlaen yn fawr at fynd draw i weld y pencampwriaethau hynny fy hun yn ystod yr haf. Mae peth o'r gwaith rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar y bobl fwyaf eisteddog. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy ein grŵp gweithredol ar weithgarwch corfforol, i ddatblygu gwaith hollbwysig yn y maes hwn. Rydym hefyd yn gwybod bod strategaethau tlodi plant a chwaraeon cymunedol Chwaraeon Cymru yn bwysig iawn ar gyfer cyrraedd y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd. Mae gennym bartneriaid newydd fel GemauStryd sy'n cynnig cyfleoedd chwaraeon mwy hygrych ar garreg y drws ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn ein hardaloedd mwy difreintiedig yn gymdeithasol. Mae'r gwaith hwnnw'n digwydd mewn partneriaeth â'n timau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn gwneud pob prosiect yn gynaliadwy ac yn rhan o wead y cymunedau hynny. Felly rwy'n meddwl bod gennym gryn dipyn o waith pwysig iawn i hyfforddi Cymru, sy'n creu canlyniadau da, fel y mae'r arolygon hyn yn ei ddangos.

Crybyyllodd yr Aelodau hyfforddiant, ac wrth gwrs mae hyn yn hanfodol. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda thîm hyfforddi UK Sport a gwledydd eraill Prydain i sicrhau bod y llwybr datblygu hyfforddwyr yn bodoli ac yn cael ei gyfleu ar gyfer pob camp. Bydd y rhaglen elitaidd yn ymwneud â chanfod talent ac ymgysylltu effeithiol ym mhob un o'n cymunedau i sicrhau'r hyfforddiant sydd ei angen arnom. Mae ein Comisiynydd Iaith yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru ar rai o'r materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Gwyddom fod Cymru yn angerddol ynglŷn â chwaraeon. Rydym yn genedl chwaraeon. Rwy'n credu bod y camau a ddisgrifiais yma heddiw yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu ein medr mewn chwaraeon a gwella iechyd y genedl hon, sydd lawn mor bwysig. Gallwn fod yn falch o'r cynnydd a wnaed gennym ar lawr gwlad ac ar lefelau elitaidd. Rwy'n credu y gallwn edrych ymlaen at ganlyniadau rhagorol yn Glasgow ac yn y dyfodol wrth inni wneud Cymru yn genedl sy'n ymwneud fwyfwy â chwaraeon.

17:50

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb i'r ddadl.

I call Bethan Jenkins to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:50

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch i bawb am gyfrannu heddiw. Er i Suzy Davies gydnabod bod trafodaeth wedi bod yn y pwyllgor ar y mater hwn yn barod, rwy'n credu ei bod yn bwysig inni sicrhau bod chwaraeon ar flaen agenda gwleidyddol y Llywodraeth, gan fod y mater yn mynd ar hyd a lled Llywodraeth, o feysydd iechyd i'r economi, o chwaraeon i addysg, a dyna pam y mae chwaraeon mor bwysig i ni yn y gymdeithas yma yng Nghymru.

I would like to thank everyone who has contributed today. Although Suzy Davies has already acknowledged that there has been some debate in the committee on this issue, it is important that we ensure that sport is at the top of the political agenda, as it cuts across all areas of Government, from health to the economy, from sport to education, and that is why sport is so important to us in Welsh society.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolchaf i'r Gweinidog yn syth bin am fod mor hyblyg o ran gwrando ar syniadau Plaid Cymru, ac am nodi'r ffaith nad oes gan y Llywodraeth fonopoli ar syniadau, na ni ychwaith. Mae'n bwysig iawn ein bod ni fel plaid nawr, wedi cynhyrchu'r ddogfen hon, yn ymgynghori yn eang i weld sut mae pobl Cymru yn meddwl y gallwn ni ddatblygu'r hyn yr ydym wedi ei roi allan yn barod, achos mae gan lot fawr o bobl farn gref ar sectorau gwahanol chwaraeon yma yng Nghymru, ac mae'n bwysig ein bod yn dlywed ac yn parchu barn pawb yn hynny o beth. Hefyd, pwynt pwysig iawn yw bod mwy o 'emphasis' wedi cael ei roi ar GemauStryd Cymru, achos yr ydym wedi bod yn trafod yma heddiw y bobl nad ydynt efallai yn gallu fforddio bod yn rhan o chwaraeon, neu'r bobl hynny sy'n teimlo nad ydynt yn cael yr adnoddau maent yn haeddu o sector penodol mewn cymdeithas. Os ydym yn sicrhau nad yw'n golygu bod rhaid bod gan rywun arian er mwyn iddo gymryd rhan mewn chwaraeon, yna mwyaf yn y byd y bydd gennym y ffydd y bydd pobl ifanc yn ymhél â chwaraeon pan fyddant yn hŷn hefyd.

Peter, rwy'n gwybod eich bod am wneud y pwynt bod gwahaniaeth rhwng ymarfer corff a chwaraeon. Fel y mae Simon Thomas wedi dweud, rydym yn meddwl am y peth yn y cyd-destun ehangaf posibl. A bod yn onest, nid oes ots gennyf pa eiriad yr ydym yn ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwn; fy 'passion' i yw sicrhau y bydd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff yn eu bywydau bob dydd. Rydym yn eistedd yma ddydd ar ôl dydd, efallai heb siawns i ymarfer corff cymaint ag y byddwn yn hoffi, ac felly pa ots beth yw'r gair, dim ond bod gennym y cyfle hwnnw yn ein bywydau bob dydd i gymryd rhan mewn rhyw fath o ymarfer corff.

Diolch i Suzy am ei chyfraniad hi hefyd, ac am dynnu sylw at yr hyn fydd yn digwydd yn Abertawe cyn hir. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod Abertawe'n cael y digwyddiadau hyn hefyd, achos rydym yn gweld bod lot o ddigwyddiadau mawr yn digwydd yn y brifddinas, ac mae'n hen bryd efallai inni fod yn 'biased' yn hynny o beth, fel bod Abertawe'n cael yr un cyfleoedd.

Aeth Simon ar ôl llythrennedd corfforol. Mae Donaldson yn bwysig iawn yn hynny o beth o ran gweld sut y gallwn ehangu'r hyn sy'n digwydd yn barod.

Diolch i Keith Davies am siarad am faterion sy'n lleol iddo ef, a hefyd am y ffaith ei fod wedi bod yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru yn ei ardal leol.

Alun Ffred Jones a siaradodd am y cerdyn 'Oyster' lles. Wrth gwrs, mae angen mwy o waith ar hyn, oherwydd bod lot o wahaniaethau rhwng sut y mae awdurdodau lleol yn ariannu chwaraeon. Mae rhai wedi rhoi eu hadnoddau i gwmnïau preifat, er enghraifft ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot. Felly, rhaid inni sicrhau ein bod yn gwybod sut y bydd cerdyn o'r fath yn gweithio.

Diolch hefyd i Elin Jones am drafod Ras yr Iaith a'r gwaith y mae Ieuan Wyn Jones wedi bod yn ei wneud yn codi arian ar gyfer elusennau. Mae'n bwysig ein bod yn hybu'r elfen honno a'n bod i gyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau corfforol sydd hefyd yn gallu codi arian ar gyfer elusennau pwysig Cymreig.

I would like to thank the Minister at the outset for being so flexible in terms of listening to Plaid Cymru's ideas, and for recognising that the Government does not have a monopoly on ideas, and neither do we. It is very important that we as a party, having produced this document, consult widely to see how the people of Wales see us developing what we have already published, because very many people have strong views on different sectors of sport here in Wales, and it is important that we listen and respect the opinions of everyone in that regard. Also, an important point is that more emphasis has been put on StreetGames in Wales, because we have today been discussing those people who perhaps cannot afford to participate in sport, or those people who do not feel that they have the resources that they deserve within particular sectors of society. If we can ensure that one does not have to have money in order to participate in sport, then the more confidence we will have that young people will take up sport and continue to participate in sport when they are older.

Peter, I know that you wanted to make the point that there is a difference between exercise and sport. As Simon Thomas has said, we are thinking of this in the widest possible context. To be honest, I do not mind what words we use in this context; my passion is to ensure that more people actually participate in sport or exercise in their daily lives. We sit here day after day, perhaps without the opportunity to exercise as much as we would like, and therefore the wording is not important, just as long as we have the opportunity in our daily lives to take part in some sort of exercise.

I would like to thank Suzy for her contribution as well, and for highlighting what is to happen in Swansea. I think that it is important that Swansea attracts these events as well, because we are seeing that many major events are taking place in the capital city, and it is perhaps about time that we become biased in this regard, so that Swansea has the same opportunities.

Simon addressed the issue of physical literacy. Donaldson is extremely important in that regard in terms of enhancing what is already happening.

I would like to thank Keith Davies for discussing issues that are local to him, and also for the fact that he has been working with Sport Wales in his local area.

Alun Ffred Jones mentioned the wellbeing Oyster card. Of course, we need to do more work on this, because there are huge variations in the way that local authorities fund sports. Some have handed their facilities to private companies, for example in Bridgend and Neath Port Talbot. Therefore, we need to ensure that we know how that kind of card could work.

I also thank Elin Jones for discussing 'Ras yr Iaith' and the work that Ieuan Wyn Jones has been doing in fundraising for charities. It is important that we promote that aspect and that we all participate in physical activities that can also raise money for important Welsh charities.

17:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, so I will defer the voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5534](#)

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5534](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 36, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 10, Against 36, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5534.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5534.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 32, Against 14, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5534.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5534.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 9.

Amendment agreed: For 37, Against 0, Abstain 9.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5534.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5534.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 36, Against 10, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5534.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5534.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Result of the motion as amended.

Cynnig NDM5534 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5534 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r digwyddiadau diweddar i goffáu D-Day, Diwrnod Lluedd Arfog y DU a chanmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf;

1. Notes the recent D-Day Commemorations, the upcoming UK Armed Forces Day, and the centenary of the beginning of the First World War;

2. Yn gwerthfawrogi cyfraniadau milwyr o Gymru, yn ddynion a menywod, ac yn cydnabod yr anawsterau y gallant eu hwynebu ar ôl dychwelyd i fywyd sifil;

2. Values the contributions of Welsh servicemen and women and recognises the difficulties they may have upon returning to civilian life;

3. Yn croesawu'r cyhoeddiad yn Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU am gynigion ar gyfer Bil Cwynion am Wasanaethau, er mwyn gwella'r system gwynion yn y Lluedd Arfog drwy sefydlu Ombwdsmon ar gyfer milwyr.

3. Welcomes the announcement in the UK Government's Legislative Programme of proposals for a Service Complaints Bill to improve the complaints system in the Armed Forces through the creation of an Ombudsman for service personnel.

4. Yn gresynu at y ffaith bod toriadau i fudd-daliadau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys y dreth ystafell wely, yn effeithio ar gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd.

4. Regrets that cuts to benefits for disabled people, including the imposition of the bedroom tax, are affecting veterans and serving members of the Armed Forces.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried Cynllun Cerdyn Cyn-filwyr i Gymru i alluogi:

5. Calls upon the Welsh Government to consider a Veterans' Card Scheme for Wales to enable:

a) ehangu'r cynllun prisiau consesiynol presennol i gynnwys cyn-filwyr

a) an expansion of the existing concessionary fares scheme to include veterans

b) mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol i gyn-filwyr

b) free entry for veterans to local authority swimming pools

c) mynediad am ddim i gyn-filwyr i safleoedd Cadw i gyn-filwyr

c) free entry for veterans to Cadw sites

d) blaenoriaeth o ran triniaeth ar gyfer cyflyrau/anafiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol ar y GIG

d) priority treatment for service related conditions/injuries on the NHS

e) blaenoriaeth o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i gyn-filwyr y mae angen addasiadau i'r cartref arnynt.

e) priority delivery of Disabled Facilities Grants for veterans requiring home adaptations.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cyn-aelodau'r Lluoedd arfog sydd ag Anhwylder Straen wedi Trawma.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that the health service provides adequate support for veterans with Post Traumatic Stress Disorder.

7. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r potensial i godi cofeb Gymreig yn yr Ardd Goed Genedlaethol yn Swydd Stafford, i gofio ac anrhydeddu'r holl ddyinion a menywod dewr o Gymru a ymladdodd ac a gollodd eu bywydau yn gwasanaethu'r genedl.

7. Further calls upon the Welsh Government to explore the potential to erect a Welsh memorial at the National Arboretum in Staffordshire, to remember and honour all the brave men and women from Wales who fought and lost their lives in service of the nation.

[Canlyniad y bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on the motion as amended.](#)

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Yn erbyn 10, Ymatal 4.

Amended motion agreed: For 32, Against 10, Abstain 4.

[Canlyniad y bleidlais gynnig NDM5535.](#)

[Result of the vote on motion NDM5535.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 13, Ymatal 0.

Motion agreed: For 33, Against 13, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais gynnig NDM5536.](#)

[Result of the vote on motion NDM5536.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Motion agreed: For 32, Against 14, Abstain 0.

17:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Those Members who are leaving the Chamber, please do so quickly and quietly.

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambwr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Dadl Fer: UEFA 2020—Caerdydd, y Ddinas Berffaith i Gynnal y Bencampwriaeth

It is a pleasure to speak on the topic of UEFA 2020, Cardiff the perfect host. Bill Powell, Ann Jones and Suzy Davies have asked for a minute to make a contribution in the debate, and I am more than happy to give them a minute each.

In the coming months, 19 cities, including Cardiff, will be competing to host Michel Platini's revamped, revised European hampionship. With 13 cities throughout the continent to be given host status in 2020, the omens are good for Cardiff. The Millennium Stadium, which forms the centrepiece of the Welsh bid, is Europe's largest indoor arena; its retractable roof guaranteeing the best possible playing conditions. A capacity of over 74,000 makes it the fourth biggest stadium competing to host key games, and its location in the heart of our capital city is unrivalled among the other bids.

As the world's third-largest sporting event, behind the World Cup and the summer Olympics, an opportunity to host key matches at UEFA 2020 would be a fantastic opportunity to showcase Wales on the world's sporting stage. Despite a long-standing footballing tradition, with iconic players, such as Toshack, Charles, Rush, Hughes and now Gareth Bale, Wales has never had the opportunity to host a major UEFA event. However, what Wales has in Cardiff is a proud track record of hosting major sporting events, with the rugby World Cup, Olympic football matches, an Ashes test and several FA Cup finals all held here in recent years, with huge success and little or no acclaim.

The potential boost to Wales through a successful bid would permeate almost every Welsh Government portfolio, with the Welsh economy likely to see a boost of tens of millions of pounds, foreign visitors expected to rise by almost 10%, and grass-roots sports and public health given a shot in the arm as a result of greater local interest and investment in sport.

In fact, hosting a major event can lead to a significant uplift in the number of people taking up sport. Sport England, for example, has estimated that 750,000 adults took up playing sport at least once a week in the year after the London Olympics. Cycling was by far the biggest beneficiary, inspired by Bradley Wiggins's efforts in the Olympics and the Tour de France. An additional 200,000 adults now cycle at least once a week. This is not a new phenomenon. Indeed, you only have to think back to the so-called 'Tim Henman effect' and how full the country's tennis courts became whenever he performed well at Wimbledon.

Short Debate: UEFA 2020—Cardiff, the Perfect Host

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n bleser gen i siarad ar bwnc UEFA 2020, Caerdydd y ddinas berffaith i gynnal y bencampwriaeth. Mae Bill Powell, Ann Jones a Suzy Davies wedi gofyn am funud i gyfrannu at y ddadl ac rwy'n fwy na pharod i roi munud yr un iddynt.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd 19 o ddinasoedd, gan gynnwys Caerdydd, yn cystadlu i gynnal Pencampwriaeth Ewrop ddiwygiedig Michel Platini ar ei newydd wedd. Gyda 13 o ddinasoedd ledled y cyfandir i gael statws dinas croesawu yn 2020, mae'r argoelion yn dda i Gaerdydd. Stadiwm y Mileniwm, sy'n ganolbwynt i gais Cymru, yw'r arena dan do fwyaf yn Ewrop; mae ei tho symudol yn sicrhau'r amodau chwarae gorau posibl. Mae lle i dros 74,000 o bobl yn golygu mai dyma'r bedwaredd stadiwm fwyaf sy'n cystadlu i gynnal y gemau allweddol ac mae ei lleoliad yng nghanol ein prifddinas yn ddihafal ymhlith y ceisiadau eraill.

Fel trydydd digwyddiad chwaraeon mwyaf y byd, ar ôl Cwpan y Byd a Gemau Olympaidd yr haf, byddai cyfle i gynnal gemau allweddol UEFA 2020 yn gyfle gwyb i arddangos Cymru ar lwyfan chwaraeon y byd. Er gwaethaf ein traddodiad hir o bêl-droed, gyda chwaraewyr eiconig, megis Toshack, Charles, Rush, Hughes a Gareth Bale yn awr, nid yw Cymru erioed wedi cael y cyfle i gynnal un o brif ddigwyddiadau UEFA. Fodd bynnag, yr hyn sydd gan Gymru yng Nghaerdydd yw hanes balch o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, gyda Chwpan Rygbi'r Byd, gemau pêl-droed y Gemau Olympaidd, prawf cyfres y Llundw a nifer o rowndiau terfynol Cwpan yr FA wedi'u cynnal yma yn y blynyddoedd diwethaf, yn llwyddiannus iawn, heb fawr o glod os o gwbl.

Byddai'r hwb posibl i Gymru a fyddai'n deillio o gais llwyddiannus yn treiddio i bron bob un o bortffolios Llywodraeth Cymru, gydag economi Cymru yn debygol o weld hwb o ddegau o filiynau o bunnoedd, a disgwyl y byddai cynnydd o bron 10% yn niferoedd yr ymwelwyr tramor a hwb mawr i chwaraeon ar lawr gwlad ac iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fwy o ddiddordeb a buddsoddiad mewn chwaraeon lleol.

Yn wir, gallai cynnal digwyddiad mawr arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Sport England, er enghraifft, wedi amcangyfrif bod 750,000 o oedolion wedi dechrau cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos yn ystod y flwyddyn ar ôl y Gemau Olympaidd yn Llundain. Beicio a elwodd fwyaf o bell ffordd, wedi'i ysbrydoli gan ymdrechion Bradley Wiggins yn y Gemau Olympaidd a'r Tour de France. Mae 200,000 yn fwy o oedolion bellach yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos. Nid yw hon yn ffenomen newydd. Yn wir, dim ond cofio'r hyn a elwid yn 'effaith Tim Henman' sy'n rhaid ichi wneud a gweld pa mor llawn oedd cyrtiau tennis y wlad pan fyddai'n gwneud yn dda yn Wimbledon.

Cardiff's bid to host key games at the UEFA European Championship in 2020 is an opportunity to reinforce Wales's place on the world sporting stage—bringing huge benefits to the economy of Wales and its sporting infrastructure, but, most importantly, it has the potential to create a legacy that would stand Welsh football in good stead for many years to come.

The benefits of host status at UEFA 2020 are many, but let us consider first the tourism effect. The hosts in 2012, Poland, received an estimated 1.5 million additional visitors during the competition. Just a fraction of that figure would make a huge difference to hoteliers, taxi drivers and restaurant owners throughout Wales, creating jobs and pumping new investment into the economy. More significant, though, would be the long-term impact of placing Cardiff in the world spotlight as a sporting host. The European Championship final in 2012 attracted a staggering worldwide television audience of almost 300 million viewers, with 100 million watching the England versus Italy quarter final—a stage that the FAW is bidding to host. Money alone cannot buy coverage and exposure on that scale, and the positive advertising of Wales in foreign countries around the globe would leave substantial long-term benefits in the country's future tourism sector.

I recently met the FAW bid co-ordinator, Alan Hamer, and I was impressed by how thorough and ambitious the proposals are. I know, for example, that the FAW has worked closely with hoteliers in the formulation of the bid, locating 41,000 beds within an hour of the national stadium to cater for the expected influx of visitors, and a further 3,000 satisfying the demand from UEFA's corporate partners and sponsors have also been allocated. The Welsh bid has also benefited from a groundbreaking partnership between Cardiff and Bristol airports, which have come together to negotiate a service level agreement to handle additional capacity requirements with regard to air passengers. The presence of just one airport in Wales had in the past rendered any Welsh bid ineligible, but this agreement changes that and is a huge boost to Cardiff's prospects.

Mae cais Caerdydd i gynnal gemau allweddol ym Mhencampwriaeth Ewrop UEFA yn 2020 yn gyfle i atgyfnerthu safle Cymru ar lwyfan chwaraeon y byd—gan greu manteision enfawr i economi Cymru a'i seilwaith chwaraeon, ond yn bwysicaf oll, mae ganddo'r potensial i greu gwaddol a fyddai'n llesol i bêl-droed Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae manteision ennill statws dinas groesawu ar gyfer UEFA 2020 yn niferus, ond gadewch inni ystyried yn gyntaf yr effaith ar dwristiaeth. Derbyniodd Gwlad Pŵyl, a gynhaliodd y bencampwriaeth yn 2012, tua 1.5 miliwn o ymwelwyr ychwanegol yn ystod y gystadleuaeth. Byddai ffraciwn yn unig o'r ffigwr hwnnw yn gwneud gwahaniaeth enfawr i westai, gyrwyr taci a pherchnogion tai bwyta ledled Cymru, gan greu swyddi a chwistrellu buddsoddiad newydd i mewn i'r economi. Fodd bynnag, byddai'r effaith hirdymor o roi Caerdydd yn sylw'r byd fel dinas sy'n cynnal pencampwriaethau chwaraeon yn fwy arwyddocaol. Denodd rownd derfynol Pencampwriaeth Ewrop yn 2012 gynulleidfa deledu fyd-eang eithriadol o bron i 300 miliwn o wylwyr, gyda 100 miliwn yn gwyllo Lloegr yn eu gêm gogynderfynol yn erbyn yr Eidal-cam y mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn gwneud cais i'w gynnal. Ni all arian yn unig brynu sylw ac amlygrwydd ar y raddfa honno a byddai hysbysebu Cymru yn y fath fodd cadarnhaol mewn gwledydd tramor o amgylch y byd yn creu manteision hirdymor sylweddol i sector twristiaeth y wlad yn y dyfodol.

Yn ddiweddar, cyfarfûm ag Alan Hamer, cyd-gysylltydd cais Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a chreodd trylwyredd ac uchelgais y cynigion gryn argraff arnaf. Gwn, er enghraifft, fod y Gymdeithas wedi gweithio'n agos gyda pherchnogion gwestai wrth lunio'r cais, gan ddod o hyd i 41,000 o welyau o fewn pellter o awr i'r stadiwm genedlaethol er mwyn darparu ar gyfer y mewnlifiad o ymwelwyr a ddisgwylir a daethpwyd o hyd i 3,000 gwely arall sy'n bodloni'r galw gan bartneriaid corfforaethol a noddwyr UEFA. Mae cais Cymru wedi elwa hefyd o bartneriaeth arloesol rhwng meysydd awyr Caerdydd a Bryste, a ddaeth at ei gilydd i drafod cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ymdrin â gofynion capasiti ychwanegol o ran teithwyr awyr. Mae presenoldeb un maes awyr yn unig yng Nghymru yn y gorffennol wedi anghymhwyso ceisiadau o Gymru, ond mae'r cytundeb hwn yn newid hynny ac yn hwb enfawr i ragolygon Caerdydd.

Of course, a successful bid would benefit more than just the Welsh economy and tourism. It would provide a huge boost to the grass-roots game, encourage more young people to take up physical activity, and attract a new audience to the game played by more people in Wales than any other, and encourage more people to attend and play than ever before. Rugby is often considered to be our national sport, and there is no other pastime that can rival rugby for its impact on Welsh life and culture. However, figures show that it is football that is played by more people in Wales than any other sport, and by some considerable distance. Major events like the European Championship can inspire greater participation in sports in three key ways: by increasing participation by existing participants in that sport; renewing participation by lapsed participants—there are lots of participants in this speech; and encouraging those inspired by the coverage of a major event to take up new sports altogether. The third category is particularly important and represents the so-called 'festival effect', where people are inspired by the sporting legends they see on their TV screens and in local stadia.

Let us be clear: hosting the European Championship would put Welsh football firmly in the spotlight, engaging the public and inspiring greater interest and focus on the health of the game at grass-roots level. The Wales manager, Chris Coleman, believes that success would have a huge impact on Welsh football, leaving a legacy that would benefit Wales and Welsh football far beyond 2020. He said that being a 2020 European Championship host city would create extra focus and excitement for Welsh football at the start and throughout the competition. He also said that it would give a real lift to the game not just in terms of the national team, but at school and grass-roots level. He may be right, but a lasting legacy requires careful planning and there is no inherent trickle-down effect without careful legacy preparations, particularly at grass-roots level.

It is also vital that we remember that the whole of Wales must share the benefits of any legacy effect. Football is by its very nature a participation sport, and it has huge popularity across the whole of Wales. While I am sure that Ann Jones will be more than capable of standing up for her beloved Rhyl Football Club, I know that she will be keen to ensure that facilities in every part of Wales share the benefits of any potential windfall.

A recent report by the Scottish Government on the Commonwealth games and their potential legacy found that, in many cases, the benefits do not extend far enough beyond the initial economic and infrastructural level. It was suggested that any legacy planning would need to look most closely at the period immediately after the tournament, when focus can naturally shift onto the next item on the horizon, particularly where Governments are concerned. That is why the FAW's 2020 legacy fund needs to be handled with care.

Wrth gwrs, byddai cais llwyddiannus o fudd i fwy nag economi a thwristiaeth Cymru yn unig. Byddai'n rhoi hwb enfawr i'r gêm ar lawr gwlad, yn annog mwy o bobl ifanc i ddechrau gwneud ymarfer corff ac yn denu cynulleidfa newydd i'r gêm a chwaraeir gan fwy o bobl yng Nghymru na dim arall. Byddai hefyd yn annog mwy o bobl nag erioed o'r blaen i chwarae a mynychu gemau. Yn aml, ystyrir mai rygbi yw ein gêm genedlaethol ac nid oes gweithgaredd hamdden arall a all gystadlu â rygbi o ran ei effaith ar fywyd a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, dengys y ffigyrau fod pêl-droed yn cael ei chwarae gan fwy o bobl Cymru nag unrhyw gamp arall, ac o gryn dipyn hefyd. Gall digwyddiadau mawr fel Pencampwriaeth Ewrop ysgogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn tair ffordd allweddol: drwy annog y rhai sydd wedi rhoi'r gorau i'r gamp i ailafael ynddi; a thrwy annog y rhai sy'n cael eu hysbrydoli gan y sylw a roddir i ddigwyddiad mawr i gymryd rhan mewn campau newydd. Mae'r trydydd categori yn arbennig o bwysig ac yn cynrychioli'r hyn a elwir yn 'effaith gŵyl', lle y caiff pobl eu hysbrydoli gan arwyr y byd chwaraeon a welant ar eu sgrin deledu ac mewn stadia lleol.

Gadewch inni fod yn glir: byddai cynnal Pencampwriaeth Ewrop yn rhoi sylw pendant i bêl-droed Cymru, yn cynnwys y cyhoedd ac yn ysgogi mwy o ddiddordeb a sylw i ieuchyd y gêm ar lawr gwlad. Mae Chris Coleman, rheolwr Cymru, yn credu y byddai llwyddiant yn cael effaith enfawr ar bêl-droed Cymru, gan adael gwaddol a fyddai o fudd i Gymru a phêl-droed Cymru ymhell y tu hwnt i Bencampwriaeth Ewrop 2020. Dywedodd y byddai bod yn ddinas sy'n cynnal Pencampwriaeth Ewrop 2020 yn creu ffocws a chyffro ychwanegol o ran pêl-droed yng Nghymru ar ddechrau a thrwy gydol y gystadleuaeth. Dywedodd hefyd y byddai'n rhoi hwb go iawn i'r gêm nid yn unig o ran y tîm cenedlaethol, ond ar lawr gwlad ac yn yr ysgolion. Efallai ei fod yn iawn, ond mae gofyn cynllunio gwaddol parhaol yn ofalus ac ni cheir effaith gynhenid o'r brig i lawr heb baratoi gwaddol yn ofalus, yn enwedig ar lawr gwlad.

Mae hefyd yn hanfodol inni gofio bod yn rhaid i Gymru gyfan rannu manteision unrhyw effaith etifeddol. Gêm gyfranogol yw pêl-droed o ran ei natur ac mae'n boblogaidd iawn ledled Cymru. Er fy mod yn siŵr fod Ann Jones yn fwy nag abl i gefnogi Clwb Pêl-droed Rhyl sydd mor annwyl iddi, rwy'n gwybod y bydd yn awyddus i sicrhau bod cyfleusterau ym mhob rhan o Gymru yn rhannu unrhyw fanteision posibl.

Canfu adroddiad diweddar gan Lywodraeth yr Alban ar Gemau'r Gymanwlad a'u gwaddol posibl nad yw'r manteision, mewn llawer o achosion, yn ymestyn yn ddigon pell y tu hwnt i lefel yr economi a'r seilwaith cychwynnol. Awgrymwyd y byddai angen i'r broses o gynllunio gwaddol edrych yn fwyaf manwl ar y cyfnod yn syth ar ôl y gystadleuaeth, pan allai'r ffocws symud yn naturiol ddigon at yr eitem nesaf ar y gorwel, yn enwedig o ran Llywodraethau. Dyna pam y mae angen trin cronfa gwaddol Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer 2020 yn ofalus.

Cross-party consensus in support of the bid is to be welcomed. Projecting a united front to UEFA and our rivals would send a strong message that Wales is ready to take on the challenge and ready to put on another great sporting showcase. For my part, the Welsh Conservative group and party have been extremely supportive of the FAW's bid to host the world's third largest sporting event. Indeed, it has long been my belief that the Welsh Government should display the courage and ambition to match Wales's undoubted infrastructure and hospitality. Other members of our group have raised this issue in the past, calling on the First Minister to work with sporting bodies to be ambitious in selling our country to the world as a high-end sporting venue. I am glad to see that our calls have been heeded.

In August, Cardiff will host the European Super Cup. Demand for tickets has been high, with thousands of fans registering interest for the chance to watch local superstar Gareth Bale return to his home town. However, the watching eyes will not just be focused on Messrs Bale, Ronaldo or Modric—they will also be analysing our performance as hosts. This is a huge opportunity to lay down a marker ahead of a final decision on our Euro 2020 bid.

Clearly, it would be a huge boost to host matches in a tournament as prestigious as the European Championship, not just for the capital city but for Wales as a whole. The European Championship is watched the world over, and to host games at the Millennium stadium would strengthen Wales's position as a premier sporting nation. At the top of Welsh football, it has been a good couple of years with two Premiership sides—regrettably, only one for next season—and a maturing crop of excellent young players developing within the national set-up. Hosting key matches in 2020 would help inspire the next generation of Welsh footballers, it would be a huge boost to the local economy and it would attract an enormous amount of visitors to Wales. I would like to wish the Football Association of Wales and everyone connected to the bid all the very best in the coming weeks and months, in what will undoubtedly be a critical period in determining the success that we want this bid to achieve.

18:08

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Andrew R.T. Davies very much for bringing forward this debate today. I have long supported the idea of Wales playing a role in hosting the Euro 2020 finals. Indeed, back in 2012—some fellow British-Irish Parliamentary Assembly members are also here today—our BIPA delegation raised the prospect of a joint Celtic nations bid to host the Euro 2020 championship with the Irish Minister for Transport, Tourism and Sport—note the combination—Leo Varadkar. He and Enda Kenny, the Taoiseach, were very supportive of the idea at that time, and remain so.

I also agree with calls that we need not limit the bid to Cardiff. The ongoing expansion work at the Liberty stadium could also be augmented to fit UEFA regulations, so that two of our cities have the opportunity to reinforce Wales's place on the world's sporting stage. I wish this bid every success.

Croesewir consensws trawsbleidiol i gefnogi'r cais. Byddai dangos ffrynt unedig i UEFA a'r rhai sy'n cystadlu yn ein herbyn yn cyfleu neges gadarn fod Cymru yn barod i ymgymryd â'r her ac yn barod i gynnal digwyddiad chwaraeon gwych arall. O'm rhan i, mae grŵp a phlaid y Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn hynod gefnogol i gais y Gymdeithas Bêl-droed i gael cynnal trydydd digwyddiad chwaraeon mwyaf y byd. Yn wir, rwyf fi wedi credu ers amser y dylai Llywodraeth Cymru arddangos y dewrder a'r uchelgais i gyd-fynd â'r seilwaith a'r lletygarwch diamheuol sydd i'w gael yng Nghymru. Mae aelodau eraill o'n grŵp wedi codi'r mater hwn yn y gorffennol, gan alw ar Brif Weindog Cymru i weithio gyda chyrff chwaraeon ac i fod yn uchelgeisiol wrth werthu ein gwlad i'r byd fel lleoliad chwaraeon o'r radd flaenaf. Rwy'n falch o weld bod ein galwadau wedi cael eu clywed.

Ym mis Awst, cynhelir gemau Cwpan Super Ewrop yng Nghaerdydd. Mae galw mawr wedi bod am docynnau gyda miloedd o gefnogwyr yn cofrestru eu diddordeb mewn cyfle i wyllo'r seren leol, Gareth Bale, yn dychwelyd i'w dref enedigol. Fodd bynnag, nid ar y Meistri Bale, Ronaldo neu Modric fydd y sylw'n unig—byddant hefyd yn dadansoddi ein perfformiad o ran ein gallu i gynnal y digwyddiad. Mae hwn yn gyfle enfawr i wneud ein marc cyn y penderfyniad terfynol ar ein cais Ewro 2020.

Yn amlwg, byddai'n hwb enfawr i gynnal gemau mewn cystadleuaeth mor fawreddog â Phencampwriaeth Ewrop, nid yn unig i'r brifddinas ond i Gymru gyfan. Mae pobl ym mhob cwr o'r byd yn gwyllo'r Bencampwriaeth Ewropeaidd a byddai cynnal gemau yn Stadiwm y Mileniwm yn cryfhau safle Cymru fel cenedl chwaraeon o'r radd flaenaf. Bu'n ddwy flynedd dda ar ben uchaf pêl-droed Cymru, gyda dau dîm yn yr Uwch Gynghrair—er mai dim ond un fydd yno y tymor nesaf, yn anffodus—a chnwd o chwaraewyr ifanc rhagorol sy'n aeddfedu o fewn y system yn genedlaethol. Byddai cynnal gemau allweddol yn 2020 yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o bêl-droedwyr o Gymru, byddai'n hwb enfawr i'r economi leol a byddai'n denu llawer iawn o ymwelwyr i Gymru. Hoffwn ddymuno'n dda i Gymdeithas Bêl-droed Cymru a phawb sy'n gysylltiedig â'r cais yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, yn yr hyn a fydd yn sicr yn gyfnod allweddol o ran pennu'r llwyddiant a ddymunwn i'r cais.

Diolch yn fawr iawn i Andrew RT Davies am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Ers amser, rwyf wedi cefnogi'r syniad o Gymru yn chwarae rhan yn y broses o gynnal rowndiau terfynol Ewro 2020. Yn wir, yn ôl yn 2012 lleisiodd ein dirprwyaeth o aelodau o'r Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig-mae rhai ohonynt yma heddiw-y posibilrwydd o gyflwyno cais ar y cyd rhwng y gwledydd Celtaidd i gynnal pencampwriaeth Ewro 2020 gyda Leo Varadkar, Gweinidog Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon Iwerddon-sylwch ar y cyfuniad. Roedd ef ac Enda Kenny, y Taoiseach, yn gefnogol iawn i'r syniad ar y pryd ac maent yn parhau i fod felly.

Rwyf hefyd yn cytuno â galwadau nad oes rhaid i ni gyfyngu'r cais i Gaerdydd. Gellid cynyddu'r gwaith ehangu sy'n mynd rhagddo yn stadiwm Liberty er mwyn iddi allu cydymffurfio â rheoliadau UEFA, fel bod dwy o'n dinasoedd yn cael cyfle i atgyfnerthu lle Cymru ar lwyfan chwaraeon y byd. Dymunaf bob llwyddiant i'r cais.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:09

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Andrew R.T. Davies for bringing this debate forward. It is exciting, and I am just thinking that, in 2020, if we were to get it, I could have a concession, because I would be a pensioner then. I am thinking that I could go to every match.

However, seriously, the point made was that the whole of Wales will benefit. I think the FAW is already starting to sow those seeds, and we are looking at 3G pitches going in across Wales. For me, I think it is about teams that would want to come over in the bid and want to train. So, it is about training facilities and, dare I say it, even my own beloved Belle Vue stadium—it is Corbett Sports Stadium now, but it is Belle Vue to those of us who love it—could play a part in that, because we hold a UEFA licence, which the FAW wants us to hold in order to have those games. So, I think that many Welsh Premier League clubs could benefit from having the stars of Euro 2020 actually coming here. We could engage with education and children, as you mentioned; people who would recognise the footballers they see. I think it is just exciting. I am very grateful that you have done this and it is a shame that not many more people have stayed here to hear the debate, but I am sure that we will all be clamouring for tickets when it happens. I am sure that the Minister will give us a very good response.

Diolch i Andrew RT Davies am gyflwyno'r ddadl hon. Mae'n gyffrous, a phe baem yn llwyddiannus, rwy'n meddwl y gallwn gael consesiwn yn 2020 gan y byddwn yn bensiynwr erbyn hynny. Gallwn fynd i bob gêm.

Fodd bynnag, i fod o ddirif, y pwynt a wnaed oedd y bydd Cymru gyfan yn elwa. Rwy'n meddwl bod y Gymdeithas Bêl-droed eisoes yn dechrau hau'r hadau hynny ac rydym yn edrych ar gaeau 3G yn cael eu gosod ledled Cymru. I mi, rwy'n credu ei fod yn ymwneud â thimau a fyddai'n awyddus i ddod drosodd i hyfforddi. Felly mae'n galw am gyfleusterau hyfforddi ac os meiddiaf ddweud hynny, gallai hyd yn oed fy stadiwm Belle Vue annwyl—Stadiwm Corbett Sports bellach, ond Belle Vue i'r rheini ohonom sy'n dwli arni—chwarae rhan yn hynny, oherwydd mae gennym drwydded UEFA ac mae'r Gymdeithas Bêl-droed am inni ei chadw er mwyn cynnal y gemau hynny. Felly rwy'n meddwl y gallai llawer o glybiau Uwch Gynghrair Cymru elwa o gael sêr Ewro 2020 yn dod yma. Gallem ymgysylltu â'r byd addysg a phlant, fel y soniasoch; pobl a fyddai'n adnabod y pêl-droedwyr y maent yn eu gweld. Rwy'n credu ei fod yn gyffrous, dyna'i gyd. Diolch ichi am wneud hyn ac mae'n drueni nad oes llawer mwy o bobl wedi aros yma i glywed y ddadl, ond rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn awchu am docynnau pan fydd yn digwydd. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi ymateb da iawn i ni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:11

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Andrew, for this today, and I thank Bill for reminding us that the Liberty Stadium has something to offer in this particular package. Cardiff is going to be competing with London to be one of the host areas, although London has also put in a bid for the semi-finals and finals package, so there is a potential that both Cardiff and London could be successful in their bids on this. That presents a fantastic opportunity not just for Visit Wales, but for VisitBritain, with its commercial relationship with the Premiership, to really push Welsh sport, particularly, in this case, to a growing market. So, I would be very keen, Minister, if you could respond to a question about whether you have had any opportunity to have any speculative conversations yet with VisitBritain on this.

Diolch i chi am hyn heddiw, Andrew, a diolch i Bill am ein hatgoffa bod gan Stadiwm Liberty rywbeth i'w gynnig yn y pecyn arbennig hwn. Mae Caerdydd yn mynd i fod yn cystadlu gyda Llundain i fod yn un o'r ardaloedd sy'n cynnal y gemau, er bod Llundain hefyd wedi cyflwyno cais ar gyfer pecyn y rownd gynderfynol a'r rownd derfynol, felly mae'n bosibl y gallai Caerdydd a Llundain fod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau yn hyn o beth. Mae hynny'n rhoi cyfle gwych, nid yn unig i Croeso Cymru, ond i VisitBritain, gyda'i berthynas fasnachol â'r Uwch Gynghrair, i wthio chwaraeon Cymru mewn gwirionedd, yn enwedig, yn yr achos hwn, i farchnad sy'n tyfu. Felly byddwn yn awyddus iawn, Weinidog, i glywed eich ateb i gwestiwn ynglŷn ag a ydych wedi cael cyfle i gael sgysiau rhagarweiniol am hyn eto gyda VisitBritain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I do not accept any criticism of the Government in respect of major events policy, because I think we have an enviable track record of hosting and maximising the benefits of major sporting events. We had the 2009 Ashes, the Ryder Cup and the Rugby League World Cup, and we remain ambitious to grow our major events portfolio, further building on our reputation for excellence in this area, and to use major events, both sporting and cultural, to help showcase Wales to the world. That is why, with the announcement of an amendment to UEFA's plans for the hosting of Euro 2020, which will spread the competition across a shortlist of cities and venues, our partners, the Football Association of Wales, stated their intention to submit a Wales bid to help host this prestigious event in six years' time. As strategic partners, we have worked alongside the FAW, Cardiff Council and the Millennium Stadium to generate a high-quality, all-Wales bid that will be put to UEFA in April alongside the other bidding nations. All-party support, I am delighted to say, has been secured for the bid, and the FAW is working to ensure that the whole of Wales gets behind it. I think that is an important point. In terms of the points that have been made in the discussion about Swansea and Rhyl, it is actually about the legacy of this event, if we are lucky enough to get it, in terms of those that will wish to be active in the sport. Of course, there is the legacy of tourism as well, in terms of having seen a wonderful stadium on screen, and what further work can be done in that area. Particularly on the legacy issue, I think there is a legacy issue around the number of girls that play football as well. Women's football, I have to say, is extremely skilful as a game. It will be good that we encourage more girls to be active in football, and to an older age, because a lot of girls tend to play in the primary years and then drop out.

Nid wyf yn derbyn unrhyw feirniadaeth ar y Llywodraeth yng nghyswllt polisi digwyddiadau mawr, gan fy mod yn credu bod gennym hanes rhagorol o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr a gwneud y gorau o'u manteision. Cawsom y Lludw yn 2009, Cwpan Ryder a Chwpan y Byd Rygbi'r Gynghair ac rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol o ran tyfu ein portffolio digwyddiadau mawr gan adeiladu ymhellach ar ein henw da am ragoriaeth yn y maes hwn, a defnyddio digwyddiadau mawr ym maes chwaraeon a diwylliant i helpu i arddangos Cymru i'r byd. Dyna pam, gyda chyhoeddi gwelliant i gynlluniau UEFA ar gyfer cynnal Ewro 2020 a fydd yn gwasgaru'r gystadleuaeth ar draws rhestr fer o ddinasoedd a lleoliadau, nododd ein partneriaid, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, eu bwriad i gyflwyno cais o Gymru i helpu i gynnal y digwyddiad pwysig hwn ymhen chwe blynedd. Fel partneriaid strategol, rydym wedi gweithio ochr yn ochr â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, Cyngor Caerdydd a Stadiwm y Mileniwm i gynhyrchu cais o ansawdd uchel dros Gymru gyfan i'w cyflwyno i UEFA ym mis Ebrill ochr yn ochr â'r gwledydd eraill sy'n cyflwyno ceisiadau. Sicrhawyd cefnogaeth pob plaid i'r cais, mae'n bleser gennyf ddweud, ac mae'r Gymdeithas Bêl-droed yn gweithio i sicrhau cefnogaeth ar draws Cymru gyfan. Credaf fod hynny'n bwysig. O ran y pwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth am Abertawe a'r Rhyl, ymwneud â gwaddol y digwyddiad y mae hyn mewn gwirionedd, os ydym yn ddigon ffodus i'w gael, o ran y rhai a fydd yn dymuno bod yn weithgar yn y gamp. Wrth gwrs, mae yna waddol twristaidd yn ogystal, o ran bod wedi gweld stadiwm wych ar y sgrin, a gwaith pellach y gellir ei wneud yn y maes hwnnw. Rwy'n credu bod gwaddol yn fater sy'n codi'n arbennig hefyd o ran nifer y merched sy'n chwarae pêl-droed. Rhaid imi ddweud fod pêl-droed merched yn gêm hynod o fedrus. Bydd yn dda ein bod yn annog rhagor o ferched i gymryd rhan mewn pêl-droed, ac i oedran hŷn, gan fod llawer o ferched yn tueddu i chwarae yn yr ysgol gynradd a rhoi'r gorau iddi wedyn.

The bid was announced by the First Minister on 30 April this year, and one of the major strengths is the Millennium Stadium. We have to recognise that. It is Europe's largest indoor arena and its roof and everything is absolutely marvellous. The profile of Cardiff as a successful host city is also an important element in this, and the reputation of Wales as a successful, welcoming and professional event destination is also very important. When we have had events here, and when we have hosted the FA Cup, all fans have said, from all sides, what a pleasure it was to deal with people on the streets, how welcoming people were and how they very much enjoyed it. I think some of them would have preferred to stay in Cardiff and not go back to Wembley. The bid also draws upon the heritage and experience of the world's third oldest football association, the FAW, and has the support, as a bid ambassador, of the world's most expensive player, Gareth Bale. Of course, luckily, he is also Welsh, so that suits us as well. So, with the compelling strapline, 'Heart of Celebration', depicting Gareth Bale's famous goal celebration gesture, the FAW and Wales have submitted a bid that I think is very carefully planned, fully costed and imaginative in its presentation. We are following its progress closely and continue to plan cautiously but in the anticipation of a successful outcome later this year. I think that we have got to be positive on this. Although it does not announce the outcome of the bidding process until September, early feedback has been very positive. In addition, we have been fortunate that the fact that it plans to host the 2014 UEFA Super Cup final at the Cardiff City stadium in August has meant that the bid team has remained in close operational contact with it and continues to exploit every opportunity to demonstrate Cardiff's and Wales's expertise in major event planning and hosting. The Welsh Government is also working with partners to ensure that local and visiting fans this August encounter a warm welcome from hoteliers and transport providers and have a very enjoyable experience in Wales.

If secured, the 2020 Euro tournament would deliver a range of benefits, securing sizeable economic impact and an enhanced international profile. The direct economic impact of being the Euro 2020 host is conservatively estimated at £40 million. Now, that is quite a lot of money in terms of what comes into the economy. In addition, any matches hosted here are likely to attract a global television audience of 600 million. That is a phenomenal figure when you think about the image of Wales going across the globe. So, on the basis of all of these sorts of calculations, the Welsh Government decided to support the FAW bid.

Helping to host the world's second-biggest football tournament would generate enormous public interest. It would allow us, once again, to be associated with a genuine global brand and provide focus for the development of the sport and Wales's place in it and play a major part in our efforts to promote Wales as a place to live, work, visit, do business and study. We will certainly carry on our conversations with VisitBritain about how we can dovetail anything. We are not stopping at this event. Our aspirations remain high, with the latest plans being to host a range of future sporting events, such as the world half marathon in 2016 and the Volvo ocean race in 2018, with more bids being developed.

Cyhoeddwyd y cais gan y Prif Weinidog ar 30 Ebrill eleni, ac un o'i brif gryfderau yw Stadiwm y Mileniwm. Mae'n rhaid inni gydnabod hynny. Hon yw'r arena dan do fwyaf yn Ewrop ac mae ei tho a phopeth yn gwbl wych. Mae proffil Caerdydd fel dinas lwyddiannus ar gyfer cynnal gemau hefyd yn elfen bwysig yn hyn, ac mae enw da Cymru fel cyrchfan lwyddiannus, groesawgar a phroffesiynol ar gyfer cynnal digwyddiadau yn bwysig iawn hefyd. Pan fyddwn wedi cael digwyddiadau yma, ac ar ôl inni gynnal Cwpan yr FA, mae'r holl gefnogwyr o bob ochr wedi dweud cymaint o bleser oedd ymdrin â phobl ar y strydoedd, pa mor groesawgar oedd y bobl a sut roeddynt wedi mwynhau'n fawr iawn. Rwy'n credu y byddai wedi bod yn well gan rai ohonynt aros yng Nghaerdydd a pheidio â mynd yn ôl i Wembley. Mae'r cais hefyd yn elwa o dreftadaeth a phrofiad Cymdeithas Bêl-droed Cymru, y drydedd gymdeithas bêl-droed hynaf yn y byd, ac mae'n cael cefnogaeth Gareth Bale, llysgennad y cais, a chwaraewr drutaf y byd. Wrth gwrs, yn ffodus, mae hefyd yn Gymro, felly mae hynny'n addas i ni hefyd. Felly, gyda'r is-bennawd grymus, 'Calon y Dathlu', yn dangos ystum dathlu gôl enwog Gareth Bale, mae'r Gymdeithas Bêl-droed a Chymru wedi cyflwyno cais sydd yn fy marn i wedi'i gynllunio'n ofalus iawn, wedi'i gostio'n llawn ac yn greadigol o ran y modd y caiff ei gyflwyno. Rydym yn dilyn cynnydd y cais yn agos ac yn parhau i gynllunio'n ofalus ond gan ddisgwyl canlyniad lwyddiannus yn ddiweddarach eleni. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni fod yn gadarnhaol ynglŷn â hyn. Er nad yw'n cyhoeddi canlyniad y broses ymgeisio tan fis Medi, mae adborth cynnar wedi bod yn gadarnhaol iawn. Yn ogystal, rydym wedi bod yn ffodus fod y bwriad i gynnal rownd derfynol Cwpan Super UEFA 2014 yn stadiwm Dinas Caerdydd ym mis Awst wedi golygu bod tîm y cais wedi aros mewn cysylltiad gweithredol agos ac yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i ddangos arbenigedd Caerdydd a Chymru o ran cynllunio a chynnal digwyddiad mawr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cefnogwyr lleol ac ymwelwyr ym mis Awst yn cael croeso cynnes gan berchnogion gwestai a darparwyr trafnidiaeth ac yn cael profiad pleserus iawn yng Nghymru.

Os caiff ei sicrhau, byddai cystadleuaeth Ewro 2020 yn cynnig ystod o fanteisio, gan sicrhau effaith economaidd sylweddol a phroffil rhyngwladol uwch. Amcangyfrif yn geidwadol y bydd effaith economaidd uniongyrchol cynnal digwyddiadau Ewro 2020 yn £40 miliwn. Nawr, mae hynny'n gryn dipyn o arian o ran yr hyn sy'n dod i mewn i'r economi. Yn ogystal, bydd unrhyw gemau a gynhelir yma yn debygol o ddenu cynulleidfa deledu fyd-eang o 600 miliwn. Mae hwnnw'n ffigwr syfrdanol o ystyried bod delwedd Cymru yn mynd ar draws y byd. Felly, ar sail yr holl fathau hyn o gyfrifiadau, penderfynodd Llywodraeth Cymru gefnogi cais y Gymdeithas Bêl-droed.

Byddai helpu i gynnal cystadleuaeth bêl-droed fwyaf ond un y byd yn creu budd cyhoeddus enfawr. Unwaith eto, byddai'n caniatáu inni fod yn gysylltiedig â brand byd-eang go iawn, yn darparu ffocws ar gyfer datblygu'r gamp a lle Cymru ynddi ac yn chwarae rhan bwysig yn ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lle ar gyfer byw, gweithio, ymweld, cyflawni busnes ac astudio. Byddwn yn sicr yn parhau ein trafodaethau gyda VisitBritain ynglŷn â sut y gallwn gydblythu trefniadau. Nid ydym yn gorffen gyda'r digwyddiad hwn. Rydym yn dal i anelu'n uchel a'r cynlluniau diweddaraf yw cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon yn y dyfodol, megis hanner marathon y byd yn 2016 a ras gefnfor Volvo yn 2018, gyda mwy o geisiadau yn cael eu datblygu.

It has been a pleasure to contribute to this debate today. It is wonderful to see cross-party support. Let us ensure that everything goes well in terms of getting it.

Mae wedi bod yn bleser cael cyfrannu at y ddadl hon heddiw. Mae'n wych gweld cefnogaeth drawsbleidiol. Gadewch inni sicrhau bod popeth yn mynd yn dda o ran ei gael.

18:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On that happy note, thank you very much, Minister. That concludes today's proceedings.

Ar y nodyn hapus hwnnw, diolch yn fawr iawn, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:17.

The meeting ended at 18:17.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)